HM Prison &
Probation Service

Chwefror 2021

# Model Gweithredu Targed ar gyfer gwasanaethau prawf yng Nghymru a Lloegr

Rhaglen Diwygio'r Gwasanaeth Prawf



# Contents1


## Pennod 1: Cyflwyniad........................................................ 04

Ynghylch y ddogfen hon.......................................................................... 04
Pwrpas y gwasanaeth prawf ..................................................................... 06
Ein gweledigaeth a Strategaeth Fusnes y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf... 08
Beth rydym eisiau ei gyflawni.................................................................... 08
Ymgysylltu ..................................................................................................11
Dyheadau ynghylch y gweithlu a'r diwylliant ................................................ 12
Cydraddoldeb..............................................................................................14
Cysylltiadau â rhaglenni diwygio eraill o fewn y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.......................................................... 16

## Pennod 2: Diwrnod 1 – dylunio a phontio.......................... 24

Diwrnod 1 y model newydd a'r dull o drawsnewid......................................... 25
Trosolwg o Ddiwrnod 1.................................................................................. 27
Ar ôl Diwrnod 1: Map o gyflawni'r model gweithredu targed ............................ 35

## Pennod 3: Y model gweithredu targed................................41

Egwyddorion Dylunio Trosfwaol ...................................................................... 41

**Rhan Un: Cyflawni Rheoli Dedfrydau........................................................ 42**
Cyngor i'r Llys................................................................................................. 49
Rheoli Dedfrydau............................................................................................ 53
Ailsefydlu ....................................................................................................... 69

**Rhan Dau: Darparu ymyriadau a gwasanaethau adsefydlu .......................... 84**

Ymyriadau Adsefydlu ac Ailsefydlu wedi eu Comisiynu .......................... 84

Y Fframwaith Dynamig .......................... 84

Cyflwyno Ymyriadau yn Fewnol .......................... 98

Gwaith Di-dâl .......................... 101

Rhaglenni Achrededig ac Ymyriadau Strwythuredig .......................... 109

Uwch Ganolfannau Ymbresenoli .......................... 122

**Rhan Tri: Gwasanaethau i Ddioddefwyr .......................... 123**

**Rhan Pedwar: Cefnogi'r broses o Ddarparu'r Model Newydd .......................... 130**

Fframwaith Perfformiad .......................... 130

Cynnwys y Defnyddiwr .......................... 136

Atebolrwydd rhanbarthol, cynllunio busnes a chomisiynu .......................... 143

Strwythurau Rhanbarthol .......................... 143

Galluogi pobl i wneud eu gorau: Cefnogi ein pobl .......................... 155

Moderneiddio ein hystâd .......................... 162

Moderneiddio ein gwasanaethau technoleg, digidol a data .......................... 166

Atodiad A – Tystiolaeth ac Ymarfer prawf effeithiol .......... 177

Atodiad B – Geirfa .......................... 211

Atodiad C – Unedau Cyflawni'r Gwasanaeth Prawf ........ 223

# Pennod 1: Cyflwyniad

Mae'r bennod hon yn rhoi'r cyd-destun ar gyfer ein model gweithredu targed, gan amlinellu'r hyn rydym yn gobeithio ei gyflawni drwy ein diwygiadau a'r buddsoddiad ychwanegol sy'n cael ei wneud. Mae hefyd yn nodi rhai ystyriaethau allweddol sydd wedi llywio ein cynigion, gan gynnwys alinio â Strategaeth Fusnes y Gwasanaeth Prawf, sut gallwn ni greu system fwy cyfartal, amrywiol a chynhwysol, a sut mae ein cynigion yn cysylltu â newidiadau a gwelliannau ehangach i'r system cyfiawnder troseddol.

## Ynghylch y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn disodli'r ddogfen 'Model Gweithredu Targed Drafft ar gyfer Dyfodol Gwasanaethau Prawf yng Nghymru a Lloegr,' a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2020. Mae'n nodi'r manylion dylunio pellach a'r newidiadau dylunio allweddol sydd wedi datblygu ers hynny.

Fe'i hanelir at staff a rhanddeiliaid sy'n ymwneud â darparu gwasanaeth prawf, a'r bwriad yw sefydlu dealltwriaeth gyffredin o'n dyheadau ar gyfer dyfodol gwasanaethau prawf yng Nghymru a Lloegr.

Gan hynny, mae'n canolbwyntio ar sut rydym yn rhagweld prif nodweddion y model yn gweithio ar ôl i ni roi'r diwygiadau ar waith. Rydym yn cydnabod y bydd yn cymryd amser i gyrraedd y nod, yn enwedig o ystyried yr heriau sy'n wynebu COVID-19 a'r gwaith adfer dilynol sydd ei angen i sicrhau bod gwasanaethau prawf ar sylfaen gadarn. Gan hynny, bydd y sefyllfa ym mis Mehefin 2021 – pan fydd contractau'r Cwmni Adsefydlu Cymunedol (CRC) yn dod i ben – yn edrych yn eithaf gwahanol, gan y byddwn yn canolbwyntio ar drosglwyddo gwasanaethau'n ddidrafferth. Rydym yn rhoi trosolwg ym Mhennod 2 o ba wasanaethau fydd ar waith ym mis Mehefin 2021 ('y diwrnod cyntaf') a cherrig milltir allweddol ar ôl y diwrnod cyntaf er mwyn i ni gyrraedd ein model gweithredu targed.

Yn unol ag egwyddor Strategaeth Fusnes y Gwasanaeth Prawf o ddiwylliant dysgu agored, bydd angen hyblygrwydd arnom i ddiweddaru'r model gweithredu targed hwn er mwyn gallu defnyddio'r gwersi a ddysgwyd o sut mae'n gweithio'n ymarferol. Mae profiad pandemig COVID-19 hefyd wedi tynnu sylw at y ffaith y gallai digwyddiadau neu newidiadau ehangach y tu hwnt i'n rheolaeth uniongyrchol effeithio ar sut mae ein system brawf yn gweithio. Gan hynny, rydym yn disgwyl y bydd fersiynau pellach o'r model gweithredu targed hwn yn dilyn y newid i'r model newydd.

Rydym wedi defnyddio **ieithwedd** benodol gyda'r nod o daro tant â rhanddeiliaid ac sy'n adlewyrchu'r bwriadau sydd wrth wraidd y model newydd a'r manteision rydym yn ceisio eu sicrhau. Wrth ddisgrifio'r system brawf newydd, bydd y ddogfen hon, felly (a chyn belled ag y bo modd), yn defnyddio:

- 'Ymarferydd Prawf' i ddynodi'r termau 'Rheolwr Troseddwyr'/'Swyddog Cyfrifol' a 'Swyddog' a ddefnyddiwyd yn flaenorol.
- 'Rheoli Dedfrydau' i ddynodi'r term 'Rheoli Troseddwyr' a ddefnyddiwyd yn flaenorol.

Gan ddysgu o'r dull mwy blaengar mae Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol wedi ei ddefnyddio, byddwn hefyd yn symud oddi wrth y term 'troseddwr' yn y cyd-destunau hynny lle mae'n label di-fudd, gan gyfeirio yn y ddogfen hon at unigolion neu bobl sy'n cael eu goruchwylio.

Bydd eithriadau i'r dull hwn naill ai'n dynodi Cyd-destun Cyfiawnder Troseddol penodol (fel Swyddog Cyfrifol wrth gyfeirio at ofynion deddfwriaeth allweddol) neu wrth gyfeirio at nodweddion rhaglenni cyfochrog, fel Rheoli Troseddwyr yn y Ddalfa. Ceir geirfa gynhwysfawr yn Atodiad B.

Mae'r ddogfen hon wedi ei rhannu'n ddwy bennod arall a thri atodiad:

Mae **Pennod 2** yn rhoi trosolwg o'r newidiadau a fydd yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer y diwrnod cyntaf a'r rhai a fydd yn cael eu rhoi ar waith ar ôl y diwrnod cyntaf, ac mae'n nodi ein map ar gyfer cyflawni'r cyflwr terfynol a ddisgrifir yn y model gweithredu targed hwn.

Mae **Pennod 3** yn nodi manylion y model newydd. Rhennir y Bennod yn:

- **Rhan Un - Cyflawni Rheoli Dedfrydau** (gan gynnwys cyngor i'r llys, Rheoli Dedfrydau ac ailsefydlu).
- **Rhan Dau - Cyflawni ymyriadau a gwasanaethau adsefydlu** (gan gynnwysy Gwasanaethau Adsefydlu wedi'u Comisiynu, y Gronfa Ranbarthol Canlyniadau ac Arloesi, Gwaith Di-dâl, Rhaglenni Achrededig, Ymyriadau Strwythuredig ac Uwch Ganolfannau Ymbresenoli)
- **Rhan Tri - Gwasanaethau i Ddioddefwyr** (sy'n cynnwys sut byddwn ni'n cyfathrebu'n well â dioddefwyr ynghylch parôl a rhyddhau, a sut bydd dioddefwyr yn ymgysylltu â'r Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr).
- **Rhan Pedwar - Ategu'r gwaith o gyflawni'r model newydd** (gan gynnwys mesurau perfformiad, cynnwys defnyddwyr gwasanaethau, prosesau cynllunio busnes, atebolrwydd a strwythurau rhanbarthol, ein pobl ni, ystadau a thrawsnewid digidol).

**Atodiad A** – Tystiolaeth ac ymarfer prawf effeithiol – mae'n nodi'r sylfaen dystiolaeth sy'n ymwneud ag ymarfer effeithiol sydd wedi bod yn sail i'n dull gweithredu ac y byddwn yn ei ddefnyddio ac yn adeiladu arno er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau yn y dyfodol.

**Atodiad B** – Geirfa – yn egluro'r termau allweddol, yr acronymau a'r byrfoddau a ddefnyddir yn y ddogfen hon.

**Mae Atodiad C** yn darparu mapiau o Unedau Cyflawni'r Gwasanaeth Prawf sy'n cynnwys pob un o'r 12 rhanbarth prawf

## Pwrpas y gwasanaeth prawf

Fel y nodir yn y gyfraith, mae gan y gwasanaethau prawf sawl nod sy'n ymwneud â diogelu rhag troseddau pellach (diogelu'r cyhoedd, grymuso'r rhai sy'n cyflawni troseddau i fod eisiau gwneud newidiadau cadarnhaol, a lleihau'r tebygolrwydd o aildroseddu) a mynd i'r afael â'r niwed a achoswyd gan y trosedd gwreiddiol (tynnu sylw at effeithiau troseddu ar ddioddefwyr a hwyluso cosbau priodol).

Nid yw'r nodau hyn yn annibynnol ar ei gilydd ac maent yn gorgyffwrdd. Er enghraifft, drwy herio a grymuso pobl i fanteisio ar y cyfle i wneud newidiadau parhaol i'w bywydau, bydd Ymarferwyr Prawf, yn eu tro, yn hyrwyddo'r nod allweddol o ddiogelu'r cyhoedd drwy leihau aildroseddu. Yn wir, mae ffocws o'r newydd ar waith newid yn rhan o agwedd ehangach y Llywodraeth at y System Cyfiawnder Troseddol, yn enwedig drwy'r uchelgais (a nodir yn y Papur Gwyn 'A Smarter Approach to Sentencing') i wneud mwy o ddefnydd o ddedfrydau cymunedol cadarn ac effeithiol fel dewis credadwy yn lle dedfrydau o garchar. Drwy gynyddu'r defnydd o ddewisiadau dedfrydu cymunedol priodol, byddwn mewn sefyllfa well i fynd i'r afael ag anghenion cymhleth unigolion sy'n cael eu goruchwylio ac i dargedu achosion gwaelodol ymddygiad troseddol, gan dorri'r cylch troseddu a chadw'r cyhoedd yn fwy diogel.

Mae ein gwaith diwygio ar wasanaethau prawf yn cynnig cyfle gwerthfawr nid yn unig i sefydlogi tirwedd y gwasanaeth prawf, atgyfnerthu ei foeseg[1] a sicrhau bod gwasanaethau craidd yn cael eu darparu'n briodol, ond hefyd i arloesi a gwella'r ffordd y caiff y gwasanaethau hyn eu darparu fel y gallwn gyflawni nodau allweddol y gwasanaeth prawf yn well. Wrth ddiffinio'r model gweithredu ar gyfer y dyfodol, yr ydym, felly, wedi ystyried sylfeini gwasanaeth prawf cryf i allu cyflawni hyn ac wedi ei ddistyllu'n ddisgrifiad symlach o '**Asesu, Diogelu** a **Newid**'.


Mae nodau statudol y gwasanaeth prawf yn ymwneud â thri grŵp gwahanol sydd â safbwyntiau gwahanol (y rhai sy'n cyflawni troseddau, dioddefwyr a'r cyhoedd). Gan hynny, rydym wedi amlinellu yn Ffigur 1 (isod) beth mae **Asesu, Diogelu, Newid** yn ei olygu yng nghyd-destun y gwasanaethau prawf eu hunain a'r rhai y bwriedir iddynt eu gwasanaethu.

[1] Mae'r Sefydliad Prawf yn berchen ar y Cod Moeseg ar gyfer Prawf ac Ailsefydlu ac yn ei ddiweddaru'n rheolaidd. Mae'r Cod ar gael yma: **https://www.probation-institute.org/code-of-ethics**

## Ffigur 1. Rôl y Gwasanaeth Prawf o ran Asesu, Diogelu, Newid

### Asesu

- I **unigolion** sy'n ymwneud â'r gwasanaethau prawf, bydd hyn yn golygu asesiadau gwell sy'n ystyried eu mewnbwn ac yn ymateb i'w hanghenion.
- I **ddioddefwyr**, bydd asesiadau effeithiol yn eu hystyried nhw ac yn sicrhau dedfrydau, cynlluniau dedfrydu ac amodau trwydded priodol.
- Bydd y **cyhoedd** yn cael eu sicrhau bod risgiau ac anghenion yn cael eu hystyried yn briodol.




### Diogelu

- **I unigolion dan oruchwyliaeth** sy'n ymwneud â'r gwasanaethau prawf, mae hyn yn golygu bod modd rhoi sylw priodol i'r risg o niwed (iddyn nhw eu hunain ac i eraill).
- Mae hyn yn sicrhau bod y prif sylw'n cael ei roi i **ystyried** dioddefwyr a darpar ddioddefwyr, gan gynnwys unrhyw ofynion priodol sy'n cyfyngu ac yn diogelu a bod y dioddefwyr yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf fel sy'n briodol.
- Mae mesurau a gweithgareddau priodol yn golygu bod y **cyhoedd** yn cael eu diogelu'n well.

### Newid

- Mae hyn yn golygu bod **unigolion dan oruchwyliaeth** sy'n ymwneud â'r gwasanaethau prawf yn gallu cymryd rhan weithredol yn y broses prawf a'u bod yn cael y gefnogaeth a'r cyfleoedd priodol i wneud newidiadau cadarnhaol yn eu bywyd.
- Mae'r gwasanaethau prawf yn annog troseddwyr i newid ac yn atal creu rhagor o **ddioddefwyr**.
- Mae'r **cyhoedd** yn elwa drwy lai o aildroseddu o ganlyniad i oruchwyliaeth ac ymyriadau effeithiol sy'n arwain at newid sy'n para.

Ym Mhennod 3, rydym yn ystyried ymhellach oblygiadau Asesu, Diogelu, Newid o ran rôl yr Ymarferydd Prawf yng nghyd-destun darparu cyngor i'r llys, Rheoli Dedfrydau a chymorth ag ailsefydlu.

## Ein gweledigaeth a Strategaeth Fusnes y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf

Mae'r model prawf newydd wedi ei wreiddio yn Strategaeth Fusnes gyffredinol y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf sy'n nodi ein gweledigaeth i weithio gyda'n gilydd i amddiffyn y cyhoedd a helpu pobl i fyw bywydau cadarnhaol sy'n parchu'r gyfraith. Mae'n amlinellu pedair egwyddor sy'n sail i'r ffordd rydym yn cyflawni rôl gwasanaethau prawf i 'Asesu, Diogelu, Newid', sef:

- **galluogi i wneud eu gorau** – Buddsoddi yn ein pobl i wneud yn siŵr bod ganddynt yr adnoddau i wneud eu gwaith yn dda a chyrraedd eu llawn botensial
- **trawsnewid drwy bartneriaethau** – Gweithio'n agos gyda'n partneriaid i ddarparu gwasanaeth mwy cyfannol sy'n ysgogi newid cadarnhaol ac sy'n cadw'r cyhoedd yn ddiogel
- **diwylliant agored sy'n dysgu** – Ymgynghori â'n cydweithwyr a'n rhanddeiliaid, gan gynnwys y rhai sy'n cael eu goruchwylio, i ddysgu oddi wrth ei gilydd ac edrych yn allanol ar arferion da i wella gwasanaethau
- **moderneiddio ein hystadau a'n technoleg** – Gwneud ein hamgylchedd gwaith yn ddiogel ac yn hyblyg a harneisio data a thechnoleg i hwyluso arferion gweithio mwy effeithiol

## Beth rydym eisiau ei gyflawni

Mae llawer wedi cael ei ysgrifennu am ddiffygion y system bresennol ac mae nifer o gyrff allanol wedi galw am ei diwygio, gan gynnwys y Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder, y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ac Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi.

Mae hyn wedi golygu ein bod ni wedi gallu cyflwyno achos cryf dros ddiwygio a buddsoddi rhagor yn y system. Ar ôl i'r model newydd gael ei roi ar waith yn llawn, rydym yn amcangyfrif y bydd cyfanswm y gwariant blynyddol ar wasanaethau prawf oddeutu £155 miliwn yn fwy na'r gwariant blynyddol presennol.

Ein man cychwyn wrth ystyried sut gallwn ddiwygio'r system bresennol yn fwyaf effeithiol oedd ystyried y canlyniadau a ddymunir gan y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth prawf, sy'n gysylltiedig ag ef neu y mae'r gwasanaeth yn effeithio arno. Mae'r diagram yn Ffigur 2 yn amlinellu'r hyn mae pob grŵp ei eisiau gan wasanaeth diwygiedig, ac mae'r rhain wedi cyfrannu at y manteision rydym eisiau eu sicrhau yn ogystal ag elfennau penodol o'r model gweithredu targed newydd.

Rydym yn rhagweld, yn y tymor hwy, y bydd ein diwygiadau a'n buddsoddiad cynyddol yn arwain at y manteision strategol a ganlyn:

- Goruchwyliaeth gyson ac adsefydlu wedi ei dargedu.
- Cyfraniad dibynadwy at gyflwyno cyfiawnder yn y llysoedd.
- Gweithlu medrus, ymatebol a chydnerth.
- System hyblyg, ymatebol a chydweithredol.

Rydym wedi nodi cyfres o fanteision canolradd rydym yn disgwyl i'r model gweithredu targed eu cyflawni wrth i ni gyflwyno diwygiadau pellach ar ôl y diwrnod cyntaf ac a fydd yn cyfrannu at gyflawni ein buddion strategol:

- Rheoli Dedfrydau yn well.
- Asesu anghenion, risgiau a nodweddion defnyddwyr y gwasanaeth yn well.
- Mwy o hyder i ddedfrydwyr[2] yn y gwasanaeth prawf newydd a gwasanaethau prawf dan gontract.
- Gwell ansawdd o ran cyngor cyn-dedfrydu.
- Mwy o staff yn gallu bodloni'r galw.
- Ymgysylltu'n well â staff.
- Gwella ansawdd rhaglenni, ymyriadau a Gwaith Di-dâl.
- Cyflwyno rhaglenni, ymyriadau a Gwaith Di-dâl yn fwy llwyddiannus.
- Mwy o wasanaethau prawf yn cael eu darparu'n lleol ac yn seiliedig ar bartneriaeth.

Bydd y manteision canolradd hyn yn cael eu mesur a'u monitro er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu gwireddu'n llawn wrth i'r model newydd gael ei sefydlu a'i wreiddio. Maent yn debygol o ddechrau cael eu gwireddu o 2022 ymlaen (yn enwedig wrth i fesurau llinell sylfaen ar gyfer dulliau newydd gael eu sefydlu). Mae rhagor o fanylion am sut bydd y manteision canolradd hyn yn cael eu mesur ar gael yn yr adrannau perthnasol ym Mhennod 3.

Rhagwelwn y bydd gweithredu'r model newydd yn arwain at arbedion effeithlonrwydd ariannol yn ogystal â manteision a fydd yn gwella canlyniadau ac effeithiolrwydd gwasanaethau prawf. Gellir rhannu arbedion effeithlonrwydd a ragwelir yn bedwar maes eang:


- Tynnu gweithgareddau anghynhyrchiol: Mae hyn yn cynnwys uno'r gwasanaethau prawf gan arwain at leihau'r trosglwyddo a'r gweithgareddau dyblyg.
- Atal torri amodau a galw yn ôl: Nod y model yw lleihau nifer y camau gorfodi sydd eu hangen - er enghraifft, drwy adolygu achosion yn rheolaidd.
- Gwella cynhyrchiant: Rydym yn rhagweld y bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy fuddsoddi mwy mewn staff a'u hamgylcheddau gwaith yn ogystal â gwella gwasanaethau digidol a fydd yn sbarduno arbedion effeithlonrwydd a gwelliannau yn y ffordd rydym yn gweithio.
- Cydlyniant strwythurol: Bydd dod â phenderfyniadau o dan un sefydliad yn dod ag arbedion effeithlonrwydd yn ei sgil, gan gynnwys lleihau'r gwaith sydd angen ei wneud i gynnal cyfathrebu ar draws nifer o sefydliadau.

Bydd yr arbedion effeithlonrwydd a wneir yn cael eu hail-fuddsoddi yn y gwasanaethau a ddarperir ac yn ein galluogi i wella ansawdd gwasanaethau prawf er mwyn cael gwell canlyniadau, ac i gwrdd â'r cynnydd yn y galw.

[2] Rydym yn defnyddio'r term 'dedfrydwr' fel term cyffredinol i ddisgrifio barnwyr ac ynadon sy'n dedfrydu

**Ffigur 2: Y canlyniadau a ddymunir gan chwaraewyr allweddol yn y system**

Rydym wedi ystyried y canlyniadau a ddymunir gan chwaraewyr allweddol yn y system brawf, ar sail ymgynghoriad ffurfiol ac anffurfiol ar ein cynlluniau ar gyfer diwygio.



## Ymgysylltu

Mae cynnwys y ddogfen hon a'r gwaith o ddatblygu ein ffordd o feddwl wedi cael ei lywio gan ymgysylltu â'r farchnad a rhanddeiliaid ar ôl cyhoeddi'r ymateb i ymgynghoriad 'Strengthening Probation, Building Confidence'[3] ym mis Mai 2019.

Rhwng mis Mai 2019 a chyhoeddi'r model gweithredu targed drafft ym mis Mawrth 2020, fe wnaethom gynnal dros 20 o ddigwyddiadau a chyfarfod â mwy na 530 o randdeiliaid sydd â diddordeb mewn darparu gwasanaethau prawf, a chynnal nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu â'r farchnad, ochr yn ochr â gweithdai ar gyfer ymarferwyr a defnyddwyr gwasanaethau. Buom hefyd yn gweithio gydag Awdurdod Cyfun Manceinion Fwyaf, Swyddfa'r Maer ar gyfer yr Heddlu a Throseddu (Llundain), a chyda Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu wrth i ni siapio dewisiadau dylunio. Fe wnaethom barhau i ymgysylltu ag undebau llafur a chynnal nifer o weithdai ymgysylltu â staff. Fe wnaethom hefyd gwrdd a siarad â thros 200 aelod o staff prawf o'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol.

Cysylltiadau â Strategaeth Fusnes y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf

**Fel rhan o'n diwylliant dysgu ac agored, rydym wedi ymrwymo i gynyddu'r defnydd o dystiolaeth, dirnadaeth a data i wella ein dealltwriaeth o'r hyn sy'n gweithio i'r gwasanaethau prawf.**

Ers mis Mawrth 2020, rydym wedi ymgysylltu â thros 160 o grwpiau rhanddeiliaid y tu mewn a'r tu allan i'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf/y Weinyddiaeth Gyfiawnder, gan gynnwys y rhai yr ymdriniwyd â nhw'n flaenorol. Rydym wedi gofyn am eu barn a'u harweiniad ar y newidiadau a wnaed ers mis Mawrth 2020 (sy'n deillio'n rhannol o COVID-19) - er enghraifft, newidiadau i strwythurau rhanbarthol, rhoi'r gorau i gystadleuaeth rhwng Partneriaid Cyflawni'r Gwasanaeth Prawf a dod â'r gwasanaethau hynny i'r gwasanaeth prawf newydd, a'r diwygiadau i wasanaethau sydd wedi'u caffael drwy'r Fframwaith Dynamig.

Rydym wedi parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid ar draws y gwasanaeth prawf yng Nghymru. Mae integreiddio Rheoli Dedfrydau yn y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yng Nghymru ar ddiwedd 2019 wedi rhoi cyfle i nodi gwelliannau cynnar a dysgu gwersi a all gyfrannu at y trawsnewid ehangach i'r model unedig newydd.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd ymgysylltu â'r rhai sydd ar hyn o bryd neu sydd wedi bod yn ymwneud â'r gwasanaethau prawf i helpu i lunio gwell system brawf, ac rydym wedi gofyn am eu barn ar elfennau allweddol o'r model gweithredu targed hwn drwy arolygon a grwpiau ffocws. Rydym hefyd wedi ymgysylltu'n benodol â'r defnyddwyr gwasanaethau sydd â nodweddion gwarchodedig (fel y'u diffinnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010), gan gynnwys pobl ddu ac Asiaidd, er mwyn i ni allu profi a herio a yw ein model arfaethedig yn mynd yn ddigon pell o ran diwallu anghenion a phrofiad gwahaniaethol. Ceir rhagor o fanylion isod o dan y pennawd 'Cydraddoldeb'.

[3] **https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/802175/strengthening-probation-consultation-response.PDF**

Rydym wedi ymrwymo i ymgysylltu'n barhaus â staff, y rhai sydd â phrofiad uniongyrchol (gan adeiladu ar y gwaith arloesol mae Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn ei wneud yn y maes hwn) a rhanddeiliaid eraill wrth i ni roi'r model newydd ar waith er mwyn i ni allu dysgu gwersi a mireinio ein dull gweithredu yn unol â hynny.

## Dyheadau ynghylch y gweithlu a'r diwylliant

Mae ein gweithlu yn rhan ganolog o ddiwygio'r gwasanaeth prawf yn llwyddiannus. Mae'r gwasanaeth maent yn ei ddarparu yn newid bywydau'r rhai maent yn eu cefnogi ac yn cadw'r cyhoedd yn ddiogel. Mae'r trawsnewid i wasanaeth prawf newydd (sy'n cynnwys staff o'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol a'u cadwyn gyflenwi) yn gyfle cyffrous i fuddsoddi yn ein gweithlu ac i wneud y gwasanaeth prawf newydd yn lle rhagorol a gwerth chweil i weithio ynddo, fel y nodwyd gennym yn Strategaeth Gweithlu'r Gwasanaeth Prawf. Fel rhan o fuddsoddi yn ein gweithlu, byddwn yn:

- recriwtio mwy o staff i ateb y galw ac adeiladu gweithlu amrywiol sy'n cynrychioli'r cymunedau a wasanaethwn
- darparu llwyth gwaith hylaw i staff er mwyn ategu'r gwaith o ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel, a rhoi amser ar gyfer dysgu a datblygu
- cyflwyno cynnig dysgu cynhwysfawr wedi ei foderneiddio, sy'n rhoi mwy o reolaeth i staff dros eu dysgu a'u datblygiad proffesiynol
- hyrwyddo llesiant pawb, gan sicrhau bod y strwythurau a'r anogaeth briodol ar gael i gefnogi ein gweithlu, er mwyn cynnal iechyd corfforol ac iechyd meddwl
- moderneiddio ein hystadau a'n hatebion digidol er mwyn darparu amgylchedd modern, diogel sy'n galluogi staff a defnyddwyr gwasanaethau
- meithrin arweinwyr hyderus sy'n ysbrydoli ac yn grymuso eraill, gan gynnwys arweinyddiaeth ranbarthol gref i wella cydlyniad a gwaith partneriaeth ar draws y System Cyfiawnder Troseddol gyfan
- dysgu gwersi o bob rhan o'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol a'u cadwyn gyflenwi er mwyn i ni allu osgoi ailadrodd camgymeriadau a gallu harneisio llwyddiannau, gan gynnwys cadw gweithrediadau a lwyddodd yn ystod COVID-19


Cysylltiadau â Strategaeth Fusnes y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf

**Byddwn yn galluogi ein gweithlu i wneud ei orau drwy feithrin diwylliant cynhwysol, lle bydd ein holl staff yn cael cyfle i ddatblygu eu gyrfaoedd a chyrraedd eu potensial.**

Rydyn ni'n cydnabod bod ein gweithlu wedi gweld llawer o newid dros y blynyddoedd diwethaf ac rydyn ni wedi ymrwymo i gefnogi staff wrth i ni symud i'r model newydd, er mwyn paratoi ar gyfer y diwrnod cyntaf a thrwy gydol y newidiadau sy'n digwydd ar ôl mis Mehefin 2021. Rydym yn awyddus i gynnwys yr holl staff yn y gwaith o lunio dyfodol ein sefydliad a'n gweithlu drwy gyfathrebu'n rheolaidd a chynnig cyfleoedd i staff ymgysylltu drwy weithgareddau a rhwydweithiau newid, a thrwy undebau llafur.

Mae cynnwys yr holl staff yn y gwaith o ddatblygu a gwreiddio ffyrdd newydd o weithio hefyd yn allweddol i greu diwylliant newydd ar gyfer y gwasanaeth prawf newydd, ac amlinellir ein dyheadau isod.

Ffigur 3. Cod Fframwaith Ein Diwylliant Prawf: siapio dyfodol ein gwasanaeth prawf newydd



Cyn mis Mehefin 2021, rydyn ni'n datblygu cynllun gweithredu diwylliant cenedlaethol sy'n nodi ein rhaglen waith dros y tair i bum mlynedd nesaf er mwyn sbarduno newid mewn diwylliant a'i wreiddio yn y gwasanaeth prawf newydd. Byddwn hefyd yn profi ac yn mireinio'r Cod Diwylliant ymhellach – yr ydym wedi ei ddatblygu gydag Uwch Arweinwyr – er mwyn cael cefnogaeth staff i'r uchelgeisiau diwylliannol yn y dyfodol.

## Cydraddoldeb

Ers sefydlu'r model unedig newydd, rydym wedi sicrhau bod y diwygiadau wedi cael eu gwneud yn unol â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

Mae materion cydraddoldeb ac amrywiaeth posibl wedi cael eu hystyried yn ofalus ym mhob cam o'r broses o ddatblygu polisi a gwneud penderfyniadau. Mae hyn wedi cynnwys darparu cyngor cynhwysfawr ar oblygiadau posibl cydraddoldeb ac amrywiaeth i Weinidogion i ategu pwyntiau penderfynu allweddol yn y Rhaglen. Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn ddyletswydd barhaus a bydd goblygiadau cydraddoldeb y model newydd yn parhau i gael eu hadolygu yn ystod y cyfnod pontio ac i mewn i gyflwr sefydlog.

Wrth ddatblygu a gweithredu'r diwygiadau, rydym wedi ceisio sicrhau bod ein dull gweithredu yn dileu'r potensial ar gyfer gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth. Lle nodwyd meysydd pryder posibl, rydym wedi asesu goblygiadau posibl ein dull gweithredu ac wedi defnyddio mesurau lliniaru priodol a chymesur i leihau neu ddileu'r risg o wahaniaethu anghyfreithlon. Lle mae cyfle i greu effaith gadarnhaol, rydym wedi symud hyn ymlaen i waith dylunio.

Yn sail i'r Dadansoddiad Cydraddoldeb, rydym wedi cynnig gwella pum system sylfaenol i wella'r gwaith o ddarparu gwasanaethau prawf ar draws pob carfan, a fydd o fudd penodol i'r rhai sydd â nodweddion gwarchodedig:

- Monitro a dadansoddi casglu data'n drylwyr (gan gynnwys argymhellion Adolygiad Lammy i 'egluro neu ddiwygio' unrhyw wahaniaeth).
- Dylunio gwasanaeth/ymarfer sy'n ddiwylliannol gymwys – gan gynnwys yr ymrwymiad yn Strategaeth Cydraddoldeb y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf bod pob ymyriad/gwasanaeth yn canolbwyntio'n benodol ar gydraddoldeb yn eu dyluniad. Bydd yr holl bolisïau, gweithdrefnau a/neu arferion yn parhau i ystyried eu heffaith ar ddefnyddwyr gwasanaeth o wahanol grwpiau o nodweddion. Bydd y Dadansoddiad Cydraddoldeb yn dystiolaeth o hyn.
- Cadwyn gyflenwi sy'n cynnwys y sector gwirfoddol, cymunedol ac arbenigol lle mae ganddynt brofiad neu arbenigedd o ddarparu gwasanaethau i grwpiau lleiafrifol – yn enwedig pan fyddant dan oruchwyliaeth yn y gymuned. Mae'r Fframwaith Dynamig wedi ei gynllunio i ganiatáu comisiynu ymyriadau adsefydlu ac ailsefydlu ar wahân ar gyfer gwahanol garfannau o unigolion.
- Gwell llywodraethu, arweinyddiaeth a chraffu – gan gynnwys y broses ar gyfer adrodd ar gydraddoldeb a swyddogaethau cydraddoldeb o fewn y model newydd.

- Perthynas agos â Rhaglen y Gweithlu Prawf i sicrhau bod materion cydraddoldeb yn cael eu hystyried drwy gydol y broses o ddatblygu Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Gweithlu Prawf – gan gynnwys amrywio llwybrau mynediad, gwella llwybrau cymhwyso, gwella profiad staff, cadw staff a chyfleoedd gyrfa, a chreu cynlluniau i symud grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli i'r gweithlu prawf a rolau arwain uwch. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn Strategaeth y Gweithlu Prawf.

Gan ddefnyddio data gan ein tîm gwasanaethau dadansoddi, gwybodaeth gan bob rhan o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf, a mewnbwn gan arbenigwyr mewnol ac allanol, rydym wedi nodi'r cyfleoedd i hyrwyddo cydraddoldeb a mynd i'r afael ag unrhyw risg posibl sy'n codi o'r model unedig newydd, yn enwedig mewn perthynas â'r rhai sydd â nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys oedran, hil ac anabledd. Cafodd canfyddiadau'r broses hon eu bwydo'n ôl i oleuo penderfyniadau ar ddylunio gwasanaethau er mwyn cryfhau cyfleoedd a mynd i'r afael â risg bosibl.

Yn allanol, rydym wedi ymgysylltu â Clinks i sicrhau ein bod ni'n ymgysylltu â llais y sector gwirfoddol, cymunedol a mentrau cymdeithasol. Rydym wedi gweithio'n agos gyda'r sector gwirfoddol, cymunedol a mentrau cymdeithasol i fenywod i ddeall effaith y broses gystadlu a'r Fframwaith Dynamig ar fenywod. Rydym hefyd wedi gweithio'n arbennig o agos i ddeall sut gallwn fynd i'r afael yn well ag amrywiaeth hiliol mewn gwasanaethau prawf. Mae hyn yn arbennig o bwysig yng nghyd-destun pandemig COVID-19 o ystyried ei effaith anghymesur ar bobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME) eraill. Er mwyn gwirio a herio a aeth iteriad cyntaf y model gweithredu targed yn ddigon pell i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau, cydnabod profiadau go iawn a darparu cymorth wedi ei deilwra'n briodol i'r rhai o gefndiroedd BAME (gan gynnwys menywod BAME), rydym wedi gweithio gydag amrywiaeth o ddarparwyr yn y sector gwirfoddol i gynnal grwpiau ffocws gyda phobl sydd â phrofiad go iawn er mwyn deall yn well yr anghenion a'r profiadau gwahanol sy'n gysylltiedig ag ethnigrwydd a chrefydd. Mae canfyddiadau'r gwaith hwn wedi cyfrannu at ein dyluniad. Er enghraifft, rydym yn bwriadu darparu pecynnau ailsefydlu i bawb sy'n gadael y carchar, a fydd yn cynnwys manylion asiantaethau trydydd parti sy'n gallu rhoi cymorth penodol i ddefnyddwyr gwasanaeth BAME, mewn ymateb i'r adborth am yr angen i gael mynediad at wasanaethau sy'n fwy diwylliannol gymwys yn y gymuned. Rydym hefyd yn rhoi mwy a mwy o bwyslais ar ddefnyddio cyn-ddefnyddwyr gwasanaeth i gynorthwyo unigolion sy'n cael eu goruchwylio, mewn ymateb i alwadau i gael mynediad at fwy o bobl sydd â phrofiad go iawn o'r system gyfiawnder. Byddwn ni'n parhau i ddefnyddio adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth i lywio ein dull o weithredu. Rydym wedi ymgysylltu â staff y gwasanaeth prawf, staff y carchardai a defnyddwyr gwasanaeth i ddeall sut bydd y model newydd yn effeithio ar unigolion ar bob cam drwy'r system cyfiawnder troseddol, o broses y llys, i garcharu ac ar ôl ryddhau.Yn fewnol, rydym wedi sicrhau synergedd gyda chynlluniau traws-adrannol a chanfod materion perthnasol cyn gynted â phosibl. Rydym hefyd wedi gweithio'n agos gyda dadansoddwyr i ddeall y cyd-destun

rydym yn gweithredu ynddo, y bylchau sy'n bodoli oherwydd y prosesau casglu data presennol, a sut gallem gofnodi data'n well yn y dyfodol a defnyddio dysgu i barhau i wella ein gwasanaethau ar gyfer y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig (gweler yr adran ar adrodd ar gydraddoldeb yn y fframwaith perfformiad).

Cysylltiadau â Strategaeth Fusnes y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf

**Rydym wedi ymrwymo i drawsnewid ein gwasanaethau drwy weithio mewn partneriaeth ar draws y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf a'r System Cyfiawnder Troseddol ehangach er mwyn i ni allu manteisio i'r eithaf ar ein profiad a'n harbenigedd ar y cyd a darparu'r gwasanaethau iawn ar yr adeg iawn.**

## Cysylltiadau â rhaglenni diwygio eraill o fewn y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder

Wrth ddatblygu'r model gweithredu targed, rydym wedi rhoi sylw priodol i'r diwygiadau ehangach sy'n digwydd yn y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder sy'n effeithio ar ein dull gweithredu. Byddwn yn parhau i gysylltu'n agos â'r ardaloedd perthnasol er mwyn parhau i adolygu unrhyw effaith ar y model a'i ddiweddaru fel bo'n briodol. Isod, rydym yn amlinellu rhai o'r meysydd allweddol a sut maent yn rhyngweithio â'r model newydd.

Drwy'r **Rhaglen Gofynion Triniaeth Dedfryd Gymunedol**, mae partneriaid iechyd a chyfiawnder yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau y gwneir mwy o ddefnydd o ofynion triniaeth iechyd meddwl, alcohol a chyffuriau fel rhan o ddedfrydau cymunedol. Lansiwyd y Rhaglen ym mis Hydref 2017 gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder, yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, NHS England ac NHS Improvement, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi ac Iechyd Cyhoeddus Lloegr. Mae'n canolbwyntio ar wella gwaith amlasiantaeth i sicrhau bod rolau a chyfrifoldebau pawb sy'n ymwneud â darparu Gofynion Triniaeth Dedfryd Gymunedol yn eglur, gyda'r llwybrau triniaeth angenrheidiol ar waith. Mae'r Rhaglen Gofynion Triniaeth Dedfryd Gymunedol yn sicrhau bod pob Gofyniad Triniaeth Dedfryd Gymunedol ar gael drwy grwpiau llywio lleol a phartneriaethau rhwng asiantaethau iechyd a chyfiawnder. Cytunir ar brosesau, fframweithiau llywodraethu a ffyrdd o weithio yn lleol, er mwyn rhoi argymhellion gorchymyn cymunedol cadarn i'r farnwriaeth, ynghyd â dwyn ynghyd y partneriaethau sy'n galluogi gweithio ar y cyd, gyda'r nod o drin yr unigolyn i leihau ei risgiau a diogelu'r cyhoedd.

Mae'r Rhaglen Gofynion Triniaeth Dedfryd Gymunedol yn gweithredu mewn llysoedd mewn 14 ardal yn Lloegr ar hyn o bryd, gyda'r bwriad i'w chyflwyno ymhellach gyda chymorth yr arian a ymrwymwyd yng Nghynllun Hirdymor 2019 y GIG. Mae hyn yn cynnwys ymrwymiad i ehangu'r ddarpariaeth o Ofynion Triniaeth Dedfryd Gymunedol i ragor o fenywod, carcharorion dan ddedfryd fer, y rhai sydd ag anableddau dysgu a'r rhai sydd ag anghenion iechyd meddwl. Byddwn yn sicrhau 50% o ddarpariaeth iechyd meddwl erbyn 2023/24 ac rydym eisiau mynd ymhellach gyda thriniaeth cyffuriau ac alcohol.

Mae'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf hefyd yn ceisio gwella ei ddealltwriaeth o'r cyd-destun iechyd, a'i ddylanwad yn y maes hwnnw, er mwyn gwella llwybrau at wasanaethau iechyd lleol ar gyfer ein defnyddwyr gwasanaethau, yn enwedig y rhai sydd ag anghenion o ran camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl. Byddwn yn gwneud hyn drwy brofi manteision adnodd prawf penodol i feithrin perthynas â systemau iechyd lleol a rhanbarthol.

Mae ymosodiadau terfysgol London Bridge ac Sartham, a gynhaliwyd gan unigolion dan oruchwyliaeth y gwasanaeth prawf, wedi golygu bod angen ailasesu'r ffordd mae'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn rheoli unigolion a gafwyd yn euog o droseddau terfysgol. Mae'r cylch gwaith hwn wedi cael ei ehangu i gynnwys yr unigolion risg uchel, cymhleth ac uchel eu proffil mae'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn gyfrifol am eu rheoli yn y gymuned. Bydd **Is-adran Diogelwch Cenedlaethol y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol** yn is-adran arbenigol, ymroddedig a hynod fedrus sy'n darparu lefel uwch o reolaeth ac ymyriadau ar gyfer yr unigolion hyn.

Rydym wedi ystyried, a byddwn yn parhau i ystyried, y rhyngwynebau rhwng y tîm arbenigol hwn a'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu o dan y model gweithredu targed hwn. Ar gyfer unigolion sy'n cael eu goruchwylio gan yr Adran Ddiogelwch Genedlaethol, bydd eu hachosion yn cael eu rheoli o'r llys i'r cyfnod ar ôl ryddhau gan arbenigwr yn un o'r pum uned sy'n cael eu sefydlu ledled y Deyrnas Unedig. Bydd angen i'r Adran Ddiogelwch Genedlaethol weithio gydag uwch arweinwyr ar gyfer llysoedd i sicrhau, pan fo'n briodol, y gelwir ar staff yn yr unedau sydd â'r hyfforddiant a'r wybodaeth arbenigol i gynorthwyo staff y llys i ysgrifennu adroddiadau cyn-dedfrydu. Bydd cysylltu a throsglwyddo achosion unigol a rheolaeth weithredol Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd a chysylltiadau â phartneriaid lleol a darparwyr gwasanaeth yn hollbwysig o ran gallu'r gwasanaeth prawf newydd i reoli risg yn effeithiol, a bydd yn hanfodol i arweinwyr yr uned ddiogelwch genedlaethol feithrin perthynas gref â chydweithwyr rhanbarthol. Rydym yn bwriadu sefydlu uned sylfaen yng Nghymru a fydd yn cwmpasu'r gwaith o reoli ardal ddaearyddol ehangach, gan gynnwys De Orllewin Lloegr. Bydd hyn yn helpu i fodloni'r gofynion deuol yng Nghymru o ran meithrin perthynas gref â Llywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau datganoledig yn ogystal â chydnabod gwerth un dull gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol ar gyfer yr agenda diogelwch cenedlaethol.

Yn gyson â'r egwyddor strategol 'moderneiddio ein hystadau a'n technoleg', mae nifer o newidiadau'n cael eu gwneud ar draws yr **Ystad Carchardai** dros y blynyddoedd nesaf a fydd yn effeithio ar ein cynlluniau ar gyfer ailsefydlu ac yn eu hategu yn y dyfodol. Nod y prosiect **Ad-drefnu** yw cyfateb y cyflenwad o leoedd â gofynion poblogaeth y carchardai drwy ail-gydbwyso'r ystad i ddynion sy'n oedolion er mwyn darparu'r math iawn o leoedd i ddiwallu anghenion y boblogaeth. Bydd yr ystad dynion sydd wedi cau yn cael ei had-drefnu'n raddol i dair swyddogaeth glir: derbyn, hyfforddi ac adsefydlu, a bydd dynion yn symud ymlaen i'r ystad hyfforddi a/neu ailsefydlu yn gynharach yn eu dedfryd. Bydd canolfannau fideo gynadledda mewn rhai carchardai derbyn yn helpu i wasanaethu'r llysoedd yn well drwy gynyddu nifer y gwrandawiadau a gynhelir drwy fideo a lleihau nifer y trosglwyddiadau o'r carchar i'r llys. Bydd mwy o wasanaethau craidd yn cael eu darparu yn y carchardai ailsefydlu. Bydd yr ystad i fenywod, er ei bod y tu allan i gwmpas y prosiect ad-drefnu, yn mynd drwy brosiect trawsnewid. Rydym wedi ystyried, a byddwn yn parhau i ystyried, ffurfweddiad gwahanol ystad y menywod o ran rhyngweithio a chynllunio ailsefydlu ar gyfer menywod.

Nod y model **Rheoli Troseddwyr yn y Ddalfa** yw sicrhau gwelliannau trawsnewidiol yn y ffordd rydym yn cynorthwyo ac yn rheoli unigolion drwy eu dedfryd. Rydym eisiau i'n carchardai fod yn llefydd lle mae staff ac unigolion fel ei gilydd yn teimlo'n ddiogel ac yn saff a lle mae'r rhai sydd yn ein gofal yn cael eu cefnogi a'u herio i wneud y defnydd mwyaf effeithiol o'u hamser yn y carchar i'w paratoi ar gyfer eu rhyddhau.

Cyflwynwyd Rheoli Troseddwyr yn y Ddalfa mewn dau gam ar wahân. Y cam cyntaf (Gwaith Allweddol) yw sylfaen y model Rheoli Troseddwyr yn y Ddalfa, ac mae ar gael i bob dyn mewn amgylchiadau caeedig, a bydd ar gael i fenywod sydd ag anghenion cymhlethdod isel a chanolig. Mae menywod yr aseswyd bod ganddynt anghenion cymhleth iawn yn cael mwy o amser gyda'u Rheolwr Troseddwyr yn y Carchar yn hytrach na Gweithiwr Allweddol dynodedig. Mae'r ail gam (y model Rheoli Achosion) yn newid y ffordd rydym yn rheoli unigolion drwy eu dedfryd, drwy ddod â chyfrifoldeb rheoli troseddwyr i'r ddalfa, i'r rhai sydd â chyfnod sylweddol i'w dreulio cyn eu rhyddhau. Yng Nghymru, cafodd Rheoli Achosion ei gyflwyno ym mis Chwefror 2019 ac yn Lloegr o fis Hydref 2019 ymlaen. Bydd yn cael ei gyflwyno yn yr ystad agored ym mis Mawrth 2021 ac yn ystad y menywod ym mis Ebrill 2021. Disgwylir iddo fod yn gwbl weithredol a sefydlog o Wanwyn 2021 ymlaen yn yr ystad gaeedig i ddynion, ac yn ddiweddarach ar gyfer yr ystadau agored ac ystadau menywod gyda modelau gwahanol. Rydym wedi datblygu ein dull gweithredu ar gyfer ailsefydlu o dan y model newydd ar y cyd â Rheoli Troseddwyr yn y Ddalfa a'r gwaith ad-drefnu, ac amlinellir rhagor o fanylion am hyn ym Mhennod 3.

[4] Cydarolygiad Cyfiawnder Troseddol (2020). 'A joint thematic inspection of Integrated Offender Management'. **https://www.justiceinspectorates.gov.uk/cjji/inspections/iomthematic/**

Nod **Rheoli Troseddwyr yn Integredig** yw i'r heddlu a'r gwasanaeth prawf, ar y cyd, ddarparu goruchwyliaeth well i droseddwyr â blaenoriaeth a nodwyd mewn cymunedau lleol yn unol â blaenoriaethau cyfiawnder troseddol y llywodraeth, gan gynnwys cynlluniau lleihau troseddu a lleihau aildroseddu. Oherwydd cymhlethdod y rhai a ddewiswyd i gael eu goruchwylio drwy Reoli Troseddwyr yn Integredig, mae angen goruchwyliaeth fwy dwys arnynt i fynd i'r afael â'r ffactorau troseddegol sy'n sail i'w hymddygiad troseddol. Ar gyfer Ymarferwyr Prawf, mae hyn yn cynnwys gweithgaredd i wneud y gwaith partneriaeth angenrheidiol a chysylltu unigolion â'r llwybrau mwyaf addas.

Roedd yr arolygiad thematig ar y cyd o'r adroddiad Rheoli Troseddwyr yn Integredig a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2020[4] yn cynnwys argymhellion clir i sicrhau bod ffrwd waith wedi ei neilltuo ar gyfer Rheoli Troseddwyr yn Integredig. Argymhellodd hefyd fod Prif Gwnstabliaid ac arweinwyr prawf yn diffinio model gweithredu Rheoli Troseddwyr yn Integredig ac yn cynhyrchu canllawiau ymarfer i nodi'r hyn sy'n ofynnol gan bob asiantaeth i fynd i'r afael â'r ffaith bod Rheoli Troseddwyr yn Integredig wedi colli ei ffordd, ac adfer y trefniant gweithio amlasiantaethol hwn er mwyn cyflawni ei photensial llawn. Bwriad y rhaglen Adfywio Rheoli Troseddwyr yn Integredig yw ymateb i'r argymhellion hyn a darparu eglurder, strategaeth a phecynnau cymorth hanfodol i ategu trefniadau lleol i gyflawni hyn.

Mae technolegau **Monitro Electronig** yn cael eu defnyddio i gynorthwyo'r gwaith o gydymffurfio â chyrffyw a orchmynnir gan y llys, gofynion monitro lleoliad neu fel rhan o ofyniad trwydded ar ôl cael eu rhyddhau o'r carchar, ac maent yn arf pwysig i helpu i oruchwylio unigolion yn effeithiol yn y gymuned. Yn ogystal â darparu cosb effeithiol, gallant helpu i ddiogelu'r cyhoedd a lleihau aildroseddu. Byddwn yn sicrhau bod galluoedd Monitro Electronig yn cael eu hategu'n well mewn strwythurau prawf er mwyn i ni wneud defnydd mwy effeithiol o'u potensial i wella cydymffurfio, diogelu'r cyhoedd a chanlyniadau aildroseddu. Fel rhan o hyn, byddwn yn sicrhau atebolrwydd clir a rhyngwynebau ar gyfer cyflawni ar lefel ranbarthol a chenedlaethol, ac yn sicrhau bod staff prawf yn rhoi cyngor ar sail gwybodaeth i ddedfrydwyr ar sut gellir defnyddio gofynion Monitro Electronig i ategu dedfrydau cymunedol cadarn. Byddwn hefyd yn gwella'r broses o rannu gwybodaeth briodol rhwng darparwyr Monitro Electronig a'r gwasanaeth prawf er mwyn rheoli cydymffurfio a risg yn well.

Mae'r Papur Gwyn ar Ddedfrydu a gyhoeddwyd ar 16 Medi 2020 yn nodi cynigion i ehangu'r defnydd o Fonitro Electronig a'i wneud yn fwy hyblyg. Mae hyn yn cynnwys cynnig i roi pwerau i wasanaethau prawf o fewn ystod benodol o amgylchiadau i amrywio gofynion Monitro Electronig. Bwriad hyn yw rhyddhau amser y llys a galluogi Ymarferwyr Prawf i amrywio trefniadau i gefnogi patrymau byw a gweithio unigolion ac annog mwy o gydymffurfio. Os bydd y cynnig hwn yn mynd rhagddo, byddwn yn adolygu ein gweithdrefnau a'n prosesau ar gyfer cofnodi newidiadau a chyfleu'r rhain i'r llys, yr heddlu a darparwyr Monitro Electronig.

Mae Monitro Electronig yn cwmpasu'r **Gofyniad Monitro ac Ymwrthod ag Alcohol** sy'n rhoi'r pŵer i lysoedd bennu monitro o'r fath fel rhan o Orchymyn Cymunedol neu Orchymyn Dedfryd Ohiriedig ac i orchymyn i unigolyn ymatal rhag alcohol am gyfnod penodol o hyd at 120 diwrnod. Bwriedir i'r Gofyniad Monitro ac Ymwrthod ag Alcohol fynd i'r afael ag ymddygiad troseddol lle bu alcohol yn ffactor a gyfrannodd. Mae Cymru eisoes wedi mabwysiadu'r dull Gofyniad Monitro ac Ymwrthod ag Alcohol, a rhagwelir y bydd yn cael ei gyflwyno'n genedlaethol ym mis Chwefror 2021. Bydd staff y llys yn cael hyfforddiant ar y dull newydd hwn o weithredu ac ategir rolau gweinyddol o fewn Unedau Cyflawni'r Gwasanaeth Prawf wrth lwytho i lawr a pharatoi data ar fonitro alcohol i'w adolygu gan Ymarferwyr Prawf. Bydd Ymarferwyr Prawf yn gyfrifol am ategu'r broses hon drwy ystyried unrhyw ymyriad ategol yn ogystal â monitro cydymffurfiad â'r Gofyniad Monitro ac Ymwrthod ag Alcohol a chymryd unrhyw gam gorfodi angenrheidiol.

Mae **llety**, ac yn bwysicach na hynny, cartref, yn gonglfaen i leihau aildroseddu, ac mae'n hanfodol bod gan unigolion sy'n gadael y carchar a'r rhai sydd ar Orchmynion Cymunedol rywle sefydlog a sicr i fyw. Mae tystiolaeth yn dangos bod y rheini sy'n ddigartref neu'n byw mewn llety dros dro yn fwy tebygol o aildroseddu, ac mae cyfran sylweddol (37%) o'r bobl a gofnodwyd eu bod yn cysgu allan yn Llundain wedi cael profiad o garchar.

Y Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol sy'n gyfrifol am ddeddfwriaethau sy'n ymwneud â thai yn Lloegr; Llywodraeth Cymru sy'n ysgwyddo'r cyfrifoldeb hwnnw yng Nghymru. Awdurdodau Lleol sy'n ysgwyddo'r cyfrifoldeb statudol dros dai a digartrefedd yng Nghymru a Lloegr. Dim ond mewn amgylchiadau penodol mae'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf yn darparu lleoliadau llety dros dro tymor byr, yn bennaf pan fydd angen mesurau ychwanegol i ddiogelu'r cyhoedd. Er enghraifft, mewn Safleoedd Cymeradwy neu pan fydd rhyddhau o'r ddalfa'n ddibynnol ar gael cyfeiriad addas ar gyfer Cyrffyw Cyfyngu i'r Cartref.

Mae **Safleoedd Cymeradwy** yn cefnogi'r broses o symud o'r ddalfa i'r gymuned yn ddiogel, yn diogelu'r cyhoedd ac yn monitro'n helaeth. Mae staff ar gael 24 awr y dydd mewn Safleoedd Cymeradwy, ac mae'r safleoedd yn cydbwyso gofal a rheolaeth. Maen nhw'n gosod gwahanol gyfyngiadau ar ryddid y preswylwyr. Mae 100 o'r safleoedd hyn ar gael ar draws y wlad, ac maen nhw'n darparu dros 2,250 o welyau a 3 mis yw'r cyfnod aros arferol. Ond, gall fod yn gyfnod hirach, gan ddibynnu ar y trefniadau symud ymlaen yn ddiogel sydd ar gael. Mae'n hollbwysig bod y safleoedd yn gweithio'n agos gyda Threfniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA), gan gynnwys Awdurdodau Lleol a darparwyr tai. Caiff rhai Safleoedd Cymeradwy eu dynodi'n 'Amgylcheddau wedi'u Cynllunio sy'n seiliedig ar Ddealltwriaeth Seicolegol' (PIPEs). Mae hyn yn golygu bod clinigwyr y GIG yn darparu gwybodaeth seicolegol arbenigol i helpu Safleoedd Cymeradwy i reoli unigolion sydd ag anhwylder personoliaeth. Mae cynlluniau ar waith i sicrhau 200 o welyau ychwanegol ac i weithio tuag at ddosraniad gwell o'r ddarpariaeth ar draws y wlad, er mwyn i breswylwyr allu ailymuno â'u cymunedau eu hunain. Rydym hefyd eisiau gwella safon adeiladau ein Safleoedd Cymeradwy, gan gynnwys drwy fuddsoddiad ychwanegol o £10m mewn gwaith cynnal a chadw a diogelwch. Rydym am sicrhau rhagor o ddarpariaeth i droseddwyr sy'n fenywod drwy agor Safleoedd Cymeradwy ychwanegol, a gwella'r cyfleoedd sydd ar gael i'r preswylwyr drwy ddatblygu modelau lleol cryfach ar gyfer gweithio mewn partneriaeth, sy'n seiliedig ar anghenion preswylwyr unigol. Mae hyn yn cynnwys sefydlu rhwydwaith presgripsiynu cymdeithasol, gweithredu strategaethau i leihau ymddygiad hunan-niweidio ac achosion o hunanladdiad, ac adolygu effaith y model PIPE a'r posibilrwydd yn y dyfodol. Rydym ni i gyd yn bwriadu adeiladu ar ein cysylltiadau lleol, a sicrhau bod cyfleoedd llety symud ymlaen addas ar gael ar gyfer y preswylwyr cymhleth a risg uchel mewn Safleoedd Cymeradwy.

Cafodd y **Gwasanaeth Llety a Chefnogaeth Mechnïaeth (BASS)** ei gyflwyno i ddarparu llety dros dro gyda chefnogaeth i unigolion risg isel a risg ganolig a fyddai, fel arall, yn cael eu cadw yn y carchar. Mae'r gwasanaeth ar gael i'r rheini sydd ar Fechnïaeth, ar Gyrffyw Cyfyngu i'r Cartref, wedi'u rhyddhau heb gartref sefydlog ar ôl dedfryd o lai na phedair blynedd yn y carchar, ar drwydded ac mewn perygl o gael eu galw'n ôl oherwydd eu bod wedi colli eu llety, neu ar Orchymyn Cymunedol Dwys sydd â gofyniad preswyl (Cymru a Manceinion yn unig). Mae'r gwasanaeth yn darparu 550 o welyau i ddynion a menywod ar draws Cymru a Lloegr. Mae gweithio mewn partneriaeth yn hanfodol o ran caffael eiddo a chymorth i symud ymlaen, ac mae amrywiaeth o asiantaethau yn chwarae rôl allweddol. Mae cynlluniau ar waith i gynyddu capasiti BASS ac i wella lefelau defnydd, a hefyd i wella ansawdd a chysondeb y llety. Byddwn ni'n cysoni'r ystad er mwyn sicrhau bod gennym ni'r eiddo iawn yn y lleoedd iawn, ac yn adolygu ein gwasanaethau i fenywod er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn addas ac yn effeithiol.

Pan fydd y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf yn darparu llety dros dro, ein nod ni yw sicrhau bod y llety o ansawdd gwych a'n bod yn gweithio'n agos gyda'n partneriaid i integreiddio preswylwyr mewn cartrefi tymor hwy addas ac yn y gymuned. Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i sicrhau bod pob unigolyn sydd â hanes o droseddu yn gallu cael a chynnal llety sefydlog. Mae cael rhywle i fyw yn rhoi sylfaen sefydlog i bobl er mwyn iddyn nhw gael gafael ar wasanaethau iechyd a dal gafael ar swydd, ac mae'n lleihau'r tebygolrwydd y byddan nhw'n aildroseddu. Ar 13 Awst 2018, cyhoeddwyd y strategaeth 'Rough Sleeping'. Roedd yn amlinellu pecyn uchelgeisiol gwerth £100m i helpu pobl sy'n cysgu allan ar hyn o bryd, a hefyd yn rhoi strwythurau ar waith a fydd yn rhoi terfyn yn llwyr ar gysgu allan erbyn diwedd y Senedd hon. Fel rhan o'r strategaeth hon, mae £6.4m wedi cael ei fuddsoddi mewn cynllun peilot i helpu unigolion sy'n cael eu rhyddhau o dri charchar, sef Bryste, Leeds a Pentonville.[5] Mae'r gwasanaethau wedi cychwyn yn y tair ardal erbyn hyn, gyda'r unigolion cyntaf wrthi'n cael help i gael llety ar ôl cael eu rhyddhau.

Disgwylir y bydd y cynllun peilot ar gyfer llety yn dirwyn i ben yn ystod Haf 2022. Yn amodol ar werthusiad, y bwriad yw – drwy'r system prawf yn y dyfodol – y bydd manyleb y gwasanaeth terfynol ar gael i'r gwasanaeth prawf er mwyn darparu cymorth cofleidiol ac ar gyfer llety yn y dyfodol wrth symud ymlaen.

Mae Deddf Lleihau Digartrefedd 2017 wedi diwygio deddfwriaeth ddigartrefedd Lloegr yn sylweddol, drwy roi dyletswyddau ar Awdurdodau Tai Lleol i ymyrryd yn gynharach er mwyn atal digartrefedd yn eu hardaloedd. Daeth y Ddeddf honno â dwy ddyletswydd allweddol newydd i gyrff cyhoeddus ac Awdurdodau Lleol: y ddyletswydd i atal digartrefedd a'r ddyletswydd i'w liniaru. Mae'r Llwybr Cenedlaethol i Droseddwyr a sefydlwyd yng Nghymru yn defnyddio trefniadau tebyg i gefnogi'r bobl hynny sydd â hanes o droseddu ac sydd mewn perygl o fod yn ddigartref. Mae darparwyr carchardai a gwasanaethau prawf bellach yn ddarostyngedig i'r 'Ddyletswydd i Gyfeirio', ac mae ganddyn nhw gyfrifoldeb statudol i gyfeirio unrhyw un sydd mewn perygl o fod yn ddigartref at yr awdurdod tai lleol 56 diwrnod cyn maen nhw'n disgwyl bod yn ddigartref.

Mae COVID-19 wedi newid y ffordd rydym ni'n darparu ein gwasanaethau, ac mae'n dal yn anodd gweld sut bydd yn newid ein darpariaeth dros y misoedd a'r blynyddoedd nesaf. Er mwyn sicrhau nad oedd angen i neb adael y carchar yn ddigartref yn ystod y cyfnod hwn, rydym hefyd wedi gweld **Tasgluoedd Rhanbarthol i Atal Digartrefedd** yn cael eu cyflwyno, a fydd yn parhau y tu hwnt i'r cyfnod presennol. Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i sicrhau bod y bobl hynny sydd â hanes o droseddu yn gallu cael neu gynnal llety sefydlog, fel rhan o'u cymorth adsefydlu. I sicrhau bod darparu llety yn parhau'n hollbwysig, bydd y fframwaith perfformiad ar gyfer y model unedig newydd yn cynnwys mesurau ar gyfer llety (darllenwch yr adran 'Fframwaith Perfformiad' ym Mhennod 3, Rhan 4 i gael rhagor o fanylion).

[5] **https://www.gov.uk/government/news/prisons-to-deliver-trailblazing-6m-rough-sleeping-initiative**

Sefydlwyd **Rhaglen Adfer Busnes y Gwasanaeth Prawf** i ymateb i'r effaith mae COVID-19 wedi ei chael ar y Gwasanaeth Prawf ac i ddatblygu rhaglen ar gyfer ailgychwyn gwasanaethau prawf yn ystod y pandemig parhaus. Mae'r rhaglen yn gweithredu fel sianel rhwng y gwasanaeth prawf a gwaith adfer ehangach ar draws y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, gan gynnwys Pwyllgor Adfer y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf. Bwriad hyn yw cael gwared â phwysau o rannau eraill o'r gwasanaeth prawf i fwydo gwybodaeth i'r peirianwaith adfer ehangach. Mae hefyd yn darparu gwasanaeth cydlynu adfer i'r busnes prawf ehangach i sicrhau nad yw penderfyniadau a wneir mewn un rhan o'r busnes yn effeithio'n andwyol ar rannau eraill, neu'r system ehangach. Mae'r rhaglen yn gyfrifol am wneud penderfyniadau gweithredol ar adfer nad yw'n cyd-fynd â'r naill raglen brawf bresennol na'r llall ac na ellir ei chyflawni'n effeithiol o fewn y llinell weithredol, neu lle mae angen sefydlu dull gweithredu ar draws y gwasanaeth prawf. Mae Rhaglen Diwygio'r Gwasanaeth Prawf yn gweithio'n agos gyda Rhaglen Adfer Busnes y Gwasanaeth Prawf i nodi effeithiau gwaith adfer ar drosglwyddo i'r model newydd a'r model gweithredu targed tymor hwy, gan gynnwys lle mae dulliau cyflwyno newydd wedi gweithio'n dda ac y gellir eu gwreiddio yn system y gwasanaeth prawf yn y dyfodol er mwyn sicrhau arbedion effeithlonrwydd a gwell ffyrdd o weithio.

Pennod 2

# Y Diwrnod Cyntaf – dylunio a phontio



# Pennod 2: Y diwrnod cyntaf – dylunio a phontio

## Diwrnod Cyntaf y model newydd a'r dull o drawsnewid

Byddwn yn trosglwyddo i'r model unedig newydd ar 26 Mehefin 2021 ar ôl i gontractau Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol ddod i ben (y Diwrnod Cyntaf). Ar gyfer y Diwrnod Cyntaf, y nod yw cynnal y ddarpariaeth weithredol bresennol, diogelu parhad gwasanaeth a lleihau'r risg o fethiannau gweithredol. Mae hyn yn golygu lleihau'r newid ar gyfer y Diwrnod Cyntaf a chynnal y modelau darparu presennol lle bo hynny'n ymarferol. Rydym yn cydnabod y gallai hyn deimlo fel newid mwy i'r staff hynny sy'n gweithio yn y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol ar hyn o bryd, yn enwedig mewn perthynas â TG a systemau a fydd yn cael eu defnyddio gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol i raddau helaeth. Ar ôl i ni sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu trosglwyddo'n ddidrafferth, ar ôl y Diwrnod Cyntaf, byddwn yn cyflwyno newidiadau pellach a fydd yn ein symud tuag at y model gweithredu targed a ddisgrifir ym Mhennod 3 y ddogfen hon.

**Ffigur 4. Meysydd blaenoriaeth ar gyfer dilyniant o'r Diwrnod Cyntaf**

| Proses | Pobl | Sefydliad | Digidol, Data a Thechnoleg | Ystadau |
|---|---|---|---|---|
| Yr un tasgau a gweithgareddau'n cael eu gwneud fel cyn Diwrnod 1 pan fo'n ymarferol/ briodol. | Mae'r un bobl yn gwneud yr un tasgau, yn yr un lleoliad, pan fo'n ymarferol/briodol.<br><br>Bydd staff CRC yn cael eu trosglwyddo i'r gwasanaeth prawf newydd pan fyddant i fod i gael eu trosglwyddo ac yn diwallu'r meini prawf trosglwyddo. | Bydd timau'n dilyn yr un ffurfweddiad a strwythur pan fo'n ymarferol/briodol.<br><br>Bydd yr holl strwythurau rheoli llinell gweithredol yn cyd-fynd â strwythurau'r uwch arweinwyr rhanbarthol (i lawr at yr haen Penaethiaid Unedau Cyflawni Prawf). | Byddwn yn gallu cael gafael ar yr holl ddata perthnasol.<br><br>Ni fydd gennym yr un systemau a chyfarpar - byddwn yn dibynnu ar systemau, seilwaith/ dyfeisiau HMPPS yn unig, nid y rheini sy'n cael eu defnyddio gan CRCs ar hyn o bryd, oni bai y gwelir nad yw hyn yn ymarferol yn weithredol ar gyfer rhai prosesau/ rhanbarthau. | Bydd staff prawf yn gwneud eu gwaith yn yr un lleoliad, pan fo'n ymarferol/ briodol.<br><br>Nid oes newid (neu'r newid lleiaf posibl) i'r lleoliad lle bydd unigolion dan oruchwyliaeth sy'n ymwneud â'r gwasanaeth prawf yn adrodd i'w Hymarferydd Prawf ac yn mynd i leoliadau a gwasanaethau. |

## Pobl

O ran trosglwyddo pobl ar gyfer y diwrnod cyntaf, rydym wedi dod i Gytundeb Cenedlaethol gydag undebau llafur a fydd yn golygu y bydd y trefniadau a ganlyn ar gyfer telerau ac amodau yn cael eu rhoi ar waith:

| Cyflogwr Presennol | Cyflogwr yn y Dyfodol | Sefyllfa Telerau ac Amodau |
|---|---|---|
| Cwmni Adsefydlu Cymunedol | Y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf (Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol) | Bydd yn cyd-fynd â thelerau ac amodau'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol wrth drosglwyddo yn unol â'r Cytundeb Cenedlaethol |
| Cwmni Adsefydlu Cymunedol | Darparwr Gwasanaethau Adsefydlu wedi'u Comisiynu | Bydd Telerau ac Amodau cytundebol yn cael eu diogelu wrth drosglwyddo, yn ogystal â rhai elfennau ychwanegol o warchodaeth a ddarperir gan y Cytundeb Cenedlaethol |
| Rhiant-sefydliad | Y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf (Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol) | Bydd Telerau ac Amodau cytundebol yn cael eu diogelu wrth drosglwyddo, yn amodol ar 'fesurau' y cyflogwr yn y dyfodol |
| Rhiant-sefydlia | Darparwr Gwasanaethau Adsefydlu wedi'u Comisiynu | Bydd Telerau ac Amodau cytundebol yn cael eu diogelu wrth drosglwyddo, yn amodol ar 'fesurau' y cyflogwr yn y dyfodol |
| Cadwyn Gyflenwi | Y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf (Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol) | Bydd Telerau ac Amodau cytundebol yn cael eu diogelu wrth drosglwyddo, yn amodol ar 'fesurau' y cyflogwr yn y dyfodol |
| Cadwyn Gyflenwi | Darparwr Gwasanaethau Adsefydlu wedi'u Comisiynu | Bydd Telerau ac Amodau cytundebol yn cael eu diogelu wrth drosglwyddo, yn amodol ar 'fesurau' y cyflogwr yn y dyfodol |

## Trosolwg o'r Diwrnod Cyntaf

| Ardal | Newidiadau Allweddol ar gyfer y Diwrnod Cyntaf | Beth na fydd yn newid ar gyfer y Diwrnod Cyntaf[6] |
|---|---|---|
| Cyffredinol | Bydd prosesau Sicrhau Ansawdd Allanol a chyfarwyddiadau'r gwasanaeth prawf wedi cael eu diweddaru i adlewyrchu'r diwrnod cyntaf.<br><br>Bydd y Rhaglen yn cynnwys dogfennau canllaw a mapiau proses sy'n dal yn berthnasol ar gyfer y Cwmni Adsefydlu Cymunedol.<br><br>Bydd Safonau Cenedlaethol newydd ar waith sy'n adlewyrchu uchelgeisiau ar gyfer disgwyliadau ymarfer, ond ni fyddant yn cael eu dilyn yn gyson ar draws y busnes tan ar ôl y diwrnod cyntaf. | |
| Llysoedd | Bydd rhestr wedi ei diweddaru o gysylltiadau ar gyfer Timau Ymyriadau yn y gwasanaeth prawf newydd.<br><br>Bydd staff y llys yn gallu cael gafael ar restr wedi ei diweddaru o ymyriadau yn yr ardal i ddiwallu anghenion defnyddwyr ac i oleuo cynigion cyn-dedfrydu.<br><br>Bydd gwasanaeth digidol newydd sy'n darparu ffordd symlach o gael gafael ar wybodaeth wedi cael ei gyflwyno | Ni fydd gweithgarwch presenoldeb y Gwasanaeth Prawf mewn llysoedd, y defnydd o adroddiadau cyn-dedfrydu na'r dull o ddelio â thorri amodau yn newid ar y diwrnod cyntaf.<br><br>Bydd systemau a phrosesau presennol y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn parhau ar waith i roi gwybod i Dimau Ymyriadau am ofynion dedfrydau ar ôl dedfrydu. |

[6] Mae hyn yng nghyd-destun y rhan fwyaf o'r staff. Mewn perthynas â defnyddio Systemau presennol y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, rydym yn cydnabod y bydd yn arwydd o newid ar gyfer rhai o staff y Cwmni Adsefydlu Cymunedol (e.e. y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol hynny sydd â systemau pwrpasol ar waith ar gyfer atgyfeiriadau ac amserlennu Gwaith Di-dâl).

| Ardal | Newidiadau Allweddol ar gyfer y Diwrnod Cyntaf | Beth na fydd yn newid ar gyfer y Diwrnod Cyntaf |
|---|---|---|
| Y ddedfryd Rheoli | Bydd yr holl staff sy'n darparu Rheoli Dedfrydau yn gweithio yn y gwasanaeth prawf newydd.<br><br>Bydd yr holl ddata o systemau Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol nad ydynt yn perthyn i awdurdod wedi cael eu symud i ganiatáu mynediad di-dor i staff gweinyddol achosion.<br><br>Bydd model haenau newydd ar waith[7]<br><br>Nodir y gofynion cyswllt sylfaenol newydd yn y Safonau Cenedlaethol gyda'r dewis o ddefnyddio mathau eraill o gyswllt i ategu goruchwyliaeth. Bydd achosion goruchwylio ar ôl dedfrydu yn cael eu heithrio o'r cyswllt wyneb yn wyneb misol.<br><br>Bydd Ymarferwyr Prawf yn cyflawni gwaith newid strwythuredig i gyflawni'r diwrnodau Gofynion Gweithgaredd Adsefydlu sy'n ofynnol lle bo'n briodol, ac i ategu darpariaeth Gwasanaethau Adsefydlu wedi'u Comisiynu. Bydd portffolio newydd o becynnau cymorth ar gael a fydd yn cynnwys canllawiau a deunyddiau i Ymarferwyr Prawf gyfeirio atynt a'u defnyddio wrth gyflawni gwaith newid.<br><br>Bydd proses ddiwygiedig ar gyfer delio â throsglwyddiadau i mewn ac allan i ranbarthau eraill, a fydd yn cynnwys sut y trosglwyddir ymyriadau. | Ni fydd unrhyw newid i'r mathau o lwyth achosion a chydweithwyr a oedd wedi eu lleoli'n flaenorol yn y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn cadw achosion risg isel a chanolig.<br><br>Bydd yr holl swyddogaethau gweinyddu achosion yn dilyn yr un prosesau ag ar hyn o bryd i raddau helaeth.<br><br>Bydd yr Adnodd Rheoli Llwyth Gwaith presennol yn parhau (ond bydd llwyth achosion y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn cael ei gynnwys ynddo).<br><br>Bydd cyn dimau'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn gallu parhau i ddyrannu yn unol â'u model haenu eu hunain a pharhau i ddefnyddio eu hoffer rheoli llwyth gwaith eu hunain os byddant yn penderfynu gwneud hynny.<br><br>Bydd systemau a phrosesau presennol y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn parhau i fod yn eu lle ar gyfer asesu ac uwchgyfeirio risg yn ogystal ag ar gyfer asesu cymhwysedd ac addasrwydd ar gyfer Rhaglenni Achrededig. |

[7] Bydd y broses ddyrannu'n digwydd yn unol â'r model haenau newydd yn holl hen dimau'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, a bydd hen dimau'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol wedi penderfynu a ddylid dilyn hyn neu barhau i ddyrannu'n unol â'u model haenau eu hunain

| | | |
|---|---|---|
| Y ddedfryd Rheoli | Gwasanaeth digidol, prosesau ac arweiniad newydd ar gyfer cyfeirio unigolion dan oruchwyliaeth at Wasanaethau Adsefydlu wedi'u Comisiynu, yn ogystal â mecanwaith i ddarparwyr y Gwasanaethau Adsefydlu wedi'u Comisiynu roi gwybodaeth am yr ymyriadau maent yn eu darparu i oleuo atgyfeiriadau Ymarferwyr Prawf.<br><br>Yng Nghymru, bydd Hyb Ailsefydlu, Atgyfeirio a Gwerthuso Gweithredol a Chanolog (CORRE) yn rheoli'r rhyngwynebu rhwng Ymarferwyr Prawf a'r dirwedd ymyriadau gymhleth. Bydd Hyb CORRE yn cynorthwyo Ymarferwyr Prawf drwy ganfod ymyriadau addas, cwblhau atgyfeiriadau, monitro cynnydd unigolion sy'n cael eu goruchwylio a chadw'r ddedfryd ar y trywydd iawn. | Bydd systemau a phrosesau presennol y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn dal ar waith ar gyfer atgyfeiriadau i leoliadau Gwaith Di-dâl, Rhaglenni Achrededig, Ymyriadau Strwythuredig ac Uwch Ganolfannau Ymbresenoli.<br><br>Bydd y broses bresennol yn parhau mewn grym ar gyfer delio â throsglwyddiadau o wasanaethau ieuenctid. |

| Ardal | Newidiadau Allweddol ar gyfer y Diwrnod Cyntaf | Beth na fydd yn newid ar gyfer y Diwrnod Cyntaf |
|---|---|---|
| Ailsefydlu | Bydd yr adroddiad trosglwyddo gan y Rheolwr Troseddwyr yn y Carchar a'r Ymarferydd Prawf (Rheolwr Troseddwyr Cymunedol) ar gyfer achosion risg isel a chanolig yn cael ei rannu â staff blaenorolETTG hefyd.<br><br>Bydd Gwasanaethau Adsefydlu wedi'u Comisiynu ar gyfer Llety a Mentora ar gael cyn ac ar ôl y rhyddhau.<br><br>Bydd gwasanaethau Cyflogaeth, Hyfforddiant ac Addysg, a Gwasanaethau Adsefydlu eraill sydd wedi'u Comisiynu ar gyfer Llesiant Personol, ar gael ar ôl y rhyddhau.<br><br>Mae gwasanaeth digidol newydd ar gael ar gyfer atgyfeiriadau i'r Gwasanaethau Adsefydlu wedi'u Comisiynu.<br><br>Bydd rhai rhanbarthau sy'n mabwysiadu'n gynnar yn symud i swyddogaeth dedfrydau byr, gan greu llwybr cyflym i sicrhau bod y garfan hon yn gallu cael gafael ar wasanaethau'n amserol.<br><br>Bydd pawb sy'n gadael y carchar yn cael pecyn adsefydlu er mwyn iddynt gael yr wybodaeth sydd ei hangen arnynt am eu dewisiadau adsefydlu a'r hyn a ddisgwylir ganddynt ar ôl iddynt gael eu rhyddhau. | Ni fydd unrhyw newid i'r pwynt trosglwyddo rhwng Rheolwyr Rheoli Troseddwyr yn y Ddalfa ac Ymarferwyr Prawf (Rheolwyr Troseddwyr Cymunedol).<br><br>Bydd amlder contractau cyn ac ar ôl rhyddhau yn aros yr un fath.<br><br>Bydd yr Adnodd Sgrinio Sylfaenol ar gyfer y Ddalfa yn dal i gael ei gwblhau.<br><br>Ni fydd unrhyw newid o ran y ffordd o ddelio â'r garfan sydd heb gael ei dyfarnu'n euog a'i dedfrydu (bydd adnoddau Rheoli Troseddwyr yn y Ddalfa, a staff sy'n symud o dimau Gwella'r Gwasanaethau drwy'r Giât (ETTG), yn dal i gael eu defnyddio ar gyfer hynny).<br><br>Bydd staff blaenorol ETTG sy'n symud i'r gwasanaeth prawf newydd yn dal i ddarparu cymorth ar gyfer Cyllid, Budd-daliadau a Dyledion). |
| Gwasanaethau i Ddioddefwyr | Bydd y llythyr cyswllt blynyddol i ddioddefwyr yn cynnwys gwybodaeth fanwl, gan gynnwys categori diogelwch y carchar. | Fel arall, bydd gwasanaethau i ddioddefwyr yn parhau fel y maent ar hyn o bryd. |

| Ardal | Newidiadau Allweddol ar gyfer y Diwrnod Cyntaf | Beth na fydd yn newid ar gyfer y Diwrnod Cyntaf |
|---|---|---|
| Gwaith Di-dâl | Bydd staff craidd sy’n darparu Gwaith Di-dâl yn gweithio yn y gwasanaeth prawf newydd. Gall rhai mudiadau sy’n elwa barhau i oruchwylio grwpiau neu unigolion.<br><br>Bydd y Llawlyfr Gwasanaeth Gwaith Di-dâl yn cael ei ddiweddaru i nodi prosesau a chanllawiau clir ar gyfer cyflawni.<br><br>Bydd mesurau perfformiad newydd ar gyfer asesiadau Gwaith Di-dâl yn cael eu cwblhau o fewn 10 diwrnod busnes i’r ddedfryd.<br><br>Bydd mesur perfformiad ar gyfer unigolion dan oruchwyliaeth sy’n dechrau Gwaith Di-dâl o fewn 15 diwrnod i’r ddedfryd. | Bydd modelau gweithredu presennol o ddarparu Gwaith Di-dâl yn parhau (bydd y rhain yn amrywio ar draws rhanbarthau ac o fewn rhanbarthau)<br><br>Bydd achosion o Waith Di-dâl sydd eisoes yn digwydd yn parhau.<br><br>Bydd modelau gweinyddu achosion presennol y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn parhau i ategu’r gwaith o gyflawni Gwaith Di-dâl.<br><br>Bydd atgyfeiriadau i leoliadau Gwaith Di-dâl yn cael eu gwneud drwy NDelius (nid yw hyn yn newid i’r rhan fwyaf o Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol, ond bydd yn berthnasol i’r ddau Gwmni Adsefydlu Cymunedol sy’n defnyddio system bwrpasol ar gyfer y gweithgaredd hwn ar hyn o bryd).<br><br>Bydd y gwaith o amserlennu goruchwylwyr ar brosiectau Gwaith Di-dâl yn cael ei wneud drwy daenlenni a gwybodaeth staff (bydd hyn yn newid i Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol sydd ar hyn o bryd yn defnyddio system bwrpasol i wneud y gweithgaredd hwn).<br><br>Bydd prosesau ar waith i alluogi pobl a mudiadau lleol i wneud enwebiadau ar gyfer cynlluniau Gwaith Di-dâl yn eu hardal. |

| Ardal | Newidiadau Allweddol ar gyfer y Diwrnod Cyntaf | Beth na fydd yn newid ar gyfer y Diwrnod Cyntaf |
|---|---|---|
| Rhaglenni Achrededig | Rhaglenni Achrededig Bydd yr holl staff sy'n darparu Rhaglenni Achrededig yn gweithio yn y gwasanaeth prawf newydd.<br><br>Archwiliadau amseroldeb newydd i sicrhau bod y gofynion yn cael eu cwblhau mewn pryd. | Ar y lleiaf, bydd yr un gyfres o Raglenni Achrededig yn cael eu darparu ym mhob ardal.<br><br>Bydd Rhaglenni Achrededig sydd eisoes ar waith yn parhau.<br><br>Bydd y gwaith o gyfeirio a rheoli Rhaglenni Achrededig yn cael ei wneud drwy systemau a phrosesau presennol y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol.<br><br>Bydd prosesau presennol y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn asesu cymhwysedd ac addasrwydd ar gyfer Rhaglenni Achrededig.<br><br>Bydd y gwasanaeth Gweithiwr Cyswllt Partner yn parhau i fod yn ei le. |
| Ymyriadau Strwythuredig | Bydd yr holl staff sy'n darparu Ymyriadau Strwythuredig yn gweithio yn y gwasanaeth prawf newydd.<br><br>Bydd Panel Ymyriadau Effeithiol cenedlaethol wedi cael ei sefydlu i adolygu effeithiolrwydd ymyriadau. | Bydd y Gofynion Gweithgaredd Adsefydlu a'r adolygiad yn parhau fel y maent.<br><br>Bydd angen i Ymarferwyr Prawf gyfeirio a rheoli drwy systemau presennol y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol. |

| | | |
|---|---|---|
| Gwasanaethau Adsefydlu wedi'u Comisiynu drwy'r Fframwaith Dynamig | Sefydlwyd Gwasanaethau Adsefydlu wedi'u Comisiynu drwy'r Fframwaith Dynamig ym mhob ardal heblaw Manceinion Fwyaf, ac ar gyfer gwasanaethau i fenywod yn Llundain. Bydd contractau ar waith i ddarparu'r gwasanaethau neu'r carfannau penodol a ganlyn:<br>• Llety (ar lefel ranbarthol).<br>• Cyflogaeth, Hyfforddiant ac Addysg (ar lefel ranbarthol).<br>• Llesiant Personol (ar lefel Comisiynydd Heddlu a Throseddu).<br>o Cynhwysiant Cymdeithasol.<br>o Ffordd o fyw a Chymdeithion.<br>o Teulu a phobl eraill arwyddocaol.<br>o Llesiant Emosiynol.<br>• Gwasanaethau i Fenywod (ar lefel Comisiynydd Heddlu a Throseddu).<br>• Gwasanaethau i Oedolion Ifanc (yng Nghymru yn unig ac ar lefel Comisiynydd Heddlu a Throseddu Cymru).<br>Ym Manceinion Fwyaf, bydd gwasanaethau wedi eu comisiynu ar y cyd ag Awdurdod Cyfun Manceinion Fwyaf ar waith.<br>Yn Llundain, bydd gwasanaethau i fenywod wedi eu comisiynu ar y cyd â Swyddfa'r Maer ar gyfer Plismona a Throsedd ar waith.<br>Bydd canllawiau rheoli contractau newydd ar waith. | Ym mhob ardal ar wahân i Fanceinion Fwyaf, bydd y gwasanaethau statudol presennol yn parhau i ddarparu gwaith sy'n gysylltiedig â Chyllid, Budd-daliadau a Dyledion yn ogystal â Dibyniaeth ac Adfer. |

| | | |
|---|---|---|
| | Bydd yr holl ymyriadau a gwasanaethau sydd ar gael yn cael eu cynnwys mewn gwasanaeth digidol newydd, a bydd gan Ymarferwyr Prawf fynediad at adborth clir ac amserol ar gyflawni a chynnydd Gwasanaethau Adsefydlu wedi'u Comisiynu.<br><br>Bydd proses gyfeirio glir, gyda staff prawf yn defnyddio'r gwasanaeth digidol newydd, a bydd darparwyr yn gallu cofnodi a chyfleu gwybodaeth am wasanaethau ac am risg, diffyg cydymffurfio a chynnydd. | |
| **Ardal** | **Newidiadau Allweddol ar gyfer y Diwrnod Cyntaf** | **Beth na fydd yn newid ar gyfer y Diwrnod Cyntaf** |
| Comisiynu ymyriadau eraill (nad oes modd eu gorfodi) sy'n cael eu rhoi ar gontract allanol | Bydd Cyfarwyddwyr Prawf Rhanbarthol, timau comisiynu a chymorth masnachol y pencadlys a thimau comisiynu a rheoli contractau rhanbarthol yn gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau, a byddant yn deall y rheolau a'r broses ar gyfer comisiynu a chyd-gomisiynu gan gynnwys ar gyfer beth y gellir/na ellir defnyddio cyllid y Gronfa Canlyniadau ac Arloesi Rhanbarthol.<br><br>Mae mecanwaith ar waith sy'n galluogi'r rhai rydym yn comisiynu gwasanaethau ganddynt i gyflwyno ceisiadau am daliadau ac i gynorthwyo ag ymholiadau am daliadau. | |

# Ar ôl y Diwrnod Cyntaf: Map o gyflawni'r model gweithredu targed

Ar ôl y Diwrnod Cyntaf, byddwn yn ceisio rhoi rhagor o newidiadau ar waith sy'n ceisio sefydlogi a thrawsnewid gwasanaethau er mwyn cyflawni ein model gweithredu targed. Mae'r map bras ar gyfer cyflawni hyn wedi ei gynnwys isod.

### Ffigur 5a. Map ar ôl y Diwrnod Cyntaf: Y broses a'r gweithrediadau

| Pontio<br>Fawr iawn o newid | Sefydlogi<br>Integreiddio Strwythurol | Cysoni<br>Integreiddio Gweithredol | Trawsnewid<br>Gwireddu Manteision ac Arbedion Effeithlonrwydd |
|---|---|---|---|
| Meh – Medi 2021 | Medi – Rhag 2021 | Ion – Maw 2022 | Ebr 2022 – 2024 a thu hwnt |
| **Proses a Gweithrediadau** | | | |
| **Fawr iawn o newid i brosesau gweithredol**<br>Bydd timau NPS etifeddol a chyn dimau CRC yn parhau i ddilyn eu priod brosesau presennol lle bo'n bosibl. | **Caiff rhai prosesau gweithredol eu blaenoriaethu er mwyn eu cysoni ar ôl uno.**<br>**Dechrau symud i lwyth achosion cymysg**<br>Staff yn dechrau rheoli achosion ar lefelau risg isel, canolig ac uchel. | **Cysoni'r holl brosesau gweithredol**<br>• Caiff Safonau Cenedlaethol eu gweithredu'n gyson ar draws y busnes.<br>• Bydd prosesau gweinyddu achosion wedi cael eu cysoni<br>**Cwblhau'r broses o symud i lwyth achosion cymysg**<br>Staff yn rheoli achosion ar draws lefelau risg gwahanol. | **Prosesau gweithredol yn dod yn fwy effeithlon**<br>Bydd prosesau gweithredol yn newid yn unol â'r trawsnewid digidol. |

**Ffigur 5b. Map ar ôl y diwrnod cyntaf: Newidiadau o ran strwythur, sefydliad a phobl**

**Pobl, Newidiadau Sefydliadol a Strwythurol**

### Pontio – Fawr iawn o newid
Meh – Medi 2021

- **Sefydlu a Hyfforddi**
  Bydd staff wedi cael eu sefydlu ac wedi cael hyfforddiant sylfaenol wedi'i flaenoriaethu a bydd y staff mewn swyddi corfforaethol sy'n trosglwyddo wedi cael hyfforddiant ar brosesau a systemau MOJ/HMPPS/NPS.
- **Rheoli Llinell**
  Staff yn dechrau symud i strwythurau tîm rhanbarthol ar systemau Adnoddau Dynol yn unol â lleoliadau staff.
- **Timau cysgodi**
  Mae timau CRC (gweithredol ac ymyriadau) yn parhau yn eu strwythurau tîm presennol ac yn symud i dimau rhanbarthol ochr yn ochr â lleoliadau staff ar ôl trosglwyddo.
- **Timau cysgodi**
  Mae timau NPS (gweithredol ac ymyriadau) yn parhau mewn timau rhanbarthol dros dro ac yn cael eu cadarnhau i dimau rhanbarthol ochr yn ochr â lleoliadau staff ar ôl trosglwyddo.

### Sefydlogi – Integreiddio Strwythurol
Medi – Rhag 2021

- **Rheoli Llinell**
  Caiff pob aelod o staff ei symud i strwythurau tîm rhanbarthol ar systemau Adnoddau Dynol yn unol â lleoliadau staff.
- **Hyfforddiant**
  Bydd staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ôl trosglwyddo ar systemau ategol, ac ar ffyrdd newydd/gwahanol o weithio.

### Cysoni – Integreiddio Gweithredol
Ion – Maw 2022

- **Timau Integredig**
  Bydd staff y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r CRC wedi cwblhau eu lleoliadau – a bydd y staff yn cael eu neilltuo i strwythurau timau rhanbarthol integredig.
- **Fetio**
  Wedi cwblhau'r broses fetio ar gyfer yr holl staff sydd wedi cael eu trosglwyddo.
- **Hyfforddiant**
  Dechrau cam nesaf yr hyfforddiant ar ôl trosglwyddo ar gyfer staff (Cam 3).

### Trawsnewid – Gwireddu Manteision ac Arbedion Effeithlonrwydd
Ebr 2022 – 2024 a thu hwnt

- **Hyfforddiant**
  Wedi cwblhau'r broses ddysgu ar ôl trosglwyddo – Cam 3.
- **Hyfforddiant**
  Dechrau'r broses ddysgu ar ôl trosglwyddo – Cam 4.

## Ffigur 5c. Map ar ôl y Diwrnod Cyntaf: Digidol, data a thechnoleg

| Pontio<br>Fawr iawn o newid | Sefydlogi<br>Integreiddio Strwythurol | Cysoni<br>Integreiddio Gweithredol | Trawsnewid<br>Gwireddu Manteision ac Arbedion Effeithlonrwydd |
|---|---|---|---|
| Meh – Medi 2021 | Medi – Rhag 2021 | Ion – Maw 2022 | Ebr 2022 – 2024 a thu hwnt |
| **Digidol, Data a Thechnoleg** | | | |
| **Cyflwyno Technoleg ac elfennau Digidol, a Symud Data**<br>Mae pob aelod o staff CRC sy'n cael eu trosglwyddo wedi derbyn offer technolegol. Mae data a staff a drosglwyddir wedi cael eu symud o seilwaith CRC i seilwaith y gwasanaeth prawf.<br><br>**Newidiadau strwythurol i systemau**<br>Mae timau CRC (gweithredol ac ymyriadau) yn parhau yn eu strwythurau tîm presennol ar systemau TG prawf ac maent yn symud i strwythurau rhanbarthol ar systemau TG prawf yn unol â lleoliadau staff a mudo llwyth achosion.<br><br>**Gwasanaeth Ymyriadau a Digidol newydd**<br>Bydd Ymarferwyr Prawf yn gallu dod o hyd i Wasanaethau Adsefydlu wedi'u Comisiynu, cyfeirio atynt a'u rheoli drwy wasanaeth digidol newydd. | **Cwblhau rhagor o newidiadau strwythurol i systemau**<br>Wedi gorffen symud timau CRC (gweithredol ac ymyriadau) o'r strwythurau tîm presennol ar systemau TG prawf i strwythurau rhanbarthol ar systemau TG prawf yn unol â'r broses o symud llwyth achosion.<br><br>**Adnodd Mesur Llwyth Gwaith**<br>Bydd Adnodd Mesur Llwyth Gwaith digidol newydd ar gael. | **Gwasanaeth digidol gwell cyn dedfrydu**<br>Bydd gwasanaeth digidol newydd yn cefnogi gwaith prawf cyn dedfrydu.<br><br>**Gwasanaeth Digidol newydd ar gyfer yr holl ymyriadau**<br>Bydd staff yn gallu rheoli'r holl ymyriadau drwy un gwasanaeth digidol newydd. | **Asesiad digidol newydd**<br>Bydd adnodd digidol deinamig ac ymarferol newydd ar gael ar gyfer asesu risgiau, a bydd modd ei ddefnyddio drwy gydol y broses prawf. |

Pennod 3

# Y model gweithredu targed



## Pennod 3: Y model gweithredu targed ................................41

Egwyddorion Dylunio Trosfwaol ........................................................................ 41

**Rhan Un: Cyflawni Rheoli Dedfrydau ................................................................ 42**

Cyngor i'r Llys ......................................................................................................... 49

Rheoli Dedfrydau ..................................................................................................... 53

Ailsefydlu .................................................................................................................. 69

**Rhan Dau: Darparu ymyriadau a gwasanaethau adsefydlu ........................ 84**

Ymyriadau Adsefydlu ac Ailsefydlu wedi eu Comisiynu ................................... 84

Y Fframwaith Dynamig ........................................................................................... 84

Cyflwyno Ymyriadau yn Fewnol ........................................................................... 98

Gwaith Di-dâl ..........................................................................................................101

Rhaglenni Achrededig ac Ymyriadau Strwythuredig ....................................... 109

Uwch Ganolfannau Ymbresenoli ......................................................................... 122

**Rhan Tri: Gwasanaethau i Ddioddefwyr ........................................................ 123**

**Rhan Pedwar: Cefnogi'r broses o Ddarparu'r Model Newydd ................. 130**

Fframwaith Perfformiad ....................................................................................... 130

Cynnwys y Defnyddiwr ......................................................................................... 136

Atebolrwydd rhanbarthol, cynllunio busnes a chomisiynu ............................. 143

Strwythurau Rhanbarthol ..................................................................................... 143

Galluogi pobl i wneud eu gorau: Cefnogi ein pobl .......................................... 155

Moderneiddio ein hystâd ...................................................................................... 162

Moderneiddio ein gwasanaethau technoleg, digidol a data ............................ 166

# Pennod 3: Y model gweithredu targed

## Egwyddorion Dylunio Cyffredinol

Mae datblygu'r model gweithredu targed wedi cael ei ategu gan gyfres gyson o egwyddorion dylunio cyffredinol, ac rydym wedi defnyddio'r rhain wedyn wrth ddylunio elfennau allweddol o'r model (fel yr amlinellir ym mhob un o'r adrannau perthnasol isod).

**Ffigur 6. Egwyddorion dylunio cyffredinol**

| | |
|---|---|
| Canolbwyntio ar y defnyddiwr | Bydd y gwasanaethau'n gweithio i'r bobl sydd angen cael gafael arnyn nhw a'u defnyddio. Bydd dealltwriaeth fanwl o'n grwpiau defnyddwyr gan gynnwys pob cohort o'r rheini sy'n ymwneud â'r gwasanaethu prawf a'n holl bartneriaid yn sicrhau bod ein dyluniad yn diwallu eu hanghenion. |
| Costeffeithiol | Ni fydd gwasanaethau'n dyblygu tasgau a phrosesau, byddant yn defnyddio gwasanaethau sydd eisoes ar gael a rhai sydd ar gael am ddim yn y ffordd orau, a byddant yn manteisio i'r eithaf ar y dechnoleg a'r offer digidol sydd ar gael i ni. Pan fyddwn yn dod o hyd i ddewisiadau ymarferol eraill, byddwn yn defnyddio'r dewis mwyaf costeffeithiol sy'n darparu gwasanaethau o ansawdd. |
| System gyfan | Mae ein dyluniad yn cydnabod bod y gwasanaeth prawf yn rhan o system cyfiawnder ehangach. Nid yw ein dyluniad, felly, yn system sy'n gweithio ar ei phen ei hun. Mae hyn yn sicrhau bod cysondeb yn cael ei gynnal ym mhrofiad y defnyddiwr ar draws y system gyfan. |
| Cyson ond hyblyg | Mae ein dyluniad yn ceisio taro'r cydbwysedd iawn rhwng cysondeb cenedlaethol i sicrhau gwasanaethau o ansawdd da ar draws y wlad, a hyblygrwydd rhanbarthol er mwyn gallu teilwra'r dyluniad i ddiwallu anghenion lleol. Mae'r dyluniad yn cynnwys hyblygrwydd i ymateb i anghenion newydd ac sy'n newid. |
| Ar sail tystiolaeth | Mae ein dyluniad yn seiliedig ar wersi sydd wedi cael eu dysgu o'r modelau cyflawni blaenorol a'r deunyddiau ymchwil sydd ar gael. Bydd ein dyluniad yn sicrhau ein bod yn profi'r gwasanaeth â defnyddwyr yn rheolaidd er mwyn gwella'r dyluniad yn gyson. |
| Gwaith partneriaeth effeithiol | Mae ein dyluniad yn golygu bod gwasanaeth prawf ac asiantaethau partner yn gallu cydweithio'n effeithiol, gan ddefnyddio'r sgiliau a'r arbenigedd sydd ar gael yn y ffordd orau mewn gwahanol rannau o'r model a'r system. Mae ein dyluniad yn sicrhau bod y rhyngwyneb rhwng partneriaid yn gweithio'n effeithiol er mwyn cyfathrebu a rhannu gwybodaeth rhwng y bobl iawn, ar yr adeg iawn, er mwyn gallu cyflawni'r gwasanaeth a rheoli dedfrydau'n effeithiol. |
| Cynhwysol | Mae ein dyluniad yn ceisio bod yn gynhwysol ac mae'n ystyried realiti ac effaith gwahaniaethu. Mae ein dyluniad yn cofleidio'r ymrwymiad sydd yn Strategaeth Cydraddoldeb HMPPS bod gan bob gwasanaeth newydd ffocws penodol ar gydraddoldeb yn eu dyluniad, ac mae'n ystyried anghenion cohortau gwahanol o unigolion gan gynnwys grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig. |

# Rhan Un: Cyflawni Rheoli Dedfrydau

Mae'r adran hon yn cynnwys cyngor i'r llys, ein hagwedd at weithgareddau Rheoli Dedfrydau a'r model ar gyfer gwasanaethau ailsefydlu.


## Cyngor i'r Llys

Mae timau prawf y llys yn rhan ganolog o gynorthwyo cyfiawnder. Maent yn gweithio'n uniongyrchol mewn llysoedd ac, i bob pwrpas, maent yn nodi dechrau siwrnai unigolyn drwy'r system brawf. Maent yn darparu cyngor arbenigol i ddedfrydwyr i gynorthwyo dedfrydu effeithiol a diogel, rheoli'r ddedfryd, y camau gorfodi a'r oruchwyliaeth farnwrol yn ddidrafferth.

Mae Ymarferwyr Prawf yn y llys yn sicrhau bod asesu risg a chyngor cyn-dedfrydu yn seiliedig ar egwyddorion gwarchod y cyhoedd, ailsefydlu ac yn darparu dewisiadau dedfrydu diogel sy'n galluogi'r Llys i bennu'r amodau gorau posibl i yrru siwrnai adsefydlu lwyddiannus. Maent yn cyflawni hyn drwy ddarparu cyngor cyn-dedfrydu arbenigol i ddedfrydwyr, cyfrannu at brosesau llys effeithlon a threfniadau i alluogi cychwyn dedfrydau yn llwyddiannus.

**Ffigur 7. Mae beth Asesu, Diogelu, Newid yn ei olygu i waith llys**

Fel yr amlinellir ym Mhennod 1, rôl graidd y gwasanaethau prawf yw ‘Asesu, Diogelu, Newid’. Mae’r diagram isod yn amlinellu beth mae hyn yn ei olygu yng nghyd-destun rhoi cyngor i’r llys.



## Egwyddorion Dylunio

| Egwyddor gyffredinol y dyluniad | Sut mae'n berthnasol i gynghori dylunio'r llys |
|---|---|
| Dyluniad sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr | Sicrhau bod staff yn y llys yn derbyn hyfforddiant cynhwysfawr, gan gynnwys ar gymhwysedd diwylliannol, datblygiad proffesiynol parhaus a chefnogaeth sy'n pwysleisio hyder barnwrol a chydnabyddiaeth broffesiynol.<br><br>Targedu gwasanaethau, ymgynghori a chyd-gynllunio â rhanddeiliaid allweddol: y farnwriaeth, dioddefwyr ac unigolion sy'n ymddangos gerbron y llys.<br><br>Mynnu bod staff yn ysgrifennu adroddiadau cyn-dedfrydu i gwblhau asesiadau cynhwysfawr, gan dargedu ymyriadau sy'n mynd i'r afael ag anghenion unigolion ac yn lleihau aildroseddu. I ddechrau, bydd staff gwasanaeth prawf y llys yn parhau i ddefnyddio'r Offeryn Fframwaith Cynigion Effeithiol i ddod o hyd i ymyriadau addas.<br><br>Parhau i fynnu bod staff yn sicrhau bod amddiffyn y cyhoedd, ailsefydlu ac effaith ar ddioddefwyr yn rhan ganolog o'r holl asesiadau a gwblheir ganddynt.<br><br>Mynnu bod cyfweliadau ar ôl dedfryd yn cael eu targedu'n briodol i ganfod a chyfathrebu'n effeithiol faterion sy'n ymwneud â bregusrwydd a risg, gan sicrhau'r cychwyn gorau posibl ar ôl dedfrydu, gan gynnwys diogelu'r defnyddiwr gwasanaeth.<br><br>Datblygu capasiti ychwanegol ar gyfer hyfforddiant ac ymgysylltu ag arweinwyr i'r farnwriaeth er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cyfle i gynyddu hyder yn y gwasanaeth prawf a darparu gwasanaethau drwy Reoli Dedfrydau, ymyriadau mewnol a Gwasanaethau Adsefydlu wedi'u Comisiynu (drwy'r Fframwaith Dynamig). |
| Dyluniad cost effeithiol/ effeithlon | Ceisio cytuno ar nodau ar y cyd â Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (GLITEM), a fydd yn cydbwyso effeithlonrwydd y llys a darparu cyngor amserol ag ansawdd y mewnbwn gan y gwasanaeth prawf i sicrhau canlyniadau cadarnhaol o ran dedfrydu ac adsefydlu.<br><br>Archwilio'r dulliau mwyaf effeithlon o ddefnyddio staff ac adnoddau i ddarparu adroddiadau cyn-dedfrydu a gwasanaethau llys, gan gynnwys cyd-destunau adfer yn sgil COVID a diwygio digidol. |

| | |
|---|---|
| Dylunio system gyfan | Cysoni uchelgeisiau a rhyngwynebau â'r Gweithlu Prawf, Diwygio GLITEM, Ad-drefnu Carchardai'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf a rhaglenni perthnasol eraill i sicrhau gwelliannau cyffredinol.<br><br>Datblygu dulliau dadansoddi a monitro i sefydlu effeithlonrwydd y system ac a yw'r gwelliannau'n hwyluso cyflwyno adroddiadau cyn-dedfrydu ac yn lleihau achosion o dorri amodau ac aildroseddu.<br><br>Ystyried sut i wneud yn fawr o'r hyblygrwydd a ddaw gyda'r fframwaith dedfrydu i sicrhau bod penderfyniadau ynghylch y Gofynion Gweithgaredd Adsefydlu mwyaf priodol ar gyfer unigolion yn cael eu gwneud ar yr adeg iawn, a'u bod yn seiliedig ar asesiad addas.<br><br>Cynllunio carfannau, mynd ar drywydd ac asesu'r baich gwaith carchardai a phrawf yn rhagweithiol; cynorthwyo â chomisiynu a sicrhau hyfywedd gweithredol ymyriadau a llwyddiant y Fframwaith Dynamig.<br><br>Rydym yn ceisio sicrhau fel egwyddor systemau cyfan bod defnyddwyr gwasanaethau yn cael y dechrau gorau posibl i reoli eu dedfryd a chydymffurfio â'r apwyntiad cyntaf ar ôl dedfrydu.<br><br>Modelu maint a math y gofynion sydd eu hangen i gynhyrchu digon o alw i sicrhau bod Gwasanaethau Adsefydlu wedi'u Comisiynu yn hyfyw ac y byddant yn llwyddo. |
| Dyluniad sy'n seiliedig ar dystiolaeth | Ystyried y dystiolaeth bresennol ond gan gydnabod bod angen mesurau i sefydlu sylfaen gadarn o 'beth sy'n gweithio yn y llys' fel sail ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol.<br><br>Diffinio presenoldeb staff mewn llysoedd yn well er mwyn sicrhau bod yr holl waith yn cael ei gofnodi a'i gostio'n gywir, gan gynnwys cyflwyno adolygiadau achos, cyflwyno gwybodaeth mechnïaeth, a chwblhau cyfweliadau ar ôl dedfrydu.<br><br>Ystyried y gwersi a ddysgwyd o'r rhaglen adfer, gan gynnwys presenoldeb rhithiol, ac asesu pa mor ymarferol yw lefelau staffio sylfaenol priodol ar gyfer darparu gwasanaethau llys.<br><br>Cyfrannu at ddatblygu mesurau perfformiad sy'n cofnodi effeithiolrwydd y gwaith a gwblhawyd yn y llys, gan gynnwys sut mae staff yn dylanwadu ar gyfiawnder diogel ac yn ei alluogi. |

| Egwyddor gyffredinol y dyluniad | Sut mae'n berthnasol i gynghori dylunio'r llys |
|---|---|
| Dyluniad cyson ond hyblyg | Gweithio gyda rhanbarthau a meysydd eraill o'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf i sicrhau bod gennym y gallu i fod yn hyblyg o ran yr amgylcheddau a'r dulliau gweithredu sy'n newid o ran cyfiawnder yn y Llysoedd.<br><br>Gweithio gyda Chyfarwyddwyr Prawf Rhanbarthol i ddefnyddio capasiti arwain yn effeithiol i ddarparu gwasanaethau'r llys prawf a sicrhau cymaint o gydweithio â phosibl gyda GLITEM a dedfrydwyr.<br><br>Ystyried a cheisio dylanwadu'n gadarnhaol ar newidiadau yn GLITEM i sicrhau bod y presenoldeb gorau a modelau gwasanaeth yn cael eu darparu. |
| Dyluniad gwaith partneriaeth effeithiol | Ymgysylltu'n well â'r Farnwriaeth, magu hyder yn y gwasanaeth prawf, mewn ymyriadau a gynigir drwy'r Fframwaith Dynamig ac mewn ymyriadau mewnol a chyflwyno dedfrydau cymunedol.<br><br>Sicrhau bod y Farnwriaeth yn ymwybodol o'r amrywiaeth o ymyriadau sydd ar gael drwy hyfforddiant ac ymgysylltu, gan gyfathrebu'n barhaus er mwyn sicrhau ansawdd ac effeithiolrwydd y gwasanaethau hynny.<br><br>Adolygu cyfnewid gwybodaeth, prosesau cyfeirio ac asesiadau ar y cyd (lle bo hynny'n briodol) ar y cam cyn ac ar ôl dedfrydu yn y llys i ategu diogelu'r cyhoedd a chanlyniadau adsefydlu. Byddwn yn sicrhau bod y dyluniad yn cynnal ffocws ar ansawdd yr adroddiadau yn unol â gofynion y llys. |
| Dyluniad cynhwysol | O fewn y garfan darged gyffredinol ar gyfer llwyth achosion y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf, sicrhau adroddiadau llawnach ar achosion mwy cymhleth, menywod a defnyddwyr gwasanaeth BAME i sicrhau bod proffiliau anghenion cymhleth yn cael eu nodi a bod modd rhoi sylw iddynt fel rhan o gynllunio dedfrydau.<br><br>Ei gwneud yn ofynnol i staff eirioli, targedu ac asesu addasrwydd gofynion triniaeth dedfryd gymunedol ar y cyd â darparwyr gwasanaethau i roi sylw i anghenion penodol unigolion. |

## Yr achos dros newid a’r sylfaen dystiolaeth

Drwy ddarparu cyngor cyn-dedfrydu arbenigol i ddedfrydwyr, y cyfraniad at brosesau effeithlon yn y llys a’r trefniadau ar gyfer cychwyn dedfrydau llwyddiannus, mae Timau Llys prawf yn rhan ganolog o ategu cyfiawnder a chynyddu dylanwad. Mae Ymarferwyr Prawf yn y llys yn sicrhau bod asesu risg a chyngor cyn-dedfrydu yn seiliedig ar egwyddorion cyfiawnder effeithiol, amddiffyn y cyhoedd ac adsefydlu ac yn darparu dewisiadau dedfrydu diogel sy’n galluogi’r Llys i bennu’r amodau gorau posibl i yrru taith adsefydlu lwyddiannus a diogel.

Yn 2010, gofynnwyd am 211,494 o adroddiadau; erbyn 2018 roedd hyn wedi gostwng i 113,228. Fodd bynnag, mae gostyngiad yng nghyfanswm y gwarediadau dedfrydu hefyd wedi digwydd yn ystod yr un cyfnod. Yn 2010, cofnodwyd cyfanswm o 338,964 o ddedfrydau o garchar neu ddedfrydau cymunedol, yn wahanol i 212,994 yn 2018. Mae’r gostyngiad yn nifer yr adroddiadau cyn-dedfrydu wedi bod yn arbennig o ddifrifol o ran gorchmynion cymunedol. Er enghraifft, yn 2014 derbyniodd 85% o’r holl orchmynion cymunedol adroddiad cyn-dedfrydu, ond erbyn 2019 roedd hyn wedi gostwng i ddim ond 45% o orchmynion cymunedol.

Drwy’r buddsoddiad ychwanegol mewn gwaith llys, rydym eisiau cynyddu’r defnydd o adroddiadau cyn-dedfrydu er mwyn ennyn hyder dedfrydwyr yn y broses o gyflwyno dedfrydau cymunedol a chefnogi’r broses o adsefydlu defnyddwyr gwasanaeth cyn gynted ag y bo modd.

Mae’r angen i gynyddu dylanwad y gwasanaeth prawf yn y llys wedi bod yn un o amcanion cyson Rhaglen Diwygio’r Gwasanaeth Prawf. Yn dilyn trafodaethau gyda defnyddwyr gwasanaethau, rydym yn cydnabod pwysigrwydd rhoi eglurder iddynt ynghylch rôl y gwasanaethau prawf a’r angen am sensitifrwydd a chymhwysedd diwylliannol yn ein dull o ymdrin â nhw, gan y bydd hyn, mewn sawl achos, yn ddechrau ar eu taith drwy’r system gyfiawnder ac yn llywio canfyddiadau ac ymgysylltu yn y dyfodol. Mae ein gwaith diweddar gyda GLITEM i alluogi adfer y System Cyfiawnder Troseddol yn dilyn effaith COVID-19 wedi sefydlu’r sylfaen ar gyfer rhagor o gydweithio. O’r herwydd, byddwn yn parhau i weithio’n agos gyda dedfrydwyr i ganfod a datblygu’r ffordd orau o wella asesiadau, adroddiadau a hyder yn y cyngor a roddir a’r gwasanaethau sydd ar gael i leihau troseddu pellach.

### Buddion a ragwelir

Mae’r diwygiadau’n cynnig cyfleoedd i adeiladu a chynnal sylfaen strategol a gweithredol gref i gynyddu dylanwad y gwasanaeth prawf yn y llys. Bydd yr ethos hwn yn cadarnhau ac yn hyrwyddo statws y gwasanaeth prawf fel gweithlu proffesiynol, arbenigol a hynod fedrus sy’n dylanwadu’n gadarnhaol ar ganlyniadau dedfrydu, ac mae’n gorff blaenllaw yn y System Cyfiawnder Troseddol.

Bydd ein hagwedd at gyngor i'r llys yn helpu i gyflawni dau o'r manteision canolradd rydym yn disgwyl eu sicrhau wrth i'r diwygiadau gael eu rhoi ar waith:

- **Mwy o hyder i ddedfrydwyr yn y gwasanaeth prawf newydd a gwasanaethau prawf dan gontract:** Mae hyn yn cynnwys gwelliant yng nghyfraddau bodlonrwydd barnwyr yn yr Arolwg Dedfrydwyr blynyddol a chyfran uwch o ddefnyddwyr gwasanaethau yn derbyn adroddiadau cyn-dedfrydu lle disgwylir hynny. Byddwn yn monitro hyn drwy wybodaeth reoli a mesurau perfformiad.
- **Cyngor cyn-dedfrydu o safon well:** Ar ôl cyflwyno atebion digidol newydd ar gyfer adroddiadau cyn-dedfrydu, byddwn yn mesur hyn drwy archwiliadau'r Grŵp Sicrwydd Systemau Gweithredol.

### Ystyriaethau cydraddoldeb

Bydd adroddiadau cyn-dedfrydu mwy gwybodus yn sicrhau bod anghenion y rhai sy'n destun achosion llys yn cael eu hystyried yn llawnach. Bydd hyn o fudd arbennig i'r rhai sydd â nodweddion gwarchodedig penodol sy'n golygu eu bod yn debygol o fod ag anghenion a phrofiadau gwahanol y dylid eu cydnabod a'u hadlewyrchu.

Bydd darparu hyfforddiant wedi ei ddiweddaru ar gyfer staff prawf sy'n gweithio yn y llys yn sicrhau eu bod yn ddiwylliannol gymwys gyda'r wybodaeth a'r sgiliau priodol i ddeall anghenion a phrofiadau gwahaniaethol y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig. Bydd y ddealltwriaeth hon yn golygu gwell rhyngweithio gyda'r rhai sy'n destun achosion llys a sicrhau bod eu hanghenion a'u profiadau'n cael eu hadlewyrchu yn eu hadroddiadau cyn-dedfrydu a'u hargymhellion dedfrydu.

Canfu'r Ganolfan Arloesi yn y Llys fod achosion gydag adroddiadau cyn-dedfrydu fwy na 10 gwaith yn fwy tebygol o dderbyn dedfryd gymunedol. Gan hynny, drwy gynyddu'r defnydd o adroddiadau cyn-dedfrydu, gall staff y gwasanaeth prawf alluogi dedfrydwyr i deimlo'n fwy hyderus wrth orchymyn dedfrydau cymunedol.

Canfu adroddiad OSAG Management of Women on Licence – Thematic Report (Ionawr 2020) fod dedfrydau byr yn cyfrif am 83% o holl dderbyniadau'r carchar yn achos menywod yn y flwyddyn hyd at fis Mehefin 2019. Mae'r ymrwymiad i gynyddu a thargedu adroddiadau cyn-dedfrydu felly'n debygol o fod o fudd sylweddol i fenywod a chyfrannu at yr ymrwymiad yn y Strategaeth ar gyfer Troseddwyr sy'n Fenywod i roi pwyslais ar atebion yn y gymuned i fenywod.

Rydym wedi ymrwymo i gyllido'n benodol y gwaith o dargedu adroddiadau cyn-dedfrydu llawnach ar gyfer y rhai o gefndiroedd BAME er mwyn rhoi sylw i'r gwahaniaethau presennol yng nghyfran y dedfrydau o garchar a gânt, yn ogystal â chyfraddau atgyfeirio anghymesur o uchel ar gyfer Gwaith Di-dâl a chyfraddau cyfeirio anghymesur o isel ar gyfer Rhaglenni Achrededig. Bydd hyn yn sicrhau y rhoddir mwy o ystyriaeth i faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth yn yr adroddiadau hyn. Bydd adroddiadau llawnach yn caniatáu asesiadau mwy manwl o unigolion, gan ystyried y ffactorau sy'n dylanwadu ar eu troseddu a'r cryfderau y gallant eu defnyddio i symud oddi wrth droseddu. Maent yn rhoi cyfle i gael ymateb mwy personol a fydd yn sicrhau bod y ddedfryd a roddir yn effeithiol ac yn addas ac yn lleihau'r gwahaniaethau presennol.

Bydd y pwyslais cynyddol ar gyfweliadau ar ôl dedfrydu yn rhoi cyfle i unigolion sydd ag anghenion ychwanegol dynnu sylw at y rhain ac i wasanaethau gael eu haddasu yn unol â hynny.

### Cyngor i'r llys

Yn ôl ei natur, rhaid i gyngor i'r llys ystyried effeithiau ehangach, gan gynnwys diwygio Llysoedd GLITEM, cynllunio deddfwriaethol a chomisiynu cynlluniau peilot i wella canlyniadau dedfrydu. Wrth wella'r cyngor a roddir i'r llys, rydym yn canolbwyntio ar dri maes lefel uchel ac rydym yn cynllunio gweithgareddau penodol i roi'r rhain ar waith, a bydd rhai ohonynt yn cefnogi gwelliannau ehangach:

1. Cynyddu'r defnydd o adroddiadau cyn-dedfrydu a'u hansawdd, gan gynnwys dull gweithredu wedi ei dargedu'n well:

- Darparu gwell asesiadau a chynnydd yn y defnydd o adroddiadau cyn-dedfrydu.

2. Manteisio'n llawn ar ein dylanwad drwy ddatblygu'n hyblyg y ffordd rydym yn cydweithio â dedfrydwyr, a lleoli ymarferwyr yn effeithiol er mwyn dylanwadu ar ganlyniadau.

- Mwy o ymgysylltu â rhanddeiliaid a mwy o gydweithio â dedfrydwyr.
- Defnyddio gwell defnydd o bresenoldeb a chyswllt i wella canlyniadau dedfrydu a chynyddu dylanwad.
- Gwneud mwy o ddefnydd a gwell defnydd o'r cyfweliad ar ôl dedfrydu.

3. Gwella'r amgylchedd gweithredu a'r gallu ar gyfer timau'r llysoedd prawf:

- Gweithredu seilwaith TGCh gwell.
- Galluogi cynnig gwell o hyfforddiant.

### Darparu gwell asesiadau a chynnydd yn y defnydd o adroddiadau cyn-dedfrydu

Ar hyn o bryd, mae oddeutu 53% o'r holl achosion a gwblhawyd yn y llys yn derbyn adroddiad cyn-dedfrydu. Drwy fuddsoddi mewn staff ychwanegol, yr uchelgais yw cynyddu hyn i 75%, gyda phwyslais ar ddarparu adroddiadau manylach wedi eu targedu i oleuo dedfrydu effeithiol ac i gefnogi ymatal yn y tymor hir.

Bydd y cynnydd hwn mewn adroddiadau cyn-dedfrydu yn cyd-fynd yn agos â'r gofynion busnes-fel-arfer cyfredol a'r gwaith adfer er mwyn symud tuag at sefyllfa derfynol lle cwblheir mwy o adroddiadau cyn-dedfrydu, wedi eu gwella gan gynnydd mewn ansawdd. Gan gydnabod y profiad o anghymesuredd i fenywod a'r rhai o gefndiroedd BAME, bydd cyfran uwch o adroddiadau manylach yn cael eu cwblhau ar gyfer y grwpiau hyn. Yn yr un modd, bydd y rhai sydd mewn perygl o gael dedfryd garcharol tymor byr yn cael eu nodi a'u blaenoriaethu'n weithredol er mwyn cael adroddiad cyn-dedfrydu fel sail ar gyfer dedfrydu effeithiol a hyfywedd dedfryd gymunedol fel dewis arall yn lle carcharu. Ar gyfer yr achosion hynny sy'n derbyn dedfryd o garchar, bydd yr adroddiad cyn-dedfrydu'n parhau i ddarparu asesiad o'r risg a'r anghenion adsefydlu a fydd yn hwyluso cynllunio dedfrydau'n effeithiol wrth dderbyn i'r ddalfa.

## Mwy o ymgysylltu â rhanddeiliaid a mwy o gydweithio â dedfrydwyr

Mae ymgysylltu a chydweithio effeithiol yn rhan ganolog o sicrhau'r dylanwad mwyaf posibl. Bydd gweithredu'r diwygiadau hyn yn rhoi'r hyblygrwydd i Gyfarwyddwyr Prawf Rhanbarthol ddefnyddio a rhoi adnoddau arwain uwch ar waith fel rhan o strwythurau rhanbarthol a chynnydd mewn buddsoddiad i dimau llys er mwyn ymgysylltu'n effeithiol â dedfrydwyr. Mae'r cynnydd hwn mewn capasiti yn ceisio manteisio i'r eithaf ar ddylanwad y gwasanaeth prawf er mwyn cyflawni:

- darparu tystiolaeth sy'n ymwneud ag effeithiolrwydd ymyriadau a chanlyniadau Rheoli Dedfrydau
- ethos cydweithredol cryf sy'n cael ei atgyfnerthu gan ddeialog barhaus drwy fforymau ffurfiol, digwyddiadau hyfforddi a gweithgorau sy'n gysylltiedig â defnyddwyr eraill y llysoedd, gan wella dylanwad y gwasanaeth prawf ar draws y system
- eglurder ynghylch argaeledd ymyriadau a ddarperir gan y gwasanaeth prawf newydd ac a gomisiynir drwy'r Fframwaith Dynamig
- cydnabod gwerth y gwasanaeth prawf a hyrwyddo cefnogaeth gyhoeddus i'n nodau cyffredin a'n hamcanion systemau cyfan

## Defnyddio gwell defnydd o bresenoldeb a chyswllt i wella canlyniadau dedfrydu a chynyddu dylanwad

Wrth fuddsoddi yn y model staffio llys, rydym yn ceisio gwella canlyniadau drwy'r gweithgareddau a wneir gan Ymarferwyr Prawf yn y llys. Bydd y seilwaith TGCh gwell (gweler isod) yn darparu prosesau effeithlon a syml a fydd, yn ei dro, yn galluogi staff i gyflawni gweithgareddau amddiffyn y cyhoedd, diogelu a dargyfeirio hollbwysig. Maent yn cynnwys:

- cysylltu ag unedau cam-drin domestig yr heddlu a Gwasanaethau Plant Awdurdodau Lleol i gynnal archwiliadau diogelu
- gwasanaethau gwybodaeth mechnïaeth – gan gynnwys cyfeirio at wasanaethau cymorth statudol a gwirfoddol eraill
- cyfarfodydd cyn-llys gyda Gwasanaeth Erlyn y Goron, cynghorwyr cyfreithiol neu dwrneiod i dargedu adroddiadau

- cefnogaeth a darparu gwybodaeth i'r Farnwriaeth darparu gwybodaeth (i'r farnwriaeth) am wasanaethau lleol neu Wasanaethau Adsefydlu wedi'u Comisiynu
- cysylltu ag asiantaethau eraill - er enghraifft, camddefnyddio sylweddau, darparwyr gwasanaethau iechyd meddwl a chynlluniau dargyfeirio lleol
- Canfod, adrodd ac olrhain achosion o Droseddau Difrifol Pellach
- cyswllt yn y carchar
- gweithgarwch dyrannu achosion

Rydym yn ymwybodol bod angen gwneud rhagor o waith i hwyluso presenoldeb mwy effeithiol yn y llysoedd. O ystyried y pwysau ar le yn ystâd y llysoedd, mae gwaith pellach yn debygol o gynnwys defnyddio technoleg o bell a lleoli staff yn unol ag angen lleol y llys. Byddwn yn gweithio ar y cyd â GLITEM ac yng nghyd-destun gwaith adfer COVID i fynd i'r afael ag ateb hirdymor i hyn.

### Gwneud mwy o ddefnydd a gwell defnydd o'r cyfweliad ar ôl dedfrydu

Drwy alluogi'r amodau i sicrhau'r cychwyn gorau posibl i'r ddedfryd, byddwn yn blaenoriaethu'r defnydd o gyfweliad ôl-dedfryd ar gyfer hyd at 20% o'r holl achosion. Bydd hyn yn helpu i wella'r broses o ganfod beth yw anghenion unigolyn, ac yn helpu i sicrhau ei fod yn cael profiad gwell yn sgil hynny, ac yn cael y gwasanaethau iawn. Drwy'r buddsoddiad ychwanegol mewn staff llys, mae capasiti'n cael ei feithrin i gynnal asesiadau sy'n ymwneud â bregusrwydd ac unrhyw weithgaredd amddiffyn y cyhoedd sy'n ofynnol, gan gynnwys cyfeirio. Bydd meini prawf targedu'n cael eu datblygu i gynorthwyo staff i ymgymryd â'r gweithgarwch hwn i helpu i gyfleu gwybodaeth am risg ac angen sy'n ymwneud â naill ai dedfrydau cymunedol neu ddedfrydau o garchar, ac i gynnig cymorth i unigolion gyda'u hanghenion a'u helpu i gydymffurfio ar y cyfle cyntaf ar ôl y ddedfryd.

### Gweithredu seilwaith TGCh gwell

Er mwyn galluogi galluogwyr technolegol modern, mae offeryn cymharu llys newydd yn cael ei ddatblygu a fydd yn symleiddio'r broses o gasglu gwybodaeth o nifer o systemau'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a GLITEM. Bydd datblygu'r arf hwn yn cynhyrchu gwybodaeth ar gyfer Ymarferwyr Prawf gan gynnwys gwybodaeth rhestru, crynodeb o'r achos, euogfarnau blaenorol a hanes goruchwylio unigolion. Bydd hyn yn hanfodol er mwyn canfod carfannau o ddefnyddwyr gwasanaethau i yrru ceisiadau am adroddiadau cyn-dedfrydu. Bydd Ymarferwyr Prawf yn gallu defnyddio'r wybodaeth hon i wella gwybodaeth asesu risg a fydd yn cyfrannu at ddarparu cyngor o ansawdd uchel i'r llysoedd.

Ar ôl mis Mehefin 2021, byddwn hefyd yn ceisio cyflwyno fformat adroddiad cyn-dedfrydu newydd sy'n defnyddio manteision y system hon i osgoi dyblygu, gan bwysleisio pwysigrwydd yr asesiad risg deinamig a chysylltu â'r Fframwaith Cynnig Effeithiol i ategu argymhellion dedfrydu diogel a phriodol. Bydd hyn hefyd yn helpu i ennyn hyder dedfrydwyr.

Byddwn yn parhau i ddefnyddio'r Offeryn Fframwaith Cynigion Effeithiol, sef cyfrwng gwneud penderfyniadau digidol a ddefnyddir i lunio cynigion cyn-dedfrydu ar gyfer pob achos a gosod amodau trwydded. Mae'n sicrhau bod argymhellion ymyriadau ac amodau trwyddedau yn mynd i'r afael â risg ac angen, yn unol â chanllawiau polisi a dedfrydu ac yn cefnogi cysondeb ymarfer, cymesuredd a lleihau rhagfarn.

Cysylltiadau â Strategaeth Fusnes y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf

**Bydd ein hymrwymiad i foderneiddio ein technoleg yn ein galluogi i gyflwyno ffyrdd arloesol o weithio a gwreiddio dulliau gweithredu mwy effeithlon mewn prosesau craidd.**

### Galluogi gwell cynnig o hyfforddiant

Un peth sy'n hanfodol i lwyddiant grymuso ein timau llys i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel i'r llys yw gwell cynnig hyfforddiant sy'n atgyfnerthu statws proffesiynol ein staff ac sy'n adeiladu ar y gwersi gweithredol a nodwyd drwy waith adfer a'r trefniadau darparu eithriadol a roddwyd ar waith ar gyfer COVID-19.

**Ffigur 8. Mae beth Asesu, Diogelu, Newid yn ei olygu i Reoli Dedfrydau**

Mae'r diagram isod yn amlinellu beth yw ystyr rôl y gwasanaeth prawf o ran 'Asesu, Diogelu, Newid' yng nghyd-destun cyflwyno Rheoli Dedfrydau.

### Asesu

- Cynnal asesiad o ansawdd o'r risgiau, yr anghenion, y cryfderau a'r amgylchiadau – bod yn **ymatebol i wybodaeth newydd am newidiadau mewn amgylchiadau**.
- Ystyried **nodweddion gwarchodedig** a blaenoriaethu anghenion adsefydlu ac ailsefydlu yn unol â hynny.
- Galluogi cwblhau a chynnwys **hunanasesiad**.
- Asesu **addasrwydd a chymhwysedd** ymyriadau, gan nodi'r rheini sydd wedi cael eu cyfateb i anghenion a mynediad unigolion.
- Dyrannu diwrnodau Gofyniad Gweithgaredd Adsefydlu (RAR) i roi sylw **i anghenion a nodwyd** drwy ymyriadau **priodol**.



### Diogelu

- Rheoli'r risg o niwed difrifol a gweithio gyda darparwyr i sicrhau bod gwasanaethau'n **ymateb i faterion penodol**.
- Ymgysylltu ag arbenigwyr, fforymau amlasiantaethol ac asiantaethau statudol i reoli risg a sicrhau bod gwaith monitro'n cael ei wneud yn unol â'r gofyn.
- Galluogi unigolion i feithrin **eu cymhelliant a'u gallu eu hunain** i reoli ac i leihau risg.
- Rheoli **anghenion sydd bob amser yn newid** a phroffiliau risg unigolion dan oruchwyliaeth, gan gynnwys canfod bregusrwydd ac anghenion lles.
- Gweithio'n rhagweithiol i **ddiogelu dioddefwyr cyfredol a darpar ddioddefwyr** - gan sicrhau bod gofynion diogelu a chyfyngu ar waith ac yn cael eu hadolygu.
- Gweithio i sicrhau bod unigolion dan oruchwyliaeth yn cyflawni amodau eu dedfryd a bod gofynion yn cael eu cyflawni.
- Ymateb i ddiffyg cydymffurfio, rheoli torri amodau a gorfodi.

### Newid

- **Gweithredu ac adolygu'r** cynllun dedfrydu – gan gofnodi cynnydd amcanion y cynllun dedfrydu'n rheolaidd.
- **Dewis** a **rhedeg** yr ymyriadau iawn i gefnogi'r unigolyn a rhoi'r gwasanaeth adsefydlu iawn i **atal troseddu yn y dyfodol**, gan wneud atgyfeiriadau amserol ar gyfer ymyriadau a gwasanaethau arbenigol ac arbenigwyr pan fo hynny'n berthnasol.
- Gweithio **mewn partneriaeth** gyda darparwyr ac asiantaethau i gofnodi cwblhau ymyriadau a'r canlyniadau sy'n cael eu cyflawni, a darparu cefnogaeth barhaus.
- Grymuso unigolion dan oruchwyliaeth i newid eu **hymddygiad** a meithrin a chynnal eu **cymhelliant**.
- Cefnogi pobl ifanc wrth iddynt symud i wasanaethau prawf i oedolion.
- Galluogi **trawsnewid llyfn** ar ddiwedd cyswllt statudol.
- Gorchwylio mewn ffordd wedi'i strwythuro drwy ddefnyddio **pecynnau cymorth** cymeradwy.

### Egwyddorion Dylunio

| Egwyddor gyffredinol y dyluniad | Sut mae'n berthnasol i ddylunio Rheoli Dedfrydau |
|---|---|
| Dyluniad sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr | Hwyluso meithrin perthynas drwy gynnig parhad i Ymarferwyr Prawf sy'n goruchwylio unigolyn drwy gydol eu gorchymyn, gan eu helpu i sicrhau gwell canlyniadau.<br><br>Dull cyfunol o gysylltu (gan ddefnyddio'r hyn a ddysgwyd o drefniadau darparu COVID-19) gan gadw'r isafswm o gyfarfodydd wyneb yn wyneb (o dan amodau gwaith arferol), er mwyn sicrhau bod unigolion yn cael mynediad at gymorth priodol gan Ymarferwyr Prawf.<br><br>Blaenoriaethu'r amser a gymerir i unigolion gael eu dyrannu i Ymarferydd Prawf (o fewn pum niwrnod i'r ddedfryd), er mwyn caniatáu asesiad mwy cynhwysfawr o'u risgiau, eu hanghenion a'u natur ymatebol.<br><br>Cydnabod pwysigrwydd cynnwys defnyddwyr gwasanaethau yn eu prosesau asesu a rheoli dedfryd eu hunain a'u galluogi i gyfrannu lle bo hynny'n bosibl. |
| Dyluniad sy'n effeithlon/ effeithiol o ran costau | Grymuso'r Ymarferydd Prawf i gyflwyno'r cynllun dedfrydu gyda mynediad at arbenigwyr, gweithwyr arbenigol a darparwyr perthnasol i leihau aildroseddu a niwed, er mwyn sicrhau bod y Gwasanaeth Prawf yn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael.<br><br>Sicrhau bod goruchwyliaeth y rheolwyr a thrafodaethau rhwng cydweithwyr yn cael eu defnyddio'n fwy effeithiol, gan gynnwys mewn penderfyniadau Barn Broffesiynol a phenderfyniadau ynghylch absenoldeb derbyniol, er mwyn grymuso staff i reoli eu llwyth achosion yn fwy effeithiol.<br><br>Darparu goruchwyliaeth strwythuredig gan ddefnyddio pecynnau cymorth sydd wedi eu cymeradwyo ar gyfer Ymarferwyr Prawf. |
| Dyluniad ar gyfer y system gyfan | Trefnu ymweliadau cartref yn unol â chanllawiau (e.e. lle mae materion amddiffyn plant/cam-drin domestig), er mwyn sicrhau gwaith aml-asiantaeth effeithiol i ddiogelu a chefnogi unigolion, eu teuluoedd a rhwydweithiau ehangach. |

| Egwyddor gyffredinol y dyluniad | Sut mae'n berthnasol i ddylunio Rheoli Dedfrydau |
|---|---|
| Dyluniad sy'n seiliedig ar dystiolaeth | Defnyddio adborth gan ddefnyddwyr er mwyn gwella'n barhaus y prosesau a'r safonau presennol ar gyfer Rheoli Dedfrydau, gan sicrhau bod sail resymegol wedi ei chofnodi a'i seilio ar dystiolaeth ar gyfer newidiadau.<br><br>Ymateb i ganfyddiadau ymchwil newydd, gan ganiatáu ar gyfer newidiadau yn y sylfaen dystiolaeth a gallu addasu a bod yn hyblyg yn unol â hynny.<br><br>Adolygu'r Safonau Cenedlaethol ar Reoli Dedfrydau yn rheolaidd drwy ymgynghori ag arbenigwyr priodol er mwyn sicrhau bod y safonau'n defnyddio'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer goruchwyliaeth effeithiol ac yn diwallu anghenion defnyddwyr. |
| Dyluniad cyson ond hyblyg | Darparu arweiniad clir ar Safonau Cenedlaethol, Dangosyddion Perfformiad a phrosesau gweithredol er mwyn sicrhau cysondeb yn y ffordd y defnyddir y rhain ar draws y gwasanaeth prawf newydd.<br><br>Nodi meysydd dylunio lle dylid annog hyblygrwydd rhanbarthol i gynyddu'r gallu i ymateb i anghenion penodol y gymuned leol. |
| Dyluniad gwaith partneriaeth effeithiol | Cydbwyso rôl yr Ymarferydd Prawf â rôl trydydd parti ac arbenigwyr pwnc eraill, yn seiliedig ar ymatebolrwydd yr unigolyn i sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o'r holl adnoddau sydd ar gael (gan gynnwys yr adnoddau sydd ar gael drwy'r Fframwaith Dynamig) i gefnogi ymatal ac adsefydlu unigolion sy'n cael eu goruchwylio.<br><br>Sicrhau cysylltiadau effeithiol gyda darparwyr Gwasanaethau Adsefydlu wedi'u Comisiynu er mwyn gallu darparu gwybodaeth berthnasol, gyflawn a chywir yn amserol. |
| Dyluniad cynhwyso | Asesu risgiau, anghenion a gallu unigolion yn gynhwysfawr er mwyn cyfateb unigolion rydym yn eu goruchwylio ag Ymarferwyr Prawf sydd â'r sgiliau priodol, a thrwy hynny sicrhau gwell canlyniadau.<br><br>Cydnabod ac ymateb i'r sylfaen dystiolaeth am ddulliau gweithredu effeithiol gyda menywod a'r angen am wahanol ddulliau wrth weithio gyda menywod.<br><br>Cefnogi cyfrifoldebau statudol ehangach y gwasanaeth prawf lle bo'n bosibl e.e. rheoli diogelu plant ac oedolion. |

## Yr achos dros newid a'r sylfaen dystiolaeth

Mae Rheoli Dedfrydau yn sicrhau bod yr unigolion hynny sy'n destun gorchmynion cymunedol, gorchmynion dedfryd ohiriedig, goruchwyliaeth ar drwydded ac ar ôl dedfrydu yn cael eu goruchwylio'n briodol, fel bod risg yn cael ei rheoli'n effeithiol; bod y tebygolrwydd o aildroseddu yn cael ei leihau a bod y cynllun dedfrydu'n cael ei gyflawni. Mae integreiddio Ymarferwyr Prawf o'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol presennol yn rhoi cyfle i ni fanteisio i'r eithaf ar arferion cyfredol Rheoli Dedfrydau, yn ogystal â pharhau i ddefnyddio tystiolaeth ar oruchwyliaeth effeithiol. Mae cryn dipyn o ymchwil ar y rôl hollbwysig y gall Ymarferwyr Prawf ei chwarae o ran ysgogi unigolion i newid yn effeithiol drwy eu rôl oruchwylio a thrwy feithrin cysylltiadau cryf ac ystyrlon. Gan hynny, rydym yn canolbwyntio ar ddefnyddio'r sgiliau, y gweithgareddau a'r ymddygiadau allweddol y dylem fod yn eu blaenoriaethu yn yr Ymarferwyr Prawf er mwyn cael y canlyniadau mwyaf effeithiol. Rydym hefyd wedi ystyried sut mae sicrhau parhad o ran yr oruchwyliaeth pan fydd yn bosibl. Bydd goruchwyliaeth strwythuredig yn cael ei darparu gan ddefnyddio pecynnau cymorth sydd wedi eu cymeradwyo ar gyfer Ymarferwyr Prawf a byddwn yn adeiladu sylfaen dystiolaeth o'r rhain.

Un ystyriaeth ganolog wrth gyflawni hyn yw rhoi'r adnoddau a'r cymorth priodol i Ymarferwyr Prawf asesu risg unigolyn, diogelu'r cyhoedd a galluogi'r rhai maent yn eu goruchwylio i newid eu hymddygiad sylfaenol er mwyn torri'r cylch aildroseddu.

Mae ein cynlluniau ar gyfer Rheoli Dedfrydau yn y model newydd wedi cael eu datblygu drwy ddefnyddio llawer o ffynonellau ymchwil a gwybodaeth sydd ar gael, gan gynnwys gwybodaeth gyfredol am y sefydliad a'r arferion gorau, yn ogystal ag argymhellion a wnaed gan sefydliadau eraill fel Arolygiaeth Prawf EM. Mae'r dyluniad wedi cael ei brofi drwy ymgynghori ag amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys defnyddwyr gwasanaethau i sicrhau bod y newidiadau a roddwn ar waith yn ymatebol ac yn arwain at welliannau cadarnhaol.

Un ystyriaeth ganolog wrth gyflawni hyn yw rhoi'r adnoddau a'r cymorth priodol i Ymarferwyr Prawf asesu risg unigolyn, diogelu'r cyhoedd a galluogi'r rhai maent yn eu goruchwylio i newid eu hymddygiad sylfaenol er mwyn torri'r cylch aildroseddu.

Mae ein cynlluniau ar gyfer Rheoli Dedfrydau yn y model newydd wedi cael eu datblygu drwy ddefnyddio llawer o ffynonellau ymchwil a gwybodaeth sydd ar gael, gan gynnwys gwybodaeth gyfredol am y sefydliad a'r arferion gorau, yn ogystal ag argymhellion a wnaed gan sefydliadau eraill fel Arolygiaeth Prawf EM. Mae'r dyluniad wedi cael ei brofi drwy ymgynghori ag amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys defnyddwyr gwasanaethau i sicrhau bod y newidiadau a roddwn ar waith yn ymatebol ac yn arwain at welliannau cadarnhaol.

## Buddion a ragwelir

Mae'r dull rydym yn bwriadu ei ddefnyddio i Reoli Dedfrydau yn seiliedig ar feithrin cysylltiadau cryf ac ystyrlon ag unigolion sy'n cael eu gorchwylio. Bydd y cysylltiadau hynny'n cynnig cefnogaeth gynhwysfawr i'r unigolion drwy gydol eu profiad o'r gwasanaeth prawf, gyda'r nod o sicrhau gwell canlyniadau iddynt a diogelu'r cyhoedd yn well. Bydd proses asesu symlach sy'n osgoi dyblygu yn gwella gallu'r Ymarferydd Prawf i ganfod anghenion uniongyrchol a galluogi darparu gwasanaeth mwy personol ac ymatebol. Yn ei dro, bydd hyn yn arwain at broses well o reoli dedfrydau a chynllunio ar gyfer rheoli risg, a fydd yn cynnwys mwy o bwyslais ar ystyried dioddefwyr. Ar ben hynny, bydd ffocws o'r newydd ar ddarparu'r gwasanaethau a'r ymyriadau iawn, o amrywiaeth gynyddol o ddarparwyr arbenigol, ar yr adeg iawn, gan gynnwys yn ystod y cyfnodau cyn rhyddhau ac ailsefydlu, yn helpu unigolion i gwblhau eu dedfryda'n llwyddiannus ac i fyw bywydau sy'n parchu'r gyfraith ac yn gadarnhaol ar ôl eu cyfnod goruchwylio.

Bydd ein cynlluniau ar gyfer Rheoli Dedfrydau yn helpu i sicrhau'r manteision canolradd a ganlyn ar ôl rhoi'r diwygiadau ar waith yn llawn:

- **Asesu anghenion, risgiau a nodweddion defnyddwyr y gwasanaeth yn well:** Wedi ei fesur drwy nifer yr atgyfeiriadau i Ymyriadau Strwythuredig a Gwasanaethau Adsefydlu wedi'u Comisiynu, a chyfran y defnyddwyr gwasanaeth sydd ag anghenion perthnasol sy'n cael eu cyfeirio at yr ymyriadau hyn. Byddwn hefyd yn edrych ar welliannau o ran canfod anghenion, risgiau a nodweddion defnyddwyr gwasanaeth drwy gyfraddau cwblhau ar gyfer unigolion sydd â nodweddion gwarchodedig ar ein systemau a chanlyniad archwiliadau Rheoli Dedfrydau gan ganolbwyntio ar sicrhau ansawdd asesiadau ac ailasesiadau.
- **Rheoli Dedfrydau yn Well:** Monitro drwy fesurau ansawdd sy'n ymwneud â rheoli risg, darparu dedfrydau a gorfodi. Byddwn hefyd yn ceisio olrhain gwelliannau yn y berthynas rhwng unigolion a'u Hymarferwyr Prawf drwy'r arolwg blynyddol o ddefnyddwyr gwasanaeth, lefelau cydymffurfio mewn apwyntiadau a fynychwyd a chyfradd cwblhau gofynion dedfrydau cyn i'r ddedfryd ddod i ben.

## Ystyriaethau cydraddoldeb

Er mwyn goleuo a gwreiddio cynwysoldeb yn ein dull gweithredu, rydym wedi defnyddio'r argymhellion a'r canllawiau sydd ar gael gan dimau a gwybodaeth arbenigol o fewn y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf (fel Menywod a Throseddwyr Ifanc), ac o ymchwil ac adolygiadau presennol (er enghraifft, Adolygiad Lammy, y Strategaeth Troseddwyr Benywaidd ac Adolygiad Farmer).

Yn ogystal, mae agweddau ar ein dull Rheoli Dedfrydau wedi cael eu llywio gan ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth, gan gynnwys y rhai o gefndiroedd pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Mae hyn yn cynnwys croesawu ymarfer cynhwysol sy'n ddiwylliannol gymwys ac annog parhad goruchwyliaeth gan Ymarferydd Prawf sydd wedi ei nodi'n glir.

Mae'n hanfodol er mwyn sicrhau bod Rheoli Dedfrydau'n cael ei gyflawni'n llwyddiannus dan y model unedig newydd, bod anghenion penodol yn cael eu cydnabod a'u diwallu drwy gydol y broses o ddatblygu a chyflwyno'r cynllun dedfrydu. Er mwyn cael lefel ddigonol o gymorth, bydd dysgu a datblygu ffurfiol a mentora anffurfiol a hyrwyddwyr lleol yn cael eu darparu i Ymarferwyr Prawf i'w galluogi i feithrin perthynas gefnogol a llawn ymddiriedaeth gyda defnyddwyr gwasanaethau a chydnabod eu hanghenion amrywiol. Bydd Ymarferwyr Prawf yn gallu cael gafael ar amrywiaeth eang o ymyriadau a ddarperir gan sefydliadau arbenigol drwy'r Fframwaith Dynamig sy'n briodol i anghenion penodol ac sy'n ystyried nodweddion gwarchodedig, a chyfeirio unigolion sy'n cael eu goruchwylio at y darpariaethau hynny.

### Dull Rheoli Dedfrydau


Mae rôl staff proffesiynol y gwasanaeth prawf i asesu, amddiffyn a newid yn ganolog i Reoli Dedfrydau dan y model newydd. Yn y system brawf yn y dyfodol, nid oes unrhyw newid i'r fframwaith statudol y mae'r rôl hon yn gweithredu o'i mewn. Mae elfennau rôl yr Ymarferydd Prawf a ddiffinnir mewn deddfwriaeth yn aros yr un fath. Fodd bynnag, rydym eisiau diffinio'n well y sgiliau allweddol, y gweithgareddau a'r ymddygiad sy'n sail i rôl Ymarferwyr Prawf, a phwysleisio'n briodol pa mor ganolog yw eu perthynas ag unigolion sy'n cael eu goruchwylio er mwyn sicrhau newid effeithiol.Er mwyn galluogi staff y gwasanaeth prawf i ganolbwyntio ar hyn, rydym yn gwahaniaethu'n gliriach rhwng swyddogaethau allweddol rôl yr Ymarferydd Prawf.

Prif elfennau Rheoli Dedfrydau fydd:

- diogelu'r cyhoedd
- dyrannu achosion yn seiliedig ar y Fframwaith Haenu newydd
- un cynllun dedfrydu
- llwythi gwaith a beichiau gwaith y gellir ymdopi â nhw
- Ymarferwyr Prawf yn cymryd rhan weithredol mewn gwaith 'newid' ar sail tystiolaeth, gan ddarparu goruchwyliaeth strwythuredig gan ddefnyddio pecynnau cymorth sydd wedi eu cymeradwyo ar gyfer Ymarferwyr Prawf
- rheoli dedfrydau mewn modd integredig

Bydd y diwygiadau Rheoli Dedfrydau yn cael eu cyflwyno'n ailadroddus wrth i lefelau staffio gynyddu ac wrth i atebion digidol i ddarparu elfennau penodol o'r dyluniad a chynorthwyo Ymarferwyr Prawf yn eu hymarfer, gael eu datblygu a symud ar-lein.

**Ffigur 9: Bydd yr Ymarferydd Prawf wedi ei arfogi i atgyfeirio, i gyfeirio ac i gyflawni er mwyn hwyluso newid**



### Diogelu'r cyhoedd

Mae asesu a rheoli risg yn un o'r rhannau pwysicaf o rôl yr Ymarferydd Prawf, gan gynnwys tasgau i asesu ac amddiffyn. Mae'n dechrau o ddyraniad cyntaf yr achos i Ymarferydd Prawf ac fe'i hadolygir drwy gydol y broses o reoli'r ddedfryd, gan ystyried risgiau gwirioneddol a phosibl i ddiogelwch y cyhoedd. Mae canfod a chyfathrebu risgiau, fel y rhai sy'n ymwneud â diogelu a cham-drin domestig, yn allweddol i ddiogelu'r cyhoedd yn llwyddiannus.

Mae model Pwyntiau Cyffwrdd Goruchwylio'r Rheolwyr yn darparu mecanwaith i sicrhau cysondeb a thegwch wrth wneud penderfyniadau ynghylch risgiau a bod staff yn cael cymorth i wneud penderfyniadau effeithiol. Yn unol â'r model, caiff achosion eu trafod gyda rheolwyr llinell, a datblygir cynlluniau rheoli risg cadarn sy'n lliniaru ac yn rheoli'r risg a nodwyd, pan fydd newidiadau wedi digwydd y mae angen eu hadolygu. Mae hyn yn cynnwys gofyniad i adolygu gweithgarwch rheoli risg sy'n cyd-fynd â chyhoeddi rhybuddion trwydded a dewisiadau eraill yn lle galw yn ôl, gan sicrhau bod y camau mwyaf priodol yn cael eu cymryd i ddiogelu'r cyhoedd. Pan fydd newidiadau o ran risg, yr Ymarferydd Prawf mwyaf addas fydd yn rheoli'r achos, gyda chydweithwyr a rheolwyr yn cynnig y gefnogaeth angenrheidiol. Lle bo'n bosibl, cynhelir cysondeb o ran cefnogaeth i Ymarferwyr Prawf, er y bydd rhai achosion yn gofyn am drosglwyddo i wahanol Ymarferydd Prawf gyda'r sgiliau priodol i reoli'r achos a'r risg gysylltiedig. Mae defnyddio model Pwyntiau Cyffwrdd Goruchwylio'r Rheolwyr yn gyson ar draws y gwasanaeth prawf newydd yn allweddol i gyflawni hyn.

O dan y model newydd, bydd mwy o ffocws ar gysondeb ymarfer ar gyfer rheoli risg a mwy o hyblygrwydd i reoli ffactorau risg deinamig, gan arwain at reoli risg yn well yn gyffredinol, a sicrhau cysondeb o ran Rheoli Dedfrydau ar yr un pryd. Bydd goruchwylio Ymarferwyr Prawf yn briodol a defnyddio Barn Broffesiynol gyda chymorth yn sail i'r broses o wneud penderfyniadau rheoli achosion. Gwneir hyn drwy adolygu a gweithredu polisïau ar reoli risg – er enghraifft, mireinio'r arfau a ddefnyddir i asesu risg a defnyddio'r arf Risg o Aildroseddu Difrifol yn rheolaidd drwy gydol y gwaith o reoli risg achos (h.y. nid dim ond ar ddyrannu achosion). Bydd cysondeb o ran pennu lefel y Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA) yn cael ei bennu ar lefel genedlaethol. Bydd y gwelliannau'n seiliedig ar dystiolaeth ac yn adeiladu ar arferion da y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol ar hyn o bryd.

Bydd staff yn cael eu recriwtio a'u hyfforddi i feddu ar yr wybodaeth a'r sgiliau priodol i asesu a rheoli risg yn effeithiol, gyda chymorth darpariaeth dysgu a datblygu wedi ei theilwra, gan gynnwys sesiynau briffio a gweithdai MAPPA a hyfforddiant rheoli ac asesu risg yn ddigidol ac wyneb yn wyneb. Bydd trosolwg goruchwyliaeth reoli briodol ar waith i gynorthwyo staff â'r gwaith hwn ac i'w dal i gyfrif o ran cynnal safonau ymarfer sy'n gyson uchel.

Disgwylir y bydd cysylltiadau amlasiantaethol yn cael eu cryfhau fel rhan o weithredu'r model newydd yn llawn drwy greu system brawf symlach sy'n canolbwyntio ar rannu gwybodaeth yn rhagweithiol, y defnydd cynyddol o'r Gofrestr Troseddwyr Treisgar a Rhywiol (ViSOR) a pherthynas waith dda ag asiantaethau statudol.

Rhagwelir y bydd cyfres ddigidol o adnoddau asesu risg yn gwella'r prosesau rheoli risg, a fydd yn disodli'r system Delius a'r System Asesu Troseddwyr a ddefnyddir ar hyn o bryd. Mae hyn yn dal i fod ar gam cynnar iawn y gwaith, ac mae'n cael ei ddatblygu gan ganolbwyntio ar ymgysylltu'n well â'r rhai rydym yn eu goruchwylio yn y broses asesu er mwyn cynorthwyo cydymffurfiaeth a phroses rheoli risg sy'n fwy ymatebol.

Bydd Ymarferwyr Prawf yn gyfrifol am gydymffurfio a gorfodi pob rhan o'r ddedfryd, gan gynnwys peidio â chydymffurfio â Gwaith Di-dâl.

## Dyrannu achosion yn seiliedig ar y Fframwaith Haenau newydd

Ar ôl rhoi diwygiadau ar waith yn llawn, ceir proses dyrannu achosion well sy'n amserol ac sy'n canolbwyntio'n gynnar ar anghenion unigolion. Bydd achosion yn cael eu dyrannu ar sail y risg o niwed a chymhlethdod yr angen, gan ganolbwyntio mwy ar sicrhau parhad a lleihau'r achosion o drosglwyddo yn y system. Bydd y Fframwaith Haenu yn sail i ddyrannu achosion i'r Ymarferydd Prawf cywir sydd â'r sgiliau a'r profiad priodol i helpu i hwyluso newid mewn unigolion sy'n cael eu goruchwylio.

Bydd y Fframwaith Haenu yn cyfrannu rhywfaint at gydnabod y ffactorau cymhlethdod penodol sy'n bodoli ymhlith menywod, a hwn fydd y prif gyfrwng ar gyfer cyfeirio adnoddau sefydliadol at weithio gyda menywod. Rhagwelir y bydd pob Ymarferydd Prawf wedi ei hyfforddi'n briodol i weithio gyda menywod. Bydd menywod sy'n destun gwasanaethau prawf yn cael yr hawl i ddewis Ymarferydd Prawf benywaidd. Mae'n bosibl y bydd rhanbarthau'n dewis gwella'r ddarpariaeth drwy ddefnyddio 'cymhellwyr menywod' lled-arbenigol (Ymarferwyr Prawf sy'n hyrwyddo ystyriaethau penodol wrth ddelio â menywod).

Bydd unigolion yn cael eu dyrannu i'w Hymarferydd Prawf o fewn pum niwrnod gwaith ar ôl eu dedfrydu. Pan fo'n bosibl, bydd yr unigolyn sy'n cael ei oruchwylio yn aros gyda'r un Ymarferwyr Prawf drwy gydol eu goruchwyliaeth. Yn unol ag ymchwil ar oruchwyliaeth effeithiol, bydd hyn yn galluogi'r cyswllt i barhau ac yn ategu'r gwaith o feithrin perthynas adeiladol â defnyddwyr gwasanaeth.

Bydd dyrannu achosion yn seiliedig ar ddefnyddio staff gyda'r lefel briodol o hyfforddiant a chymhwysedd i'w galluogi i barhau i reoli achosion pan fydd ffactorau risg deinamig yn newid. Disgwylir i asesiadau risg parhaus sbarduno adolygiad haen. Bydd sefyllfaoedd lle bydd risg gynyddol a chynnydd mewn haen yn gofyn am ailddyrannu achos. Rhagwelir y bydd dulliau gweithio a gefnogir gan strwythur Darpariaeth Weithredol y Gwasanaeth Prawf (gweler 'Rheoli Dedfrydau Integredig isod) a goruchwyliaeth briodol gan yr Uwch Swyddog Prawf yn sicrhau ymarfer diogel ac yn amharu cyn lleied â phosibl ar y rhai dan ein goruchwyliaeth.

Cyflwynir Fframwaith Haenau newydd, ynghyd ag Adnodd Rheoli Llwyth Gwaith diwygiedig a fydd yn hwyluso dosbarthiad cyson o lwyth gwaith rhwng Ymarferwyr Prawf, drwy gefnogi proses effeithiol o wneud penderfyniadau am reoli llwyth gwaith. Fodd bynnag, ni fydd y manteision llawn yn cael eu gwireddu nes cyrraedd lefelau staffio targed a bod digon o adnoddau ar gael i alluogi Ymarferwyr Prawf i reoli proffil risg amrywiol o lwyth achosion, a chael eu hyfforddi'n ddigonol i ymgymryd â'r holl weithgareddau newid angenrheidiol.

### Un cynllun dedfrydu

Bydd rôl yr Ymarferydd Prawf yn ehangu i reoli'r gwaith o gyflwyno'r cynllun dedfrydu er mwyn cyflawni egwyddorion asesu a newid, gan gynnwys gwaith newid, ar gyfer pob achos. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod yr ymyriadau cywir yn cael eu darparu i'r defnyddwyr gwasanaeth cywir ar yr adeg iawn. Bydd Ymarferwyr Prawf yn gyfrifol am nodi a threfnu ymyriadau strwythuredig addas a gwasanaethau arbenigol a'u cynnwys yn y cynllun dedfrydu. Bydd y broses o wneud penderfyniadau ynghylch yr ymyriadau hyn, yn enwedig yr ymyriadau a ddaw drwy'r Fframwaith Dynamig, yn seiliedig ar ddata ac ar dystiolaeth sydd ar gael yn rhwydd. Bydd pwyslais ar addasrwydd ymyriadau sy'n seiliedig ar sgyrsiau â'r unigolyn sy'n cael ei oruchwylio, ac ar dystiolaeth am ba rai sydd fwyaf tebygol o gael effaith gadarnhaol ar garfannau penodol, gan ystyried nodweddion gwarchodedig ac amrywiaeth a chynhwysiant.

Pan fydd Gofynion Triniaeth Dedfryd Gymunedol wedi eu gorchymyn, cyfrifoldeb yr Ymarferydd Prawf yw sicrhau bod trefniadau angenrheidiol yn ymwneud â'r gofynion yn cael eu gwneud, eu bod yn rhannu gwybodaeth yn lleol yn briodol, eu bod yn gweithio gydag unigolion i annog cydymffurfio â'r gorchymyn, ac nad yw gorfodi gorchmynion yn effeithio ar driniaeth. Mae'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu drwy'r Fframwaith Dynamig yn wasanaethau ategol sy'n hyrwyddo darpariaeth gyfannol ac integredig, ac yn pwysleisio rôl hanfodol darpariaeth gofleidiol er mwyn hybu ymgysylltu gwell. Mae hyn hefyd yn sefydlu rôl ganolog yr Ymarferydd Prawf o ran cydbwyso'r gefnogaeth sydd ei hangen i sicrhau cyfleoedd ar gyfer newid a darparu goruchwyliaeth a rheolaeth gadarn dros amrywiol elfennau'r ddedfryd.

Bydd y cynllun dedfrydu cychwynnol (ar gyfer pob dedfryd gymunedol) yn cael ei ddatblygu a'i gwblhau o fewn 15 diwrnod gwaith i'r ddedfryd. Bydd y cynllun dedfrydu yn ddogfen fyw i'w hadolygu a'i diweddaru'n rheolaidd, gyda chyfranogiad brwd defnyddwyr y gwasanaeth, er mwyn ategu'r gwaith o fonitro'n weithredol ac atgyfnerthu cynnydd yn gadarnhaol. Bydd yn cynnwys amcanion dedfrydu sy'n mynd i'r afael â'r angen a nodwyd ac yn rhoi sylw i ymyriadau perthnasol. Bydd y datblygiadau digidol newydd yn ategu'r gwaith o droi'r cynllun hwn yn broses sy'n canolbwyntio mwy ar y defnyddiwr, sy'n rhyngweithiol ac yn iteraidd y gall Ymarferwyr Prawf ei defnyddio a'i diweddaru'n hawdd i adlewyrchu newidiadau.

Cysylltiadau â Strategaeth Fusnes y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf

**Drwy foderneiddio ein hoffer digidol, byddwn yn galluogi Ymarferwyr Prawf i gael gafael ar yr wybodaeth gywir a'i rhannu er mwyn helpu unigolion i ymgysylltu â'u cynlluniau dedfrydu a gwneud cynnydd cadarnhaol.**

Unwaith y bydd unigolion wedi cyrraedd cyfnod ailsefydlu cyn rhyddhau dedfryd o garchar, bydd y cyfrifoldeb dros Reoli Dedfrydau yn trosglwyddo i Ymarferwyr Prawf yn y gymuned. Bydd y pwynt trosglwyddo ar gyfer pob dedfryd benodol yn cael ei safoni ar saith mis a hanner, ac eithrio ar gyfer y rhai hanfodol hynny sy'n bodloni'r Meini Prawf Aseinio Cynnar presennol – a fyddai'n cael eu trosglwyddo bymtheg mis cyn eu rhyddhau (gweler yr adran Ailsefydlu isod am ragor o fanylion).

Rydym yn datblygu cyfres o offer digidol a fydd yn helpu i fonitro cynnydd a chasglu data yn effeithiol. Bydd hyn yn cynnwys hunanasesiad newydd, unigol a fydd yn cael ei gynnwys a'i ystyried yn y gwaith o asesu a datblygu'r cynllun dedfrydu, gan alluogi unigolion i gymryd rhan weithredol yn eu cynlluniau dedfrydu.

Bydd y gwasanaethau digidol newydd hyn yn hwyluso rhannu gwybodaeth yn well rhwng llysoedd, y gwasanaeth prawf a charchardai er mwyn helpu i gofnodi a rheoli'r cynllun dedfrydu, cynlluniau rheoli risg a chyflawni amcanion. Bydd y rhyngwynebau digidol yn cefnogi atgyfeiriadau at wasanaethau ac ymyriadau arbenigol, gan gynnwys prosesau archebu ar gyfer sesiynau cynefino a rhoi adborth ar y canlyniadau.

Byddwn yn sicrhau cefnogaeth ddigonol a phriodol i Ymarferwyr Prawf er mwyn sicrhau bod y cynllun dedfrydu'n cael ei reoli a'i gyflawni'n gyson ac yn effeithiol, gan gynnwys:

- dull goruchwylio strwythuredig a Sgiliau ar gyfer Ymgysylltu a Datblygu Effeithiol (SEEDs) gan Uwch Swyddogion Prawf
- mynediad at oruchwyliaeth glinigol arbenigol
- lefelau uwch o oruchwyliaeth ar gyfer Ymarferwyr Prawf sy'n gweithio gydag achosion cymhleth
- diweddariadau perthnasol a chyson i bolisïau a chanllawiau staff

### Baich achosion cyfun a beichiau gwaith hylaw

Rydym eisiau sicrhau llwyth achosion mwy cytbwys er mwyn galluogi Ymarferwyr Prawf i gyflawni pob elfen o'u rôl i asesu, diogelu a newid. Cyfunir beichiau achos fel y bydd Swyddogion Prawf yn rheoli rhai achosion risg uchel a rhai achosion risg canolig/isel o niwed ar unrhyw un adeg ac y bydd Swyddogion Gwasanaeth Prawf yn rheoli cymysgedd o achosion risg canolig ac isel o niwed. Bydd yr holl Ymarferwyr Prawf yn gweithio gydag amrywiaeth o faterion cymhleth, sy'n cyfateb i lefel eu hyfforddiant a'u harbenigedd.

Cysylltiadau â Strategaeth Fusnes y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf

## Drwy gael mynediad at yr hyfforddiant a'r cyfleoedd priodol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus, bydd staff yn cael eu grymuso i gyflawni eu gwaith gorau ar draws eu baich achosion cyfan.

Er mwyn eu galluogi i reoli'r baich achosion cyfun hwn yn hyderus, bydd gan yr holl staff sgiliau proffesiynol yn agweddau craidd y dull prawf sy'n seiliedig ar y sylfaen dystiolaeth academaidd. Bydd y set sgiliau penodol yn cynnwys:

- asesu a rheoli risg
- gwaith gwybyddol ymddygiadol
- ymgysylltu sy'n seiliedig ar gymhelliant ac ymatal
- ymarfer sy'n ymateb i drawma (yn enwedig ar gyfer gweithio gyda menywod)
- asesu aeddfedrwydd a dulliau o weithio gydag oedolion ifanc
- dulliau sy'n benodol i'r carfannau er mwyn cyflawni gwaith newid
- darparu rhaglenni achrededig penodol, ymyriadau strwythuredig a gwasanaethau arbenigol

Bydd gweithgareddau a fydd yn cyflawni ein Strategaeth Gweithlu Prawf, gan gynnwys datblygiad proffesiynol parhaus a chyfleoedd dysgu a datblygu, yn helpu staff i gyflawni lefel lawn o gymhwysedd.

Rydym hefyd yn dibynnu ar weithgarwch recriwtio parhaus i sicrhau bod gennym ddigon o staff proffesiynol a medrus i gyflawni llwyth achosion mwy hylaw a bodloni'r galw gweithredol. Bydd hyn yn gofyn am strwythur gweithlu sy'n canolbwyntio ar y rheng flaen, ac sy'n integredig, yn gydweithredol, yn ymatebol ac yn hyblyg. Bydd hyn yn cynnwys swyddogaethau gweinyddol creiddiol, pennu targedau ar gyfer cyfran y staff cyflogedig sydd â phrofiad uniongyrchol o'r system cyfiawnder troseddol a defnyddio mentoriaid cymheiriaid gwirfoddol.

### Ymarferwyr Prawf yn cymryd rhan weithredol mewn gwaith 'newid' sy'n seiliedig ar dystiolaeth

Rydym yn cynnig y gall gwaith 'newid' gan Ymarferydd Prawf fod ar ffurf sesiynau strwythuredig wedi eu cynllunio gydag unigolion sy'n cael eu goruchwylio, a chyswllt ymatebol sy'n seiliedig ar ymatal gyda'r nod o feithrin perthynas waith gadarnhaol. Ymdrinnir â sesiynau strwythuredig o'r fath yn y diffiniad o ddiwrnod gofyniad gweithgaredd adsefydlu a'r gwaith sy'n ofynnol dan amodau trwydded, tra bo'r cyswllt ymatal yn elfen graidd o'r apwyntiadau gyda Swyddogion Cyfrifol fel y cydnabyddir gan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003. Bydd elfennau allweddol 'gwaith newid' yn cynnwys:

- meithrin perthynas sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth er mwyn hybu cydymffurfiaeth, cynyddu gobaith a chynnal cymhelliant
- gwneud penderfyniadau am ymyriadau i ddiwallu angen a rheoli risg yn ddeinamig, gan gynnwys diwygio'r rhain wrth i amgylchiadau newid

- atgyfnerthu cynnydd a ffyrdd newydd o feddwl ac ymddwyn i ategu newid ymddygiad

Mae angen gwahaniaeth clir rhwng ymyriadau adsefydlu a ddarperir gan ddarparwyr arbenigol, sydd wedi eu cynllunio i fynd i'r afael ag anghenion troseddegol allweddol neu anghenion carfannau penodol, a'r gwaith newid a gyflawnir gan Ymarferwyr Prawf, sy'n gweld y berthynas â'r unigolion maent yn eu goruchwylio fel y prif fodd o gynorthwyo'r daith tuag at ymatal. Bydd y gweithgaredd strwythuredig a gyflawnir gan Ymarferwyr Prawf yn cael ei ategu gan bortffolio o becynnau cymorth (a gymeradwyir yn genedlaethol), er mwyn ennyn diddordeb yr unigolyn sy'n cael ei oruchwylio, ac ategu a chefnogi gwaith ymyrryd arall ar draws ystod eang o themâu.

Bydd y dull o ddewis ymyriadau yn gymesur â risg ac angen unigolion, gan ystyried anghenion amrywiaeth penodol ac addasrwydd i'r ddedfryd. Ar ôl dedfrydu fel rhan o gynllunio dedfryd, bydd yr Ymarferydd Prawf yn dyrannu'r diwrnodau gofyniad gweithgaredd adsefydlu ac yn dewis ac yn rhoi trefn ar ymyriadau penodol sy'n mynd i'r afael â'r meysydd angen mwyaf arwyddocaol sy'n gysylltiedig ag unigolyn yn aildroseddu. Fel yr amlinellwyd uchod, bydd unigolion yn cymryd mwy o ran yn y broses o asesu a datblygu eu cynllun dedfrydu i'w helpu i ymgysylltu ag amcanion eu dedfryd a sicrhau gwell canlyniadau.

### Rheoli dedfrydau'n integredig

Bydd gan Reoli Dedfrydau strwythur Darpariaeth Weithredol integredig y Gwasanaeth Prawf (POD), a fydd yn grwpio swyddogion a staff gweinyddol gyda'i gilydd i sicrhau dilyniant i ddefnyddwyr gwasanaeth, a chefnogaeth weithredol i'w gilydd. Bydd sawl POD mewn tîm a reolir gan Uwch Swyddog Prawf. Bydd strwythur Darpariaeth Weithredol y Gwasanaeth Prawf wedi cytuno ar egwyddorion cenedlaethol i sicrhau cysondeb, ond bydd yn caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd rhanbarthol o ran dehongli a gweithredu. Er bod parhad goruchwyliaeth yn un o egwyddorion allweddol ein model, gall fod yn anodd weithiau hwyluso un berthynas am nifer o resymau ymarferol (absenoldeb, symudiad staff ac ati). Mae'r strwythur hwn yn sicrhau bod defnyddwyr gwasanaethau yn elwa ar berthynas gyfarwydd â thîm bychan y tu hwnt i'w goruchwyliwr ac mae'n caniatáu i Ymarferwyr Prawf gydweithio i gyflawni newid a chefnogi unigolion hyd at gwblhau eu dedfryd. Bydd hyn hefyd yn galluogi canolbwyntio'n well ar anghenion a gofynion unigryw carfannau unigol, gan gynnwys hwyluso'r broses o bontio o wasanaethau ieuenctid i wasanaethau oedolion i gynorthwyo'r unigolion hyn yn effeithiol ac annog mwy o ymatal.

Mae cysylltiadau llwyddiannus rhwng Ymarferwyr Prawf a'r rheini maent yn eu goruchwylio yn allweddol er mwyn cynorthwyo'r gwaith o gyflawni'r ddedfryd a meithrin cysylltiadau â defnyddwyr gwasanaeth sydd, yn eu tro, yn sbarduno ymgysylltu cadarnhaol. Rydyn ni'n mynd i wneud rhagor o waith yn y maes hwn i ddarparu argymhellion ar sail tystiolaeth ar gyfer amlder a natur y cyswllt sy'n ymgorffori dysgu sy'n deillio o drefniadau darparu eithriadol a roddwyd ar waith mewn ymateb i COVID-19. Bydd hyn yn cynnwys darparu eglurder ynghylch y gofynion ar gyfer amlder cyswllt wyneb yn wyneb ac ar gyfer ymweliadau cartref lle ceir materion amddiffyn plant/cam-drin domestig neu mewn perthynas â throseddwyr rhyw. Byddwn yn parhau i obeithio y bydd menywod yn cael cyfle i adrodd naill ai i fenywod yn unig neu ar adeg i fenywod yn unig. Er na allwn ragweld yn llawn i ble bydd y dystiolaeth newydd hon yn ein harwain, mae'n dal yn debygol iawn na allwn fabwysiadu dull gweithredu sy'n addas i bawb ar gyfer gwahanol fathau o gyswllt, a dylai ddibynnu ar asesiad a barn Ymarferwyr Prawf am anghenion pob unigolyn.

Nodir y gofynion sylfaenol ar gyfer cysylltiadau yn y Safonau Cenedlaethol. Bydd hyn yn cynnwys cyfarfodydd misol wyneb yn wyneb ar gyfer unigolion sy'n cael eu goruchwylio a'r Ymarferydd Prawf. Dyma'r isafswm absoliwt a dylid rheoli achosion ar lefelau sy'n briodol i risg ac angen.

Bydd achosion goruchwylio ar ôl dedfrydu yn cael eu heithrio o'r gofyniad cyswllt wyneb yn wyneb misol sylfaenol, o gofio ei fod yn canolbwyntio ar adsefydlu yn unig. Os yw achosion yn cael eu hasesu fel rhai risg isel a bod anghenion adsefydlu wedi cael sylw, bydd proses yn cael ei rhoi ar waith lle gall yr Ymarferydd Prawf gyfeirio at ei reolwr llinell i atal cyswllt wyneb yn wyneb, gyda goruchwyliaeth yn digwydd dros y ffôn. Darperir Canllawiau Ymarfer wedi eu diweddaru er mwyn egluro pwrpas a disgwyliadau goruchwyliaeth ôl-dedfryd.

Mae'n ddyhead na ddylai amser teithio i unigolion sy'n cael ei oruchwylio fynychu cyfarfod cyswllt fod yn fwy na 60 munud bob ffordd. Mae ymchwil wedi dangos bod unigolion yn fwy tebygol o fynychu a chydymffurfio pan fydd amser eu taith yn rhesymol ac nid yn gostus. Ar hyn o bryd rydym yn gwneud gwaith dadansoddi i asesu pa mor bell o'r ddelfryd 60 munud y byddwn ni, yn seiliedig ar yr ystad o fis Mehefin 2021 ymlaen. Cydnabyddir y bydd 60 munud yn heriol mewn rhai ardaloedd gwledig a bod cyflawni'r uchelgais hwn yn annhebygol i bawb.

Mae symud o'r ystad ieuenctid i sefydliad oedolion ifanc neu'r trawsnewid i wasanaethau oedolion yn y gymuned yn gyfnodau lle mae pobl ifanc yn fwy agored i niwed. I gynorthwyo'r newid hwn, dylai'r Tîm Troseddwyr Ifanc weithio'n agos ac mewn da bryd gyda'r sefydliad newydd a'r ardal brawf sy'n derbyn i sicrhau bod canllawiau ailsefydlu'n cael eu dilyn a'u haddasu ar gyfer y ddarpariaeth i oedolion. Bydd hyn yn ei le ar gyfer achosion cymunedol a dedfrydau o garchar.

Bydd Ymarferwyr Prawf yn mabwysiadu diwylliant cynhwysol sy'n cadw diddordeb, ac yn arddel agwedd gyfannol sy'n ymgysylltu'n effeithiol ag oedolion ifanc. Bydd staff yn cael eu hyfforddi yn y sylfaen dystiolaeth sy'n ategu'r agwedd hon tuag at aeddfedrwydd, datblygiad yr ymennydd a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Bydd gofyn cwblhau asesiadau aeddfedrwydd yn rheolaidd a mynediad at wasanaethau arbenigol sy'n diwallu anghenion oedolion ifanc ac yn ategu canlyniadau cadarnhaol, yn ogystal â lefel uwch o gymorth (er enghraifft, drwy gyswllt ag Ymarferwyr Prawf a/neu fentoriaid cymheiriaid). Rydym wedi cysylltu â chynllun peilot sy'n cael ei redeg yn Llundain ar gyfer Rhaglen Drawsnewid i bobl ifanc sy'n trosglwyddo i ddarpariaeth i oedolion (sydd wedi ei hatal oherwydd COVID-19 ar hyn o bryd), a dylid defnyddio'r canlyniadau fel sail i'n dull gweithredu.

Rydym yn cydnabod bod rhai Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol wedi gwneud cynnydd yn y gofod digidol i ategu darpariaeth fwy effeithiol, ac rydym wedi ymrwymo i adeiladu ar hyn drwy ddefnyddio datblygiadau digidol i ddarparu gwell cyfathrebu ymatebol rhwng Ymarferwyr Prawf a'r rhai maent yn eu goruchwylio. Ar hyn o bryd rydym yn datblygu llwyfan digidol sydd â'r nod o ddarparu mynediad uniongyrchol i unigolion er mwyn iddynt allu cymryd rhan lawn yn y gwaith o gynllunio eu gorchymyn a'r trefniadau ar ei gyfer (Gweler y pennawd 'Cyflawni Digidol: Ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau' yn Rhan Pedwar isod) . Bydd hyn yn arwain at well ymgysylltiad ac yn hyrwyddo perthynas fwy cydweithredol gyda'r gwasanaethau prawf.

Bydd ein system fewnol yn cael ei diweddaru i ddal yr un ffynhonnell o wirionedd ar gyfer yr holl brosesau gweithredol a sefydliadol cenedlaethol, er mwyn i staff fod yn glir ynghylch yr hyn a ddisgwylir ganddynt.

### Hwb CORRE Cymru

Mae'r Hyb Ailsefydlu, Atgyfeirio a Gwerthuso Gweithredol a Chanolog (CORRE) yn elfen allweddol o fodel unedig Cymru, ac yn rhyngwyneb rhwng Ymarferwyr Prawf a'r dirwedd ymyriadau gymhleth. Bydd Hyb CORRE yn cynorthwyo Ymarferwyr Prawf drwy ganfod ymyriadau addas, cwblhau atgyfeiriadau, monitro cynnydd defnyddwyr gwasanaeth a chadw'r ddedfryd ar y trywydd iawn. Bydd cymryd y swyddogaethau hyn (sy'n cymryd llawer o amser) oddi wrth Ymarferwyr Prawf yn caniatáu iddynt ganolbwyntio'n well ar eu cyfrifoldebau goruchwylio a chyflawni gwaith newid i ategu'r ddarpariaeth o ymyriadau, gan arwain at ganlyniadau gwell. Rydym yn profi pa mor effeithiol yw'r dull hwb hwn yng Nghymru er mwyn penderfynu a allai fod yn fodel defnyddiol i'w fabwysiadu mewn rhanbarthau eraill.

Ni fydd gwaith Hyb CORRE yn effeithio ar brif swyddogaethau'r Ymarferydd Prawf. Bydd gan Ymarferwyr Prawf gyfrifoldeb cyffredinol o hyd dros y prif weithgareddau Rheoli Dedfrydau, gyda Hyb CORRE yn helpu i ganfod darparwyr, trefnu ymyriadau a sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu broceru'n brydlon.

Mae model Hyb CORRE yng Nghymru yn ymwneud yn fras â dwy haen: gweithredol a strategol. Mae'r haen weithredol yn cwmpasu'r rhyngwyneb rhwng yr Ymarferydd Prawf a Hyb CORRE, gan gynnwys y broses o atgyfeirio ac amserlennu a fydd yn digwydd unwaith y bydd penderfyniad llys wedi ei wneud neu yn y cam cynllunio ar gyfer rhyddhau o'r ddalfa. Mae'r swyddogaeth strategol yn cyfeirio at y rôl y bydd y Ganolfan yn ei chwarae o ran cynorthwyo darparwyr ymyriadau sy'n rheoli'r galw ac yn helpu Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Cymru gyda'i ddull rhanbarthol o gomisiynu gwasanaethau.

Bydd Hyb CORRE yn cysylltu â set lawer ehangach o ymyriadau/darpariaeth na'r rhai sy'n dod o dan y gwasanaethau prawf a'r Fframwaith Dynamig, ond bydd atebion digidol a ddatblygir i reoli ymyriadau yn cael eu cynnwys yng nghylch gwaith Hyb CORRE. Fodd bynnag, bydd Hyb CORRE yn golygu agwedd wahanol tuag at brosesau ymyriadau yng Nghymru, gan gynnwys y rheini ar gyfer Gwaith Di-dâl, Rhaglenni Achrededig, Ymyriadau Strwythuredig, Gwasanaethau Adsefydlu wedi'u Comisiynu a gweithgarwch comisiynu ehangach.

### Timau arbenigol

Mae egwyddorion Rheoli Dedfrydau i'w cymhwyso'n gyson ym mhob achos, gyda rhai carfannau'n derbyn darpariaeth lefel uwch o wasanaethau arbenigol. Bydd timau arbenigol ar waith i ddelio â mathau penodol o achosion – bydd y rhain yn cael eu diffinio'n glir ac yn cynnwys timau diogelwch cenedlaethol a thimau dedfrydau byr lleol. Bydd y strwythur hwn yn cynyddu ymatebolrwydd i anghenion unigolion. Bydd rhywfaint o arbenigedd arbenigol yn cael ei wreiddio mewn timau generig (er enghraifft, cydgynhyrchwyr menywod ac oedolion ifanc).

Bydd Ymarferwyr Prawf hefyd angen mynediad at gymorth arbenigol ar gyfer gweithio gydag unigolion sydd ag anghenion cymhleth ac ymddygiad troseddol, gan gynnwys anhwylderau personoliaeth, troseddu rhyw a throseddu sy'n gysylltiedig â therfysgaeth. Rhaid i'r cymorth sydd ar gael ddiwallu anghenion llesiant staff a rheoli achosion yn broffesiynol. Byddai'r ddarpariaeth hon yn ychwanegol at y trefniadau rheoli llinell.

Bydd y polisi ar gyfer trosglwyddo achosion i dimau mewnol yn cael ei ddiweddaru, gan gynnwys ar gyfer trosglwyddo rhwng timau arbenigol.

Bydd gan Gyfarwyddwyr Prawf Rhanbarthol yr hyblygrwydd i neilltuo Ymarferwyr Prawf i'r Tîm Gwaith Di-dâl i ymgymryd â Rheoli Dedfrydau ar gyfer pob achos gofyniad Gwaith Di-dâl.

**Ffigur 10. Beth mae Asesu, Diogelu, Newid yn ei olygu i ailsefydlu**

Mae'r diagram isod yn amlinellu beth yw ystyr rôl y gwasanaeth prawf o ran 'Asesu, Diogelu, Newid' yng nghyd-destun cyflwyno ein dull o ailsefydlu.

### Asesu

- Dedfrydau byr o garchar – bydd Ymarferwyr Prawf yn cwblhau asesiad cadarn ar gyfer yr holl unigolion sy'n mynd i'r carchar ac sy'n cael eu rhyddhau, gydag **asesiadau cyflymach** a fydd yn ceisio sicrhau bod **cefnogaeth ymarferol** ar gael i gynnal gwasanaethau (budd-daliadau, tai, swyddi) am hyd at chwe mis yn ystod y ddedfryd o garchar ac i ailddechrau'r gwasanaethau hyn adeg rhyddhau.
- Dedfrydau hirach o garchar – bydd Rheolwyr Troseddwyr Carchar (RTC) sy'n gweithio yn ôl y model Rheoli Troseddwyr mewn Caethiwed yn trosglwyddo'r atebolrwydd am unigolion (gan gynnwys asesiadau) saith mis a hanner cyn rhyddhau i'r Ymarferwyr Prawf. Bydd **eglurder yr atebolrwydd asesu** yn sicrhau bod un strategaeth yn arwain y gwaith cynllunio cyn ac ar ôl rhyddhau, sy'n golygu bod y **diogelwch iawn a'r ymyriadau newid** yn gallu bod ar waith ar yr **adeg iawn**.



### Diogelu

- Adnabod a chael gafael ar y gwasanaethau iawn ar gyfer pob unigolyn mewn ffordd **amserol**, cyn rhyddhau, a sicrhau bod y gwasanaethau'n cael eu darparu yn y lle iawn ac ar yr adeg iawn.
- Meithrin **perthynas** broffesiynol gydag unigolion cyn ac ar ôl rhyddhau er mwyn sicrhau bod **dilyniant yn y gefnogaeth a phont rhwng y carchar a'r gymuned**.
- Ystyried risgiau, anghenion, cryfderau ac **amgylchiadau ffordd o fyw ehangach** unigolyn ar gyfer adsefydlu.
- Defnyddio'r amser gwell cyn rhyddhau i ymgysylltu â'r carchar a'r asiantaethau statudol eraill (diogelu, trefniadau amlasiantaethol ar gyfer amddiffyn y cyhoedd, yr heddlu, cyswllt â dioddefwyr) i sicrhau bod **rheoli a monitro agos** yn cael ei roi ar waith lle bydd angen.

### Newid

- Gyda Rheoli Troseddwyr mewn Caethiwed, rydym yn datblygu ein dull gweithredu ar gyfer adsefydlu i **wella perthnasoedd –** gan gynnwys drwy ddyrannu Ymarferydd Prawf cyn rhyddhau er mwyn cael ffocws gwell ar **ymateb i anghenion unigolion** a darparu'r ymyriadau adsefydlu iawn i gefnogi unigolion i integreiddio i'r **gymuned**.
- Yn y dyfodol, bydd set graidd o wasanaethau (gan gynnwys hawliadau uwch am fudd-daliadau, gwasanaethau teulu, iechyd, addysg, hyfforddiant a chyflogaeth) yn cael ei darparu mewn carchardai, ynghyd â gwasanaethau eraill i hyrwyddo **adsefydlu, gwneud iawn, ailintegreiddio a chynhwysiant cymdeithasol**.

## Egwyddorion Dylunio

| Egwyddor gyffredinol y dyluniad | Sut mae'n berthnasol i ddyluniad ailsefydlu |
|---|---|
| Dyluniad sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr | Gwella'r model Rheoli Troseddwyr yn y Ddalfa drwy gyflwyno prosesau ac adnoddau ychwanegol i wella cynllunio cyn-rhyddhau gan Ymarferwyr Prawf (a elwir yn Rheolwyr Troseddwyr yn y Gymuned /Rheolwyr Troseddwyr yn y Gymuned o dan Rheoli Troseddwyr yn y Ddalfa) er mwyn sicrhau trosglwyddiad mwy diogel, mwy effeithiol a chyson o'r ddalfa yn ôl i'r gymuned, gwella canlyniadau a lleihau aildroseddu.<br><br>Un unigolyn atebol gydag un cynllun dedfrydu i reoli risg, materion yn ymwneud â dioddefwyr a goruchwylio a chydlynu'r holl wasanaethau cyn ac ar ôl rhyddhau o'r carchar i'r gymuned er mwyn sicrhau parhad i unigolion, a rheoli risg yn fwy effeithiol gan adeiladu ar reoli achosion Rheoli Troseddwyr yn y Ddalfa. |
| Dyluniad cost effeithiol/ effeithlon | Dysgu o arferion da 'Gwella'r Gwasanaethau drwy'r Giât' (ETTG), gan ailfodelu gwasanaeth newydd sydd wedi ei fireinio i leihau dyblygu rolau a thasgau mewn carchardai a thimau cymunedol, er mwyn cynyddu ac addasu capasiti staff i ddiwallu anghenion unigolion. |
| Dyluniad ar gyfer y system gyfan | Sicrhau cysondeb â Rheoli Troseddwyr yn y Ddalfa ac ad-drefnu carchardai ochr yn ochr â rhannau eraill o'r model prawf (e.e. Rheoli Dedfrydau). |
| Dyluniad sy'n seiliedig ar dystiolaeth | Sicrhau gwasanaeth adsefydlu sy'n dechrau yn y carchar ac yn parhau yn y gymuned (nid at y giât nac o'r giât), drwy addasu ein dull o gysylltu a pharatoi ar gyfer rhyddhau er mwyn sicrhau parhad i unigolion, a sicrhau bod cymorth priodol ar gael. |
| Dyluniad cyson ond hyblyg | Wedi ei alinio'n strategol i weddu a chynnal trefniadau newydd ar gyfer carchardai a'r gwasanaeth prawf yn y dyfodol i sicrhau hyblygrwydd wrth ymateb i newidiadau yn y system gyfiawnder ehangach. Darperir arweiniad ynghylch lle mae hyblygrwydd a rhyddid rhanbarthol yn y dull gweithredu. |

| Egwyddor gyffredinol y dyluniad | Sut mae'n berthnasol i ddyluniad ailsefydlu |
|---|---|
| Dyluniad gwaith partneriaeth effeithiol | Drwy osgoi dyblygu gyda gwasanaethau yn y carchar, bydd Gwasanaethau Adsefydlu wedi'u Comisiynu yn diwallu anghenion ailsefydlu drwy ddarparu gwasanaethau cymorth llety arbenigol cyn-rhyddhau a gwasanaethau mentora, er mwyn sicrhau parhad y gwasanaeth a ddarperir wrth i unigolion setlo'n ôl i'r gymuned. |
| Dyluniad cynhwysol | Caiff ailsefydlu ei ategu gan ddarparwyr Gwasanaethau Adsefydlu wedi'u Comisiynu sy'n gweithio yn y gymuned ac sy'n teilwra eu gwasanaethau i ddiwallu anghenion, ymddygiadau ac amgylchiadau unigolyn. Bydd hyn ar gael i unigolion a gedwir yn y swyddogaeth ailsefydlu a charchardai nad ydynt yn ailsefydlu. |

### Yr achos dros newid a'r sylfaen dystiolaeth

Bwriad ein hymagwedd at ailsefydlu yw mynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn adroddiadau Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi ar ailsefydlu a gwasanaethau drwy'r giât, tra'n cadw'r arferion gorau a ddatblygwyd gan Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol a'u sefydliad partner yn y trydydd sector sy'n darparu gwasanaethau Drwy'r Giât. Ers 2018, mae £22 miliwn y flwyddyn wedi cael ei fuddsoddi yn y gwasanaethau hyn ac mae Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi wedi cydnabod bod gwelliannau'n dechrau cael eu gwireddu mewn rhai mannau. Fodd bynnag, o ystyried y newidiadau sylfaenol ehangach sy'n digwydd ar draws y system brawf, rydym yn gweithredu dull ailsefydlu diwygiedig sy'n manteisio i'r eithaf ar y gwelliannau a wnaed hyd yma ac sy'n ceisio darparu'r ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon o gefnogi'r rhai sy'n cael eu rhyddhau o'r carchar. Ar hyn o bryd, dim ond unigolion sy'n cael eu rhyddhau o garchardai nad ydynt yn ailsefydlu sy'n gallu cael mynediad at wasanaethau drwy'r giât os cânt eu comisiynu. Mae ein dull ailsefydlu yn darparu gweithgareddau cyn-rhyddhau ar gyfer pob unigolyn sy'n cael ei ddedfrydu, ym mha bynnag garchar mae'n cael ei gadw cyn cael ei ryddhau, ac yn ystyried y gefnogaeth angenrheidiol – gan gynnwys pwysigrwydd cysylltiadau teuluol cryf i helpu i ymatal.

Yn 2018, fe wnaethom arolygu a chynnal grwpiau ffocws ar gyfer hyd at 300 o staff Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol a'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf ledled Cymru a Lloegr, a chynnal digwyddiadau ymgysylltu ar gyfer staff yn y carchar yn ogystal â thros 250 o unigolion a oedd wedi cael eu rhyddhau o'r carchar yn ddiweddar ac a oedd â phrofiad uniongyrchol o wasanaethau Uwch Drwy'r Giât. Dyma'r prif ganfyddiadau:

- Dylid gwneud gwell defnydd o gynnyrch drwy'r giât (Offer Sgrinio Sylfaenol y Ddalfa) i leihau cwestiynau sy'n codi dro ar ôl tro a gwella ansawdd yr wybodaeth
- Mae angen dileu dyblygu a chymhlethdod drwy'r giât
- Mae angen gwella rôl y Rheolwr Dedfrydau
- Mae angen gafael gadarnach ar y rhai sydd ar ddedfrydau carchar byr iawn
- Dylid ystyried pryder a llesiant fel ffactorau sy'n llesteirio newid ar adeg rhyddhau

Mae'r canfyddiadau hyn wedi cyfrannu at ein hagwedd at ailsefydlu.

Cysylltiadau â Strategaeth Fusnes y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf

**Drwy feithrin diwylliant dysgu agored sy'n ein galluogi i ddysgu o'r hyn sydd wedi gweithio'n dda a'r hyn nad yw wedi gweithio'n dda, byddwn yn cyflwyno gwelliannau er mwyn rhoi gwell cymorth i unigolion ar adegau allweddol yn eu profiad o wasanaethau prawf.**

### Buddion a ragwelir

O dan y model newydd, bydd y dull ailsefydlu yn galluogi darparu gwasanaeth mwy cydlynol ac effeithiol, yn enwedig drwy ddileu unrhyw ddyblygu ar rolau a thasgau rhwng gwasanaethau carchardai, gwasanaethau prawf a chyflenwyr ymyriadau. Bydd ffocws parhaus ar wella'r berthynas rhwng Ymarferwyr Prawf ac unigolion sy'n ailsefydlu yn y gymuned drwy ddechrau cyswllt ar ôl saith mis a hanner cyn rhyddhau a darparu cyswllt cyson ar gyfer yr holl weithgareddau cyn ac ar ôl rhyddhau o'r pwynt hwn ymlaen. Bydd integreiddio a chynhwysiant yn y gymuned i'r rhai sy'n cael eu rhyddhau o'r carchar yn cael eu gwella drwy ymyriadau wedi eu teilwra'n lleol, a fydd hefyd yn helpu pobl i adsefydlu.

Ar ben hynny, bydd mwy o fynediad at ddarpariaeth ailsefydlu lle bynnag y bydd unigolion yn cael eu cadw (boed hynny mewn carchardai ailsefydlu neu fel arall) drwy'r gwaith y bydd Ymarferwyr Prawf yn ei wneud i sbarduno gweithgareddau cyn-rhyddhau a mynediad at ddarparwyr Gwasanaethau Adsefydlu wedi'u Comisiynu yn y cymunedau lle mae unigolion yn cael eu rhyddhau.

Er mwyn asesu effeithiolrwydd gwasanaethau adsefydlu, bwriadwn fonitro'r canlyniadau ar ôl rhyddhau o'r carchar ac ar adegau allweddol dan oruchwyliaeth mewn perthynas â llety a chyflogaeth. Bydd hyn yn cynnwys targedau ar nifer yr unigolion sy'n cael eu cartrefu a'u cyflogi ar ôl iddynt gael eu rhyddhau o'r ddalfa. Ceir metrig hefyd yn ymwneud â llety sefydlog i bob unigolyn dan oruchwyliaeth prawf dri mis ar ôl iddynt ddechrau goruchwylio a monitro'r rhai sydd mewn gwaith chwe mis ar ôl dechrau goruchwylio.

Drwy ei bwyslais ar gael gafael ar y gwasanaethau ailsefydlu ac adsefydlu mwyaf effeithiol drwy'r Fframwaith Dynamig, bydd y dull newydd o ailsefydlu hefyd yn helpu i sicrhau'r manteision canolraddol canlynol:

- **Darparu ymyriadau'n fwy llwyddiannus:** Wedi ei fesur drwy gynnydd yng nghyfran yr unigolion sy'n derbyn Gwasanaethau Adsefydlu wedi'u Comisiynu. Rydym hefyd yn ystyried sut gallem fonitro cyfran y defnyddwyr gwasanaeth y mae eu hanghenion yn gostwng yn dilyn yr ymyriadau hyn.
- **Cynyddu darpariaeth gwasanaethau prawf yn lleol a thrwy bartneriaeth:** Byddwn yn mesur hyn drwy nifer y mudiadau sector gwirfoddol lleol sy'n ymwneud â chyflwyno ymyriadau adsefydlu drwy'r Fframwaith Dynamig - y rhagwelwn y bydd yn cynyddu.


### Ystyriaethau cydraddoldeb

Mae ymestyn yr asesiad cyn rhyddhau i bawb a ddedfrydwyd i garchar, a gwblhawyd gan yr Ymarferydd Prawf (COM), yn adeiladu ar asesiadau a gwblhawyd gan Reolwr Troseddwyr yn y Carchar a chynlluniau ar gyfer rhyddhau yn ôl i'r gymuned. Mae hyn yn ategu asesiad cynhwysfawr ar gyfer y rhai sydd ag anghenion cymhleth, gan gynnwys anableddau fel materion iechyd meddwl a chyflyrau sy'n gysylltiedig ag oedran, ac unrhyw asesiad arbenigol fel asesiadau gofal cymdeithasol i oedolion. Yr Ymarferydd Prawf sy'n gyfrifol am yr holl weithgareddau cyn rhyddhau o'r pwynt trosglwyddo gan y Rheolwr Troseddwyr yn y Carchar (neu o ddechrau'r ddedfryd i'r rhai sydd â llai na 10 mis i'w wasanaethu ar adeg y ddedfryd). Mae'r cyfarfod trosglwyddo yn rhoi cyfle i'r Ymarferydd Prawf (Rheolwyr Troseddwyr Cymunedol) gael gwybod am unrhyw gysylltiad ag unrhyw wasanaeth yn y carchar, fel y rhai a ddarperir drwy'r Gaplaniaeth sy'n cefnogi ymgysylltu â sefydliadau ffydd yn y gymuned, a ddarperir drwy'r Rhwydwaith Dyfodol Newydd neu hyfforddwyr Gwaith yr Adran Gwaith a Phensiynau, a allai fod yn sail i gynlluniau rhyddhau, gan sicrhau bod modd cynorthwyo neu barhau â'r gwaith a ddechreuwyd yn y carchar yn y gymuned. Mae hyn yn darparu cyfnod hwy i asesu anghenion, gan gynnwys unrhyw rai sy'n benodol i nodweddion gwarchodedig, ac i feithrin cysylltiadau cadarnhaol â defnyddwyr gwasanaeth a'u paratoi ar gyfer cael eu rhyddhau, er mwyn ystyried y newid o amgylchedd carchar hynod strwythuredig i'r gymuned. Mae trosglwyddo o'r Rheolwr Troseddwyr yn y Carchar i'r Ymarferydd Prawf yn darparu gwell cyfnewid gwybodaeth gan gynnwys sicrhau ymwybyddiaeth o brofiadau ac asesiadau'r rhai sydd â nodweddion gwarchodedig.

Mae ein dull gweithredu yn hyblyg - gan sicrhau ein bod ni'n diwallu anghenion amrywiol carfannau penodol gan gynnwys y rhai yn ystad y menywod, y rhai mewn carchardai cenedlaethol ar gyfer troseddwyr rhyw, a gwladolion tramor. Mae darparu Ymarferwyr Prawf (Rheolwyr Troseddwyr Cymunedol) i gydag un cynllun dedfrydu i oruchwylio a chydlynu'r holl wasanaethau cyn ac ar ôl rhyddhau o'r carchar i'r gymuned, yn ategu gweithgareddau cyn rhyddhau lle bynnag y cedwir defnyddiwr gwasanaeth yn y ddalfa, gan adeiladu ar fesurau a roddir ar waith dan y Model Rheoli Troseddwyr yn y Ddalfa. Bydd prosesau ar gael i ategu gweithgarwch cyn-rhyddhau yn y gwahanol garchardai, gan gynnwys y rhai cyn ac ar ôl yr ad-drefnu.

Mae'r gwasanaethau adsefydlu sydd ar gael drwy'r Fframwaith Dynamig yn cynnwys y gallu i brynu gwasanaethau sy'n benodol i bobl ifanc, menywod a phobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Os nad yw contractau wedi eu cynllunio i fod yn benodol i garfannau, bydd yn ofynnol i ddarparwyr ddangos eu bod yn gallu teilwra eu darpariaeth gwasanaeth i ddiwallu anghenion penodol carfannau gwahanol.

Ffigur 11. Amlinelliad o'r dull ailsefydlu



### Rheoli Dedfrydau o ran dedfrydau o garchar sy'n ategu ailsefydlu

Bydd staff carchardai fel rhan o weithlu ehangach y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf yn gyfrifol am sicrhau bod anghenion uniongyrchol pob unigolyn sy'n cael ei ddedfrydu i garchar a'r rhai sydd yn y carchar ar remand yn cael eu nodi a'u diwallu fel rhan o'r broses dderbyn.

Mae adolygiad o Arf Sgrinio Sylfaenol Carcharu Un (h.y. BCST-1) yn cael ei ddatblygu i gael gwared ar rywfaint o'r dyblygu yn y system a lleihau nifer yr achosion sy'n ailadrodd yr un cwestiwn. Y nod yw symleiddio cwestiynau fel mai dim ond yr wybodaeth angenrheidiol sydd ar gael ac er mwyn helpu i wella ymgysylltu â'r broses.

Roedd lansio Rheoli Troseddwyr yn y Ddalfa wedi newid y ffordd yr oedd dedfrydau o garchar yn cael eu rheoli a'u rhoi ar waith yn yr ystad gaeedig ar gyfer dynion o fis Chwefror 2019 (yng Nghymru) ac o fis Hydref 2019 (yn Lloegr). Mae'r newidiadau a gyflwynir gan Reoli Troseddwyr yn y Ddalfa yn gweld carcharorion sydd wedi eu dedfrydu am gyfnod hir (y rhai sydd â 10 mis neu ragor i'w treulio o'r pwynt dedfrydu) yn cael eu rheoli gan Reolwyr Troseddwyr yn y Carchar Band 4 a Rheolwyr Troseddwyr yn y Carchar y Gwasanaeth Prawf nes bydd pwyntiau penodol cyn eu rhyddhau, pan fydd trosglwyddo'r cyfrifoldeb yn symud i'r Rheolwr Troseddwyr Cymunedol dan Reoli Troseddwyr yn y Ddalfa. Lle bo'r carchar yn gyfrifol, rheolir pob achos risg uchel o niwed difrifol gan Reolwr Troseddwyr yn y Carchar y Gwasanaeth Prawf, gyda Rheolwyr Troseddwyr yn y Carchar Band 4 yn rheoli achosion risg isel a chanolig o niwed difrifol. Mae Rheolwyr Troseddwyr yn y Carchar hefyd yn gweithredu mewn rôl gynorthwyol i Ymarferwyr Prawf pan fo'r gymuned yn gyfrifol am reoli achos. Bydd y model Rheoli Troseddwyr yn y Ddalfa ar gyfer yr ystad agored i ddynion yn dechrau cael ei roi ar waith o fis Mawrth 2021 ymlaen, a'r ystad i fenywod o fis Ebrill 2021 ymlaen.

Mae gwaith allweddol yn cael ei gyflwyno yn awr ar draws yr ystad gaeedig i ddynion. Mae hyn wedi gweddnewid y ffordd mae staff carchardai'n gweithio gyda charcharorion, gan roi cyfle iddynt ddatblygu cysylltiadau cefnogol sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth a mabwysiadu egwyddorion diwylliant adsefydlu. Erbyn hyn, mae gan unigolion sy'n cael eu cadw yn y carchar aelod penodol o staff y gallant siarad ag ef/hi ac sy'n gallu darparu rhywfaint o gymorth ymarferol. Mae gweithwyr allweddol hefyd yn darparu cyswllt hollbwysig rhwng swyddogaeth breswyl carchar a'r Uned Rheoli Troseddwyr, gyda Gweithwyr Allweddol a Rheolwyr Troseddwyr yn y Carchar yn cydweithio'n agos i ddarparu gwasanaeth sy'n gefnogol, sy'n hyrwyddo rhannu gwybodaeth ac sy'n sicrhau bod risg yn cael ei rheoli a'i hasesu'n gadarn.

Mae'r cyfrifoldeb dros Reoli Dedfrydau (Rheoli Achosion dan Reoli Troseddwyr yn y Ddalfa) yn trosglwyddo i Ymarferwyr Prawf (Rheoli Troseddwyr yn y Gymuned) yn y gymuned ar ôl i unigolion gyrraedd cyfnod ailsefydlu cyn-rhyddhau y ddedfryd. O dan y drefn Rheoli Troseddwyr yn y Ddalfa, mae'r trosglwyddo cyfrifoldeb hwn yn digwydd ar wahanol adegau ar hyn o bryd, yn dibynnu ar nifer o ffactorau. Bydd y pwynt trosglwyddo'n cael ei safoni ar gyfer pawb ar ôl saith mis a hanner ar gyfer carcharorion sydd wedi eu dedfrydu am gyfnod penodol, ac yn unol â phwyntiau lle ystyrir rhyddhau carcharorion sydd wedi eu dedfrydu am gyfnod amhenodol a'r carcharorion sydd wedi eu dedfrydu am gyfnod penodol sy'n destun parôl, ac eithrio'r rhai difrifol hynny sy'n bodloni'r Meini Prawf Dyrannu Cynnar presennol (o dan y drefn Rheoli Troseddwyr yn y Ddalfa) a fyddai'n cael eu trosglwyddo i'r Ymarferydd Prawf (Rheoli Troseddwyr yn y Gymuned) am 15 mis cyn eu rhyddhau.

Bydd y cynlluniau dedfrydu ar gyfer y rhai sydd â 10 mis neu fwy o'u dedfryd yn weddill i'w threulio yn cael eu cwblhau gan Reolwyr Troseddwyr yn y Carchar nes trosglwyddir y troseddwr i'r gymuned pan fydd yr Ymarferydd Prawf (Rheoli Troseddwyr yn y Gymuned) yn cwblhau asesiad risg ac anghenion cyn rhyddhau. Mae hyn yn adeiladu ar ac yn ymgorffori gwaith a chynlluniau a gwblhawyd yn y carchar gan gynnwys asesiadau addysg ar gyfer anableddau dysgu i gynorthwyo â rhyngweithio a darpariaeth yn y dyfodol.

Bydd yn ofynnol i'r Ymarferydd Prawf (Rheoli Troseddwyr Cymunedol) gael o leiaf dri chyswllt gyda charcharor cyn rhyddhau, er mwyn helpu i feithrin perthynas dda â'r carcharor. Mae hyn yn cynnwys y cyfarfod trosglwyddo Rheoli Troseddwyr yn y Ddalfa presennol, gydag o leiaf ddau gyfarfod ychwanegol. Yn ogystal â meithrin perthynas, mae'r broses drosglwyddo'n ategu rhannu gwybodaeth yn effeithiol rhwng y carchar a'r gymuned, ac yn galluogi'r Ymarferydd Prawf (Rheoli Troseddwyr Cymunedol) i fod yn ymwybodol o'r gwasanaethau sydd ar gael yn y carchar.

Bydd gan bob unigolyn sy'n treulio dedfrydau byrrach yn y carchar (llai na 10 mis ar ôl i'w dreulio yn y man dedfrydu) Ymarferydd Prawf yn y gymuned (Rheoli Troseddwyr yn y Gymuned), a fydd yn canolbwyntio ar adsefydlu o ddiwrnod y ddedfryd yn ogystal ag ar ôl ei ryddhau. Byddant yn parhau i dderbyn cymorth gan Weithiwr Allweddol dan Reoli Troseddwyr yn y Ddalfa a bydd Rheolwyr Troseddwyr yn y Carchar yn cael eu dyrannu mewn rôl gynorthwyol i weithio gydag Ymarferwyr Prawf (Rheoli Troseddwyr yn y Gymuned) i gynorthwyo gyda thasgau trafodol, darparu gwybodaeth am yr hyn sydd ar gael yn y carchar i helpu i baratoi ar gyfer rhyddhau, cymorth drwy sesiynau goruchwylio, y gofynnir amdanynt gan yr Ymarferydd Prawf (Rheoli Troseddwyr yn y Gymuned), diweddariadau cynnydd a gweithredu fel cyswllt cyfathrebu rhwng yr Ymarferydd Prawf (Rheoli Troseddwyr yn y Gymuned) a'r unigolyn. Bydd hyn yn cynnwys cynnydd mewn gwasanaethau yn y carchar, gan gynnwys mewn addysg.

Yn ogystal â'r cymorth cyn rhyddhau estynedig, rydym yn nodi y dylai Ymarferwyr Prawf (Rheoli Troseddwyr yn y Gymuned) gynnig dwy wythnos o gymorth uwch ar ôl rhyddhau gyda dau gysylltiad ychwanegol i sicrhau bod y rhwystrau i ymyriadau neu'r elfennau y gallai fod angen eu gweithredu yn cael eu cydnabod a'u gweithredu'n gyflym.

Mae'r defnydd o Ryddhau ar Drwydded Dros Dro yn cael ei ddefnyddio at ddibenion adsefydlu. Yn ogystal, mae'n bosibl y bydd unigolion sy'n gymwys i gael cyrffyw cyfyngu i'r cartref yn cael eu rhyddhau cyn eu dyddiad rhyddhau awtomatig. Bydd penderfyniadau ynghylch cyrffyw cyfyngu i'r cartref a rhyddhau ar drwydded dros dro yn parhau i gael eu gwneud gan garchardai gyda mewnbwn gan y gwasanaeth prawf. Bydd y Llywodraethwr /Cyfarwyddwr yn ystyried gwybodaeth a ddarparwyd o'r adroddiad ar amgylchiadau'r cartref a baratowyd gan y gwasanaeth prawf, gan gynnwys cyfraniadau gan y Swyddog Cyswllt Dioddefwyr, lle bo hynny'n berthnasol, er mwyn helpu gyda'u hasesiadau, yn yr un modd â holl amodau'r drwydded.

## Dull integredig, sy'n cyd-fynd â rhaglenni eraill

Yn ogystal â'r rhaglen Rheoli Troseddwyr yn y Ddalfa a amlinellir uchod, mae adsefydlu'n cyd-fynd â newidiadau yn yr ystad dynion sy'n cael eu gweithredu gan y Prosiect Ad-drefnu Carchardai. Mae ad-drefnu yn symleiddio'r ystad i ddynion (dros 18 oed) i dair prif swyddogaeth - derbyn, hyfforddi ac ailsefydlu - a chyflwyno llif newydd o droseddwyr fel bod pobl yn cael eu cadw yn y lle iawn ar yr adeg iawn. Yn y dyfodol, bydd carchardai'n darparu un neu ragor o'r tair prif swyddogaeth hyn. Mae arweinwyr ETTG, rhaglen diwygio'r gwasanaeth prawf, Rheoli Troseddwyr yn y Ddalfa ac Ad-drefnu wedi cydweithio i gysoni'r rhaglenni ac i reoli'r dibyniaethau sy'n parhau. Un o nodau'r Prosiect Ad-drefnu yw darparu digon o leoedd ailsefydlu fel bod mwy o garcharorion yn cael cyfle i gael eu rhyddhau o garchar ailsefydlu yn agos i'w cartref. Mae llif y troseddwyr hefyd yn ategu'r dull mewngymorth o ailsefydlu gan y bydd carcharorion yn symud o garchar hyfforddi i garchar ailsefydlu rhwng 24 a 10 mis cyn eu rhyddhau. Bydd dull ar y cyd gydag ad-drefnu i ddiffinio beth yw agos i'r cartref gan ddefnyddio'r rhanbarthau gwasanaeth prawf newydd, wedi eu rhannu'n Unedau Cyflawni Prawf, yn helpu i drosglwyddo penderfyniadau i garchardai priodol gyda swyddogaeth ailsefydlu.

Rydym yn gweithio gyda'r ystad i fenywod i gyd-fynd â thrawsnewid ac i sicrhau bod ein dull ailsefydlu yn gwella'r ddarpariaeth a'r cynllunio ar gyfer ailsefydlu.

Rydym hefyd yn ceisio sicrhau cysondeb â rhaglenni perthnasol y tu allan i'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf. Mae hyn yn cynnwys rhaglen Reconnect GIG Lloegr gan fod rôl y llywiwr iechyd wedi ei chynllunio i gynorthwyo'r rhai sy'n cael eu rhyddhau o'r carchar ac sydd ag anghenion cymhleth, gyda gwell mynediad at lwybrau iechyd yn y gymuned. Ni fyddai hyn yn dyblygu gwasanaethau a ddarperir drwy'r Fframwaith Dynamig gan y bydd yn ofynnol i'r Ymarferydd Prawf nodi unrhyw wasanaeth sydd eisoes ar waith yn ystod rhan olaf y cyfnod yn y ddalfa.

### Cysylltiad rhwng Rheoli Troseddwyr yn y Ddalfa (OMiC), Ailsefydlu a Gwella'r Gwasanaeth drwy'r Giât (eTTG) presennol

Byddwn ni'n trosglwyddo'r rhan fwyaf o'r staff eTTG i'r swyddogaeth Rheoli Dedfrydau. Byddant yn derbyn hyfforddiant a chymorth i wella eu sgiliau mewn meysydd ymarfer a fydd, ymhen amser, yn golygu eu bod yn cefnogi a chyflawni gweithgarwch Rheoli Troseddwyr Cymunedol fel Ymarferwyr Prawf.

Rheoli Troseddwyr yn y Ddalfa fydd ein model a'n proses o hyd ar gyfer rheoli achosion yn ystod rhan y ddalfa o'r ddedfryd, ar gyfer gwaith Rheoli Troseddwyr yn y Carchar ac i wneud cysylltiadau ag Ymarferwyr Prawf (Rheoli Troseddwyr Cymunedol).

Ein huchelgais yn y pen draw yw cael proses well cyn rhyddhau gyda mwy o gyswllt ag Ymarferwyr Prawf (Rheoli Troseddwyr Cymunedol) wrth i ddefnyddwyr gwasanaeth baratoi ar gyfer rhyddhau a throsglwyddo'n ôl i'r gymuned.

## Prif elfennau ailsefydlu

### Swyddogaeth dedfryd fer

Rydym yn mabwysiadu'r swyddogaeth dedfrydau byr yn gynnar mewn rhai rhanbarthau a bydd gwersi a ddysgir o'r rhain yn sail i'n dull gweithredu tymor hwy. Rydym yn canolbwyntio ar ddatblygu strategaethau i wella ymgysylltu, gweithio mewn partneriaeth i gefnogi mynediad cyflym, ymyriadau cyflym i gynnal unrhyw wasanaeth cymunedol presennol ac i gyflymu atgyfeiriadau er mwyn lleihau amseroedd aros cyn i wasanaethau newydd gael eu rhoi ar waith.

Cysylltiadau â Strategaeth Fusnes y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf

**Bydd gweithio mewn partneriaeth â darparwyr Gwasanaethau Adsefydlu wedi'u Comisiynu ac ar draws y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf a gyda chyrff ac asiantaethau allweddol eraill (gan gynnwys y GIG) yn ein galluogi i ddarparu'r ymyriadau cywir ac i ategu gwell integreiddio mewn cymunedau ar gyfer y rheini sy'n ymwneud â'r gwasanaethau prawf.**

O fewn y gwasanaeth prawf newydd, bydd swyddogaeth dedfrydau byr yn cael ei chreu ym mhob un o'r 12 rhanbarth prawf, gan ymgorffori'r hyn a ddysgwyd gan y mabwysiadwyr cynnar. Rôl a ffocws y tîm fydd gweithio gyda'r rhai sy'n cwblhau dedfrydau byrrach i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cynnal a'u darparu, bod cysylltiadau yn cael eu meithrin a bod trawsnewidiadau'n cael eu cynorthwyo mor effeithiol â phosibl. Bydd ffocws ychwanegol ar y carfannau hynny sy'n cael nifer anghymesur o ddedfrydau carchar byr, gan gynnwys menywod sydd, oherwydd gwasgariad daearyddol ystad y menywod, yn aml yn bell o'u cartrefi. Bydd yr hyn a ddysgir gan y mabwysiadwyr cynnar a'r arferion gorau yn cael eu hymgorffori mewn prosesau gan gynnwys sicrhau mynediad da at garchardai, yn benodol y rhai sy'n cael eu cadw y tu allan i'w hardal eu hunain. Bydd yr adnodd hwn yn helpu i reoli a mynd i'r afael â rhywfaint o'r tarfu penodol sy'n gallu codi wrth i wasanaethau gael eu hoedi neu eu hatal tra bo unigolyn yn y carchar a'r amser y gall ei gymryd i'r gwasanaethau hyn ailddechrau ar ôl iddynt gael eu rhyddhau. Mae gan y rhai sy'n destun dedfrydau byr gyfradd galw'n ôl/tor-amod uwch na'r cyfartaledd a chyfradd aildroseddu uwch o'i gymharu â'r boblogaeth gyffredinol felly ein nod yw gwella canlyniadau i'r garfan hon.

Bydd gwelliannau i gyfweliadau ar ôl y ddedfryd, a amlinellir yn yr adran uchod ar roi cyngor i'r llys, yn ein galluogi i ddefnyddio'r cyfweliadau hyn i weld beth sy'n gallu cael ei gynnal (swydd, budd-daliadau, tŷ) ar gyfer y rheini sy'n cael dedfryd fer o garchar, ac i sefydlu cysylltiadau da â theuluoedd a phartneriaid pan fydd hyn yn briodol. Mae casglu'r wybodaeth hon am anghenion ymarferol yn gynnar yn ein galluogi i rannu gwybodaeth â charchardai a gweithredu arni gan leihau nifer y troeon y gofynnir yr un cwestiynau. Po fwyaf y gallwn ni ei wneud yn y llys, y mwyaf y gall y carchardai ei wneud wrth dderbyn y carcharorion i adeiladu ar hynny. Rydym yn awyddus i fabwysiadu dull gweithredu tîm Rheoli Troseddwyr Integredig ar gyfer dedfrydau carchar byr, er mwyn i ranbarthau prawf ystyried cydleoli'r heddlu, gwirfoddolwyr, staff iechyd a staff carchardai i ddarparu dulliau gweithredu aml-asiantaeth cyflym.

Bydd Ymarferwyr Prawf (CRh) sy'n gyfrifol am weithgareddau cyn-rhyddhau yn cael eu lleoli fel mater o drefn mewn Unedau Darparu Gwasanaeth Prawf dan reolaeth llinell Uwch Swyddogion Prawf. Fodd bynnag, bydd gan ranbarthau hyblygrwydd o ran lle lleolir swyddogaethau dedfrydau byr gyda'r dewis o'u lleoli yn y gymuned, mewn carchar neu gyfuniad o'r ddau. Er na fyddai trosglwyddo yn digwydd o dan brosesau Rheoli Troseddwyr yn y Ddalfa gan fod unigolion yn cael eu dyrannu'n uniongyrchol i'r gymuned, byddai pawb sy'n cwblhau dedfrydau byr yn gallu galw ar Weithiwr Allweddol yn yr ystad gaeedig ar gyfer dynion a menywod yr aseswyd eu bod mewn angen canolig neu isel o gymhleth yn ystad y menywod. Neilltuir Rheolwr Troseddwyr yn y Carchar hefyd mewn rôl gynorthwyol, lle mae'r Ymarferydd Prawf (Rheoli Troseddwyr Cymunedol) yn gyfrifol am reoli'r achos. Bydd yr Ymarferwyr Prawf (Rheoli Troseddwyr Cymunedol) yn gallu gweithio gyda Rheolwyr Troseddwyr y Carchar ar gyfer gweithgareddau penodol. Un ffocws allweddol yw cynnal y berthynas rhwng y gwasanaeth prawf a'r rhai sy'n cael dedfrydau carchar byr yn aml.

Bydd rhywfaint o hyblygrwydd hefyd i ranbarthau ddatblygu eu swyddogaeth dedfrydau byr i ystyried materion a gwasanaethau lleol. Bydd y rhain yn cymryd yr hyn a ddysgwyd gan y rhanbarthau mabwysiadu cynnar wrth iddynt ddatblygu prosesau, gan gynnwys cadw mewn cysylltiad â menywod ar draws ystad amrywiol ei daearyddiaeth. Ar y lleiaf, mae angen i'r trefniadau a ganlyn fod yn eu lle:

- Canolbwyntio ar garfannau sy'n derbyn dedfrydau sy'n fwy tymor byr yn gyfrannol, fel menywod a throseddwyr tramor cenedlaethol, am wasanaeth pwrpasol.
- Rhoi sylw i natur 'drws troi' dedfrydau byr drwy alluogi staff sy'n cyflawni'r swyddogaeth hon i gael gafael yn haws ar garchardai ailsefydlu yn eu hardal.
- Potensial i weld unigolion yn y carchar ar ran rhanbarthau prawf y tu allan i'r ardal yn canolbwyntio ar y cam yn nes at eu rhyddhau, gan weithio gyda Rheolwyr Troseddwyr mewn Carchardai.

### Carcharorion heb eu collfarnu

Mae carcharorion heb eu collfarnu yn ffurfio rhan sylweddol o boblogaeth y carchar. Ar hyn o bryd, maent yn gallu defnyddio gwasanaethau ETTG a gwasanaethau yn y carchar, ac mae gweithiwr allweddol yn cael ei neilltuo iddynt o dan brosesau Rheoli Troseddwyr yn y Ddalfa. Byddant yn parhau i allu cael yr un lefel o wasanaeth o'r Diwrnod Cyntaf ymlaen. Bydd asesiad o nifer yr achosion ar gyfer pob carchar sy'n derbyn (effaith ar garchardai derbyn yn bennaf) yn cyfrannu at gynnal cydbwysedd o staff ETTG yn y carchar wrth i ni symud ymlaen at y ddarpariaeth derfynol. Gallai'r staff hyn hefyd helpu'r rhai sydd ar ddedfrydau byr drwy gynorthwyo gwasanaethau ailsefydlu.

Mae'r dull hwn yn canolbwyntio ar y defnyddiwr gan ei fod yn cynnal gwaith gyda'r 80% o bobl a fydd yn mynd ymlaen i gael eu dedfrydu. Mae'n gost-effeithiol gan ei fod yn defnyddio'r adnodd presennol. Mae'n seiliedig ar dystiolaeth, gan adeiladu ar brosesau a manteision ETTG a Rheoli Troseddwyr yn y Ddalfa, ac mae'n sicrhau cysondeb â charchardai.

Er mwyn sicrhau bod lefel bresennol y gwasanaeth yn cael ei chynnal, unwaith y bydd contractau presennol ETTG yn dod i ben, bydd cymorth o ran llety a chyfeirio at wasanaethau yn y gymuned er mwyn helpu i integreiddio'n ôl i'r gymuned ar ôl cael eu rhyddhau o'r llys neu'r carchar. I ddechrau, bydd gwasanaethau ETTG yn parhau tra bydd staff sydd wedi eu neilltuo i'r gwasanaeth prawf newydd yn aros yn y carchar ar y diwrnod cyntaf. Rydym yn bwriadu darparu pecyn ailsefydlu i bawb sy'n gadael y carchar, gan gynnwys y rhai sydd heb gael eu dyfarnu'n euog, a byddai'r wybodaeth hon hefyd ar gael i ategu achosion remand. Ar gael yn y llys ac yn y carchar, byddai'r pecyn yn darparu gwybodaeth am wasanaethau lleol i'r 20% a roddir ar remand sy'n gadael y ddalfa heb eu dyfarnu'n euog. Mewn ymateb i adborth defnyddwyr gwasanaeth, bydd y pecyn yn cynnwys manylion asiantaethau trydydd parti yn y gymuned sy'n gallu darparu gwasanaethau arbenigol (e.e. ar gyfer pobl o gefndiroedd BAME).


Gellir darparu cymorth i'r rhai sydd ar remand hefyd drwy gynllun dilyniant - arf gwirfoddol sydd â'r nod o helpu i feithrin cysylltiadau ac ymgysylltu â gweithwyr allweddol a phobl sydd yn y carchar. Nid yw'n cymryd lle cynllun dedfrydu na chynllun rheoli risg a gwblhawyd gan y gwasanaeth prawf. Y bwriad yw i unigolyn yn y carchar ei berchenogi er mwyn ei alluogi i nodi targedau i'w helpu i deimlo'n ddiogel ac yn sefydlog yn y ddalfa, ac mae hefyd yn ei alluogi i bennu targedau i symud ymlaen wrth iddo weithio gyda'i weithiwr allweddol dan y drefn Rheoli Troseddwyr yn y Ddalfa.

### Gwasanaethau ac ymyriadau ailsefydlu sy'n cael eu caffael drwy'r Fframwaith Dynamig

Mae ymyriadau ailsefydlu effeithiol yn gweithredu fel galluogwyr i gynorthwyo unigolion sy'n cael eu goruchwylio i addasu ac ail-integreiddio i fywyd yn y gymuned, adeiladu ffordd o fyw di-drosedd a rhwydwaith o gymorth. Mae anghenion adsefydlu sylfaenol wrth adael y carchar neu wrth symud ymlaen o safle cymeradwy yn cynnwys rhywle i fyw, ffordd o gefnogi eich hun drwy waith cyflogedig, a mynediad at fudd-daliadau. Rydym eisiau sicrhau bod pob unigolyn sy'n symud o'r ddalfa i'r gymuned yn gallu cael ymyriadau ailsefydlu, a bydd y rhan fwyaf ohonynt yn cael eu darparu drwy'r Fframwaith Dynamig.
Bydd categori gwasanaethau i fenywod ar y Fframwaith Dynamig i ddarparu gwasanaethau sydd wedi eu cynllunio'n benodol ar gyfer menywod, i gydnabod y ffactor diogelu sy'n bwysig i fenywod yn aml iawn, sef cynnal eu perthynas â'r cyswllt â'u plant. Bydd y rhain yn cael eu cynllunio i ystyried natur ddaearyddol wasgaredig ystad y menywod.

Bwriad ein gwasanaeth ar gyfer y rhai sy'n cael eu rhyddhau o'r carchar yw sicrhau bod gwasanaethau'n seiliedig ar leoedd. Mae hyn yn golygu, lle bo modd, ein bod ni wedi nodi ein bod ni eisiau i wasanaethau gael eu darparu lle mae'r defnyddiwr yn byw yn y gymuned, gyda rhywfaint o hyblygrwydd i wasanaethau gael eu darparu cyn eu rhyddhau neu o giât y carchar. Rydym eisiau osgoi caffael gwasanaethau sy'n dechrau ac yn gorffen yn y carchar heb rywfaint o barhad gwasanaeth ar ôl rhyddhau neu sy'n dyblygu gwasanaethau neu gyfrifoldebau eraill. Dim ond gwasanaethau nad ydynt eisoes yn rhan o'r cynnig craidd yn ein carchardai derbyn ac ailsefydlu yn y dyfodol ledled Cymru a Lloegr y byddwn yn eu caffael drwy'r Fframwaith Dynamig.

## Ffigur 12. Llif proses lefel uchel ar gyfer ymyriadau Ailsefydlu cyn ac ar ôl rhyddhau



# Rhan Dau: Darparu ymyriadau a gwasanaethau adsefydlus

Mae'r adran hon yn ymdrin â gwasanaethau ymyriadau wedi'u comisiynu (Gwasanaethau Adsefydlu wedi'u Comisiynu a'r Gronfa Ranbarthol Canlyniadau ac Arloesi) a chyflwyno ymyriadau'n fewnol (Gwaith Di-dâl, Rhaglenni Achrededig, Ymyriadau Strwythuredig ac Uwch Ganolfannau Ymbresenoli).

## Ymyriadau Adsefydlu ac Ailsefydlu wedi eu Comisiynu

## Gwasanaethau Adsefydlu wedi'u Comisiynu (drwy'r Fframwaith Dynamig)

### Egwyddorion Dylunio

| Egwyddor gyffredinol y dyluniad | Sut mae'n berthnasol i ddyluniad Gwasanaethau Adsefydlu wedi'u Comisiynu |
|---|---|
| Dyluniad sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr | Comisiynu cyfres o ymyriadau sydd ar gael ar gyfer y rhai sydd ar orchmynion cymunedol neu dedfrydau gohiriedig (yn benodol gyda Gofynion Gweithgaredd Adsefydlu) ac ar gyfer y rhai sydd ar oruchwyliaeth ar drwydded ac ar ôl dedfrydu.<br><br>Sicrhau, i'r rhai sydd ar drwydded, bod yr ymyriadau priodol ar gael er mwyn ategu eu hadsefydlu a'u galluogi i drosglwyddo'n llwyddiannus yn ôl i'r gymuned.<br><br>Sicrhau bod ymyriadau ar gael yn gyson fel bod:<br>• pob unigolyn sy'n cael eu goruchwylio, waeth ble mae'n byw, yn derbyn ymyriadau sydd wedi eu targedu'n dda ac sydd wedi eu cynllunio'n dda ac sydd wedi eu darparu'n dda er mwyn manteisio i'r eithaf ar y siawns o fyw bywyd di-drosedd.<br>• Mae gan Ymarferwyr Prawf fynediad at ymyriadau sy'n diwallu'r anghenion troseddegol sy'n digwydd yn aml neu sy'n cyfrannu at sefydlogi eu hachosion, gan alluogi Ymarferwyr i ganolbwyntio ar weithgareddau Rheoli Dedfrydau allweddol. |

| Egwyddor gyffredinol y dyluniad | Sut mae'n berthnasol i ddylunio Ffamwaith Dynamig |
|---|---|
| Dyluniad sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr | Sicrhau bod ymyriadau'n cael eu darparu mewn ffordd sy'n:<br>• adlewyrchu dwyster priodol yr ymyriad sydd ei angen i gynorthwyo unigolyn i wneud cynnydd a chyflawni canlyniad(au) priodol.<br>• ymatebol i anghenion unigol ac i anghenion carfannau penodol. |
| Dyluniad sy'n effeithlon/ effeithiol o ran costau | Disgwylir i ddarparwyr weithio'n agos gyda'r ddarpariaeth statudol ac anstatudol, gan wneud y defnydd gorau o'r gwasanaethau presennol i gynorthwyo unigolion i gael mynediad at y gwasanaethau hyn a chynnal y cysylltiad. Bydd hyn yn sicrhau bod ymyriadau adsefydlu ac ailsefydlu yn ategu, yn hytrach na dyblygu, gwasanaethau sydd eisoes ar gael yn lleol.<br>Disgwylir i ddarparwyr ddarparu digon o sesiynau i alluogi unigolyn i gyflawni ei nodau cytunedig ac i amrywio dwysedd yr ymyriadau a'r gwasanaethau i adlewyrchu cymhlethdod y sefyllfa. |
| Dyluniad ar gyfer y system gyfan | **Nid** yw Gwasanaethau Adsefydlu wedi'u Comisiynu yn ceisio diwallu'r un anghenion â Rhaglenni Achrededig na Gofynion Triniaeth Dedfryd Gymunedol. Lle bo unigolion sy'n cael eu goruchwylio yn gymwys ar gyfer Rhaglenni Achrededig neu Ofynion Triniaeth Dedfryd Gymunedol, dyma'r ymyriad o'u dewis.<br>Mae Gwasanaethau Adsefydlu wedi'u Comisiynu yn ddarpariaeth arbenigol sy'n ategu'r ddarpariaeth bresennol. Dylid eu defnyddio lle mae angen troseddegol penodol na ellir ei ddiwallu drwy'r ymyriadau a nodir uchod neu lle mae mynd i'r afael â'r angen yn arwain at sefydlogi er mwyn gallu cynnal ymyriadau eraill. |
| Dyluniad sy'n seiliedig ar dystiolaeth | Diffinio'r gwasanaethau'n well er mwyn sicrhau bod ymyriadau ar gael i fynd i'r afael â'r prif ffactorau sy'n gysylltiedig ag aildroseddu.<br>Sicrhau bod ymyriadau'n cael eu darparu mewn ffyrdd sy'n:<br>- diwallu risgiau, anghenion a gallu penodol yr unigolyn i ymateb, gan gynnwys dulliau sy'n seiliedig ar gryfderau ac sy'n ymateb i drawma lle bo hynny'n berthnasol.<br>- wedi eu teilwra i ddiwallu anghenion amrywiol ac ychwanegol carfannau penodol. |

| Egwyddor gyffredinol y dyluniad | Sut mae'n berthnasol i ddylunio Ffamwaith Dynamig |
|---|---|
| Dyluniad cyson ond hyblyg | Sicrhau bod darparwyr yn gallu bod yn hyblyg wrth gynllunio a chyflwyno ymyriadau a fydd yn cyflawni canlyniadau clir mewn perthynas â phob maes angen ac yn caniatáu i unigolion sy'n derbyn yr ymyriadau hynny wneud cynnydd priodol.<br><br>Er bod anghenion craidd yn digwydd yn aml, bydd amrywiadau rhanbarthol o ran darparu gwasanaethau ar hyn o bryd a rhwystrau i ddiwallu anghenion yn golygu y dylai dyluniad a darpariaeth yr ymyriadau amrywio i adlewyrchu hyn. |
| Dyluniad gwaith partneriaeth effeithiol | Mae dyluniad sy'n adlewyrchu'r dirwedd leol o ran anghenion defnyddwyr gwasanaethau a chyfleoedd a heriau penodol, yn adeiladu ar ddarpariaeth gyffredinol a statudol amlasiantaeth gan wneud y mwyaf o ddefnydd a chyd-gomisiynu, ac yn defnyddio profiad ac arbenigedd mudiadau gwirfoddol, cymunedol a mentrau cymdeithasol i wella mynediad, ymgysylltu ac i feithrin sgiliau. |
| Dyluniad cynhwysol | Gwella dros amser yr amrywiaeth o ymyriadau adsefydlu, neu'r amrywiaeth o gynnwys a dulliau cyflwyno o fewn ymyriadau presennol, fel y gall y rhain fynd i'r afael yn well ag anghenion gwahanol garfannau. Dylid gwneud hyn lle mae'r dystiolaeth yn dangos bod dulliau gwahanol yn gwella canlyniadau neu lle mae meysydd lle mae angen heb ei ddiwallu. |

### Yr achos dros newid a'r sylfaen dystiolaeth

Rydym yn cydnabod bod diffyg cysondeb o ran argaeledd ac ansawdd yr ymyriadau sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd. Mae amrywiaeth sylweddol o ran faint o weithgarwch pwrpasol sy'n cael ei wneud, ac o ran y Gofynion Gweithgaredd Adsefydlu yn benodol, mae diffyg hyder ymysg rhanddeiliaid allweddol o ran faint o weithgarwch sy'n cael ei gyflawni a'r math o weithgarwch sy'n cael ei gyflawni. Mae hyn yn defnyddio canfyddiadau o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys arolygiadau Arolygiaeth Carchardai EM, adolygiadau thematig y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf a chanllawiau ymarfer gorau.

Yn ogystal â'r dystiolaeth a gasglwyd o adroddiadau, yn 2018 cynhaliodd y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf brosiect i ystyried cyflwyno ymyriadau ailsefydlu a Gofynion Gweithgaredd Adsefydlu (roeddem yn canolbwyntio ar ddefnyddio Gofynion Gweithgaredd Adsefydlu gan fod tua 80% o ymyriadau'n cael eu darparu drwy'r gofynion hyn a orchmynnwyd gan y llys). Cynhaliwyd cyfweliadau dros y ffôn ac ymweliadau maes â staff ac unigolion sy'n cael eu goruchwylio mewn Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol. Yn ogystal, fel rhan o'r gwaith o ymgysylltu â'r farchnad a staff ar gyfer y Fframwaith Dynamig, rydym wedi cynnal cyfres o sesiynau ymgysylltu gyda staff yn y maes prawf a darparu carchardai, timau polisi, amrywiaeth o ddarparwyr posibl gan gynnwys cyrff gwirfoddol a chymunedol (arbenigol, penodol i garfan), cyrff academaidd ac ymbarel/meddwl, ac adrannau eraill o'r llywodraeth (Iechyd, Awdurdod Lleol, yr Adran Gwaith a Phensiynau, Comisiynydd Heddlu a Throseddu ac ati).

Dyma brif ganfyddiadau'r ymchwil blaenorol a'r gweithgarwch ychwanegol hwn:

- Mae darparu gwasanaeth prawf sydd wedi ei deilwra'n dda ac sy'n ymatebol yn galw am amrywiaeth o ymyriadau cyffredinol, penodol ac arbenigol o safon uchel sy'n cynorthwyo unigolion sy'n cael eu goruchwylio i ymatal rhag troseddu ac yn ceisio sicrhau diogelwch pobl eraill.
- Mae ffactorau'n gorgyffwrdd yn aml ac felly mae angen mynd i'r afael â nhw'n gyfannol.
- Roedd pwysigrwydd 'prynu i mewn' a thechnegau cymell a ddefnyddiwyd gan Ymarferwyr Prawf yn allweddol i ymatal.

  Nodweddir darpariaeth o ansawdd uchel gan gyswllt a chyfathrebu clir ac effeithiol rhwng Ymarferwyr Prawf a darparwyr/partneriaid dan gontract.
- Dylid canolbwyntio ymdrech ailsefydlu ddwys ar y rhai hynny sy'n fwy tebygol o gael eu haileuogfarnu.
- Dylai adsefydlu roi sylw i anghenion troseddegol ac adeiladu ar gryfderau.
- Yr unig ffordd i ymyriadau adsefydlu wneud gwahaniaeth o ran troseddu yw pan fyddant yn canolbwyntio ar y sgiliau, yr ymddygiadau a'r agweddau sy'n ymwneud â llwybr unigolyn at droseddu a'r rhai sy'n llesteirio'r ffordd allan. Dylai darparwyr weithio tuag at gynorthwyo unigolion i gyflawni canlyniadau mesuradwy a defnyddio dulliau sy'n gweithio ac sy'n ymateb i'r unigolyn a'i amgylchiadau.

### Buddion a ragwelir

Bydd gweithredu Fframwaith Dynamig yn ein galluogi i bennu'n gliriach ein disgwyliadau ar gyfer ymyriadau a gwasanaethau a gyflwynir ar gyfer Gofynion Gweithgaredd Adsefydlu ac ar gyfer Ailsefydlu. Bydd unigolion sy'n cael eu goruchwylio yn cael ymyriadau sydd wedi eu targedu'n dda ac sydd wedi eu cynllunio'n dda ac sydd wedi eu darparu'n dda, ac sy'n manteisio i'r eithaf ar eu siawns o fyw bywydau lle nad ydynt yn troseddu. Bydd y dull gweithredu newydd yn arwain at ffordd well i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ddylanwadu ar randdeiliaid a lefelau'r galw ar draws y System Cyfiawnder Troseddol, yn ogystal â chryfhau hyder barnwrol a rhanddeiliaid eraill yn yr ymyriadau a fydd ar gael i'r rhai sydd dan oruchwyliaeth y gwasanaeth prawf. Bydd diogelu'r cyhoedd a chanlyniadau unigol yn gwella drwy sicrhau bod ymyriadau cyson ar gael sydd naill ai'n mynd i'r afael â'r meysydd angen sy'n gysylltiedig yn gryf ag aildroseddu, neu'n darparu'r sefydlogrwydd sydd ei angen ar unigolion. Bydd y cymorth hefyd yn cael ei deilwra i gydnabod a diwallu cefndiroedd ac anghenion amrywiol unigolion er mwyn sicrhau canlyniadau cadarnhaol.

Ar ben hynny, er mwyn gwella mynediad unigolion at y gwasanaethau mwyaf priodol ac effeithiol, bydd y model newydd yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i gydweithio â phartneriaid lleol, gan gynnwys mudiadau gwirfoddol, cymunedol a mentrau cymdeithasol, awdurdodau lleol, a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu.

Mae'r dull newydd o gaffael ymyriadau a gwasanaethau drwy'r Fframwaith Dynamig yn cwmpasu tri o'r manteision canolradd y disgwyliwn i'r model gweithredu targed eu cyflawni wrth i ni gyflwyno diwygiadau yn dilyn y Diwrnod Cyntaf:

- **Gwella ansawdd ymyriadau:** Wedi ei fesur drwy sgoriau ansawdd archwiliadau'r Grŵp Sicrwydd Systemau Gweithredol ar gyfer Gwasanaethau Adsefydlu wedi'u Comisiynu.
- **Darparu ymyriadau'n fwy llwyddiannus:** Rydym yn rhagweld y bydd rhagor o ymyriadau'n cael eu darparu drwy'r Fframwaith Dynamig, a fydd yn cael eu mesur ar sail cyfran yr unigolion sy'n derbyn Gwasanaethau Adsefydlu wedi'u Comisiynu.
- **Cynyddu darpariaeth gwasanaethau prawf yn lleol a thrwy bartneriaeth:** Rydym yn rhagweld y bydd y Fframwaith Dynamig yn arwain at ragor o fudiadau gwirfoddol, cymunedol a mentrau cymdeithasol yn ymwneud â darparu ymyriadau i'w mesur drwy nifer y mudiadau gwirfoddol a chymunedol sy'n darparu Gwasanaethau Adsefydlu wedi'u Comisiynu.

### Ystyriaethau Cydraddoldeb

Rydym yn disgwyl i ddarparwyr sicrhau bod yr ymyriadau maent yn eu dylunio a/neu'n eu darparu yn ymateb i amgylchiadau a nodweddion gwarchodedig pobl. Yn unol â'n dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, rydym wedi nodi disgwyliadau clir ei bod yn rhaid i ddarparwyr Gwasanaethau Adsefydlu wedi'u Comisiynu ddarparu gwasanaethau mewn ffordd sy'n adlewyrchu nodweddion gwarchodedig a/neu anghenion penodol pob unigolyn yn unol â 'Chynllun Gweithredu Defnyddiwr Gwasanaeth' unigolyn, a'i adlewyrchu yn y Cynllun hwnnw. Mae'r rhain yn ymwneud yn benodol ag anawsterau dysgu a/neu anableddau dysgu, y rhai sy'n cael eu nodweddu gan leiafrif ethnig (gan gynnwys Sipsiwn, Roma a Theithwyr), oedolion ifanc, cyn-filwyr, troseddwyr tramor cenedlaethol, menywod, hunaniaeth o ran rhywedd ac oedran/iechyd.

Bydd cyflwyno Fframwaith Dynamig yn ein galluogi i roi trefniadau mwy hyblyg ar waith ar lefel ranbarthol a lleol ar gyfer cael gafael ar ymyriadau adsefydlu ac ailsefydlu arbenigol, drwy gynnal cystadlaethau yn ôl y galw i ddiwallu anghenion ychwanegol sy'n gysylltiedig drwy dystiolaeth ag ymatal, yn ogystal ag ar gyfer carfannau sydd angen ymateb penodol neu arbenigol. Mae categorïau penodol y carfannau yn cydnabod, er y gall y gweithgareddau a'r gwasanaethau eu hunain fod yn debyg, mae'n rhaid teilwra'r dull er mwyn bod yn ddigon ymatebol i fynd i'r afael yn briodol ag anghenion defnyddwyr yn y carfannau hyn (gan gynnwys menywod, pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig ac oedolion ifanc).

Bydd disgwyl i ddarparwyr ddangos, yn eu ceisiadau, sut gallant deilwra i anghenion penodol carfannau allweddol yr ymyriadau a'r gwasanaethau maent yn eu cynnig gan ddefnyddio dulliau arfer gorau a fydd yn sicrhau gwell ymgysylltu a chanlyniadau i unigolion sy'n cael eu goruchwylio.

Rydym yn cydnabod bod gan unigolion yn aml anghenion lluosog, cymhleth a chroes i'w gilydd, ac er mwyn rhoi cymorth effeithiol iddynt, mae'n hanfodol bod darparwyr yn gallu cynnig digon o hyblygrwydd wrth ddarparu.

Yn unol â chanfyddiadau Adolygiad Lammy, rydym yn cydnabod ei bod yn bosibl na fydd gan rai mudiadau sy'n llai o faint yn y sector gwirfoddol ac sy'n arbenigo ar faterion BAME, y capasiti i gymryd rhan lawn mewn trefniadau comisiynu newydd. Er mwyn helpu i gael gwared ar rwystrau posibl a chynyddu capasiti, rydym wedi darparu cyllid wedi ei dargedu i bob rhanbarth ar gyfer 2020/21 i helpu i gynorthwyo mudiadau BAME sydd â blaenoriaethau clir o ran gweithio gyda lleiafrifoedd ethnig ac sy'n arbenigwyr yn y maes hwn. Gobeithiwn y gallwn gryfhau gwasanaethau i ddefnyddwyr gwasanaethau BAME yn y modd hwn, a galluogi mudiadau arbenigol BAME i gofrestru'n llwyddiannus ar y Fframwaith Dynamig.

### Beth yw'r Fframwaith Dynamig?

Mae'r Fframwaith Dynamig yn hybrid o Gytundeb Fframwaith a System Brynu Ddeinamig. Bydd y Fframwaith yn darparu mecanwaith hyblyg i ddod o hyd i gyflenwyr a all ddarparu ymyriadau ailsefydlu ac adsefydlu ledled Cymru a Lloegr. Bydd y Fframwaith Dynamig yn caniatáu i'r Cyfarwyddwr Prawf Rhanbarthol gaffael ymyriadau y gellir eu teilwra i ddiwallu anghenion lleol a chreu neu fanteisio ar gyfleoedd lleol sy'n dod i'r amlwg, fel cyfleoedd i gyd-gomisiynu.

Defnyddir y gwasanaethau o'r Fframwaith Dynamig ar gyfer unigolion ar orchmynion cymunedol a'r rhai sy'n cael eu goruchwylio ar drwydded yn y gymuned gyda dewis o rywfaint o weithgarwch cyn rhyddhau. Gellir darparu gwasanaethau ailsefydlu i unigolion tra byddant yn y ddalfa i'w helpu i baratoi ar gyfer eu rhyddhau yn ogystal â chynorthwyo ag ailsefydlu ar ôl eu rhyddhau, gan ganolbwyntio'n benodol ar gynorthwyo a mynd i'r afael ag anghenion mewn perthynas â throsglwyddo o'r carchar yn ogystal ag ailintegreiddio i fywyd y gymuned. Mae ymyriadau adsefydlu yn canolbwyntio ar yr angen i leihau aildroseddu yn achos y rhai sydd ar orchmynion cymunedol, dedfrydau gohiriedig a thrwyddedau, a'u bwriad yw cynorthwyo unigolion i ailintegreiddio i'r gymuned drwy fynd i'r afael ag amrywiaeth o anghenion.

**Bydd trawsnewid y gwaith o ddarparu ymyriadau adsefydlu ac ailsefydlu drwy weithio mewn partneriaeth â darparwyr Gwasanaethau Adsefydlu wedi'u Comisiynu yn ein galluogi i ddiwallu anghenion amrywiol a chymhleth unigolion er mwyn lleihau aildroseddu.**

### Cymhwyster ar y Fframwaith Dynamig

Bydd y Fframwaith Dynamig yn caniatáu i ddarpar ddarparwyr gymhwyso i'r Fframwaith fesul ardal angen, gan nodi ym mha leoliadau daearyddol y gallant eu darparu. Bydd hefyd yn cael ei rannu'n gategorïau yn seiliedig ar anghenion a charfannau. Bydd yr holl ddarparwyr sy'n bodloni'r meini prawf a amlinellir yn yr Holiadur Dethol yn cael eu derbyn i'r Fframwaith Dynamig, gan eu galluogi i gymryd rhan mewn cystadlaethau yn ôl y galw yn y dyfodol. Bydd y broses gymhwyso i ymuno â'r Fframwaith Dynamig yn syml ac yn gymesur.

Gan fod y Fframwaith yn ddeinamig, bydd sefydliadau'n gallu cymhwyso ar unrhyw adeg yn ystod tymor y Fframwaith Dynamig. Rhagwelwn y bydd y Fframwaith Dynamig ar waith am gyfnod o saith i 10 mlynedd, gyda'r cyfle i ymestyn hyn ar ôl hysbysu'r farchnad yn briodol. Bydd darparwyr sy'n gymwys ar gyfer y Fframwaith Dynamig yn gallu newid eu manylion (e.e. yr ardal ddaearyddol lle mae ganddynt ddiddordeb mewn ymgeisio) ar unrhyw adeg, yn amodol ar broses adolygu.

### Comisiynu

Defnyddir y Fframwaith Dynamig yn bennaf i ddyfarnu contractau. Fodd bynnag, mae hyblygrwydd wedi ei gynnwys yn y cytundeb fframwaith i ymestyn hyn i grantiau os oes angen. Bydd comisiynwyr yn pennu'r dull mwyaf priodol ar gyfer pob cystadleuaeth yn ôl y galw ar sail anghenion y gwasanaeth. Mae'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf wedi cynnal cyfres o gystadlaethau yn ôl y galw yn ganolog, ymysg y darparwyr hynny sydd wedi cymhwyso, i gaffael gwasanaethau blaenoriaeth sy'n ofynnol o Ddiwrnod Cyntaf y model prawf newydd ym mhob rhanbarth ar wahân i Fanceinion Fwyaf ac ar gyfer gwasanaethau i fenywod yn Llundain (gweler isod).

Ar gyfer y Diwrnod Cyntaf, bydd Cyfarwyddwyr Prawf Rhanbarthol yn penderfynu a ydynt yn dymuno comisiynu gwasanaethau cymorth ar gyfer dibyniaeth ac adferiad (sef gwasanaethau cofleidiol i wasanaethau triniaeth presennol ar gyfer dibyniaeth, a ddarperir gan awdurdodau iechyd/lleol) ac ar gyfer cymorth i fynd i'r afael ag anghenion cyllid, budd-daliadau a dyledion, ynteu a oes darpariaeth ddigonol ar waith.

Ym Manceinion Fwyaf, rydym yn gweithio gydag Awdurdod Cyfun Manceinion Fwyaf i ystyried comisiynu'r holl wasanaethau blaenoriaeth ar y cyd (gan gynnwys cyllid, budd-daliadau a dyled a dibyniaeth ac adferiad) ar gyfer y Diwrnod Cyntaf, gan ddefnyddio eu llwybrau caffael.

Yn Llundain, rydym wedi gweithio gyda Swyddfa'r Maer dros Blismona a Throsedd (MOPAC) i gyd-gomisiynu gwasanaethau i fenywod. Bydd hyn yn seiliedig ar ehangu cytundeb grant presennol MOPAC i gynnwys pob bwrdeistref yn Llundain ac i fodloni gofynion gwasanaeth craidd penodol y gwasanaeth prawf. Bydd y gwasanaeth prawf newydd a MOPAC wedyn yn ceisio comisiynu gwasanaethau adsefydlu ac ailsefydlu newydd ar y cyd ar gyfer menywod yn Llundain lyn 2022.

Mae manylion gwasanaethau Blaenoriaeth y Diwrnod Cyntaf i'w gweld yn y tabl 'Trosolwg o'r Diwrnod Cyntaf' ym Mhennod 2. Ar ôl y Diwrnod Cyntaf, cyfrifoldeb y rhanbarthau fydd defnyddio'r Fframwaith Dynamig i gaffael Gwasanaethau Adsefydlu wedi'u Comisiynu i lenwi bylchau neu ymestyn y ddarpariaeth o wasanaethau ar sail yr wybodaeth sydd ar gael. Bydd yr amrywiaeth lawn o wasanaethau sydd ar gael ar gyfer caffael o dan y Fframwaith Dynamig fel a ganlyn:

| Categori Gwasanaeth neu Garfan | Canlyniadau Lefel Uchel |
|---|---|
| Llety | • Wedi cael/cynnal y llety.<br>• Atal digartrefedd. |
| Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth | • Gwaith, hyfforddiant ac addysg addas yn cael eu sicrhau a'i gynnal.<br>• Chwalu rhwystrau a gwella sgiliau. |
| Cyllid, budd-daliadau a dyledion | • Incwm sefydlog a chyfreithlon gyda llai o ddyled.<br>• Gwell sgiliau i reoli arian. |
| Dibyniaeth ac Adfer | • Yn fwy abl i reoli sefyllfaoedd risg uchel.<br>• Cael gafael ar gymorth arbenigol. |

| Categori Gwasanaeth neu Garfan | Canlyniadau Lefel Uchel |
|---|---|
| Llesiant Personol:<br>• Cynhwysiant Cymdeithasol<br>• Ffordd o fyw a Chymdeithion<br>• Teulu a phobl eraill arwyddocaol<br>• Llesiant Emosiynol | • Trosglwyddo'n llwyddiannus e.e. o'r ddalfa i'r gymuned.<br>• Yn fwy abl i reoli sefyllfaoedd heriol ac ymgysylltu â gwasanaethau a chyfleoedd eraill.<br>• Cymorth a diddordebau pro-gymdeithasol.<br>• Mae gan gymdeithion negyddol lai o ddylanwad.<br>• Perthynas bersonol ddiogel a chadarnhaol.<br>• Gwella'r berthynas rhwng teuluoedd a'r gallu i fagu plant.<br>• Sgiliau a strategaethau ymdopi gwell.<br>• Yn fwy abl i gydymffurfio â thriniaethau/meddyginiaethau. |
| Gwasanaethau Menywod (Cohort) | • Gwasanaethau mwy effeithiol sydd wedi eu teilwra'n well i anghenion penodol y garfan hon. |
| Gwasanaethau i Oedolion Ifanc (Cohort) | • Gwasanaethau mwy effeithiol sydd wedi eu teilwra'n well i anghenion penodol y garfan hon. |
| Newid Gwybyddol ac Ymddygiadol | • Addasu patrymau ymddygiad negyddol.<br>• Hyrwyddo hunanymwybyddiaeth a deallusrwydd emosiynol. |
| Cyfiawnder Adferol[8] (h.y. gwasanaethau i ddioddefwyr) | • Mwy o fodlonrwydd ymysg dioddefwyr a llai o aildroseddu. |
| Gwasanaethau i Grwpiau BAME (Cohort) | • Gwasanaethau mwy effeithiol sydd wedi eu teilwra'n well i anghenion penodol y garfan hon. |
| Ymwneud â Defnyddwyr Gwasanaeth | • Gwellwyd y gwasanaethau drwy fewnbwn a chyfraniad gan ddefnyddwyr gwasanaethau blaenorol. |

[8] Mae'r rhain y tu allan i gwmpas y gwasanaeth prawf presennol, ond cânt eu comisiynu'n aml gan Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu a allai ddymuno comisiynu'r rhain drwy'r Fframwaith Dynamig yn y dyfodol.

Ar gyfer comisiynu yn y dyfodol, naill ai i ddisodli contractau'r Diwrnod Cyntaf pan fyddant yn dod i ben neu i ategu'r rhai sydd â gwasanaethau ychwanegol, bydd Cyfarwyddwyr Prawf Rhanbarthol yn gyfrifol am ddewis pa wasanaethau i'w comisiynu a sut i wneud hynny. I wneud hyn, disgwyliwn iddynt weithio gydag asiantaethau rhanbarthol (e.e. drwy leihau byrddau aildroseddu a threfniadau eraill) i asesu anghenion a gwasanaethau yn lleol a chytuno ar flaenoriaethau comisiynu.

Yn ogystal â bod yn fecanwaith ar gyfer y gwasanaeth prawf newydd, mae'r Fframwaith Dynamig hefyd yn darparu mynediad i amrywiaeth o gyrff cyfranogol gwahanol a fydd yn gallu prynu gwasanaethau'n uniongyrchol o'r Fframwaith Dynamig neu drwy drefniadau cyd-gomisiynu gyda'r gwasanaeth prawf. Bydd hyn yn cynnwys Carchardai EM, Awdurdodau Rhanbarthol ar gyfer y Gwasanaeth Prawf, Llywodraeth Cymru, Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, Swyddfa'r Maer dros Blismona a Throseddu (Llundain), Awdurdod Cyfun Manceinion Fwyaf, ac awdurdodau lleol eraill.

Yn ogystal â chyllidebau ar gyfer gwasanaethau darparu dedfrydau craidd fel y rhai sy'n cael eu comisiynu drwy'r Fframwaith Dynamig, bydd Cyfarwyddwyr Prawf Rhanbarthol hefyd yn gallu cael gafael ar ffynonellau cyllid eraill, gan gynnwys y Gronfa Ganlyniadau ac Arloesi Ranbarthol (gweler isod am ragor o fanylion).

### Rôl yr Ymarferydd Prawf o ran ategu ymyriadau adsefydlu ac ailsefydlu

Mae tystiolaeth yn dangos y dylai ymyriadau fod yn rhan o ddull cyfannol sy'n seiliedig ar oruchwyliaeth effeithiol er mwyn manteisio i'r eithaf ar y siawns o lwyddo. Fel yr amlinellwyd yn yr adran Rheoli Dedfrydau uchod, mae gan Ymarferwyr Prawf rôl allweddol gan hynny yn effeithiolrwydd yr ymyriadau drwy amryw o gamau gweithredu. Mae hyn yn cynnwys rheoli'r gwaith o gyflwyno'r cynllun dedfrydu, goruchwylio'r broses o ddewis a dilyn trefn ymyriadau adsefydlu priodol ac atgyfnerthu cynnydd a ffyrdd newydd o feddwl ac ymddwyn i gynorthwyo â newid ymddygiad.

Gall Ymarferwyr Prawf sy'n ceisio mynd i'r afael ag anghenion ymarferol fel tai, addysg a hyfforddiant neu gyngor ariannol dynnu oddi ar elfennau hanfodol eraill i reoli'r ddedfryd, oherwydd y pwysau amser a'r heriau o ran cael gafael ar gymorth i unigolion. Mae angen i Ymarferwyr Prawf gael y cydbwysedd iawn er mwyn rheoli'r rhai maent yn eu goruchwylio'n effeithiol. Yn yr un modd, mae ymyriadau sy'n adeiladu cyfalaf cymdeithasol yn debygol o gael eu darparu'n well gan ddarparwyr lleol arbenigol. Ein nod yw helpu Ymarferwyr Prawf i wneud atgyfeiriadau amserol a bod yn hyderus eu bod yn gallu cael gafael ar ymyriadau a gwasanaethau addas sydd ar gael drwy amrywiaeth o lwybrau, gan gynnwys y gwasanaeth arbenigol, cofleidiol, ymatebol sy'n cael ei ddarparu'n lleol, sy'n ofynnol gan ddarparwyr ar y Fframwaith Dynamig.

Bydd gofyn i'r Ymarferydd Prawf integreiddio'r ymyriadau a'r gwasanaethau a amlinellir yn ei gynllun dedfrydu gan mai ef sy'n rheoli'r broses gyffredinol o gyflwyno'r ddedfryd. Bydd Ymarferwyr Prawf hefyd yn cofnodi cwblhau'r ymyriad(au) a'r canlyniadau a gyflawnwyd. Mae'n hanfodol bod cyswllt parhaus wedi bod yn rheolaidd gyda darparwr y Gwasanaethau Adsefydlu wedi'u Comisiynu drwy gydol y broses gyflawni, er mwyn gallu adolygu'r cynnydd yn ofalus; a phan fydd heriau'n codi, rhoddir sylw i'r rhain yn gyflym er mwyn cynnal y cynnydd tuag at gyflawni'r canlyniadau.

### Gofynion ar gyfer darparwyr yn y dyfodol

#### Wrth gymhwyso

Wrth werthuso Gwasanaethau Adsefydlu wedi'u Comisiynu ar gyfer cymhwyso ar y Fframwaith Dynamig, byddwn yn gwahodd darparwyr i wneud y canlynol:

- mynegi'r ymyriadau adsefydlu ac ailsefydlu penodol y byddant yn eu cynnig er mwyn diwallu'r anghenion troseddegol allweddol nad ydynt yn cael eu diwallu gan raglenni achrededig na gofynion triniaeth
- disgrifio sut byddant yn sicrhau canlyniadau sy'n ymatebol ac sy'n gallu diwallu gwahanol lefelau o angen
- disgrifio sut byddant yn rhoi sylw i anghenion unigolion sydd ag anghenion cymhleth lluosog a nodweddion gwarchodedig
- rhoi esboniad manwl o sut a phryd byddant yn cynorthwyo unigolion cyn eu rhyddhau, a sut bydd ymyriadau'n mynd i'r afael yn benodol ag anghenion sy'n ymwneud â throsglwyddo ac ailintegreiddio yn y gymuned o'r carchar i'r gymuned a symud ymlaen o safleoedd cymeradwy
- dangos o fewn eu cynigion sut mae eu gwasanaeth yn gweithio'n agos gyda darparwyr lleol a sut bydd yn cael ei deilwra i gwrdd â'r amrywiadau mewn anghenion lleol. Bydd y gwasanaethau'n cael eu darparu yn y lleoliadau allweddol ym mhob un o Unedau Cyflawni'r Gwasanaeth Prawf

### Cyn dedfrydu, ar ôl dedfrydu a therfynu

Drwy gydweithio â phartneriaid ar y Fframwaith, y bwriad yw cynorthwyo Ymarferwyr Prawf drwy sicrhau bod ymyriadau ar gael drwy amrywiaeth o lwybrau. Mae hyn yn cynnwys y gwasanaethau arbenigol ymatebol a chofleidiol sy'n cael eu darparu'n lleol, sy'n ofynnol gan ddarparwyr ar y Fframwaith Dynamig, sy'n diwallu'r anghenion adsefydlu ac ailsefydlu sy'n codi amlaf ac na fyddant yn cael eu diwallu gan Raglenni Achrededig a Gofynion Triniaeth Dedfryd Gymunedol.

Y disgwyliad yw y bydd darparwyr yn darparu gwybodaeth amserol a fyddai ar gael ar System yr Awdurdod i alluogi Ymarferwyr Prawf i gael gafael ar ddigon o wybodaeth i lywio eu cynigion, naill ai yn y cam cyn dedfrydu neu cyn rhyddhau.

Ar ôl cael atgyfeiriad gan Ymarferydd Prawf, bydd darparwyr Gwasanaethau Adsefydlu wedi'u Comisiynu yn asesu'r unigolyn mewn cyfarfod wyneb yn wyneb lle bo hynny'n bosibl ac yn paratoi 'Cynllun Gweithredu i Ddefnyddwyr Gwasanaethau' a fydd yn nodi sut bydd y canlyniadau y cytunwyd arnynt yn cael eu cyflawni drwy'r camau gweithredu a'r gweithgareddau a gyflawnir ganddynt. Mae'r sesiwn asesu hon hefyd yn sicrhau bod darparwyr yn gallu rhoi ystyriaeth briodol i anghenion ac amgylchiadau unigolion er mwyn teilwra'r ddarpariaeth yn briodol ar gyfer anghenion y defnyddiwr. Bydd y Cynllun Gweithredu

ar gyfer Defnyddwyr Gwasanaethau yn benodol, yn fesuradwy, yn gyraeddadwy, yn realistig ac wedi ei gyfyngu i amser, a gall Ymarferwyr Prawf ei ddefnyddio mewn cynlluniau dedfrydu i sicrhau dull cynhwysfawr o Reoli Dedfrydau sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr.

Bydd darparwyr y Gwasanaethau Adsefydlu wedi'u Comisiynu yn adrodd ar bob cyswllt ag unigolyn yn ddigidol, drwy System yr Awdurdod. Bydd hyn yn ymddangos mewn systemau prawf fel cyswllt. Pennir ym manylion y cyflenwyr pa mor aml y defnyddir y cyswllt hwn i sicrhau bod llif priodol o gyfathrebu rhwng darparwyr Gwasanaethau Adsefydlu wedi'u Comisiynu a'r Ymarferydd Prawf.

Ar unrhyw adeg yn y gwasanaeth a ddarperir, gall yr Ymarferydd Prawf ofyn am gyfarfod tair ffordd rhwng darparwr y Gwasanaethau Adsefydlu wedi'u Comisiynu a'r defnyddiwr gwasanaeth i drafod diweddariadau ar ddarparu gwasanaeth a chynnydd o ran canlyniadau, er mwyn adolygu a diwygio yn ôl yr angen.

Ar ôl gorffen darparu'r gwasanaeth, bydd darparwr y Gwasanaethau Adsefydlu wedi'u Comisiynu yn llunio Adroddiad Diwedd Gwasanaeth, a fydd yn amlinellu'r cynnydd a wnaed yn ystod y cyfnod o ddarparu gwasanaeth, y canlyniadau a gyflawnwyd a'r cynllun symud ymlaen. Bydd yr Adroddiad Diwedd Gwasanaeth yn cael ei ddefnyddio gan yr Ymarferydd Prawf mewn asesiadau terfynu.


### Llif gwybodaeth rhwng Ymarferwyr Prawf a darparwyr Gwasanaethau Adsefydlu wedi'u Comisiynu

Bydd darparwyr Gwasanaethau Adsefydlu wedi'u Comisiynu ac Ymarferwyr Prawf yn defnyddio'r gwasanaethau digidol newydd sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd. Bydd y gwasanaethau hyn yn cael eu defnyddio i reoli darpariaeth effeithiol ac i ddarparu gwybodaeth i'r gwasanaeth prawf newydd gan ddarparwyr am y Gwasanaethau Adsefydlu wedi'u Comisiynu sydd ar gael. Mae'r system ddigidol newydd hefyd yn cynnwys y prosesau o ychwanegu, canfod a chyfeirio at Wasanaethau Adsefydlu wedi'u Comisiynu, olrhain cynnydd a derbyn adborth ar y gwasanaethau hynny a'u gwerthuso. Bydd Ymarferwyr Prawf yn gallu canfod a chyfeirio defnyddwyr gwasanaeth ymlaen at ymyriad drwy un gwasanaeth digidol yn hytrach na gorfod newid rhwng hyd at bedair system ar hyn o bryd.

Yng Nghymru, bydd model Hyb Ailsefydlu, Atgyfeirio a Gwerthuso Gweithredol a Chanolog (CORRE) yn cael ei brofi. Bydd hyn yn helpu Ymarferwyr Prawf i ganfod ymyriadau addas, cwblhau atgyfeiriadau, monitro cynnydd troseddwyr a chadw'r ddedfryd ar y trywydd iawn. Bydd hyn yn cynnwys Gwasanaethau Adsefydlu wedi'u Comisiynu, ond ni fydd wedi'i gyfyngu i hynny. Bydd atebion digidol a ddatblygir i reoli ymyriadau yn cael eu hymgorffori yng nghylch gwaith Hyb CORRE.

Mae Ffigur 13, dros y dudalen, yn amlinellu'r rhyngweithio a'r llif lefel uchel rhwng yr Ymarferydd Prawf a darparwr y Gwasanaethau Adsefydlu wedi'u Comisiynu (y Fframwaith Dynamig).

Ffigur 13. Rhyngweithio rhwng Ymarferwyr Prawf a Darparwyr y Gwasanaethau Adsefydlu wedi'u Comisiynu (y Fframwaith Dynamig)



## Cronfa Ranbarthol Canlyniadau ac Arloesi

Mae'r Gronfa Ranbarthol Canlyniadau ac Arloesi yn gronfa fach o arian sydd ar gael i ranbarthau, gyda'r bwriad o helpu i ysgogi buddsoddiad mewn gwasanaethau ehangach (er enghraifft, drwy wneud trefniadau cyd-gyllido gyda Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu neu gomisiynwyr eraill) a allai helpu i leihau aildroseddu ond nad ydynt yn cyflawni gorchymyn y llys yn uniongyrchol. Bydd hyn yn helpu Cyfarwyddwyr Prawf Rhanbarthol i:

- ganfod ffyrdd newydd ac arloesol o weithio, a gweithio gydag amrywiaeth ehangach o ddarparwyr gwasanaethau
- darparu cymorth ychwanegol a pharhaus y tu hwnt i'r ddedfryd, neu i'r rhai y mae eu dedfryd yn rhoi cyfle cyfyngedig i ymyrryd ond sydd mewn perygl o aildroseddu
- dod o hyd i arbedion effeithlonrwydd sy'n deillio o allu buddsoddi mewn cynlluniau ar y cyd a threfniadau cyllido ar y cyd a chael gafael ar fuddsoddiad ychwanegol
- sicrhau bod gwasanaethau ar gael i droseddwyr ar sail angen yn hytrach na'u bod yn dibynnu ar ofynion y ddedfryd

Bydd cronfa Canlyniadau ac Arloesi Ranbarthol yn cynyddu dros nifer o flynyddoedd. Bydd hyn yn caniatáu i'r rhanbarthau feithrin y cysylltiadau a'r sgiliau i wneud comisiynau effeithiol a sicrhau bod cyfleoedd buddsoddi newydd ym mhob un o'r blynyddoedd prysur.

### Meini Prawf Comisiynu a Llwyddiant

Bydd gan bob rhanbarth ddisgresiwn i benderfynu sut i fuddsoddi eu cronfa, gan ddefnyddio tystiolaeth a gwybodaeth leol i lywio eu penderfyniadau. Byddant yn gallu pennu'r manylebau ar gyfer y gwasanaethau maent yn dymuno buddsoddi ynddynt a'r dangosyddion perfformiad a fydd yn cael eu defnyddio. Bydd timau comisiynu'n cael eu cynorthwyo gan dimau masnachol a chontractio drwy gyfnod cyd-ddylunio'r cylch cynllunio busnes (gweler Ffigur 18).

Bydd disgwyl i bob Cyfarwyddwr Prawf Rhanbarthol ddangos eu bod wedi gwario eu harian yn dda a disgrifio'r penderfyniadau comisiynu a'r gwasanaethau maent wedi eu cyllido. Mae'r union brosesau ar gyfer yr oruchwyliaeth yn dal i gael eu datblygu ond y nod yw cael meini prawf llwyddiant a fydd yn ddigon eang i ganiatáu ar gyfer arloesi ac sy'n ystyried:

- bwlch gwirioneddol mewn gwasanaeth y gall y cyllid fynd i'r afael ag ef a bydd yn cynnig ychwanegoldeb i'r gwasanaethau a ddisgwylir o drefniadau cyflawni dedfryd neu o gyfrifoldebau statudol asiantaethau eraill
- rhesymeg gredadwy i ddangos sut bydd y gwasanaeth hwn yn mynd i'r afael â'r bwlch hwn ac yn darparu manteision i'r rhai sydd mewn perygl o aildroseddu
- proses deg i ddyfarnu'r cyllid, ac i oruchwylio'r defnydd ohono
- gwerthusiadau a mesurau perfformiad priodol er mwyn gallu asesu effaith y gwasanaeth

- sut i gynyddu gwerth am arian ac effeithlonrwydd y buddsoddiad, gan gynnwys ystyried gwerth cyllid gan gyd-gomisiynwyr/cyllidwyr a chydlynu â rhanbarthau caethiwo perthnasol
- diwydrwydd dyladwy i sicrhau bod anfanteision a risgiau posibl yn cael eu nodi
- asesiad effaith ar gyfer pob penderfyniad cyllido ac ar gyfer cynllun gwariant cyffredinol y Gronfa
- manteision i ddefnyddwyr gwasanaeth, a allai wella canlyniadau cyflawni dedfrydau'n uniongyrchol, ond rhaid iddynt beidio â buddsoddi'n uniongyrchol mewn cynnwys cyflawni dedfryd y gellir ei orfodi ac ni ddylent groesgyfeirio gweithgarwch sydd eisoes wedi ei gyllido neu gontractau gofynion dedfrydau gorfodadwy
- ymrwymiad i ddarpariaeth gynaliadwy a rhannu arferion gorau gyda phartneriaid a rhanbarthau eraill
- cysoni buddsoddiad y Gronfa â blaenoriaethau cenedlaethol a rhanbarthol cyffredinol y gwasanaeth prawf

Byddwn yn ystyried yn ofalus sut gallai hyn weithio yng nghyd-destun trefniadau cyllido gwahanol yng Nghymru ar gyfer camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl, a byddwn yn gwneud defnydd llawn o dîm Hyb CORRE Cymru i lywio'r defnydd o'r gronfa hon a'r dewis o wasanaethau y bydd yn eu cael.

### Cyflwyno Ymyriadau yn Fewnol

Fel y cyhoeddwyd ym mis Mehefin 2020, mewn ymateb i'r ansicrwydd a grewyd gan bandemig COVID-19, byddwn yn cyflwyno ymyriadau y gellir eu diffinio yn y gwasanaeth prawf newydd.

Bwriad y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf yw sicrhau bod amrywiaeth o ymyriadau mewnol ar gael:

- Darparu digon o leoliadau Gwaith Di-dâl o safon yn lleol.
- Cyfres o Raglenni Achrededig (wedi'u hachredu gan CSAPP).
- Amrywiaeth o Ymyriadau Strwythuredig (wedi eu cymeradwyo gan y Panel Ymyriadau Effeithiol Cenedlaethol).
- Portffolio o becynnau cymorth cymeradwy (wedi eu cymeradwyo gan y Panel Ymyriadau Effeithiol Cenedlaethol).

Byddwn wedi gwella'r targedu drwy'r Fframwaith Cynigion Effeithiol, systemau cofnodi cadarn, hwyluswyr wedi eu hyfforddi'n briodol, a dulliau gwerthuso da; bydd pob un ohonynt yn hwyluso sylfaen dystiolaeth dda am yr hyn sy'n gweithio.

**Ffigur 14. Beth mae Asesu, Diogelu, Newid yn ei olygu o ran cyflawni ymyriadau**

Isod, ceir disgrifiad o sut mae Asesu, Diogelu, Newid yn berthnasol wrth ddarparu ymyriadau.



### Asesu

- Cwblhau asesiad parhaus gan sicrhau **ansawdd, addasrwydd a rhedeg** ymyriadau, rhaglenni a lleoliadau.
- Dod i **ddeall newidiadau yn anghenion** unigolyn. Cynnal Asesiad Addasrwydd Gwaith Di-dâl penodol.
- Asesu pa mor debygol yw cwblhau'r ymyriadau dri mis cyn diwedd y gorchymyn/drwydded.
- Asesu a gwerthuso effaith ymyriadau yn ystod ac ar ôl cwblhau.

### Diogelu

- **Ymateb** yn hyblyg i newidiadau yn risgiau ac anghenion unigolyn drwy ddefnyddio Ymyriadau wedi'u Strwythuro.
- **Diogelu dioddefwyr y dyfodol** a lleihau'r risg o newid drwy **herio** syniadau ac **ymddygiad** unigolion sy'n gysylltiedig â throseddu.
- Defnyddio Gwaith Di-dâl i gyfrannu at ddiogelu'r cyhoedd drwy fynnu bod unigolion yn gweithio er **budd** eu **cymunedau**, ar yr un pryd â rheoli staff sydd wedi cael eu hyfforddi'n briodol.

### Newid

- **Cefnogi newid cadarnhaol** drwy ddewis yr ymyriad iawn ar yr **adeg iawn.**
- Helpu unigolion i **adnabod** eu risg a thrawsnewid eu bywydau drwy Raglenni Achrededig.
- Datblygu **sgiliau parod am waith** drwy Waith Di-dâl, gan gynnig **cyfleoedd** ar gyfer addysg, hyfforddiant ac ennill sgiliau galwedigaethol.

### Timau Ymyriadau

Ym mhob un o'r 12 rhanbarth, bydd Tîm Ymyriadau yn gyfrifol am ddarparu Gwaith Di-dâl, Rhaglenni Achrededig (gan gynnwys darparu Rhaglenni Achrededig mewn carchardai yng Nghymru), Ymyriadau Strwythuredig cymeradwy (sy'n cwmpasu'r tri maes o reolaeth emosiynol, agweddau, meddwl ac ymddygiad a cham-drin domestig) ac Uwch Ganolfannau Presenoldeb. Er mwyn sicrhau dull cyson o weithredu, bydd timau troseddau rhyw sy'n cyflwyno'r Rhaglen Troseddau Rhyw achrededig yn symud i'r Tîm Ymyriadau. Bydd gwaith i gysoni strwythur y timau troseddau rhyw â'r Timau Ymyriadau rhanbarthol yn cael ei wneud ar ôl y diwrnod cyntaf. Bydd y Rhaglenni Eithafiaeth yn parhau i gael eu darparu gan dimau arbenigol.

Yr egwyddorion craidd ar gyfer y berthynas rhwng yr Ymarferydd Prawf a'r Timau Ymyriadau fydd:

- gweledigaeth, diwylliant ac ymddygiad cyson sy'n ategu diwylliant adsefydlu
- ymrwymiad i weithio gyda (ac ar draws) nifer o asiantaethau a phartneriaid cyflenwi
- ethos partneriaeth go iawn, gyda gweledigaeth a gweithio ar y cyd i fynd i'r afael ag unrhyw broblem a wynebir
- ffocws clir ar ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth, arloesi a gwelliant parhaus o ran darparu gwasanaethau, sy'n gyson ag egwyddor strategol 'diwylliant dysgu agored' y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf
- gwella hyder dedfrydwyr drwy wella ein hasesiad cymhwysedd ac addasrwydd cyn ac ar ôl dedfrydu, er mwyn sicrhau bod y bobl iawn yn cael yr ymyriadau priodol. Bydd y modelau gweithredu newydd ar gyfer Timau Ymyriadau hefyd yn gweld archwiliadau amseroldeb ychwanegol am dri mis a chwe mis cyn diwedd y ddedfryd er mwyn sicrhau bod y gofynion yn cael eu cwblhau'n brydlon.
- cadw'r ddarpariaeth yn lleol - ceisio cadw amser teithio i ymyriadau o fewn 60 munud bob ffordd cyn belled ag y bo modd - er mwyn lleihau'r rhwystr posibl o deithio'n ormodol a gwella cydymffurfiaeth

### Sut bydd y Tîm Ymyriadau yn gweithio

Bydd y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf yn pennu mesurau perfformiad ar y Timau Ymyriadau mewn perthynas â sut maent yn cyflawni elfennau penodol o'r ddarpariaeth, a bydd yn gweithio gyda'r Cyfarwyddwyr Prawf Rhanbarthol i chwilio am ffyrdd o arloesi a gwella ansawdd y gwasanaeth a ddarperir.

Bydd hyn yn cynnwys y gallu i gynllunio a phrofi ymyriadau newydd (naill ai gyda golwg ar achredu'r rhain neu eu rhedeg fel Ymyriadau Strwythuredig), ond rydym hefyd yn glir ynghylch pwysigrwydd cael y pethau sylfaenol yn iawn a gosod disgwyliadau sylfaenol ar gyfer safonau cyflawni.

Er mwyn sicrhau bod gan y Tîm Ymyriadau a'r Ymarferydd Prawf berthynas waith gref, mae'r dibyniaethau y bydd y naill a'r llall yn dibynnu arnynt wedi eu nodi'n glir mewn llawlyfrau gweithredu. Yn ogystal, bydd y mesurau perfformiad, y Safonau Cenedlaethol diwygiedig a darparu proses uwchgyfeirio glir os bydd problemau'n codi, yn rhoi hyder i'r naill barti a'r llall ac yn fodd i egluro unrhyw amwysedd.

Bydd Tîm Ymyriadau ym mhob Rhanbarth yn lleihau'r cymhlethdod i Ymarferwyr Prawf wrth atgyfeirio at wasanaethau ymyriadau ac yn arwain at gynnydd yn y defnydd o ymyriadau addas. Bydd hyn yn helpu i ymgysylltu â'r ymyriadau iawn ar yr adeg iawn, gan leihau'r risg o aildroseddu.

Er mwyn helpu gyda phenderfyniadau dedfrydu, bydd gofyn i Dimau Ymyriadau gadw cyfeirlyfr o wasanaethau sydd ar gael i'r llysoedd a'r Timau Rheoli Dedfrydau, sy'n disgrifio'r amrywiaeth o leoliadau sydd ar gael. Bydd y cyfeiriadur yn cael ei ddiweddaru bob chwarter a bydd yn cael ei ddefnyddio gan Ymarferwyr Prawf sy'n rhoi cyngor i'r llys ar ddedfrydu. Byddwn yn ceisio sicrhau bod pob unigolyn cymwys ac addas yn dilyn y Rhaglenni Achrededig priodol neu, lle nad yw hyn yn bosibl, Ymyriad Strwythuredig gyda sylfaen dystiolaeth.

Gan adeiladu ar y datblygiadau a wnaed gan Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol, bydd Timau Ymyriadau yn cael eu cynorthwyo yn eu rolau drwy welliannau technolegol a digidol arfaethedig i leihau dyblygu a chynyddu effeithlonrwydd wrth drefnu ymyriadau yn ogystal â darparu dyfeisiau personol diogel hawdd eu cludo.

## Gwaith Di-dâl

### Egwyddorion Dylunio Gwaith Di-dâl

| Egwyddor gyffredinol y dyluniad | Sut mae'n berthnasol i ddyluniad Gwaith di-dâl |
|---|---|
| Dyluniad sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr | Anelu at gyflawni Gwaith Di-dâl o fewn ardal/cymuned leol unigolyn er mwyn cynyddu cydymffurfiad a hyrwyddo gwneud iawn i'r gymuned.<br><br>Pwyslais mwy pendant ar y cyfle i ddefnyddio 20% o oriau Gwaith Di-dâl unigolyn sy'n cael ei oruchwylio ar Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth, er mwyn sicrhau bod y rhai sy'n gymwys ar ei gyfer yn gwireddu potensial adsefydlu Gwaith Di-dâl drwy ennill sgiliau sy'n gysylltiedig â gwaith.<br><br>Caniatáu digon o amser ar gyfer asesiad Gwaith Di-dâl llawn, a chwblhau'r lefel briodol o asesu risg ac anghenion, er mwyn ei gwneud yn bosibl i gyfateb yr unigolyn sy'n cael ei oruchwylio i leoliad sy'n diwallu ei risg a'i anghenion orau ac sy'n cynyddu'r tebygolrwydd o gwblhau'n llwyddiannus.<br><br>Darparu rhagor o gyfleoedd i'r rhai sy'n gymwys i weithio'n ddwys, gan fynychu am hyd at 28 awr yr wythnos, er mwyn ymateb i anghenion unigol. |

| Egwyddor gyffredinol y dyluniad | Sut mae'n berthnasol i ddyluniad Gwaith di-dâl |
|---|---|
| Dyluniad sy'n effeithlon/ effeithiol o ran costau | Sicrhau bod y bobl iawn ar y lleoliadau iawn er mwyn lleihau'r tebygolrwydd o ymddangosiadau llys costus pellach oherwydd diffyg cydymffurfio.<br><br>Adolygu'r gyfradd cwblhau ar gyfer pob achos yn ystod cyfnod chwe mis a naw mis y gofyniad er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei gwblhau'n brydlon a lleihau'r ymddangosiadau yn y llys i ymestyn y gorchymyn. |
| Dyluniad ar gyfer y system gyfan | Darparu gwybodaeth am 'ansawdd ac ardal' lleoliadau (ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall) i'r llys er mwyn gwella hyder dedfrydwyr yn y gwasanaethau prawf.<br><br>Anelu at gadw amser teithio mor isel â phosibl er mwyn sicrhau bod unigolion yn treulio mwy o'u horiau yn gweithio yn hytrach na theithio a hefyd er mwyn sicrhau presenoldeb mewn lleoliadau. |
| Dyluniad sy'n seiliedig ar dystiolaeth | Casglu a dadansoddi gwybodaeth am ganlyniadau er mwyn gallu rhannu arloesi ac arferion gorau ar draws rhanbarthau.<br><br>Rhoi hyfforddiant i staff sy'n goruchwylio unigolion yn uniongyrchol ar Waith Di-dâl, gan fod tystiolaeth yn dangos bod staff sydd wedi eu hyfforddi'n well yn annog gwell ymgysylltiad. |
| Dyluniad cyson ond hyblyg | Sicrhau cysondeb drwy barhau â'r ymyriadau Gwaith Di-dâl sy'n cael eu darparu gan y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol ar hyn o bryd lle bo hynny'n briodol. Bydd lleoliadau newydd yn cael eu nodi sy'n darparu amrywiaeth eang o leoliadau o ansawdd uchel sy'n diwallu risg ac anghenion defnyddwyr y gwasanaeth. |
| Dyluniad gwaith partneriaeth effeithiol | Cysylltu â fforymau lleol fel Comisiynydd Heddlu a Throseddu a Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol i hwyluso'r ddyletswydd statudol i ymgynghori â chymunedau lleol ynghylch cynlluniau Gwneud Iawn â'r Gymuned, fel y nodir ym Mhapur Gwyn y Llywodraeth, 2020.<br><br>Sicrhau bod lleoliadau'n cael eu cydnabod gan aelodau o'r cyhoedd fel rhai credadwy a heriol, gan ddarparu manteision amlwg i'r gymuned leol gyda'r gallu i gymunedau lleol enwebu lleoliadau gwaith. |

| Egwyddor gyffredinol y dyluniad | Sut mae'n berthnasol i ddyluniad Gwaith di-dâl |
|---|---|
| Dyluniad cynhwysol | Sicrhau bod mwy o ganolbwyntio ar ddarparu amrywiaeth eang o leoliadau sy'n cyfateb i'r anghenion a nodwyd yn yr asesiad Gwaith Di-dâl, gan gynnwys y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig, gofal plant a chyfrifoldebau gofalu eraill. |

### Yr achos dros newid a'r sylfaen dystiolaeth

Rydym eisiau adeiladu ar yr arferion gorau o fewn Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol i wella ansawdd a chysondeb y gwaith o ddarparu Gwaith Di-dâl, gan sicrhau bod y gofynion yn cael eu cwblhau o fewn 12 mis. Mae Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol wedi gwneud rhywfaint o waith arloesol o ansawdd da, ond mae hyn yn anghyson. Yr uchelgais o ran gwaith di-dâl fydd sicrhau digon o leoliadau o safon uchel sy'n gwella'r cyfleoedd addysgol a hyfforddiant sydd ar gael fel bo'r gofyn. Mae tystiolaeth yn dangos bod unigolion sy'n cydnabod budd y gwaith maent yn ei wneud yn fwy tebygol o gael argraffiadau adsefydlol o'r ddedfryd. Byddwn hefyd yn ceisio cynyddu nifer y lleoliadau sydd ar gael yn yr ardal leol er mwyn lleihau'r amser teithio, sy'n rhy hir ar hyn o bryd mewn rhai achosion. Ar ben hynny, bydd gweithgareddau sicrhau ansawdd sy'n canolbwyntio ar ansawdd lleoliadau, ansawdd goruchwyliaeth yn ogystal â monitro cydymffurfiad Iechyd a Diogelwch yn cael eu cyflawni.

Mae ymchwil ar fodelu rhag-gymdeithasol a chyfiawnder gweithdrefnol yn atgyfnerthu'r disgwyliad bod staff sy'n cael hyfforddiant a chefnogaeth yn gwella canlyniadau adsefydlu'r ddedfryd ymhellach. I ategu hyn, ac yn unol â Strategaeth Gweithlu'r Gwasanaeth Prawf, rydym eisiau rhoi rhagor o bwyslais ar hyfforddi staff Gwaith Di-dâl.

Cysylltiadau â Strategaeth Fusnes y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf

**Bydd y model newydd yn rhoi mwy o bwyslais ar hyfforddi a datblygu staff fel rhan o'n hymrwymiad i alluogi staff i wneud eu gorau tra'n cynorthwyo unigolion sy'n gwneud Gwaith Di-dâl a chymunedau lleol i fanteisio i'r eithaf ar y lleoliadau hyn.**

### Buddion a ragwelir

O dan y model newydd, bydd lleoliadau Gwaith Di-dâl yn fwy ymatebol i anghenion unigolion ac yn helpu i sicrhau canlyniadau gwell i unigolion sy'n cael eu goruchwylio ac i gymunedau. Bydd gwelliannau yn y broses asesu a chynefino yn helpu i sicrhau bod lleoliadau gwaith yn fwy perthnasol i risgiau ac anghenion unigolion. Bydd hyn, yn ei dro, yn galluogi ymgysylltu gwell a bydd yn helpu lleoliadau i ddechrau'n brydlon. Bydd ffocws o'r newydd ar ddarparu digon o leoliadau lleol o ansawdd da yn gwella'r broses o dalu'n ôl yn lleol yn y gymuned, yn ogystal â galluogi lleoliadau i ddiwallu anghenion mwy amrywiol a chynyddu'r nifer sy'n cwblhau'n llwyddiannus. Ar ben hynny, bydd pwyslais newydd ar ddefnyddio 20% o'r oriau ar gyfer Cyflogaeth, Hyfforddiant ac Addysg (lle bo hynny'n berthnasol) yn rhoi cyfleoedd dysgu ac adsefydlu cynhenid i unigolion, gan eu cynorthwyo i wneud newidiadau ystyrlon a pharhaol i'w bywydau. Ar ben hynny, nod y model newydd yw cynyddu hyder dedfrydwyr yn effeithiolrwydd Gwaith Di-dâl, gan annog defnyddio gorchmynion cymunedol fel dewis cadarn yn lle carcharu.

Bydd ein hagwedd at Waith Di-dâl yn helpu i gyflawni manteision canolradd a ganlyn y rhaglen yn ei chyfanrwydd:

- **Gwella ansawdd ymyriadau:** Yn benodol, gwella ansawdd Gwaith Di-dâl a gaiff ei fesur drwy'r sgôr ansawdd a gyflawnir drwy archwiliadau'r Grŵp Sicrwydd Systemau Gweithredol.
- **Darparu ymyriadau'n fwy llwyddiannus:** Rydym yn rhagweld y bydd rhagor o Waith Di-dâl yn cael ei gwblhau o fewn 12 mis i'r ddedfryd yn ogystal â mwy o ddefnydd o elfennau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth fel rhan o Waith Di-dâl, a nifer y defnyddwyr gwasanaethau sy'n cymryd hyd at y gyfran uchaf (20%) o waith di-dâl fel addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.

### Ystyriaethau cydraddoldeb

Bydd rhagor o bwyslais ar ystyried grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig ac anghenion penodol. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod menywod sy'n rhan o'r gwasanaethau prawf yn cael dewis peidio â chael eu lleoli mewn amgylchedd gwaith sy'n cynnwys dynion yn unig, a bydd lleoliadau unigol yn cael eu darparu lle bo angen. Bydd asesiad cychwynnol mwy cadarn o'r unigolion sy'n cael eu goruchwylio yn rhoi dealltwriaeth gliriach i'r Tîm Ymyriadau o anghenion penodol.

Bydd partneriaethau, dewis staff a threfniadau lleoli yn adlewyrchu cymunedau amrywiol. Bydd gan y Rheolwr Gweithredol Gwaith Di-dâl gylch gwaith penodol i weithio gyda'r arweinydd cydraddoldeb rhanbarthol i hyrwyddo amrywiaeth wrth ddarparu Gwaith Di-dâl. Byddant yn gweithio gydag asiantaethau partner i ganfod lleoliadau o fewn asiantaethau neu sefydliadau arbenigol sy'n cynorthwyo'r gwaith o integreiddio a chynnwys carfannau penodol o bobl â nodweddion gwarchodedig.

## Cyflawni Gwaith Di-dâl

Bydd y Tîm Gwaith Di-dâl yn cael gwybod am yr holl ofynion newydd ar ôl dedfrydu. Bydd yr Ymarferydd Prawf yn cynnal asesiad risg ac anghenion Gwaith Di-dâl penodol ac yn llenwi'r ffurflen asesu Gwaith Di-dâl o fewn 10 diwrnod gwaith i'r ddedfryd ac yn adlewyrchu hyn yn y cynllun dedfrydu. Bydd Ymarferwyr Prawf o fewn timau un gofyniad yn cael eu hyfforddi a'u cynorthwyo'n briodol i reoli pob lefel risg. Defnyddir yr asesiad hwn i sicrhau bod y lleoliad mwyaf priodol yn cael ei ddyrannu sy'n ystyried risgiau, anghenion ac unrhyw gyfyngiad.

Gallai hyn gynnwys defnyddio'r lwfans o 20% ar gyfer anghenion sy'n gysylltiedig ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Os yw'r unigolyn yn ddi-waith, bydd yr asesiad Gwaith Di-dâl hefyd yn nodi disgwyliad yr Ymarferydd Prawf o ran nifer yr oriau Gwaith Di-dâl fydd yn cael eu hamserlennu bob wythnos, sy'n adeiladu ar y lefel ddwys ofynnol o 28 awr yr wythnos. Bydd timau un gofyniad Gwaith Di-dâl a Rheoli Dedfrydau yn cael eu dal i gyfrif am gyflawni'r asesiad hwn yn amserol drwy fesurau perfformiad a monitro Safonau Cenedlaethol.

Bydd y Tîm Ymyriadau yn dod o hyd i amrywiaeth o leoliadau gwaith, gan ddarparu cyfleoedd ar gyfer lleoliadau grŵp ac unigol sydd o fudd i'r gymuned ac sy'n diwallu risgiau ac anghenion y rhai sydd arnynt. Bydd gofyn i'r rhai sy'n gwneud Gwaith Di-dâl fynychu sesiwn gynefino lawn cyn eu sesiwn waith gyntaf, a ddylai ddechrau o fewn 15 diwrnod gwaith i'r ddedfryd. Bydd y sesiwn gynefino yn rhoi gwybodaeth a chyfarwyddyd ar reolau a rheoliadau Gwaith Di-dâl, cydymffurfio, disgwyliadau ymddygiad ac iechyd a diogelwch.

Mae'r trefniadau presennol ar gyfer Gwaith Di-dâl wedi llwyddo i ryw raddau i ddefnyddio mentoriaid cymheiriaid i ategu a darparu Gwaith Di-dâl. Rydym eisiau cadw mynediad at gymorth gan fentoriaid cymheiriaid lle mae rhanbarthau wedi nodi'r angen. Pan fydd yn cael ei ddefnyddio, disgwylir i fentor cymheiriaid fod yn bresennol yn sesiwn gynefino'r grŵp. Gall hyn gynnwys cyflwyniad cymhellol i'r grŵp a chynnig cymorth ychwanegol yn ystod y lleoliad i bobl â nodweddion gwarchodedig neu'r rhai sy'n ei chael yn anodd cydymffurfio â'r gofyniad. Gall mentoriaid cymheiriaid hefyd ychwanegu gwerth at agweddau addysg neu hyfforddiant lleoliad Gwaith Di-dâl.

Mae'r model gweithredu newydd yn rhoi cyfle i gynyddu lefel a chwmpas y lleoliadau gwaith sydd ar gael i fodloni gofynion y llys. Mae hyn yn cynnwys sefydlu cytundebau cenedlaethol gydag elusennau sy'n gallu cynnig lleoliadau o safon uchel a darparu cysondeb ar draws y rhanbarthau. Mae uchelgais tymor hwy hefyd i ddod o hyd i ofod gweithdai ym mhob rhanbarth er mwyn gallu rheoli risg yn effeithiol ac osgoi cyfnodau segur. Bydd y cynlluniau hyn yn dod â digon o leoliadau grwp ac unigol o ansawdd uchel sydd ar gael yn lleol ac sy'n diwallu anghenion a risg unigolion, yn enwedig i'r rhai sy'n peri risg uchel o niwed.

Bydd menywod sy'n rhan o wasanaethau prawf yn cael cynnig dewis peidio â chael eu lleoli mewn amgylcheddau gwaith sy'n cynnwys dynion yn unig, a bydd lleoliadau i fenywod yn unig a lleoliadau unigol yn cael eu darparu lle bo angen. Ceisir lleoliadau priodol yn y gymuned leol i ddiwallu amrywiaeth o anghenion. Bydd modd osgoi cyfnodau segur drwy sicrhau bod amrywiaeth ddigonol o leoliadau gwaith ar gael a bod modd defnyddio rhywfaint o hyblygrwydd ochr yn ochr â strategaethau eraill ar fyr rybudd er mwyn osgoi canslo sesiynau gwaith, dan unrhyw amgylchiad.

Bydd Cyfarwyddwyr Prawf Rhanbarthol yn sicrhau bod pobl leol a mudiadau cymunedol yn gallu nodi prosiectau gwaith ar gyfer Gwaith Di-dâl drwy amrywiaeth o ddulliau, fel cyfryngau cymdeithasol, presenoldeb ar-lein, a blychau awgrymiadau ar safleoedd gwaith. Gellir defnyddio gwefannau a chyfryngau cymdeithasol eraill i roi gwybod i'r gymuned ehangach am y manteision a'r cynnydd a wneir drwy waith prosiect Gwneud Iawn â'r Gymuned.

Bydd y tîm Ymyriadau yn ymgynghori â phobl a mudiadau lleol wrth bennu'r cynllun ar gyfer gweithgareddau Gwneud Iawn â'r Gymuned dros y flwyddyn nesaf. Bydd trefniadau cyswllt gyda'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Grwpiau Dioddefwyr Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a fforymau cymunedol eraill yn sicrhau bod arweinwyr cymunedol a swyddogion lleol yn deall yn iawn y cyfraniad y gall Gwaith Di-dâl ei wneud i gynlluniau lleol. Bydd y trefniadau hyn yn helpu i gyfeirio'r gwaith o ailfuddsoddi incwm a gynhyrchir drwy Wneud Iawn â'r Gymuned i ardaloedd o angen wedi ei dargedu nad ydynt yn gallu cyfrannu at gostau.

Rydym yn ceisio manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd addysg, hyfforddiant a chyflogaeth sydd ar gael drwy leoliadau Gwaith Di-dâl i unigolion cymwys. Y gofyniad gweithgaredd adsefydlu, fel elfen benodol o'r ddedfryd, yw'r prif lwybr o hyd i fynd i'r afael ag anghenion addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Fodd bynnag, erys potensial sylweddol o fewn y gofyniad Gwaith Di-dâl ar gyfer hyfforddiant yn y swydd a datblygu sgiliau a all ategu cyfleoedd cyflogaeth yn y dyfodol. Un nodwedd sy'n diffinio lleoliad 'o ansawdd da' yw'r gweithgareddau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth sydd ar gael sy'n gwneud y defnydd gorau o'r lwfans o 20% yn y gorchymyn. Er nad oes disgwyl y bydd gweithgareddau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth ar wahân neu benodol (e.e. ceisiadau am swydd neu ysgrifennu curriculum vitae) yn cael eu darparu, disgwylir, lle bo hynny'n briodol, y bydd unigolyn yn cael ei gynorthwyo i fynd at ddarparwr hyfforddiant i ategu'r hyfforddiant mewn swydd. Yn yr amgylchiadau hyn, gall y gweithgaredd hwn fod yn gymwys fel rhan o'r lwfans o 20% ar gyfer addysg, hyfforddiant a chyflogaeth o fewn yr oriau gofynnol.

Bydd lleoliadau gwaith o ansawdd da ar gael yn y gymuned leol. Byddwn yn anelu at gyfyngu amseroedd teithio i unigolion fynychu'r cyfnod cynefino Gwaith Di-dâl hyd at uchafswm o 60 munud a hyd at uchafswm o 90 munud bob ffordd ar gyfer lleoliadau Gwaith Di-dâl, gydag uchafswm o 60 munud bob ffordd yn gallu cael ei dreulio dan oruchwyliaeth (bws criw fel arfer) a'i gredydu yn erbyn dedfryd y llys. Byddwn yn disgwyl i'r amser teithio hiraf gael ei gyfyngu i amgylchiadau eithriadol a'i gofnodi ar y system cofnodi achosion. Pan fydd menywod a gofalwyr eraill yn nodi effeithiau amser teithio ar gyfrifoldebau gofalu, ceisir lleoliadau priodol a threfniadau teithio er mwyn lleihau'r effaith hon.

Drwy gydol y ddedfryd, bydd yr holl benderfyniadau ynghylch risg a gorfodi a'r camau priodol yn aros gyda'r Ymarferydd Prawf. Bydd staff Gwaith Di-dâl yn rhoi gwybod i'r Ymarferydd Prawf o fewn un diwrnod gwaith am unrhyw arwydd o newid i risg neu fethiant i fod yn bresennol neu faterion cydymffurfio eraill, fel y gellir gwneud penderfyniadau gorfodi.


Cynhelir adolygiad o'r holl achosion gweithredol yng nghamau chwe mis a naw mis y gofyniad i sicrhau bod yr holl oriau'n cael eu cwblhau o fewn y cyfnod o 12 mis a bennir gan y llys. Bydd gan Dimau Gwaith Di-dâl systemau priodol ar waith i sicrhau bod yr oriau'n cael eu cwblhau o fewn yr amserlen a sicrhau bod adolygiadau'n cael eu cynnal a'u bod yn cael eu rhannu â'r Ymarferydd Prawf er mwyn cymryd camau priodol.

Ar ddiwedd y gofyniad, bydd y Tîm Gwaith Di-dâl yn rhoi trosolwg i'r Ymarferydd Prawf o gydymffurfiad unigolyn â'r gofyniad, gan gynnwys agwedd ac ymddygiad ac unrhyw weithgarwch ETE a gyflawnwyd a'r dyfarniadau a gafwyd.

Dengys ymchwil bwysigrwydd hyfforddiant i staff Gwaith Di-dâl. Bydd Goruchwylwyr Gwneud Iawn â'r Gymuned yn ymgymryd (ar y lleiaf) â hyfforddiant rhagarweiniol mewn iechyd a diogelwch; cymorth cyntaf; egwyddorion craidd Gwaith Di-dâl; diogelu; PREVENT; ymwybyddiaeth o risg; delio ag ymddygiad heriol; modelu pro-gymdeithasol; ac amrywiaeth a chynhwysiant.

Bydd Goruchwylwyr Gwneud Iawn â'r Gymuned yn cael datblygiad proffesiynol parhaus yn y gofynion craidd ond gallant hefyd gynnwys materion ymarfer ehangach e.e. ymgysylltu â'r unigolion hynny sy'n destun Gwaith Di-dâl, cynorthwyo a chydymffurfio â chymhelliant, technegau datrys problemau i fodelu sgiliau bywyd, ymwybyddiaeth o gam-drin domestig a chamddefnyddio sylweddau, cyfiawnder gweithdrefnol ac atgyfnerthu cadarnhaol ac ymatal.

## Ffigur 15. Map o’r broses Gwaith Di-dâl




*Pan mae'r Tîm Gwaith Di-dâl yn ymgymryd ag achosion Gwaith Di-dâl un gofyniad. Bydd yr hyblygrwydd gan Gyfarwyddwyr Prawf Rhanbarthol i aseinio Ymarferwyr Prawf i'r Tîm Gwaith Di-dâl i fod yn gyfrifol am Reoli Dedfrydau yng nghyswllt pob achos Gwaith Di-dâl un gofyniad.

## Rhaglenni Achrededig ac Ymyriadau Strwythuredigs

### Egwyddorion Dylunio Rhaglenni Achrededig

| Egwyddor gyffredinol y dyluniad | Sut mae'n berthnasol i ddyluniad y Rhaglenni Achrededig |
|---|---|
| Dyluniad sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr | Gwella'r broses o baru'r bobl iawn â'r rhaglen iawn drwy gyflwyno archwiliadau ychwanegol ar gyfer addasrwydd a chymhwysedd cyn ac ar ôl y ddedfryd, er mwyn i unigolion gael mwy o ganlyniadau llwyddiannus a helpu i ddiogelu'r cyhoedd drwy leihau'r risg o aildroseddu.<br><br>Darparu Rhaglenni Achrededig ar adegau addas i ystyried amgylchiadau personol, fel cyfrifoldebau gofalu, er mwyn diwallu anghenion unigolion a sicrhau'r canlyniadau gorau posibl. |
| Dyluniad cost effeithiol/ effeithlon | Sicrhau mai Rhaglenni Achrededig yw'r ymyriad o ddewis i'r rhai sy'n gymwys, er mwyn sicrhau bod yr ymyriad mwyaf addas yn cael ei ddarparu.<br><br>Gwella'r archwiliadau addasrwydd a chymhwysedd presennol i sicrhau bod y bobl iawn ar y rhaglenni iawn, er mwyn lleihau'r tebygolrwydd o ymddangosiadau costus pellach yn y llys.<br><br>Cwblhau archwiliadau addasrwydd a chymhwysedd o fewn amserlenni penodol er mwyn lleihau cost, amser a chymhlethdod y broses o ddychwelyd i'r llys ar gyfer ymddangosiadau pellach.<br><br>Cyflwyno archwiliadau ychwanegol chwe mis a thri mis cyn diwedd y ddedfryd er mwyn sicrhau bod gofynion y rhaglen yn cael eu cwblhau'n brydlon, a lleihau'r ymddangosiadau yn y llys er mwyn ymestyn y gorchymyn neu ailddedfrydu unigolion. |
| Dyluniad ar gyfer y system gyfan | Ceisio cadw'r amser teithio mor fyr â phosibl er mwyn lleihau'r rhwystrau o ran bresenoldeb a chynyddu ymgysylltiad unigolion â'r rhaglen.<br><br>Sicrhau bod digon o leoedd ar gael ar Raglenni Achrededig a'u bod ar gael yn y lleoedd cywir er mwyn diwallu anghenion unigolion sy'n cael eu goruchwylio, a hefyd i sicrhau bod hyd y ddedfryd a roddir yn gymesur â'r drosedd. |

| Egwyddor gyffredinol y dyluniad | Sut mae'n berthnasol i ddyluniad y Rhaglenni Achrededig |
|---|---|
| Dyluniad sy'n seiliedig ar dystiolaeth | Mae'r holl Raglenni Achrededig yn cael eu harchwilio'n allanol drwy'r Panel Cynghori ac Achredu Gwasanaethau Cywirol (CSAAP) i sicrhau eu bod yn seiliedig ar yr ymchwil berthnasol ddiweddaraf. Mae dyluniad y rhaglenni hyn yn seiliedig ar theori ymatal, theori ymddygiad gwybyddol ac maent yn dilyn yr egwyddor risg, angen ac ymatebolrwydd er mwyn sicrhau bod y bobl iawn ar y rhaglen iawn. Byddwn ni'n parhau i asesu ansawdd effeithiolrwydd Rhaglenni Achrededig a'r hyn maen nhw'n ei ddarparu, er mwyn llywio'r ddarpariaeth yn y dyfodol. |
| Dyluniad cyson ond hyblyg | Sicrhau cysondeb drwy ddarparu'r Rhaglen Sgiliau Meddwl a rhaglenni Meithrin Perthnasoedd Gwell a Throseddau Rhywiol ym mhob rhanbarth, yn ogystal ag unrhyw Raglen Achrededig arall sy'n cael ei darparu gan y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol presennol.<br><br>Rhoi disgresiwn i Gyfarwyddwyr Prawf Rhanbarthol ar raglenni eraill a ddarperir, ar sail anghenion lleol. Y pwyslais yn y tymor byr yw cael yr hanfodion yn iawn yn hytrach na buddsoddi ymhellach mewn rhaglenni ychwanegol, o ystyried yr heriau a ddaw yn sgil yr adferiad ar ôl COVID-19. |
| Dyluniad gwaith partneriaeth effeithiol | Ystyried y posibilrwydd o ddylunio, datblygu a phrofi rhaglenni newydd ar y cyd â'r Panel Cynghori ac Achredu Gwasanaethau Cywirol er mwyn addasu i anghenion a ddaw i'r amlwg a'r galw rhanbarthol. |
| Dyluniad cynhwyso | Sicrhau bod nodweddion gwarchodedig yn cael eu hystyried wrth ddarparu Rhaglenni Achrededig. Bydd y dyluniad yn y dyfodol yn sicrhau y rhoddir mwy o ystyriaeth i'r ffordd y mae anghenion penodol yn cael sylw, ac yn galluogi unigolion sy'n cael eu goruchwylio i ddefnyddio'r rhaglenni y mae eu hangen arnynt i fynd i'r afael ag ymddygiad troseddol. |

### Egwyddorion Dylunio Ymyriadau Strwythuredig

| Egwyddor gyffredinol y dyluniad | Sut mae'n berthnasol i ddyluniad Ymyriadau Strwythuredig |
|---|---|
| Dyluniad sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr | Caniatáu mynediad at ystod eang o ymyriadau er mwyn mynd ati'n fwy effeithiol i ddiwallu anghenion unigolion sy'n cael eu goruchwylio.<br><br>Darparu Ymyriadau Strwythuredig ar adegau addas i ystyried amgylchiadau personol, fel cyfrifoldebau gofalu, er mwyn diwallu anghenion unigol a sicrhau'r canlyniadau gorau posibl.<br><br>Rhoi hyblygrwydd i'r Ymarferydd Prawf ymateb i newidiadau o ran risgiau ac anghenion unigolyn sy'n cael ei oruchwylio drwy gyfeirio at Ymyriadau Strwythuredig i ddiogelu'r cyhoedd yn fwy effeithiol. |
| Dyluniad cost effeithiol/ effeithlon | Cyflwyno archwiliadau ychwanegol chwe mis a thri mis cyn diwedd y ddedfryd er mwyn sicrhau bod yr Ymyriad yn cael ei gwblhau'n brydlon, a lleihau'r ymddangosiadau yn y llys er mwyn ymestyn y gorchymyn neu ailddedfrydu unigolion. |
| Dyluniad ar gyfer y system gyfan | Sicrhau bod Ymyriadau Strwythuredig yn cyd-fynd ag amcanion ehangach y ddedfryd er mwyn i'r Ymarferydd Prawf allu mynd i'r afael ag unrhyw rwystrau o ran ymgysylltu cyn cyfeirio at Ymyriad Strwythuredig. Bydd hyn yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd y ddedfryd yn cael ei chwblhau'n llwyddiannus.<br><br>Ceisio cadw'r amser teithio mor fyr â phosibl er mwyn lleihau'r rhwystrau o ran bresenoldeb a chynyddu ymgysylltiad â'r rhaglen. |
| Dyluniad sy'n seiliedig ar dystiolaeth | Bydd Ymyriadau Strwythuredig yn bodloni egwyddorion y Panel Cynghori ac Achredu Gwasanaethau Cywirol ar gyfer ymyriadau effeithiol, a byddant yn parhau i gael eu gwerthuso i sicrhau eu bod yn effeithiol.<br><br>Darparu safon ofynnol o hyfforddiant i staff sy'n darparu Ymyriadau Strwythuredig, gan gynnwys datblygiad proffesiynol parhaus, gan fod tystiolaeth yn dangos bod staff sydd wedi'u hyfforddi'n well yn annog unigolion i ymgysylltu'n well. |

| Egwyddor gyffredinol y dyluniad | Sut mae'n berthnasol i ddyluniad Ymyriadau Strwythuredig |
|---|---|
| Dyluniad cyson ond hyblyg | Rhoi'r hyblygrwydd i Gyfarwyddwyr Prawf Rhanbarthol ganfod pa Ymyriadau Strwythuredig sy'n ofynnol i ddiwallu anghenion y rhanbarth. |
| Dyluniad gwaith partneriaeth effeithiol | Datblygu meini prawf addasrwydd a chymhwysedd ar y cyd â'r rhai a ddatblygwyd ar gyfer Rhaglenni Achrededig, i sicrhau bod y bobl iawn yn cael eu paru â'r ymyriadau iawn. |
| Dyluniad cynhwyso | Cyflwyno Paneli Ymyriadau Effeithiol Cenedlaethol i sicrhau bod ansawdd yr Ymyriadau Strwythuredig yn diwallu ystod eang o anghenion penodol ac amrywiol, er mwyn cefnogi a rhoi sylw i risgiau ac anghenion sy'n gysylltiedig â throseddu, gan gynnwys unigolion sy'n agored i niwed neu sydd â nodweddion gwarchodedig fel y'u diffiniwyd gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. |

### Rhaglenni Achrededig ac Ymyriadau Strwythuredig: Yr achos dros newid a'r sylfaen dystiolaeth

Mae arnom eisiau gwella ansawdd y ddarpariaeth a'r cysondeb yn yr elfen hon. Er bod Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol wedi datblygu rhai arferion da o ran y ddarpariaeth, rydym eisiau cynyddu'r gorchmynion llys sy'n cael eu cwblhau gan nad yw'r elfen hon yn perfformio fel y byddem yn disgwyl. Byddwn ni'n ceisio sicrhau bod pob unigolyn cymwys ac addas yn dilyn y Rhaglenni Achrededig priodol neu, os nad yw unigolyn yn gymwys neu'n addas, bod Ymyriad Strwythuredig sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn cael ei ddarparu lle bo hynny'n briodol.

Mae ein dull gweithredu yn seiliedig ar y casgliad o waith ymchwil ynghylch hybu ymatal rhag troseddu. Mae ymgysylltu ag unigolion sy'n cael eu goruchwylio mewn ffordd rhag-gymdeithasol ystyrlon yn ei gwneud hi'n fwy tebygol y bydd y ddedfryd yn cael ei chwblhau'n llwyddiannus, ac y bydd nifer yr achosion o aildroseddu yn lleihau. O ran Rhaglenni Achrededig ac Ymyriadau Strwythuredig, mae tystiolaeth yn awgrymu y bydd paru'r bobl iawn â'r ymyriad iawn yn gwella canlyniadau, a bydd yr archwiliadau addasrwydd a chymhwysedd sydd wedi'u cynnwys yn y dyluniad hefyd yn helpu i wella'r canlyniadau hyn.

Cysylltiadau â Strategaeth Fusnes y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf

**Bydd ein diwylliant dysgu, agored yn sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar yr ymchwil ddiweddaraf ynghylch hybu ymatal, fel sail i'r ffordd y byddwn ni'n darparu Rhaglenni Achrededig ac Ymyriadau Strwythuredig sy'n helpu unigolion i wneud newidiadau go iawn a pharhaol i'w bywyd.**

Mae ansawdd dyluniad a darpariaeth y rhaglen hefyd yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i ganlyniadau. Os yw dyluniad rhaglen wedi'i seilio ar dechnegau sydd â sylfaen dystiolaeth gref, ac os gwelir ei bod yn cael ei rhoi ar waith yn dda, dylai hyn wella'r siawns y bydd y rhaglen yn sicrhau'r canlyniadau a fwriedir.

Mae ymchwil ar raglenni ymddygiad troseddol, modelu rhag-gymdeithasol a chyfiawnder gweithdrefnol yn atgyfnerthu'r disgwyliad bod staff sy'n cael hyfforddiant a chefnogaeth yn gwella'r canlyniadau adsefydlu ymhellach. Yn unol â Strategaeth y Gweithlu Prawf, rydym ni am roi mwy o bwyslais ar hyfforddiant i'r staff hynny sy'n darparu Rhaglenni Achrededig ac Ymyriadau Strwythuredig. Bydd llawlyfrau gweithredu Ymyriadau Strwythuredig yn mynnu bod staff sy'n darparu ymyriadau yn cael hyfforddiant addas, er mwyn helpu i wella canlyniadau adsefydlu. Mae gan Raglenni Achrededig raglen hyfforddi benodol ar gyfer darparu pob ymyriad, ac mae ansawdd yr holl ddarpariaeth gan hwyluswyr yn cael ei sicrhau'n rheolaidd.

### Rhaglenni Achrededig ac Ymyriadau Strwythuredig: Buddion a ragwelir

O dan y model newydd, bydd unigolion sy'n cael eu goruchwylio yn gallu cael gafael yn haws ar wasanaethau sy'n gallu cefnogi eu proses adsefydlu a lleihau aildroseddu. Drwy fynd ati'n fwy amserol i ddechrau ar archwiliadau cymhwysedd ychwanegol a'u cwblhau, bydd hyn yn sicrhau bod unigolion yn derbyn yr ymyriadau priodol ar eu cyfer nhw. Bydd hynny, yn ei dro, yn helpu i wella canlyniadau ac i gynyddu hyder dedfrydwyr yn ansawdd ac effeithiolrwydd yr ymyriadau. Ar ben hynny, drwy gyflwyno Ymyriadau Strwythuredig – sydd wedi cael eu cymeradwyo gan Banel Ymyriadau Effeithiol (EIP) i gael eu darparu – bydd y model newydd yn rhoi mwy o sicrwydd y bydd y dulliau gweithredu'n rhai effeithiol, ac ynghylch ansawdd y ddarpariaeth RAR. Mae'r dyluniad newydd ar gyfer Rhaglenni Achrededig ac Ymyriadau Strwythuredig hefyd yn cyflwyno adolygiadau ychwanegol o bob achos chwe mis a thri mis cyn diwedd y ddedfryd. Bydd hyn yn sicrhau bod gofynion yr ymyriadau'n cael eu cwblhau'n brydlon, ac yn lleihau'r angen i fynd i'r Llys eto er mwyn ymestyn neu orfodi'r gorchymyn.

Bydd y ffordd y byddwn ni'n gweithredu'r Rhaglenni Achrededig a'r Ymyriadau Strwythuredig yn helpu i gyflawni dau o'r manteision canolraddol cyffredinol ar gyfer y diwygiadau:

- **Gwella ansawdd ymyriadau:** Rydym yn rhagweld y byddwn ni'n targedu ac yn gwella ansawdd y Rhaglenni Achrededig, ac yn gwella ansawdd yr ymyriadau a ddarperir fel Ymyriadau Strwythuredig, a byddwn yn mesur hyn drwy archwiliadau'r Grŵp Sicrwydd Systemau Gweithredol.
- **Cyflwyno ymyriadau'n fwy llwyddiannus:** Cynyddu nifer y Rhaglenni Achrededig sy'n cael eu cwblhau gan unigolion cymwys, a chynyddu nifer yr Ymyriadau Strwythuredig sy'n cael eu cwblhau.

### Rhaglenni Achrededig ac Ymyriadau Strwythuredig: Ystyriaethau cydraddoldeb

Byddwn ni'n amlinellu'r angen i'r gwaith hwn gynnig darpariaeth ddigonol ar gyfer unigolion ag anghenion penodol, yn ogystal â rhoi sylw penodol i'r naw nodwedd sy'n cael eu gwarchod o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Bydd asesiad cychwynnol mwy cadarn o'r unigolion sy'n cael eu goruchwylio yn rhoi dealltwriaeth gliriach o'u hanghenion penodol.

Mae'r diwygiadau'n gyfle i hybu'r broses o ddatblygu ymyriadau sydd wedi'u hanelu'n benodol at fenywod, oedolion ifanc a grwpiau BAME.

Bydd y deunyddiau a'r astudiaethau achos a ddefnyddir yn sesiynau'r rhaglenni yn ceisio adlewyrchu'r cymunedau amrywiol lleol, gan gynnwys oedolion ifanc rhwng 18 a 24 oed a'r rhai sydd ag anableddau dysgu a heriau dysgu. Bydd Rheolwyr Rhaglenni yn enwi lleoliadau sy'n cefnogi'r broses o integreiddio a chynnwys nodweddion gwarchodedig penodol, ac yn darparu amgylcheddau galluogol er mwyn cefnogi'r broses adsefydlu. Os bydd y niferoedd yn caniatáu, gallai hyn gynnwys darpariaeth mewn canolfan i fenywod neu mewn sefydliad sy'n darparu cymorth a chyngor i bobl o gefndir BAME neu sydd â heriau dysgu, gan hwyluso gwell mynediad at wasanaethau.

Bydd mentoriaid cymheiriaid yn darparu cymorth ychwanegol i'r rhai sydd â nodweddion gwarchodedig, mewn sesiynau cynefino a chyfarfodydd tair-ffordd, fel y bo'n briodol. Byddwn ni'n ceisio trefnu sesiynau grŵp i fenywod yn unig os bydd digon o niferoedd. Ym mhob achos, ni fydd menyw yn cael cyfarwyddyd i fynychu sesiynau cynefino na sesiynau grŵp lle mai hi yw'r unig fenyw mewn grŵp o ddynion.

Bydd y Fformatau Darparu Amgen (ADF) ar gyfer Rhaglenni Achrededig yr ydym wedi'u defnyddio yn sgil COVID-19 yn cael eu gwerthuso a, lle bo hynny'n briodol, byddant yn cael eu hadlewyrchu yn y model darparu yn y dyfodol i ddiwallu anghenion amrywiol.

### Darparu Rhaglenni Achrededig

Rhaglenni Achrededig yw'r ymyriad y byddai'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf yn ei ddewis, oherwydd eu bod wedi'u cefnogi gan sylfaen dystiolaeth gadarn. Mae Rhaglenni Achrededig yn cael eu hachredu gan y Panel Cynghori ac Achredu Gwasanaethau Cywirol (CSAAP), a'u cyflwyno gan hwyluswyr cymwys mewn grŵp ar gyfer hyd at 12 o ddefnyddwyr gwasanaeth. Rydym eisiau sicrhau bod y gyfres briodol o Raglenni Achrededig ar gael, yn ddigon aml ac mewn lleoliadau i ymateb i risg ac anghenion llwyth achosion y gwasanaeth prawf.

Bydd y Tîm Ymyriadau yn darparu'r Rhaglen Sgiliau Meddwl (rhaglen sgiliau meddwl cyffredinol) a'r Rhaglen Meithrin Perthnasoedd Gwell (cam-drin domestig) ym mhob rhanbarth. Bydd Gweithiwr Cyswllt â Phartner (a fydd yn cael ei reoli o fewn y Tîm Ymyriadau) ar gael gyda'r Rhaglen Meithrin Perthnasoedd Gwell, er mwyn cefnogi ac ymgysylltu â dioddefwyr y rheini sy'n cymryd rhan yn y rhaglen. Hefyd, byddwn ni'n ceisio sicrhau bod y Rhaglenni Achrededig yn cael eu darparu gan un tîm, felly bydd timau troseddau rhywiol sy'n darparu'r Rhaglen Troseddau Rhywiol achrededig yn rhan o'r Tîm Ymyriadau. Disgwylir i'r Tîm Ymyriadau yng Nghymru ddarparu Rhaglenni Achrededig yn y ddalfa yn ogystal â'r gymuned.

Mae Rhaglenni Achrededig ychwanegol sy'n mynd i'r afael ag anghenion eraill, fel Resolve (rhaglen trais), yn cael eu darparu mewn rhai ardaloedd ar hyn o bryd. Os yw'r rhaglenni hyn yn cael eu darparu ar hyn o bryd, byddwn yn disgwyl bod y rhain yn dal i gael eu darparu, er mwyn sicrhau parhad o ran y gwasanaeth wrth drosglwyddo i'r model prawf newydd. Ni fydd angen gweithredu'r rhaglenni hyn yn y rhannau hynny o'r rhanbarth newydd lle nad yw'r rhaglenni'n cael eu darparu ar hyn o bryd. Ar ôl Mehefin 2021, bydd gan Gyfarwyddwyr Prawf Rhanbarthol ryddid i oruchwylio'r gwaith o gomisiynu a datgomisiynu rhaglenni er mwyn ymateb i ofynion yn y rhanbarth. Y Tîm Eithafiaeth fydd yn dal i ddarparu ymyriadau fel y Rhaglen Hunaniaeth Iach.

Bydd hwyluswyr ymyriadau'n cael eu hyfforddi i ddarparu Rhaglenni Achrededig ac Ymyriadau Strwythuredig. Bydd y model darparu hwn yn arwain at fwy o wydnwch o ran bodloni'r galw am ymyriadau, yn ogystal â chynnig cyfleoedd datblygu i'r staff a lleihau'r risg y bydd y rhaglen yn chwythu ei phlwc. Bydd angen i bob hwylusydd gyflawni gofynion hyfforddi sylfaenol ac, yn unol â Strategaeth y Gweithlu Prawf, byddwn ni'n ceisio darparu hyfforddiant ychwanegol i gefnogi datblygiad proffesiynol a gwelliant parhaus. Bydd hyn yn cynnwys materion ehangach o ran ymarfer, fel symbylu a chefnogi cydymffurfiaeth, gwaith sy'n ymateb i drawma, ac ymwrthod ac atgyfnerthu cadarnhaol.

Bydd y Rhaglen i Yrwyr dan Ddylanwad Alcohol yn cael ei thynnu'n ôl yn unol â phenderfyniad y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf, ac yn dilyn cyngor gan y Panel Cynghori ac Achredu Gwasanaethau Cywirol, i beidio ag achredu'r rhaglen hon mwyach. Mae'n bosibl y gallai'r Rhaglen Gyrwyr dan Ddylanwad Alcohol gael ei darparu fel Ymyriad Strwythuredig o dan y model darparu ar gyfer y dyfodol.

Rhaid darparu Rhaglenni Achrededig yn unol â llawlyfr y rhaglen, gan gynnwys cofnodi sesiynau at ddibenion sicrwydd. Mae hyn yn cynnwys defnyddio lleoliadau addas i sicrhau bod rhaglenni'n cael eu darparu mewn amgylchedd galluogol sy'n cefnogi'r broses adsefydlu, ac mewn da bryd er mwyn bodloni'r gofynion iechyd a diogelwch angenrheidiol. Bydd hefyd angen ystyried trefniadau ymarferol i alluogi unigolion sydd angen addasiadau rhesymol a/neu'r rhai sydd ag anghenion dysgu a llythrennedd, i ymgysylltu'n llawn â'r rhaglen.

Lle bynnag y bo modd, bydd y Timau Ymyriadau yn darparu Rhaglenni Achrededig yn yr ardal lle mae'r unigolyn sy'n cael ei oruchwylio yn byw. Rydym yn anelu at ddim mwy na 60 munud o amser teithio bob ffordd er mwyn mynychu rhaglen, a disgwylir y bydd y rhesymeg dros hyd yr amser teithio yn cael ei chofnodi at ddibenion archwilio.

Er mwyn helpu gyda phenderfyniadau dedfrydu, bydd yn rhaid i Dimau Ymyriadau ddarparu cyfeirlyfr o Raglenni Achrededig, sy'n disgrifio'r amrywiaeth o raglenni sydd ar gael ac yn dweud ym mhle maen nhw'n cael eu darparu. Bydd y cyfeirlyfr yn cael ei ddiweddaru bob chwarter i gael ei ddefnyddio gan staff prawf yn y llys sy'n rhoi cyngor ynghylch dedfrydu, a gan yr Ymarferwr Prawf sy'n rheoli'r ddedfryd.

Bydd Ymarferwyr Prawf yn nodi pob achos cymwys ac addas ar y cam cyn dedfrydu neu cyn rhyddhau, a byddant yn cynnig Rhaglen Achrededig pan nad oes unrhyw rwystrau o ran mynychu. Er y byddwn ni'n gwneud yn fawr o gynigion cyn dedfrydu ar gyfer Rhaglenni Achrededig, byddwn ni'n cynnal opsiwn i ddynodi achosion cymwys ar ôl dedfrydu a'u darparu o dan RAR, goruchwyliaeth ar ôl dedfrydu, trwydded neu ryddhau ar drwydded dros dro. Nod hyn yw cynyddu nifer y Rhaglenni Achrededig sy'n cael eu cwblhau o'i gymharu â'r system bresennol, gan y bydd gwell archwiliadau addasrwydd a chymhwysedd yn sicrhau bod unigolion yn cael eu paru'n well â Rhaglenni Achrededig. Ein blaenoriaeth ni yw sicrhau mai dim ond pobl yr aseswyd eu bod yn addas sy'n gwneud Rhaglenni Achrededig.

Bydd gan y Timau Ymyriadau rôl i'w chwarae i archwilio cymhwysedd ac addasrwydd, a chyfeirio achosion sy'n cael eu hystyried yn rhai anghymwys neu anaddas yn ôl at yr Ymarferydd Prawf, er mwyn iddyn nhw gael eu cyfeirio i'r llys i gael eu hailddedfrydu.

Mae tystiolaeth yn awgrymu bod Rhaglenni Achrededig yn effeithiol pan fyddan nhw'n targedu'r unigolion iawn ac, felly, dylid bob amser ystyried yr egwyddor 'risg, angen ac ymatebolrwydd' wrth archwilio cymhwysedd ac addasrwydd. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod unigolion risg is yn annhebygol o elwa o ymyriadau dwys, a bydd hyn yn rhan o'r penderfyniad ynghylch ai Rhaglen Achrededig neu Ymyriad Strwythuredig yw'r opsiwn mwyaf priodol.

Pan fydd unigolyn yn cael gofyniad Rhaglen Achrededig fel dedfryd, bydd y Timau Ymyriadau yn cael gwybod ar ddiwrnod y ddedfryd. Pan fydd Ymarferydd Prawf yn gweld bod angen Rhaglenni Achrededig fel rhan o amod trwydded neu oruchwyliaeth ar ôl dedfrydu, byddant yn cael eu cyfeirio at y Tîm Ymyriadau i'w galluogi i gynllunio darpariaeth y rhaglen ac i ragweld y niferoedd.

Bydd atgyfeiriad ffurfiol yn digwydd pan fydd yr Ymarferydd Prawf yn penderfynu bod yr unigolyn yn 'barod ar gyfer y rhaglen'. Wrth i'r Ymarferydd Prawf asesu a yw'r unigolyn yn barod ar gyfer y rhaglen, bydd hyn yn sicrhau bod gwaith cymell wedi cael ei gwblhau ac nad oes unrhyw resymau ymarferol – fel y gallu i fynychu, camddefnyddio sylweddau neu batrwm gwaith – a fydd yn atal unigolyn rhag cwblhau'r rhaglen. Bydd y penderfyniad hwn yn cael ei drosglwyddo'n electronig i'r Tîm Ymyriadau, naill ai drwy System yr Awdurdod, neu drwy e-bost diogel.


### Adolygu a gorfodi Rhaglenni Achrededig

Drwy gydol y ddedfryd, yr Ymarferydd Prawf sy'n rheoli'r ddedfryd fydd yn dal yn gyfrifol am yr holl benderfyniadau gorfodi a'r camau priodol. Bydd gofyn i'r Timau Ymyriadau roi gwybod i'r Ymarferydd Prawf mewn da bryd am unrhyw fethiannau i fod yn bresennol neu am faterion eraill sy'n ymwneud â chydymffurfio, fel y gellir gwneud penderfyniadau gorfodi. Dylai Timau Ymyriadau hefyd gadw cofnod o'r wybodaeth hon at ddibenion archwilio.

Cynhelir adolygiad o bob achos chwe mis a thri mis cyn diwedd gorchymyn/trwydded, er mwyn sicrhau bod Rhaglen Achrededig yn cael ei chwblhau'n brydlon. Mae'r adolygiad yn gyfrifoldeb ar y cyd rhwng yr Ymarferydd Prawf a'r Tîm Ymyriadau, a'i nod yw sicrhau bod holl ofynion y rhaglen yn cael eu cwblhau yn unol â chyfarwyddiadau'r llys.

Ar ddiwedd y Rhaglen Achrededig, bydd y cynnydd yn cael ei rannu â'r Ymarferydd Prawf yn unol â llawlyfr penodol y rhaglen.

## Ffigur 16. Map proses Rhaglenni Achrededig



## Darparu Ymyriadau Strwythuredig

Bydd Timau Ymyriadau hefyd yn cyflwyno Ymyriadau Strwythuredig, sy'n ymyriadau adsefydlu gyda model darparu cyson ar gyfer unigolion risg is nad ydynt yn addas ar gyfer Rhaglen Achrededig. Mae Ymyriadau Strwythuredig wedi'u cynllunio i gyd-fynd â'r cynllun dedfrydu ehangach, er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cyfle i leihau'r tebygolrwydd o aildroseddu. Dyma'r tri maes angen a nodwyd ar gyfer Ymyriad Strwythuredig:

- agweddau, ffordd o feddwl ac ymddygiad
- cam-drin domestig
- rheolaeth emosiynol

Bydd Ymyriadau Strwythuredig yn:

- cael eu hasesu i weld a ydyn nhw'n effeithiol yn erbyn egwyddorion y Panel Cynghori ac Achredu Gwasanaethau Cywirol
- cynnwys nifer penodol craidd o sesiynau gyda chynnwys wedi'i osod yn barod y mae pawb yn ei dderbyn
- ceisio sicrhau newid gwybyddol fel prif nod, a bydd angen i'r staff gael hyfforddiant penodol
- cael eu darparu naill ai mewn sefyllfa grŵp neu mewn sefyllfa un-i-un
- gweithredu mewn modd sy'n golygu nad oes angen cysylltu â gwasanaethau statudol lleol, e.e. tai – y sesiynau arfaethedig fydd y prif weithgaredd i ddiwallu'r angen a nodwyd

Er mwyn sicrhau bod ymyriadau strwythuredig yn bodloni'r meini prawf uchod, bydd y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf yn sefydlu ac yn cynnal Panel Ymyriadau Effeithiol Cenedlaethol i asesu Ymyriadau Strwythuredig posibl, ac i sicrhau bod yr amodau angenrheidiol yn cael eu bodloni. Bydd Timau Ymyriadau yn cael eu comisiynu i gynllunio, datblygu a gwerthuso Ymyriadau Strwythuredig ychwanegol, lle mae angen wedi cael ei nodi. Ar ôl i ymyriad gael ei gymeradwyo i'w ddarparu fel Ymyriad Strwythuredig, bydd yn cael ei roi ar gofrestr genedlaethol lle gellir ei ddefnyddio at ddibenion darparu ar gais y Cyfarwyddwr Prawf Rhanbarthol.

Cysylltiadau â Strategaeth Fusnes y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf

**Rydym yn cydnabod bod hyfforddiant o ansawdd da yn allweddol i alluogi ein staff i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl, a byddwn yn sicrhau bod hwyluswyr ymyriadau yn cael mynediad at yr hyfforddiant priodol er mwyn cael help wrth ddarparu ac yn eu datblygiad proffesiynol.**

Bydd hwyluswyr ymyriadau'n cael eu hyfforddi i ddarparu Rhaglenni Achrededig ac Ymyriadau Strwythuredig. Bydd y model darparu hwn yn arwain at fwy o wydnwch o ran bodloni'r galw am ymyriadau, yn ogystal â chynnig cyfleoedd datblygu i'r staff a lleihau'r risg y bydd y rhaglen yn chwythu ei phlwc. Bydd angen i bob hwylusydd gyflawni gofynion hyfforddi sylfaenol ac, yn unol â Strategaeth y Gweithlu Prawf, byddwn ni'n ceisio darparu hyfforddiant ychwanegol i gefnogi datblygiad proffesiynol a gwelliant parhaus.

Cyfeirir at Ymyriad Strwythuredig ar ôl cynnal asesiad llawn a chwblhau'r cynllun dedfrydu, ac efallai y bydd yn adlewyrchu'r angen i drefnu ystod o weithgareddau drwy gydol y ddedfryd. Bydd yr atgyfeiriad yn cael ei drosglwyddo'n electronig i'r Tîm Ymyriadau, naill ai drwy System yr Awdurdod, neu drwy e-bost diogel.

Er mwyn helpu gyda phenderfyniadau dedfrydu, bydd yn rhaid i'r Timau Ymyriadau gynnal cyfeirlyfr o Ymyriadau Strwythuredig, sy'n disgrifio'r amrywiaeth o ymyriadau sydd ar gael ac yn dweud ym mhle maen nhw'n cael eu darparu. Bydd y cyfeirlyfr yn cael ei ddiweddaru bob chwarter i gael ei ddefnyddio gan Ymarferwyr Prawf yn y llys wrth roi cyngor ynghylch dedfrydu, a gan y rhai sy'n gwneud gwaith Rheoli'r Ddedfryd.

Pan fydd unigolyn yn cael RAR fel dedfryd, neu ar gyfer y rhai sydd ar drwydded, yn cael eu goruchwylio ar ôl y ddedfryd neu wedi cael eu rhyddhau ar drwydded dros dro, bydd yr Ymarferydd Prawf yn asesu anghenion yr unigolyn hwnnw ac a yw'r angen yn canoli ar un o'r tri maes angen troseddegol a nodwyd ar gyfer Ymyriadau Strwythuredig. Disgwylir y bydd y Timau Ymyriadau yn cydweithio'n agos â'r Ymarferydd Prawf er mwyn cytuno ar yr amser iawn i ddechrau'r ymyriad. Bydd hyn yn helpu i gynllunio'r gwaith o ddarparu ymyriadau a rhagweld y niferoedd.

Lle bynnag y bo modd, bydd Ymyriadau Strwythuredig yn cael eu darparu yn yr ardal lle mae'r unigolyn sy'n cael ei oruchwylio yn byw. Rydym yn anelu at ddim mwy na 60 munud o amser teithio bob ffordd er mwyn mynychu rhaglen, a disgwylir y bydd y rhesymeg dros hyd yr amser teithio yn cael ei chofnodi at ddibenion archwilio.

Bydd sesiynau Ymyriadau Strwythuredig yn cael eu darparu mewn lleoliadau addas i sicrhau bod rhaglenni'n cael eu darparu mewn amgylchedd galluogol, yn ogystal â bodloni'r gofynion iechyd a diogelwch angenrheidiol. Mae hyn yn cynnwys ystyried y trefniadau ymarferol y mae eu hangen er mwyn i ddefnyddwyr ymgysylltu'n llawn â'r sesiynau, er enghraifft, gwneud addasiadau i fynd i'r afael ag anghenion dysgu neu lythrennedd, yn ogystal â sicrhau eu bod yn hygyrch i bobl sydd ag anabledd corfforol. Gall lleoliadau gynnwys y rhai sy'n darparu lle i fenywod yn unig, a'r rhai sy'n darparu'n arbennig ar gyfer anghenion pobl o gefndiroedd BAME, gan gynnwys y gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr a allai fod â gofynion dysgu penodol.

## Adolygu a gorfodi Ymyriadau Strwythuredig


Cynhelir adolygiad o bob achos chwe mis a thri mis cyn diwedd gorchymyn/trwydded, er mwyn sicrhau bod Ymyriad Strwythuredig yn cael ei gwblhau'n brydlon. Mae'r adolygiad yn gyfrifoldeb ar y cyd rhwng yr Ymarferydd Prawf a'r Tîm Ymyriadau, a'i nod yw sicrhau bod y gofynion yn cael eu cwblhau yn unol â chyfarwyddiadau'r llys.

Ar ddiwedd yr Ymyriad Strwythuredig, bydd disgwyl i'r Tîm Ymyriadau roi crynodeb i'r Ymarferydd Prawf o gydymffurfiaeth, ymgysylltiad a dealltwriaeth yr unigolyn o'r cynnwys, gan gynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud ag agweddau ac ymddygiad ac unrhyw newidiadau o ran risgiau neu anghenion yr unigolyn. Bydd gan y Timau Ymyriadau fynediad at systemau i gofnodi'r ddarpariaeth Ymyriadau Strwythuredig er mwyn adlewyrchu nifer y diwrnodau/sesiynau, yr anghenion y rhoddwyd sylw iddynt, yr ymyriadau a ddewiswyd, y gweithgarwch a wnaed a'r canlyniadau a gafodd eu sicrhau.

Drwy gydol y ddedfryd, yr Ymarferydd Prawf sy'n rheoli'r ddedfryd fydd yn dal yn gyfrifol am yr holl benderfyniadau gorfodi a'r camau priodol. Bydd gofyn i'r Timau Ymyriadau roi gwybod i'r Ymarferydd Prawf mewn da bryd am unrhyw fethiannau i fod yn bresennol neu am faterion eraill sy'n ymwneud â chydymffurfio, fel y gellir gwneud penderfyniadau gorfodi. Dylai Timau Ymyriadau hefyd gadw cofnod o'r wybodaeth hon at ddibenion archwilio.

Bydd gan y Timau Ymyriadau systemau TG i gefnogi darpariaeth effeithiol gan nifer digonol o staff a fydd wedi cael hyfforddiant priodol, mewn lleoliadau priodol gydag amgylcheddau galluogol. Bydd fformatau darparu amgen yn gyfle i gael dull mwy ymatebol wrth ymdrin ag anghenion unigol, lle bo angen.

**Ffigur 17. Map proses Ymyriadau Strwythuredig**




**Allwedd:**

**GC** – Gorchymyn Cymunedol
**GGA** – Gofyniad Gweithgaredd Adsefydlu
**GAD** – Goruchwylio ar ôl y Ddedfryd
**DG** – Defnyddiwr Gwasanaeth

**AMY** – Agweddau, meddwl ac ymddygiad
**RE** – Rheolaeth emosiynol
**CD** – Cam-drin Domestig

## Uwch Ganolfannau Ymbresenoli

Mae Uwch Ganolfannau Ymbresenoli yn ymyriadau statudol sydd ar gael fel dedfryd gan y llys o dan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003. Maent yn un o'r 12 gofyniad y gellir eu pennu fel rhan o ddedfryd gymunedol neu ddedfryd ohiriedig a gellir eu pennu o ganlyniad i beidio â thalu dirwyon neu dorri gorchmynion cymunedol eraill. Gellir eu darparu hefyd drwy Ofyniad Gweithgaredd Adsefydlu. Ar hyn o bryd, maent yn cael eu darparu gan Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol.

Prif bwrpas gofyniad Canolfan Ymbresenoli yw cefnogi gweithgareddau adsefydlu. Mae elfen gosbol hefyd i Ganolfannau Ymbresenoli, drwy gyfyngu ar ryddid oherwydd y gofyniad i fod yn bresennol, ac maen nhw'n darparu amgylchedd dysgu disgybledig sydd wedi'i strwythuro i ennyn diddordeb pobl ifanc pan fo aeddfedrwydd yn broblem.

O Ddiwrnod Cyntaf y model unedig, lle caiff Uwch Ganolfannau Ymbresenoli eu darparu ar hyn o bryd, cynigir trosglwyddo'r ddarpariaeth i'r gwasanaeth prawf newydd a'i bod yn parhau fel y mae ar hyn o bryd, er y bydd Cyfarwyddwyr Prawf Rhanbarthol yn gallu adolygu'r darpariaethau presennol. Ym mhob achos, bydd y 'Swyddog â Gofal' a neilltuir i'r Uwch Ganolfan Ymbresenoli wedi cael ei hyfforddi fel Ymarferydd Prawf, a bydd yn rheoli gorchmynion unigol ag un gofyniad. Bydd gorchmynion â mwy nag un gofyniad yn cael eu rheoli gan Ymarferydd Prawf yn y Tîm Rheoli Dedfrydau, a byddant yn cael eu cyfeirio at y Swyddog â Gofal yn dilyn asesiad. Felly, bydd yr holl ofynion newydd ar gyfer Uwch Ganolfan Ymbresenoli yn cael eu neilltuo i Ymarferydd Prawf, naill ai'r Swyddog â Gofal neu aelod o'r Tîm Rheoli Dedfrydau, fel bod asesiad risg ac anghenion yn cael ei gynnal a chynllun dedfrydu yn cael ei gwblhau, a bod camau priodol yn cael eu cymryd yn dilyn unrhyw fethiant i gydymffurfio.

Mae'r papur gwyn ar ddedfrydu, 'A smarter Approach to Sentencing' a gyhoeddwyd ym mis Medi 2020, yn cydnabod bod Gofynion y Ganolfan Ymbresenoli wedi bod yn lleihau ers i Ofynion Gweithgaredd Adsefydlu gael eu cyflwyno yn 2014, ac nad yw'r rhain yn cael eu defnyddio'n gyson – yn rhannol oherwydd eu dosbarthiad anghyson (er enghraifft, does dim un yng Nghymru nac yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr). Felly, mae'r papur gwyn yn cynnig dileu Gofynion Canolfan Ymbresenoli a Gorchmynion Canolfan Ymbresenoli, er mwyn symleiddio'r fframwaith dedfrydau cymunedol a hybu dedfrydu symlach a mwy cyson. Bydd y gwasanaeth prawf newydd yn parhau i weithredu'r Uwch Ganolfannau Ymbresenoli yn unol â'r trefniadau presennol, nes ac oni bai fod deddfwriaeth yn cael ei phasio i'w dileu.

# Rhan Tri: Gwasanaethau i Ddioddefwyr

| Egwyddor gyffredinol y dyluniad | Sut mae'n berthnasol i ddyluniad Gwasanaethau i Ddioddefwyr |
|---|---|
| Dyluniad sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr | Ymgorffori hawliau ac anghenion dioddefwyr ym mhob agwedd ar ein dyluniad.<br><br>Sicrhau bod dioddefwyr yn gallu cael gafael ar wybodaeth amserol o ansawdd uchel.<br><br>Rhoi mwy o ddewis i ddioddefwyr o ran y dull o gyfathrebu â nhw, a pha mor aml y bydd hynny'n digwydd.<br><br>Gwella'r ddarpariaeth i ddioddefwyr gael eu cynnwys eto yn y Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr ar adegau allweddol yn y ddedfryd. |
| Dyluniad cost effeithiol/ effeithlon | Ystyried y dulliau mwyaf effeithlon o ddefnyddio staff ac adnoddau er mwyn cynyddu gallu'r Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr gymaint â phosibl.<br><br>Ymestyn cwmpas y gwasanaethau cysylltu â dioddefwyr i sicrhau gwell darpariaeth drwy'r cyfle i ddewis ymuno â'r cynllun ar adegau allweddol yn y ddedfryd, er mwyn mynd ati'n fwy effeithiol i gael cydbwysedd rhwng cyswllt ac anghenion dioddefwr unigol. |
| Dyluniad ar gyfer y system gyfan | Cyd-fynd â Chod Dioddefwyr a Strategaeth Dioddefwyr y Llywodraeth.<br><br>Ystyried profiad gweithredol Swyddogion Cysylltu â Dioddefwyr.<br><br>Cyd-fynd yn agos â holl ddatblygiadau cyfatebol y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf, er mwyn mynd ati'n barhaus i wella'r gwasanaethau a ddarperir i ddioddefwyr. |

| Egwyddor gyffredinol y dyluniad | Sut mae'n berthnasol i ddyluniad Gwasanaethau i Ddioddefwyr |
|---|---|
| Dyluniad sy'n seiliedig ar dystiolaeth | Ystyried tystiolaeth sy'n bodoli eisoes a thystiolaeth a ddaw i'r amlwg sy'n cefnogi ymarfer effeithiol.<br><br>Mae hyn yn cynnwys ymrwymiad clir i gysoni gwasanaethau dioddefwyr yn rheolaidd â'r dull 'pedair conglfaen' ar gyfer asesu a rheoli risg drwy gynlluniau i gadw'r dioddefwr yn ddiogel.<br><br>Ystyried canfyddiadau archwiliadau Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi, arolygon dioddefwyr ac adolygiadau ymarfer eraill o waith dioddefwyr. |
| Dyluniad cyson ond hyblyg | Sicrhau bod dioddefwyr yn gallu manteisio ar yr hawliau y mae ganddynt hawl iddynt drwy'r Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr.<br><br>Gweithio gyda Chyfarwyddwyr Prawf Rhanbarthol i gyflwyno gwelliannau i'r Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr.<br><br>Ystyried sut i ddatblygu cysylltiadau gweithredol â'r gwasanaethau a ddarperir i ddioddefwyr, sy'n ymwneud â'r gwaith o ddarparu Rhaglenni Achrededig. |
| Dyluniad gwaith partneriaeth effeithiol | Sicrhau bod nodau rhaglenni ar gyfer gwella cymorth i ddioddefwyr yn gysylltiedig â nodau rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys y Comisiynydd Dioddefwyr, y Bwrdd Parôl, y Gweithlu Prawf a'r holl asiantaethau Cyfiawnder Troseddol. |
| Dyluniad cynhwyso | Ehangu a gwella gwasanaethau i ddioddefwyr drwy broses optio i mewn sydd wedi cael ei diwygio a'i hegluro'n well.<br><br>Bydd y Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr hefyd yn darparu Swyddog Cysylltu â Dioddefwyr fel person cyswllt ar gyfer dioddefwyr y rhai sy'n cael eu cadw fel cleifion nad ydynt dan gyfyngiadau.<br><br>Bydd dioddefwyr yn elwa o brosesau cyfathrebu mwy effeithlon a digidol yn ôl yr angen. |

### Yr achos dros newid a'r sylfaen dystiolaeth

Mae gan gynrychiolwyr dioddefwyr ar lefel uchel – mae hyn yn cynnwys y Gweinidog Dioddefwyr, y Comisiynydd Dioddefwyr a Phrif Weithredwr y Bwrdd Parôl – fandad a chefnogaeth glir i wella ac ehangu'r Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr. Roedd yr adolygiad yn dilyn achos Worboys wedi gweld bod angen cyfathrebu'n well â dioddefwyr ynghylch parôl a rhyddhau, ac wedi tynnu sylw at y ffaith nad yw dioddefwyr bob amser yn cael cyfle i ymuno â'r cynllun.

Cysylltiadau â Strategaeth Fusnes y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf

**Mae ein hymagwedd at wasanaethau i ddioddefwyr yn seiliedig ar ein hymrwymiad i ddysgu gwersi o brofiadau dioddefwyr, a defnyddio gwybodaeth staff rheng flaen a rhanddeiliaid er mwyn darparu gwasanaeth sy'n ennyn hyder ac yn darparu'r cymorth priodol.**

Er mwyn llywio'r ffordd rydym yn gwella'r Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr, rydym wedi cydweithio â chydweithwyr gweithredol er mwyn deall pa garfanau o ddioddefwyr sydd fwyaf angen cymorth ychwanegol gan Unedau Cysylltu â Dioddefwyr, a chyswllt â Swyddogion Cysylltu â Dioddefwyr sy'n fwy profiadol. Mae hyn wedi gwneud i ni ganolbwyntio ar sut gall y gwasanaeth prawf newydd gefnogi'r broses cyfiawnder troseddol yn well, drwy roi gwybod i ddioddefwyr am ddatblygiadau allweddol yn achos y sawl a oedd wedi cyflawni'r drosedd – er enghraifft, penderfyniadau ynghylch parôl a rhyddhau, a rhwystro erledigaeth bellach.

### Buddion a ragwelir

Wrth i ni roi pwyslais o'r newydd ar wasanaethau i ddioddefwyr, rydym am sicrhau gwell profiad i'r rhai sydd wedi dioddef trosedd, gan roi sicrwydd iddynt y byddant yn cael eu diogelu'n briodol, a rhoi ffydd iddynt yn y system cyfiawnder troseddol.

Byddwn yn defnyddio arolygon adborth i fesur a yw ein newidiadau yn arwain at well profiad i ddioddefwyr. Bydd hyn hefyd yn cynnwys cwestiynau am gydraddoldeb ac amrywiaeth, er mwyn rhoi sicrwydd ynghylch effaith ein diwygiadau ar y dioddefwyr hynny sydd â nodweddion gwarchodedig.

### Ystyriaethau cydraddoldeb

Dangosodd Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr fod y tebygolrwydd o ddioddef trosedd yn amrywio yn ôl ffactorau demograffig (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol: Troseddu yng Nghymru a Lloegr: y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2020). Wrth gymharu â'r boblogaeth gyffredinol, gwelwyd bod y grwpiau canlynol yn cael eu gorgynrychioli ymysg dioddefwyr:

- pobl ifanc
- pobl o gefndiroedd cymysg neu aml-ethnig, a phobl o gefndiroedd ethnig Asiaidd
- pobl y mae eu hunaniaeth o ran rhywedd yn wahanol i'w rhyw a gofrestrwyd ar eu genedigaeth
- pobl sy'n ystyried eu hunain yn hoyw neu'n lesbiaid neu'n ddeurywiol
- pobl ag anabledd
- Mwslimiaid

Bydd Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr sy'n diwallu anghenion dioddefwyr yn well yn cael effaith gadarnhaol ar bob dioddefwr. Bydd hyn hefyd yn golygu y bydd effaith gadarnhaol ar y dioddefwyr hynny sydd â nodweddion gwarchodedig (sy'n cael eu gorgynrychioli). Mewn achosion lle mae dioddefwyr yn cael cyfle i gymryd rhan eto yn y Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr, bydd hyn yn helpu i atal rhagor o erledigaeth ac yn sicrhau bod dioddefwyr â nodweddion gwarchodedig yn cael llais cyson drwy gydol y broses cyfiawnder troseddol. Byddai hyn yn cynnwys hyd at broses y Bwrdd Parôl, ac yn cynnwys hynny.

Gan nodi'r cysylltiadau agos rhwng cam-drin domestig a stelcian ac aflonyddu, ac mai menywod yn bennaf sy'n dioddef y drosedd hon, bydd yr ymrwymiad i ehangu'r Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr i gefnogi dioddefwyr troseddau a nodweddir gan stelcian ac aflonyddu, lle mae unigolion yn cael dedfryd o lai na 12 mis o garchar, o fudd yn benodol i fenywod sydd wedi dioddef trosedd. Bydd hyn yn wir hefyd wrth adolygu'r broses 'optio i mewn' ar gyfer y Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr. Drwy gynnwys pobl sydd wedi cael eu treisio yn y grŵp hwn, byddwn ni'n mynd ati i gymryd camau i sicrhau bod menywod (yn bennaf) sydd wedi dioddef trosedd yn gallu cymryd rhan eto yn y Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr, a deall eu hawliau ehangach.

Mae'n rhaid i Swyddogion Cysylltu â Dioddefwyr hefyd gydnabod anghenion penodol, a chwblhau hyfforddiant sy'n rhoi sylw i ystyriaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth, gan gynnwys hyfforddiant ar ddileu rhagfarn a sut i gyfathrebu â dioddefwyr mewn ffordd ac ar lefel a chyflymder sy'n briodol iddyn hwy.

### Sut byddwn yn delio â Gwasanaethau i Ddioddefwyr

Rydym yn canolbwyntio ar y newidiadau canlynol:

- Ehangu'r Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr i gefnogi dioddefwyr troseddau a nodweddir gan stelcian ac aflonyddu, lle mae unigolion yn cael dedfryd o lai na 12 mis o garchar.
- Sefydlu proses ddiwygiedig a gwell ar gyfer 'optio i mewn', er mwyn gallu cysylltu â dioddefwyr mewn achosion a fydd yn cael eu hadolygu cyn bo hir gan y Bwrdd Parôl, gan roi cyfle ychwanegol i gael cyswllt – gan gynnwys pan fydd dioddefwyr wedi optio allan o'r cynllun yn y gorffennol.

- Ehangu'r Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr i gydnabod newidiadau i'r Cod Dioddefwyr er mwyn i Swyddogion Cysylltu â Dioddefwyr fod yn gyfrifol am gysylltu â dioddefwyr cleifion nad ydynt dan gyfyngiadau.
- Gwella'r math o wybodaeth a ddarperir i ddioddefwyr drwy'r llythyr cyswllt blynyddol, er mwyn cynnwys categori diogelwch y carchar.
- Gwella gallu'r Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr i gefnogi achosion cymhleth ac sy'n ymwneud â'r Ddeddf Terfysgaeth.
- Rydym yn ystyried cynnig cysylltu â dioddefwyr nad ydynt yn bodloni'r meini prawf statudol, yn unol â chanllawiau polisi ar ddioddefwyr â chyswllt yn ôl disgresiwn.

### Gwella'r Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr er mwyn helpu dioddefwyr troseddau stelcian ac aflonyddu pan fydd carcharorion wedi cael dedfryd fer

Roedd y cyn-Weinidog Dioddefwyr, Edward Agar, wedi sylw at y ffaith bod angen cefnogaeth gan Swyddogion Cysylltu â Dioddefwyr ar ddioddefwyr y troseddau hyn, hyd yn oed os yw'r ddedfryd yn llai na 12 mis. Mae'r cynnig hwn yn taro'r cydbwysedd rhwng diwallu anghenion pob dioddefwr unigol, a chynnig gwasanaeth mor llawn â phosibl iddynt. Mae'n bwysig nodi bod yr amser a dreulir yn y ddalfa yn fyr iawn weithiau – er enghraifft, cyn i unigolion gael eu symud i gyrffyw cyfyngu i'r cartref. Felly, er ein bod yn ceisio ymestyn y cynllun mor llawn â phosibl i ddioddefwyr y troseddau hyn, bydd y math o gyswllt fydd ei angen ar bob dioddefwr yn wahanol, a bydd yn rhaid i hynny ddibynnu ar asesiad o anghenion y dioddefwr ar sail hyd y ddedfryd unigol. O ystyried natur y troseddau a'r garfan o droseddwyr, byddem yn disgwyl i'r amod 'dim cyswllt' fod yn berthnasol i bob trwydded. Byddem yn disgwyl i Swyddogion Cysylltu â Dioddefwyr ddefnyddio eu barn broffesiynol fesul achos i benderfynu a fyddai'n briodol ychwanegu ceisiadau am amodau trwydded atodol.

Y prif gyswllt rhwng y Swyddog Cysylltu â Dioddefwyr a'r dioddefwr fyddai i gyfeirio dioddefwyr at wasanaethau allweddol; byddai hyn yn cynnwys y gwasanaethau a allai eu helpu i geisio cael darpariaethau sifil diwygiedig neu newydd ar ôl y rhyddhau, fel gorchmynion atal yn ôl yr angen.

### Proses ddiwygiedig a gwell ar gyfer 'optio i mewn'

Byddai proses ddiwygiedig a gwell ar gyfer 'optio i mewn' yn ei gwneud hi'n bosibl i gysylltu â dioddefwyr mewn achosion a fydd yn cael eu hadolygu cyn bo hir gan y Bwrdd Parôl, ac yn gyfle ychwanegol i gael cyswllt. Byddai hyn yn cynnwys achosion lle mae dioddefwyr wedi optio allan o'r cynllun yn y gorffennol. Bydd y cynnig newydd hwn yn golygu y gall ein hadnoddau ailgysylltu ganolbwyntio ar ddwy elfen:

- Cysylltu â dioddefwyr mewn achosion lle mai'r Bwrdd Parôl sy'n gyfrifol am ryddhau am y tro cyntaf, ond lle nad yw'r achos hwnnw o ryddhau am y tro cyntaf wedi digwydd eto, a'u bod yn dod gerbron y Bwrdd Parôl.
- Swyddogion Cysylltu â Dioddefwyr yn cysylltu â dioddefwyr cymwys ddwywaith i ofyn iddynt a ydynt eisiau optio i mewn i'r Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr.

Bydd hyn yn golygu ein bod ni'n gallu canolbwyntio ar ddioddefwyr troseddau difrifol dros ben, fel y rhai sy'n cael eu carcharu am ddedfrydau diogelu'r cyhoedd, dedfrydau oes, dedfrydau penodedig estynedig a gorchmynion ysbyty cyfyngedig. Rydym hefyd yn bwriadu cynnwys dioddefwyr troseddau difrifol eraill, fel achosion o dreisio, llathruddo, ymgais i lofruddio a dynladdiad. Mae tua 16,500 o achosion cyfredol yn perthyn i'r categorïau hyn.

Ochr yn ochr â hyn, bydd yn dal yn ôl disgresiwn y Tîm Dioddefwyr i gysylltu â dioddefwyr y mae eu hachosion yn cael eu rhyddhau cyn bo hir, lle maen nhw naill ai wedi dewis peidio â chael cyswllt neu lle mae'r achos y tu allan i'r cylch gwaith hwn. Er enghraifft, gall hyn fod mewn achosion lle mae'r tîm yn rhagweld y bydd y rhyddhau yn ennyn diddordeb mawr yn y wasg ac y bydd angen rhoi rhybudd ymlaen llaw i'r dioddefwr, hyd yn oed os yw'n hen achos. Bydd hyn yn golygu bod Swyddogion Cysylltu â Dioddefwyr mwy medrus yn gallu cysylltu â dioddefwyr mewn ffordd fwy penodol. Gan ystyried bod y rhain yn ddioddefwyr troseddau trawmatig dros ben, bydd hyn yn bwysig er mwyn iddynt allu egluro i ddioddefwyr beth yw eu hawliau o dan y Cod Dioddefwyr, a beth gallant ei ddisgwyl wrth gymryd rhan yn y broses. Bydd hyn yn allweddol mewn achosion a allai fod o ddiddordeb i'r wasg, a gyda throseddau trawmatig lle mae gan y dioddefwyr yr hawl i gael eu cyfeirio at wasanaethau cymorth.

### Ymestyn y Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr i gynnwys dioddefwyr cleifion nad ydynt dan gyfyngiadau

Mae'r rhai sydd ag anhwylderau meddwl ac sydd wedi'u cael yn euog, yn gallu cael eu trin fel cleifion dan gyfyngiadau neu fel cleifion nad ydynt dan gyfyngiadau. Mae cleifion dan gyfyngiadau yn golygu'r bobl hynny sy'n cael eu cadw yn yr ysbyty i gael triniaeth, ac sy'n destun rheolaethau arbennig gan y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf. Mae cleifion nad ydynt dan gyfyngiadau yn golygu'r bobl hynny nad yw eu cynnydd na'u proses ryddhau yn cael eu hadolygu gan y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf.

Roedd adroddiad y Comisiynydd Dioddefwyr ym mis Mehefin 2018[9] yn cyfeirio'n benodol at y gwahaniaeth rhwng hawliau'r rhai sydd wedi dioddef yn sgil pobl sydd ag anhwylderau meddwl, o'i gymharu â'r rhai sydd wedi dioddef yn sgil pobl sy'n rhan o'r system garchardai. Dyma oedd argymhelliad penodol y Comisiynydd Dioddefwyr: *Ymestyn cylch gwaith y Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr i ddarparu swyddog cysylltu â dioddefwyr fel cefnogaeth barhaus i ddioddefwyr cleifion nad ydynt dan gyfyngiadau, fel eu bod yn cael lefel o gefnogaeth sy'n gymharol i'r gefnogaeth a roddir i unrhyw ddioddefwyr eraill sydd wedi dioddef troseddau rhywiol a threisgar difrifol.*

[9] Hawliau a Phrofiadau o Dioddefwyr troseddwr ag anhwylder meddwl.

Rydym wedi cynnwys yr argymhelliad hwn yn ein dull gweithredu, a fydd yn golygu na fydd dioddefwyr cleifion nad ydynt dan gyfyngiadau yn gweld mwyach ei bod yn rhaid iddynt gysylltu â rheolwyr ysbytai (fel y nodir yn Neddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr 2004) na staff ysbytai (fel sy'n digwydd yn ymarferol) i gael gwybodaeth am eu hachos. Yn hytrach na hynny, y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf fydd yn arolygu'r cleifion hynny. Byddant yn derbyn y gyfres lawn o wasanaethau o dan y Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr, yn yr un modd â dioddefwyr cleifion nad ydynt dan gyfyngiadau. I ddelio â'r llwyth achosion hwn, bydd angen i Unedau Cysylltu â Dioddefwyr weithio gydag ymddiriedolaethau iechyd i gasglu gwybodaeth am gleifion newydd, a meithrin cysylltiadau agosach er mwyn gallu rhannu gwybodaeth.

### Newidiadau i'r llythyr cyswllt blynyddol er mwyn cynnwys statws categori'r carcharor

Er mwyn bod yn fwy tryloyw gyda dioddefwyr a rhoi cymaint o wybodaeth â phosibl iddynt, byddwn yn newid y llythyr cyswllt blynyddol a anfonir at ddioddefwyr sydd wedi dewis optio i mewn i'r Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr. Daeth y cais hwn gan y Comisiynydd Dioddefwyr fel rhan o ymgyrch i atal dioddefwyr rhag cael sioc pan fyddan nhw'n cael gwybod bod y sawl a gyflawnodd y drosedd yn gymwys i gael ei ryddhau. Rydym yn cynnig diwygio'r llythyr blynyddol i gynnwys statws categori'r carcharor. Mae Adran Gyfreithiol y Llywodraeth wedi cadarnhau bod hyn yn cydymffurfio â chanllawiau diogelu data.

### Gwella gallu Swyddogion Cysylltu â Dioddefwyr i weithio gydag achosion cymhleth ac sy'n ymwneud â'r Ddeddf Terfysgaeth

Rhaid cydnabod bod achosion rhai dioddefwyr yn fwy cymhleth; gall hyn fod oherwydd naill ai natur y trosedd, lefel y sylw y mae'r dioddefwr ei hun yn ei gael yn y wasg oherwydd ei statws blaenorol yn y gymuned, neu oherwydd bod y drosedd yn destun craffu a sylw gwleidyddol, ymysg rhesymau eraill. Mewn rhai achosion, gall hyn gynnwys perthnasau dioddefwyr terfysgaeth. Felly, rydym yn cynnig swydd uwch i gefnogi'r dioddefwyr hyn.

Byddai cylch gwaith ehangach y swydd hon yn cydnabod profiad ac arbenigedd Swyddogion Cysylltu â Dioddefwyr, ac yn eu galluogi i weithio gyda'r achosion mwy cymhleth hyn. Byddem yn dibynnu ar ddisgresiwn arbenigwyr yn y Tîm Diogelu'r Cyhoedd i ddweud pryd mae ar ddioddefwyr angen Swyddog Cysylltu â Dioddefwyr mwy profiadol i'w helpu i ymdopi â'r achos ac unrhyw bwysau a ddaw yn ei sgil. Rydym hefyd yn disgwyl i'r grŵp hwn o Swyddogion Cysylltu â Dioddefwyr ddefnyddio eu harbenigedd i ategu'r gwaith sy'n cael ei wneud gan yr Is-adran Diogelwch Gwladol, a gweithio ar draws rhanbarthau fel sy'n briodol. Bydd staff, undebau llafur a rhanddeiliaid yn parhau i ymwneud â'r gwaith o ddatblygu'r rôl hon ymhellach.

# Rhan Pedwar: Cefnogi'r broses o Ddarparu'r Model Newydd

Mae'r adran hon yn egluro sut rydym yn bwriadu cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau prawf diwygiedig. Mae hefyd yn sôn am y fframwaith perfformiad, mynd ati i gynnwys defnyddwyr, y broses o gomisiynu a chynllunio busnes, strwythurau rhanbarthol, ein pobl, ein hystadau a'n technoleg, a gwasanaethau digidol a data.

## Fframwaith Perfformiad

### Egwyddorion y dyluniad

| Egwyddor gyffredinol y dyluniad | Sut mae'n berthnasol i'r Fframwaith Perfformiad |
|---|---|
| Canolbwyntio ar y defnyddiwr | • Mae'n rhoi pwyslais ar ansawdd yn hytrach na phrosesau, ac yn cyflwyno mesurau ansawdd newydd.<br>• Mae'n gofyn am adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth ynghylch y gwasanaethau sy'n cael eu darparu, fel sail i waith gwella. |
| Yn effeithlon/ effeithiol o ran costau | • Mae'n ei gwneud yn bosibl i asesu effeithiolrwydd o ran costau, drwy gofnodi ansawdd y gwasanaethau a ddarperir, ac a yw canlyniadau ac allbynnau wedi cael eu cyflawni. |
| System gyfan | • Mae'n defnyddio dull o weithredu ar draws y system i ysgogi gwell perfformiad ymysg darparwyr gwasanaethau prawf cyhoeddus a gwasanaethau dan gontract. |
| Yn seiliedig ar dystiolaeth | • Mae'n cynyddu atebolrwydd darparwyr drwy wella'r Wybodaeth Reoli sy'n cynnwys allbynnau a chanlyniadau gyda chysylltiadau amlwg â lleihau achosion o aildroseddu ac sydd o dan reolaeth darparwyr.<br>• Mae'n defnyddio methodoleg archwilio gadarn i asesu ansawdd y ddarpariaeth. |
| Dyluniad cyson ond hyblyg | • Mae'n defnyddio fframwaith integredig cydlynol gyda goruchwyliaeth ganolog i gynnal ansawdd cyson y gwasanaeth, ac yn sicrhau bod modd dadansoddi mesurau a thargedau unigol ar lefel ranbarthol. |

| Egwyddor gyffredinol y dyluniad | Sut mae'n berthnasol i'r Fframwaith Perfformiad |
|---|---|
| Gwaith partneriaeth effeithiol | • Mae'n dal y gwasanaeth prawf newydd a darparwyr dan gontract yn atebol am eu cyfrifoldebau perthnasol ac am gydweithio'n effeithiol. |
| Cynhwysol | • Mae'n defnyddio set gynhwysfawr o fetrigau a dangosyddion ansawdd a fydd yn ei gwneud yn bosibl i ddadansoddi effaith y gwasanaethau a ddarperir ar wahanol grwpiau o unigolion. Bydd Teclyn Monitro Cydraddoldeb y gwasanaeth prawf yn asesu metrigau allweddol er mwyn dod o hyd i wahaniaethau o ran triniaeth a chanlyniadau. |

Er mwyn sicrhau bod y system brawf yn ennyn hyder, yn darparu ac yn gorfodi gofynion sydd wedi'u gorchymyn gan y llys, yn diogelu'r cyhoedd ac yn darparu'r gefnogaeth sydd ei hangen ar unigolion sy'n derbyn gwasanaethau prawf i fyw eu bywyd mewn ffordd sy'n parchu'r gyfraith, mae'r fframwaith perfformiad ar gyfer y model unedig yn canolbwyntio ar dri amcan allweddol:

- Sicrhau ansawdd – drwy newid y pwyslais i fod ar ddarpariaeth o ansawdd uchel, yn hytrach nag ar brosesau; drwy gyflwyno mesurau ansawdd newydd a chryfhau rôl adborth defnyddwyr gwasanaeth.
- Mae'n sicrhau canlyniadau sy'n debygol o leihau achosion o droseddu – drwy gofnodi allbynnau a chanlyniadau y mae gan ddarparwyr elfen o reolaeth drostynt, ac y mae tystiolaeth yn dangos eu bod yn gysylltiedig â lleihau achosion o aildroseddu.
- Cael y pethau sylfaenol yn iawn – drwy ddal y gwasanaeth prawf yn atebol am ddarparu dedfrydau, gorfodi a diogelu'r cyhoedd, a drwy hynny hybu hyder y farnwriaeth yn narpariaeth y gwasanaeth prawf.

### Adroddiadau cydraddoldeb

Y Cyfarwyddwyr Prawf Rhanbarthol fydd yn gyfrifol am adroddiadau ynghylch sut mae'r gwasanaeth prawf yn cyflawni Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Mae deall anghenion rhanbarthol, a sicrhau bod y gwasanaethau cywir ar gael i ddiwallu'r anghenion hynny, yn hanfodol i gefnogi'r broses adsefydlu a lleihau achosion o aildroseddu. Mae hyn yn golygu diwallu anghenion unigolion sydd â gwahanol nodweddion gwarchodedig, a charfannau eraill y nodwyd bod angen gwasanaethau wedi'u teilwra arnynt, fel cyn-aelodau'r lluoedd arfog a phobl sy'n gadael gofal.

**Bydd mesurau perfformiad yn rhan allweddol o'n diwylliant dysgu, agored drwy ein galluogi i ddal ein gwasanaeth yn atebol, ac i gydnabod ac adeiladu ar ein llwyddiannau.**

Bydd y set gynhwysfawr o fetrigau a dangosyddion ansawdd o dan y fframwaith perfformiad yn y dyfodol yn darparu tystiolaeth ynghylch sut mae gwasanaethau'n cael eu darparu ar gyfer unigolion sydd â gwahanol nodweddion gwarchodedig. Bydd Teclyn Monitro Cydraddoldeb ar gyfer y gwasanaeth prawf yn cael ei ddefnyddio ar gyfer metrigau allweddol, er mwyn canfod a oes gwahaniaethau o ran canlyniadau a'r gwasanaethau a ddarperir. Bydd hyn yn cael ei ategu gan darged perfformiad newydd i Ymarferwyr Prawf gofnodi nodweddion gwarchodedig a fydd yn cael eu hystyried wrth gynllunio a darparu dedfrydau. Bydd ein dealltwriaeth o faterion amrywiaeth a chynhwysiant, a sut i fynd i'r afael â'r rhain, yn gwella drwy archwiliadau sicrwydd gweithredol ar ansawdd y gwasanaethau a ddarperir. Bydd yr archwiliadau hyn yn casglu data helaeth am brofiadau defnyddwyr gwasanaeth sydd â gwahanol nodweddion gwarchodedig.

Un elfen hanfodol o'r agwedd at berfformiad yw deall barn y cwsmer. Mae'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf wedi datblygu safonau rhagoriaeth ar gyfer cynnwys defnyddwyr gwasanaeth, gyda'r disgwyliad y bydd y rhain yn cael eu rhoi ar waith ar draws y system brawf (darllenwch Atodiad A, Rhan Pedwar i gael rhagor o fanylion). Bydd yn rhaid i ddarparwyr ofyn am farn defnyddwyr gwasanaeth am y gwasanaethau maen nhw'n eu derbyn, a defnyddio'r ddealltwriaeth hon i ddatblygu a gwella'r gwasanaeth a ddarperir. O ran y gwasanaeth prawf, mae dioddefwyr yn grŵp pwysig, ac mae arolygon adborth – ar gyfer y rheini sydd wedi cyflawni troseddau a dioddefwyr – yn cynnwys cwestiynau am eu nodweddion gwarchodedig fel bod modd deall a rhoi sylw i safbwyntiau a phrofiadau gwahanol.

### Rhoi mesurau perfformiad ar waith i gefnogi agweddau penodol ar ein dyluniad

Yn ogystal â mesurau perfformiad sy'n cefnogi proses unedig o reoli dedfrydau, mae mesurau a ddatblygwyd yn flaenorol ar gyfer darpariaeth Partneriaid Darparu Gwasanaethau Prawf wedi cael eu haddasu i gael eu darparu gan y gwasanaeth prawf newydd, gan gynnal cysondeb ag egwyddorion cyffredinol y dyluniad a nodir uchod. Bydd rhai mesurau presennol yn cael eu haddasu, a bydd rhannau penodol o'r fframwaith perfformiad newydd yn cael eu rhoi ar waith, i gefnogi'r model unedig o fis Mehefin 2021 ymlaen. Yn amodol ar yr adferiad yn dilyn COVID-19, bydd mesurau perfformiad y diwrnod cyntaf yn cael eu pennu o fis Hydref 2020 ymlaen, er mwyn gallu cytuno ar dargedau, gan gynnwys trefniadau cynyddu, i'w rhoi ar waith o fis Mehefin 2021 ymlaen. Disgwylir y bydd y rhan fwyaf o'r mesurau nad oes eu hangen ar gyfer y diwrnod cyntaf yn eu lle erbyn 1 Ebrill 2022, er mwyn helpu i adrodd ar berfformiad ar gyfer 2022/23.

### Cyngor i'r llys

Bydd mesurau perfformiad yn cefnogi newidiadau yn nhrefniadau cynghori'r llys, ac yn sicrhau bod y buddion a fwriedir yn cael eu gwireddu. Mae hyn yn cynnwys targed ar hyder dedfrydwyr sy'n seiliedig ar arolwg barnwrol, sydd eisoes yn cael ei gynnal yn flynyddol. Bydd hyn yn parhau, gan fanteisio ar y cyfle i wella agweddau ar yr arolwg yn sgil ymgysylltu â rhanddeiliaid, gyda'r bwriad o gyflwyno metrig newydd ar hyder dedfrydwyr ar y diwrnod cyntaf. Bydd mesurau ar ansawdd adroddiadau cyn dedfrydu, a'r defnydd ohonynt mewn achosion priodol, yn cael eu cyflwyno ar ôl y diwrnod cyntaf i gyd-fynd â'r trefniadau gwell ar gyfer rhoi cyngor cyn dedfrydu. Byddwn yn cadw'r metrig presennol ar adroddiadau cyn dedfrydu amserol tra bydd y mesurau hyn yn cael eu datblygu.

### Rheoli Dedfrydau

Bydd mesurau perfformiad yn dal i gynnwys camau allweddol y broses Rheoli Dedfrydau o fis Mehefin 2021 ymlaen, gyda rhai mesurau ychwanegol i gefnogi gwasanaeth o ansawdd uchel i bob defnyddiwr gwasanaeth, fel sy'n cael ei egluro isod:

- **Dechrau'r ddedfryd:** adeg yr apwyntiad cychwynnol o fewn wythnos i'r ddedfryd /24 awr i ryddhau ar gyfer dedfrydau o garchar; ac wrth baratoi'r cynllun dedfrydu cychwynnol o fewn 15 diwrnod gwaith, er mwyn gallu cyfeirio'n amserol gyda system asesu symlach a mwy hyblyg sy'n dechrau yn y llys.
- **Apwyntiadau misol a fynychwyd:** bydd mesur newydd yn cefnogi'r gwaith ymgysylltu ac o ddatblygu perthynas waith effeithiol rhwng unigolyn a'i Ymarferydd Prawf sy'n ei oruchwylio.
- Bydd **Targed ar gyfer gofynion newydd wedi'u cwblhau** yn sicrhau bod gofynion Gwaith Di-dâl a Rhaglenni Achredig yn cael eu cyflawni cyn i'r ddedfryd ddod i ben.
- Bydd **Mesurau ansawdd newydd ar agweddau allweddol ar y broses Rheoli Dedfrydau** yn seiliedig ar archwiliadau ansawdd y Grŵp Sicrwydd Systemau Gweithredol (darllenwch yr adran isod ar Asesu Ansawdd).
- Rydym yn ystyried mesur ar **adolygiadau Systemau Asesu Troseddwyr** i gefnogi'r disgwyliadau a nodwyd yn y Safonau Cenedlaethol diweddaraf.

### Ailsefydlu

Bydd mesurau perfformiad ar ailsefydlu yn cyd-fynd â'r rheini ar Reoli Dedfrydau, i'r graddau y bo hynny'n bosibl er mwyn hybu dull gweithredu integredig, a'r rhai cyfatebol ar Reoli Troseddwyr yn y Ddalfa.

Ar gyfer dedfrydau penodol o fwy na 10 mis, bydd un metrig yn sicrhau bod cyfarfod trosglwyddo amserol yn cael ei gynnal rhwng yr Ymarferydd Prawf (Rheoli Troseddwyr Cymunedol) a Rheolwr Troseddwyr yn y Carchar, a bydd yr unigolyn sy'n agosáu at gael ei ryddhau ac asiantaethau eraill sy'n ymwneud â'i broses ailsefydlu yn bresennol yn y cyfarfod. Bydd y mesur hwn ar waith o fis Mehefin 2021 ymlaen. Bydd metrig arall yn sicrhau bod cynllun dedfrydu cyn rhyddhau yn cael ei baratoi cyn i'r unigolyn gael ei ryddhau o'r ddalfa, i gynllunio'r ymyriadau sydd eu hangen cyn ac ar ôl bod yn y ddalfa er mwyn diwallu anghenion ailsefydlu. Bydd y mesurau hyn yn ategu gweithgarwch ailsefydlu Ymarferwyr Prawf.

Mae trefniadau ar gyfer dedfrydau byr o garchar (llai na 10 mis) yn cael eu treialu ar hyn o bryd, a bydd mesurau i gefnogi'r rhain yn cael eu rhoi ar waith wrth i ofynion recriwtio a hyfforddi staff gael eu bodloni. Byddwn hefyd yn edrych ar sut y gellir cynnwys gwaith ailsefydlu yn y mesur ansawdd ar gyflawni dedfryd.

Mae trefniadau parôl yn dod o dan y metrig presennol ar adroddiadau parôl amserol.

### Darparu Ymyriadau

Ar gyfer **Gwaith Di-dâl**, bydd targedau'n sicrhau bod asesiad yn cael ei gynnal o fewn 10 diwrnod gwaith, a bod Gwaith Di-dâl yn dechrau o fewn pum diwrnod gwaith arall, h.y. o fewn tair wythnos i'r ddedfryd. Bydd y targedau hyn yn cael eu cefnogi gan darged i leihau'r defnydd o adroddiadau ar y diwrnod (stand downs) neu sesiynau sy'n cael eu canslo ar y diwrnod. Bydd y targed ar gyfer cwblhau o fewn 12 mis yn cael ei fesur ar y pwynt 12 mis, gyda gwybodaeth reoli am y cynnydd ar ôl chwech a naw mis. Caiff y mesurau hyn yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer y diwrnod cyntaf.

Bydd mesurau newydd ar **Raglenni Achrededig** yn canolbwyntio ar a fydd unigolion cymwys yn dechrau ac yn cwblhau Rhaglenni Achrededig i hybu eu defnydd fel ymyriad o ddewis lle bo hynny'n briodol. Y bwriad yw y bydd hyn yn cael ei roi ar waith ar y diwrnod cyntaf, ar yr amod bod trefniadau addas ar gyfer cofnodi cymhwysedd er mwyn gallu ei gynnwys mewn adroddiadau perfformiad.

Bydd mesur newydd ar gwblhau **Ymyriad Strwythuredig** yn cael ei ddatblygu ochr yn ochr â'r broses o gyflwyno Ymyriadau Strwythuredig o fis Mehefin 2021 ymlaen.

Bydd mesurau ansawdd yn cael eu hymestyn i gynnwys **darpariaeth Gwaith Di-dâl**, gan gynnwys darpariaeth ETE, ac a yw **Rhaglenni Achrededig ac Ymyriadau Strwythuredig** yn helpu defnyddwyr gwasanaeth i fynd i'r afael â'r anghenion sy'n gysylltiedig â'u troseddu. Bydd y mesur Rhaglenni Achrededig yn cynnwys canfyddiadau'r archwiliad ar lynu wrth feini prawf achredu. Bydd y rhain yn cael eu profi ar ôl y diwrnod cyntaf.

### Cefnogi Nodau Adsefydlu

Bydd mesurau newydd ar ganlyniadau tai a chyflogaeth ar ôl i unigolion gael eu rhyddhau o'r ddalfa, ac ar adegau allweddol o dan oruchwyliaeth, yn cael eu rhoi ar waith ar y diwrnod cyntaf. I sicrhau bod darparu llety'n parhau'n hollbwysig, byddwn ni'n cynnwys targed ar gyfer nifer yr unigolion sy'n cael llety ar ôl cael eu rhyddhau o'r ddalfa (90%) – a fydd yn cyd-fynd â metrigau presennol ar gyfer carchardai – er mwyn hybu cydweithio rhwng carchardai a'r gwasanaeth prawf i helpu carcharorion sy'n gadael y ddalfa.

Hefyd, bydd llety sefydlog – a fydd yn gysylltiedig â metrigau – ar gyfer pob unigolyn sy'n cael ei oruchwylio (y rheini sy'n cael eu rhyddhau o'r carchar a'r rheini sydd ar ddedfrydau cymunedol) dri mis ar ôl iddyn nhw ddechrau cael eu goruchwylio (80%). Bydd hyn yn cynorthwyo'r broses o gyfeirio at wasanaethau llety a ddarperir o dan y Fframwaith Dynamig.

Bydd gwybodaeth reoli am statws llety'r unigolion ar ddiwedd eu cyfnod goruchwylio yn cael ei hadolygu o fewn dwy flynedd i ddiwedd blwyddyn gyflawn gyntaf y model prawf unedig newydd. Hefyd, bydd penderfyniad yn cael ei wneud ynghylch a ddylid cyflwyno mesur perfformiad ychwanegol ar gyfer llety sefydlog ar ddiwedd y cyfnod goruchwylio, ac os felly, erbyn pryd.

Rydym hefyd yn ystyried sut gallwn ni fesur a yw cyfeirio at ymyriadau adsefydlu yn mynd i'r afael ag anghenion unigolyn, ac a yw anghenion yn gwella yn dilyn yr ymyriadau hynny. Bwriad y dulliau datblygiadol hyn yw ategu mesurau perfformiad ar gyfer darparu Gwasanaethau Adsefydlu wedi'u Comisiynu (gweler isod), gan adeiladu ar systemau asesu mwy deinamig a hyblyg.

### Asesu Ansawdd

Mae ein mesurau ansawdd blynyddol yn defnyddio'r fethodoleg archwilio a ddatblygwyd drwy archwiliadau sicrwydd gweithredol ar y gwasanaethau a ddarperir dros y pum mlynedd diwethaf. Mae mesurau ansawdd yn defnyddio graddfa sgôr sy'n adlewyrchu i ba raddau y mae'r gwasanaethau a ddarperir yn cael ei hasesu i fodloni safonau ansawdd derbyniol, fel y dangosir isod.

| Sgôr Archwilio | Sgôr ar ffurf Caran |
|---|---|
| GWYRDD: wedi bodloni'r safonau ansawdd yn llawn, neu wedi rhagori arnynt | 87% neu fwy |
| OREN/GWYRDD: wedi bodloni'r safonau ansawdd yn ddigonol | 73%–86% |
| OREN/COCH: nid yw'r safonau ansawdd wedi cael eu bodloni mewn rhai elfennau | 60%–72% |
| COCH: wedi methu bodloni'r safonau ansawdd wedi elfennau arwyddocaol | Llai na 60% |

Mae'r archwiliadau ansawdd yn asesu a yw'r perfformiad yn gyson â'r gofynion a nodwyd yng nghyfarwyddyd a chanllawiau'r gwasanaeth prawf. Bydd archwilwyr yn adolygu'r cofnodion electronig ar gyfer sampl o achosion a ddewiswyd ar hap, gyda chyfweliadau â'r staff i ategu hynny. Mae cysondeb yn flaenoriaeth uchel gan fod asesiadau archwilio yn seiliedig ar farn. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy recriwtio staff sydd â phrofiad gweithredol ac archwilio, ac sy'n dilyn rhaglen hyfforddi helaeth. Mae'r meini prawf archwilio yn gadarn, yn glir ac yn dryloyw. Mae adolygiad uwch, ar draws y tîm a gan gymheiriaid o'r sgoriau archwilio yn sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio mewn ffordd gyson.

### Gwasanaethau Adsefydlu wedi'u Comisiynu (drwy'r Fframwaith Dynamig)

Bydd fframwaith perfformiad y Gwasanaethau Adsefydlu wedi'u Comisiynu yn cynnal y pwyslais ar ansawdd a chanlyniadau, a fydd yn cael ei gymell gan ostyngiadau graddol mewn taliadau pan na fydd y perfformiad yn cyrraedd y lefelau targed. Bydd lefelau gwasanaeth yn berthnasol i bob contract er mwyn rhoi sicrwydd bod ymyriadau adsefydlu'n cael eu darparu. Ar gyfer contractau mwy, bydd mesurau ansawdd yn asesu a yw ymyriadau'n galluogi unigolion i wneud cynnydd o ran diwallu eu hanghenion sy'n gysylltiedig â throseddu, ac a oes digon o gyswllt â'r Ymarferydd Prawf sy'n goruchwylio.

### Cynnwys y Defnyddiwr

Ceir cydnabyddiaeth a thystiolaeth eang fod cynnwys pobl sydd â phrofiad o wasanaethau yn gallu helpu darparwyr i wella'r hyn maen nhw'n ei ddarparu. Mae Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol wedi bod yn arbennig o effeithiol am gynnwys defnyddwyr gwasanaeth yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau prawf, ac rydym am gadw ac adeiladu ar yr ymrwymiad hwn fel rhan o'r model gweithredu newydd.

Mae'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf wedi datblygu safonau cenedlaethol o ragoriaeth ym maes cynnwys defnyddwyr gwasanaeth, drwy ymgynghori â dros 200 o unigolion (edrychwch ar Atodiad A, Rhan Pedwar). Mae'r safonau'n gosod disgwyliadau cyson a chenedlaethol ar draws carchardai a'r maes prawf, er mwyn sbarduno gwelliannau a helpu i rannu arferion da. Maen nhw hefyd yn dangos ymrwymiad i ymgysylltu ac ymgynghori ag unigolion sy'n cael eu goruchwylio, er mwyn helpu i lywio diwylliant adsefydlu.

Mae pecyn adnoddau cenedlaethol i gefnogi a gwella'r ffordd rydym yn cynnwys defnyddwyr gwasanaeth yn ein gwaith wedi cael ei ddatblygu hefyd, sy'n cynnwys enghreifftiau o arferion da, rhestrau gwirio a chanllawiau.

Rydym yn datblygu 'Cynllun Cynnwys Defnyddwyr Gwasanaeth' cenedlaethol, a fydd yn cynnwys ein hymrwymiadau a'n dyheadau yn yr elfen hon ar lefel genedlaethol. Bydd y cynllun yn defnyddio'r safonau rhagoriaeth ar gyfer cynnwys defnyddwyr y gwasanaeth fel fframwaith i gadw golwg ar y cynnydd, yn genedlaethol ac yn rhanbarthol.

Fel mae ein cynlluniau ar gyfer Rheoli Dedfrydau yn egluro, rydym yn ceisio mynd ati – pan hynny'n briodol – i wella'r ffordd mae defnyddwyr yn cael eu cynnwys yn y gwaith o ddatblygu eu cynllun dedfrydu, er mwyn sicrhau eu bod yn ymgysylltu mwy â'r broses prawf. Bydd y broses o gynnwys defnyddwyr gwasanaeth yn effeithiol ac yn ystyrlon yn y model unedig newydd hefyd yn cynnwys ystod o gyfleoedd i ymgynghori ac i ymgysylltu ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol. Bydd y cyfleoedd hyn yn cynnwys y canlynol, fan leiaf:

- cyfarfodydd a fforymau rheolaidd ac yn amserol ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth
- ymgysylltu mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd eraill (ee, sgyrsiau un i un a sesiynau galw heibio)
- ymgynghori ac ymgysylltu drwy ffonau symudol (ar gyfer ymgynghoriadau penodol ac awgrymiadau parhaus)
- cynrychioli defnyddwyr gwasanaeth yn rheolaidd mewn cyfarfodydd rheoli ac adolygu (gan gynnwys cyfarfodydd uwch arweinwyr)
- digwyddiadau dathlu ac ymgysylltu ychwanegol
- arolwg cenedlaethol blynyddol, a defnyddio'r broses gwyno i ddysgu gwersi.

Cysylltiadau â Strategaeth Fusnes y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf

**Byddwn ni'n sicrhau bod pobl yn gallu gwneud eu gorau drwy alluogi arweinwyr rhanbarthol i wneud penderfyniadau am yr hyn sy'n gweithio yn eu cymunedau, ac i lunio cynlluniau effeithiol ar gyfer darparu yn y dyfodol.**

Yn ogystal â chyfleoedd i ymgynghori ac i ymgysylltu, rydym yn ceisio cynyddu'r cyfleoedd cyflogaeth i ddefnyddwyr gwasanaeth blaenorol – fel Ymarferwyr Prawf ac mewn swyddi cymorth gan gymheiriaid (i gael rhagor o fanylion, darllenwch yr adran 'Denu a chadw pobl dalentog: Recriwtio').

## Comisiynu, cynllunio busnes ac atebolrwydd rhanbarthol

### Trosolwg

Er mwyn cefnogi'r gwaith o ddarparu'r model newydd hwn, rydym yn gweithredu rhanbarthau newydd sy'n atebol am ddarparu gwasanaethau prawf yn y gymuned honno (darllenwch yr adran isod ar Strwythurau Rhanbarthol). Rydym yn cydnabod mai'r ffordd orau o wneud penderfyniadau effeithiol yw ar lefel ranbarthol er mwyn gwella'r gwasanaethau a ddarperir. Bydd y broses honno'n cael ei llywio gan fuddiannau gorau cymunedau, ac yn ei gwneud yn bosibl i weithio gyda phartneriaid strategol mewn ffordd integredig a chydweithredol. Bydd mwy o bwyslais ar arweinyddiaeth rhanbarthol, o dan arweiniad Cyfarwyddwyr Prawf Rhanbarthol, i gynllunio a chyfeirio eu hadnoddau i adlewyrchu amgylchiadau lleol, ac i wneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth i gomisiynu gwasanaethau newydd ac i ffurfio partneriaethau newydd.

Rydym wedi ystyried y model cynllunio busnes sydd ei angen er mwyn galluogi Cyfarwyddwyr Prawf Rhanbarthol i oruchwylio a chynllunio gwasanaethau yn eu rhanbarthau. Bydd pwyslais penodol ar eu galluogi i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am gyfeiriad a datblygiad eu gwasanaethau yn y dyfodol, a phennu disgwyliad eu bod yn:


- cyd-fynd ac yn cyfeirio'n glir at nodau strategol ehangach y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wrth gynllunio a blaenoriaethu
- nodi, mewn ffyrdd penodol a mesuradwy, eu bwriad o ran y ddarpariaeth a'r ffordd maen nhw'n blaenoriaethu gwasanaethau ar sail tystiolaeth
- dangos eu bod yn mynd ati'n frwd i gadw at Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, gan roi ystyriaeth glir i bob nodwedd warchodedig, ar sail data a dadansoddiad y Teclyn Monitro Cydraddoldeb
- defnyddio proses ar gyfer dewis a chytuno ar wasanaethau
- cefnogi'r ddarpariaeth
- asesu ac yn adolygu'r canlyniadau

Ein nod ni yw darparu model syml sy'n nodi cerrig milltir allweddol a chynnyrch ar gyfer rhanbarthau ac, yn unol ag egwyddorion Strategaeth y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf, yn cefnogi dull gweithredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

### Y Cylch Cynllunio Busnes

Mae'r cylch busnes ar gyfer comisiynu gwasanaethau yn y dyfodol yn cael ei rannu'n bedwar cam, a ddisgrifir yn fanwl yn y diagram isod. Er mai cylch yw hwn, mae'n anochel y bydd gwahanol gamau yn gorgyffwrdd â'i gilydd (er enghraifft, bydd adolygu'r ddarpariaeth yn broses barhaus sy'n cyd-redeg â'r ddarpariaeth ei hun).

Ffigur 18. Cylch busnes pedwar cam ar gyfer comisiynu gwasanaethau yn y dyfodol



## Cam un: asesu

Yn ystod y cam hwn, bydd y Cyfarwyddwr Prawf Rhanbarthol a'i uwch dîm arwain yn gweithio gyda'u partneriaid i gasglu'r wybodaeth sydd ei hangen i wneud penderfyniadau am flaenoriaethu. Bydd hyn yn cynnwys cadarnhau disgwyliadau statudol, cyd-destun strategol ehangach y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf, blaenoriaethau Gweinidogol a gofynion y Prif Swyddog Prawf, ynghyd â'u hasesiad eu hunain o'r hyn sydd ei angen ar y cymunedau lleol.

Byddant yn ystyried yr adnoddau sydd ganddynt, yn ogystal â'r niferoedd, yr anghenion a'r amcanestyniadau o'r math o ddedfryd ar gyfer eu Rhanbarth, gan ddefnyddio'r sylfaen dystiolaeth i ategu eu penderfyniadau ac i wneud yn siŵr eu bod yn sicrhau'r canlyniadau gorau.

Bydd dealltwriaeth o'r ddarpariaeth bresennol, yng ngoleuni'r sylfaen dystiolaeth, yn hanfodol i allu'r Cyfarwyddwr Prawf Rhanbarthol i arwain cam asesu'r broses. Bydd hyn yn cynnwys dadansoddi perfformiad a gwybodaeth am berfformiad, gan gynnwys gwybodaeth am gydraddoldeb, ond dylai hefyd gynnwys asesiad ansoddol, gan gynnwys gwybodaeth am ddarparwyr ac am unigolion sy'n cael eu goruchwylio. Byddan nhw'n cydweithio ag uwch arweinwyr eraill, gan gynnwys y rhai ym Mhencadlys y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf, y Gwasanaeth Caethiwed Ieuenctid, carchardai a grwpiau carchardai, Awdurdodau Lleol, Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, comisiynwyr iechyd a gofal cymdeithasol a sefydliadau darparu, er mwyn gweithio ar draws y llywodraeth tuag at ganlyniadau cyffredin. Rydym yn ystyried a ddylai fod angen ymgysylltu'n uniongyrchol â'r cyhoedd ynghylch blaenoriaethu.

Bydd y Cyfarwyddwr Prawf Rhanbarthol yn gweithio ar y cyd â'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf yn ehangach (gan gynnwys y Gyfarwyddiaeth Strategaeth, Cynllunio a Pherfformiad a'r Gyfarwyddiaeth Lleihau Aildroseddu), Gwasanaethau Dadansoddi a Pholisi Cyllid a Gweithredol er mwyn cael ymchwil a thystiolaeth gyfredol ar arferion effeithiol, a gallu cael mynediad at segmentau, dadansoddiadau o dueddiadau a rhagolygon cyllideb. Nid ydym yn bwriadu sefydlu 12 tîm ymchwil annibynnol, ond bod pob Rhanbarth yn gallu defnyddio adnoddau canolog i rannu gwybodaeth a gwella gwasanaethau.

Bydd y Cyfarwyddwr Prawf Rhanbarthol yn adolygu'r wybodaeth a'r data sydd ar gael i greu set o flaenoriaethau rhanbarthol. Bydd y set o flaenoriaethau rhanbarthol yn gyson ag un o werthoedd y sefydliad, sef bod yn agored. Bydd y set hefyd yn cael ei deall a'i rhannu o fewn y rhanbarth a thu hwnt, a bydd yn cyfrannu at yr uchelgeisiau cyffredinol ar gyfer y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf ac yn cael ei siapio gan hynny, fel y nodir yn strategaeth fusnes y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf a'r cynlluniau strategol sy'n datblygu.
Ein bwriad yw y bydd y broses asesu yn arwain at Gynllun Rhanbarthol ar Leihau Aildroseddu (mae rhagor o fanylion ar gael isod).

### Cam dau: cyd-ddylunio

Rydym yn disgrifio'r cam nesaf fel cyd-ddylunio, i adlewyrchu'r ffaith bod cyrraedd set o wasanaethau y cytunwyd arnynt yn galw am ddull gweithredu cydweithredol. Er mai'r Cyfarwyddwr Prawf Rhanbarthol a'i dîm fydd yn arwain y gwaith o bennu gofynion y ddarpariaeth fewnol a'r ddarpariaeth allanol, mewn partneriaeth yw'r ffordd fwyaf llwyddiannus o wneud hynny, gan ddefnyddio gwybodaeth a phrofiad sefydliadau darparu eraill, rhanddeiliaid a defnyddwyr gwasanaeth i gynllunio gwasanaeth y dyfodol. Rydym yn rhagweld y bydd cytundeb ffurfiol gyda'r holl ddarparwyr trydydd parti ynghylch rhannu gwybodaeth a beth fydd yn cael ei ddarparu, a disgwyliadau clir o ran yr hyn y bydd y timau gweithredol yn ei gyflawni.

### Cam tri: y ddarpariaeth

Yn y cam hwn, timau gweithredol fydd yn arwain y gwaith o gyflawni'r gwaith y cytunwyd arno. Bydd y Gwasanaeth Prawf, fel rhan o'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf, bob amser yn rhan o'r broses o ddarparu gwasanaethau, ac ar y cam hwn byddwn yn gweithio i leihau'r achosion o aildroseddu. Bydd y tîm rhanbarthol yn sicrhau bod pob elfen yn gweithio'n dda, a bod y system gyfan yn cyflawni yn unol â'r cynllun busnes. Bydd yn cynnig cefnogaeth i'r sefydliadau darparu ac yn gwneud gwaith i wella systemau, yn ogystal â chasglu gwybodaeth ar gyfer cynllunio at y dyfodol. Yn ystod y cam hwn, bydd timau masnachol, ariannol a pherfformiad yn monitro ac yn cefnogi'r gweithgarwch ar y rheng flaen.

Bydd set o ddangosyddion, mesurau, arolygiadau ac archwiliadau mewnol ac allanol yn sicrhau bod y ddarpariaeth yn bodloni disgwyliadau o ran ansawdd a pherfformiad. Bydd hynny'n sail i gam adolygu (cam pedwar) y cylch.

### Cam pedwar: adolygu

Bydd y Cyfarwyddwr Prawf Rhanbarthol a'i dîm yn monitro ac yn adolygu'r gwasanaeth. Mae'r cam hwn yn adlewyrchu'r angen i fesur cydymffurfedd â chontract a pherfformiad, yn ogystal ag ystyried yn fwy cyffredinol a oedd y gwasanaethau wedi cael eu darparu yn ôl y disgwyl, ac a oeddem yn defnyddio'r set iawn o ddisgwyliadau. Bydd yn ystyried yr wybodaeth ychwanegol a gafwyd gan ddefnyddwyr gwasanaeth, partneriaid, Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi a mathau eraill o arolygiadau.

Fel gyda phob un o'r camau eraill, bydd rhanddeiliaid yn cyfrannu at y gwaith o asesu'r ddarpariaeth yn feintiol ac yn ansoddol. Rhaid i'r broses honno gynnwys yn benodol ddadansoddiad parhaus o gydraddoldeb, gan gyfeirio'n benodol at anghenion a chanlyniadau carfan amrywiol, yn ogystal ag asesiadau o effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd cyffredinol. Bydd yn bwysig dysgu o unrhyw adolygiadau o droseddau difrifol pellach, neu ganlyniadau gwael eraill.

Ein bwriad ni yw y bydd cam adolygu'r cylch busnes yn gorffen bob blwyddyn drwy gyhoeddi adroddiad blynyddol.

### Trosglwyddo a chynhyrchion

Rydym yn bwriadu cael set o gynhyrchion ac adnoddau busnes sy'n dangos bod pob rhanbarth yn llwyddo i gymryd rhan ym mhob cam o'r broses cylch busnes, ac i helpu i oruchwylio'r rhanbarth. Cyn belled ag y bo modd, drwy graffu ar y cynhyrchion busnes (yn hytrach na systemau adrodd ychwanegol) y byddwn ni'n deall beth yw cyflwr rhanbarth. Felly, mae'n bwysig bod y cynhyrchion yn wirioneddol ddefnyddiol ac yn cael eu defnyddio gan y busnes mewn ffordd gritigol i yrru ei brosesau. Bydd cael set o gynhyrchion i nodi'r broses drosglwyddo ar bob cam yn rhoi llawer o hyder a system i ganfod problemau posibl yn gynnar.

Cysylltiadau â Strategaeth Fusnes y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf

**Bydd arweinwyr rhanbarthol yn cael cyfle i drawsnewid y gwasanaethau maen nhw'n eu darparu i'w cymunedau, drwy weithio mewn partneriaeth ar draws ystod o ddarparwyr i roi eu Cynllun Rhanbarthol ar gyfer Lleihau Aildroseddu ar waith.**

### Y Cynllun Rhanbarthol ar gyfer Lleihau Aildroseddu

Ein bwriad yw y bydd y Cynllun Rhanbarthol ar gyfer Lleihau Aildroseddu yn ddogfen gyhoeddus sy'n cyd-fynd â dogfennau strategol rhanbarthol eraill, fel cynlluniau trosedd y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu. Bydd yn disgrifio'r gwasanaeth a gynigir gan y gwasanaeth prawf, fel rhan o'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf, a bydd yn cynnwys ein blaenoriaethau a'n nodau tymor hwy, yng nghyd-destun ehangach y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf.

Bydd hyn yn galluogi partneriaid a darparwyr phosib a phresennol i wybod beth mae'r Gwasanaeth Prawf a Charchardai yn disgwyl iddynt ei gyflawni, ac yn dangos yn glir i'r cyhoedd – gan gynnwys y rhai sydd o dan oruchwyliaeth y gwasanaeth prawf – beth y mae ganddynt hawl i'w ddisgwyl. Rydym yn rhagweld y bydd y Cynllun Rhanbarthol ar gyfer Lleihau Aildroseddu yn pennu amserlen dreigl o dair blynedd ar gyfer y rhanbarth, gyda diweddariad blynyddol yn cael ei gyhoeddi bob mis Ebrill.

Bydd y 12 rhanbarth yn defnyddio templed cyffredin i'w galluogi i ddisgrifio eu gwasanaeth. Bydd hyn yn golygu bod modd goruchwylio'n effeithiol. Bydd yn sicrhau fframwaith cyffredin er mwyn i bob rhanbarth allu disgrifio:

- **beth mae'n ei gredu:**

Pwrpas a gwerthoedd y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf, a'n gweledigaeth ni fel Asiantaeth i weithio gyda'n gilydd i ddiogelu'r cyhoedd ac i helpu pobl i fyw eu bywyd mewn ffordd gadarnhaol ac sy'n parchu'r gyfraith. Dangosir ymrwymiad i hynny drwy asesu'r ffordd orau o ddiogelu'r cyhoedd, a sicrhau newid a fydd o fudd i'r cymunedau mae'r Rhanbarth yn eu gwasanaethu.

- **beth mae'n ei wybod:**

Amlinellu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer dull gweithredu effeithiol a fydd yn cael ei defnyddio, ynghyd â gwybodaeth am gyllid, y gweithlu a'r llwyth achosion, a phroffiliau angen a risg y llwyth achosion, fel sail i gynllun y Rhanbarth ac i egluro ei nodau ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

- **beth fydd yn ei wneud:**

Egluro'r cynllun a'r blaenoriaethau rhanbarthol ar gyfer y tair blynedd nesaf, yng nghyd-destun strategol ehangach y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf. Bydd gan y Rhanbarth gerrig milltir manwl ar gyfer y flwyddyn i ddod. Bydd yn cynnwys cynlluniau a blaenoriaethau lleol a fydd yn cael eu rhoi ar waith i gefnogi nodau'r gwasanaethau prawf yn lleol. Rydym yn disgwyl hefyd y bydd blaenoriaethau cenedlaethol neu draws-ranbarthol yn cael eu cynnwys yn y cynlluniau rhanbarthol, fel sut bydd y broses o gynnwys defnyddwyr gwasanaeth yn cael ei harwain a'i darparu ar bob lefel, ynghyd â chefnogi amcanion trawslywodraethol.

## Cytundebau Darparu

Ar ôl y prosesau cyd-ddylunio, a all gynnwys caffael, bydd angen cytundebau ysgrifenedig arnom (ar ffurf cynlluniau darparu, contractau neu gytundebau grant) rhwng y Cyfarwyddwr Prawf Rhanbarthol a'r rhai a fydd yn cyflawni'r Cynllun Rhanbarthol ar gyfer Lleihau Aildroseddu. Bydd y rhain yn rhan o'r dystiolaeth sydd ei hangen ar gyfer y cyfarfod chwarterol gyda'r Prif Weithredwr.

Byddwn ni'n ystyried sut i ddatblygu'r cynlluniau darparu a defnyddio'r Model Rhagoriaeth Ewropeaidd, sy'n cael ei gydnabod gan yr Arolygiaeth fel dyluniad defnyddiol, i greu cynllun sy'n cwmpasu'r gwasanaeth prawf cyffredinol ym mhob Rhanbarth, gan gynnwys gwasanaethau wedi'u contractio a'u comisiynu ar y cyd.

Rydym yn disgwyl i gytundeb gwasanaeth neu gynllun busnes gael ei lunio, sy'n cadarnhau disgwyliadau a thargedau darparu. Dylai hefyd gynnwys ffrydiau gwaith a chynlluniau darparu, ynghyd â chynllun comisiynu clir ar gyfer sefydlu gwasanaethau i ddarparu dedfrydau, ac egluro'r defnydd y bwriedir ei wneud o'r Gronfa Rhanbarthol Canlyniadau ac Arloesi (ROIF).

Rydym hefyd yn disgwyl i'r Cyfarwyddwr Prawf Rhanbarthol fod â set o gytundebau ar waith gyda'r rhai sy'n darparu gwasanaethau drwy'r Fframwaith Dynamig.

Rydym yn disgwyl i'r rhain gael eu diweddaru yn unol â'r Cynllun Rhanbarthol ar gyfer Lleihau Aildroseddu, sy'n cael ei ddatblygu. Bydd y cytundebau hyn yn dystiolaeth bod y Cyfarwyddwr Prawf Rhanbarthol wedi rhoi'r gwasanaethau angenrheidiol ar waith i ddarparu yn unol â'r cynllun. Bydd yn galluogi'r Cyfarwyddwr Prawf Rhanbarthol i ganfod bylchau a dyblygu yn y gwasanaeth a gynigir.

## Llywodraethiant a sicrwydd

Bydd gweithdrefnau llywodraethu a monitro'n berthnasol i'r ddarpariaeth yn y sector cyhoeddus, a'r ddarpariaeth dan gontract. Bydd cynlluniau busnes y Rhanbarthau yn destun proses gymeradwyo genedlaethol ac, yn ogystal â system fonitro fyw, bydd pob rhanbarth yn llywodraethu ei wasanaeth yn fewnol er mwyn cefnogi proses o oruchwylio yn ystod y flwyddyn gan y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf, gan gynnwys byrddau perfformiad cenedlaethol, chwarterol rhwng y Cyfarwyddwr Prawf Rhanbarthol a'r Prif Swyddog Prawf.

Er mwyn ennyn hyder yn y ddarpariaeth, byddwn ni'n defnyddio nifer o adnoddau fel dangosyddion perfformiad allweddol, data ar gydraddoldeb, gwybodaeth reoli, adroddiadau Arolygiaeth Prawf EM, adroddiadau sicrwydd y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf a data arall y mae darparwyr wedi cytuno arno. Hefyd, rydym ni'n credu y daw data ansoddol a meintiol defnyddiol gan fuddiolwyr, rhanddeiliaid ac unigolion sy'n cael eu goruchwylio, ac rydym yn bwriadu ystyried sut gallem ddefnyddio'r data yma i ddarparu tystiolaeth o'r ddarpariaeth.

### Adroddiadau rhanbarthol

Er mwyn sicrhau bod y rhanbarthau'n dryloyw ac yn atebol, byddwn yn cyhoeddi adroddiad blynyddol sy'n dangos perfformiad y rhanbarth yn erbyn y disgwyliadau a nodwyd. Bydd hyn yn cynnwys data am berfformiad ac adolygiad / asesiad manwl o effeithiolrwydd y ddarpariaeth, gan dynnu sylw at arloesi a rhagoriaeth yn ogystal ag unrhyw elfennau i'w newid neu sy'n achosi pryder. Rydym yn bwriadu darparu templed cyffredin ar gyfer yr adroddiad hwn.

Rydym ni'n credu y bydd y prosesau a'r cynhyrchion hyn yn galluogi pob rhanbarth i ddisgrifio sut bydd yn cyflawni ei ddyletswyddau i asesu, diogelu a newid y ffordd y darperir ei wasanaeth, yng nghyd-destun ehangach gweledigaeth a strategaeth fusnes y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf.

### Cydraddoldeb

Fel yr amlinellir yn yr adran ar y fframwaith perfformiad, rhaid i Gyfarwyddwyr Prawf Rhanbarthol a'u timau cynllunio sicrhau bod gwasanaeth teg yn cael ei ddarparu ar draws eu rhanbarthau, ac rydym yn cyflwyno teclyn newydd i fonitro cydraddoldeb er mwyn cefnogi hyn. Bydd hyn yn helpu Cyfarwyddwyr Prawf Rhanbarthol i ganfod gwahaniaethau rhwng y gwasanaethau sy'n cael eu darparu, ac i addasu'r ffordd maen nhw'n gweithredu ac yn buddsoddi mewn gwasanaethau yn unol â hynny. Bydd asesiadau effaith cadarn yn rhan hanfodol o'r broses cynllunio busnes, a bydd adroddiadau blynyddol yn adrodd ar sut mae darpariaeth y gwasanaeth prawf mewn rhanbarthau yn bodloni Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

## Strwythurau Rhanbarthol

Hyd at fis Mehefin 2021, mae gwasanaethau prawf ar draws Cymru a Lloegr yn cael eu darparu gan gyfuniad o'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, sy'n cynnwys saith is-adran ddaearyddol, a 21 Cwmni Adsefydlu Cymunedol (CRC), sy'n eiddo i saith rhiant-gwmni preifat, sy'n darparu gwasanaethau dan gontract. Mae'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn cynghori llysoedd ar ddedfrydu ar gyfer pob carfan o droseddwyr, ac yn rheoli'r rhai sydd â risg uchel o niwed difrifol neu sy'n cael eu rheoli o dan Drefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA). Mae Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn goruchwylio defnyddwyr gwasanaeth risg isel a chanolig, ac yn darparu ymyriadau adsefydlu ac ailsefydlu ar gyfer pob unigolyn sy'n cael ei oruchwylio.

Oherwydd y rhaniad hwn rhwng cyfrifoldebau a strwythur daearyddol, mae atebolrwydd ac arweinyddiaeth strategol wedi bod yn aneglur. Er enghraifft, mae is-adran Gogledd-ddwyrain Lloegr y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn gweithio yn yr un ardaloedd â phum Cwmni Adsefydlu Cymunedol sy'n eiddo i dri rhiant-gwmni gwahanol, pob un â'i fodel gweithredu ei hun. Yn y dyfodol, bydd y gwaith o reoli a darparu gwasanaethau prawf yn cael ei symleiddio er mwyn:

- cryfhau arweinyddiaeth strategol
- creu atebolrwydd cliriach
- symleiddio'r ddarpariaeth
- gwella'r system ac integreiddio'n well yn lleol
- bod yn fwy effeithlon

Bydd y gwasanaeth prawf newydd yn cael ei drefnu'n 12 rhanbarth daearyddol, gyda ffiniau'n cyd-fynd â ffiniau heddluoedd ac ardaloedd awdurdodau lleol. Bydd yn cyflawni'r holl waith o Reoli Dedfrydau, rhoi cyngor i'r llys, rhoi cymorth i ddioddefwyr a darparu ymyriadau wedi'u diffinio (Gwaith Di-dâl, Rhaglenni Achrededig ac Ymyriadau Strwythuredig).

## Ffigur 19. Y 12 rhanbarth prawf yng Nghymru a Lloegr ac Unedau Cyflawni'r Gwasanaeth Prawf

Yn Atodiad C, cyflwynir mapiau sy'n dangos Unedau Cyflawni'r Gwasanaeth Prawf ym mhob rhanbarth gydag eglurhad, lle bo angen, o ba awdurdodau lleol y mae pob Uned yn perthyn iddynt.

| A – Gogledd-ddwyrain Lloegr |
|---|
| Swydd Durham a Darlington |
| Gateshead a De Tyneside |
| Stockton a Hartlepool |
| Sunderland |
| Redcar, Cleveland a Middlesbrough |
| Newcastle Upon Tyne |
| Gogledd Tyneside a Northumberland |

| B – Swydd Efrog a'r Humber |
|---|
| Barnsley a Rotherham |
| Sheffield |
| Doncaster |
| Leeds |
| Wakefield |
| Kirklees |
| Bradford a Calderdale |
| Caerefrog |
| Gogledd Swydd Efrog |
| Hull ac East Riding |
| Gogledd a Gogledd Ddwyrain Swydd Lincoln |

| C – Dwyrain Canolbarth Lloegr |
|---|
| Dinas Nottingham |
| Swydd Nottingham |
| Dinas Derby |
| Swydd Derby |
| Caerlŷr, Swydd Caerlŷr a Rutland |
| Dwyrain a Gorllewin Swydd Lincoln |

| D – Dwyrain Lloegr |
|---|
| Gogledd Essex |
| De Essex |
| Suffolk |
| Norfolk |
| Swydd Hertford |
| Swydd Northampton |
| Swydd Bedford |
| Swydd Gaergrawnt |

| E – Caint, Surrey a Sussex |
|---|
| Dwyrain Caint |
| Gorllewin Caint |
| Surrey |
| Dwyrain Sussex |
| Gorllewin Sussex |

| F – De Canol Lloegr |
|---|
| Gogledd a Dwyrain Hampshire |
| De Orllewin Hampshire |
| De Hampshire South ac Ynys Wyth |
| Swydd Rhydychen |
| Swydd Buckingham a Milton Keynes |
| Dwyrain Berkshire |
| Gorllewin Berkshire |

| G – De Orllewin Lloegr |
|---|
| Swydd Gaerloyw |
| Swindon a Wiltshire |
| Dorset |
| Bryste a De Swydd Gaerloyw |
| Plymouth |
| Cernyw ac Ynysoedd Sili |
| Dyfnaint a Torbay |
| Gwlad yr Haf |
| Caerfaddon a Gogledd Gwlad yr Haf |

| H – Cymru |
|---|
| Gogledd Cymru |
| Gwent |
| Dyfed Powys |
| Caerdydd a Bro Morgannwg |
| Abertawe, Castell-nedd Port Talbot |
| Cwm Taf Morgannwg |

| I – Gorllewin Canolbarth Lloegr |
|---|
| Gogledd a Dwyrain Birmingham a Solihull |
| Canol a De Birmingham |
| Dudley a Sandwell |
| Walsall a Wolverhampton |
| Coventry |
| Swydd Warwick |
| Swydd Stafford a Stoke |
| Swydd Gaerwrangon |
| Swydd Henffordd, Swydd Henffordd a Telford |

| J – Manceinion Fwyaf |
|---|
| Salford |
| Gogledd Manceinion |
| De Manceinion |
| Bolton |
| Wigan |
| Bury a Rochdale |
| Stockport a Trafford |
| Tameside |
| Oldham |

| K – Gogledd-orllewin Lloegr |
|---|
| Gorllewin Swydd Gaer |
| Dwyrain Swydd Gaer |
| Warrington a Halton |
| Knowsley a St Helens |
| Sefton |
| Gogledd Lerpwl |
| De Lerpwl |
| Cumbria |
| Cilgwri |
| Gogledd Orllewin Swydd Gaerhirfryn |
| Blackburn |
| Dwyrain Swydd Gaerhirfryn |
| Canol Swydd Gaerhirfryn |

| L – Llundain |
|---|
| Gweler Atodiad C am yr Unedau Cyflenwi'r Gwasanaeth Prawf yn Llundain |



## Arweinyddiaeth

Caiff pob rhanbarth ei oruchwylio gan Gyfarwyddwr Prawf Rhanbarthol y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf, sy'n darparu arweinyddiaeth strategol sy'n gyson â chyfeiriad strategol cyffredinol y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf, ac sy'n gyfrifol am ddarparu a chomisiynu gwasanaethau prawf yn gyffredinol. Yn Lloegr, bydd Cyfarwyddwyr Prawf Rhanbarthol yn adrodd i strwythur ehangach y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf, a'r Prif Swyddog Prawf fydd eu rheolwr llinell. Yng Nghymru, bydd y Cyfarwyddwr Prawf Rhanbarthol yn adrodd i Gyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf yng Nghymru, sy'n gyfrifol am yr holl wasanaethau prawf a charchardai yng Nghymru. Bydd yr arweinyddiaeth yng Nghymru a Lloegr yn cael ei dwyn ynghyd yn y pen draw o dan Gyfarwyddwr Cyffredinol y Gwasanaeth Brawf.

Dyma rai o brif gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr Prawf Rhanbarthol:

- gosod strategaeth ranbarthol, gan sicrhau bod hyn yn rhoi ystyriaeth briodol i flaenoriaethau gwahanol ar lefel is-ranbarthol ac yn cydymffurfio â strategaeth fusnes y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf. Defnyddio'r sylfaen dystiolaeth ar effeithiolrwydd ac anghenion lleol i helpu'r ddarpariaeth
- bod yn rheolwr llinell ar arweinwyr gweithredol, gan sicrhau bod disgwyliadau'r cynllun busnes yn cael eu bodloni a bod safonau proffesiynol cyson ac effeithiol yn cael eu cynnal
- rheoli contract(au) y Fframwaith Dynamig i sicrhau canlyniadau o ran gwasanaeth a gwerth am arian
- hyrwyddo gwaith partneriaeth effeithiol rhwng darparwyr yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Nodi anghenion cyffredin ymysg y darparwyr, gyrru darpariaeth integredig ac annog mynd ati i ddarparu ar y cyd lle bo hynny'n briodol
- eirioli ar ran pob darparwr prawf yn y rhanbarth, gan ennyn hyder allanol yn y gwasanaeth prawf a sicrhau bod ganddo un llais dylanwadol
- gweithio mewn partneriaeth â phartneriaid Cyfiawnder Troseddol ar draws y rhanbarth, gan sicrhau cysondeb strategol ar draws y system cyfiawnder troseddol (gan gyfeirio'n benodol at gynlluniau statudol yr heddlu a chynlluniau troseddu a ddatblygwyd gan y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu). Mynychu fforymau partneriaeth rheolaidd gyda phartneriaid darparu allweddol a rhanddeiliaid lleol, gan gynnwys cyfarfodydd cyd-gomisiynu rhanbarthol gyda Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu
- pennu'r blaenoriaethau ar gyfer comisiynu gwasanaethau sy'n mynd i'r afael ag anghenion troseddwyr yn ogystal â sicrhau bod y ddedfryd yn cael ei chyflawni

## Rheoli'r rhanbarth

Bydd pob Cyfarwyddwr Prawf Rhanbarthol yng Nghymru a Lloegr yn cael cefnogaeth gan uwch dîm arwain sy'n dwyn ynghyd y cyfrifoldeb dros ddarparu ymyriadau a'r ddarpariaeth weithredol, comisiynu a rheoli contractau cymorth arbenigol ar gyfer adsefydlu ac ailsefydlu, a gwasanaethau cymorth gweithredol sy'n cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau rheng flaen.

Er mwyn sicrhau bod staff yn cael eu rheoli'n briodol a'u bod yn datblygu yn ôl yr angen, yn ogystal â sicrhau bod y rhaglenni'n cael eu darparu i'r safon ofynnol, rydym wedi ceisio gofalu bod niferoedd priodol o uwch reolwyr a rheolwyr canol i ddarparu amrediad teg o reolaeth yn y rhanbarthau.

- Mae'r **Pennaeth Gweithrediadau** yn rôl newydd i oruchwylio a rhoi cyfeiriad strategol i'r gwasanaeth prawf gweithredol ar ran y Cyfarwyddwr Prawf Rhanbarthol. Bydd ganddo gyfrifoldeb rheolaeth linell dros Benaethiaid Unedau Cyflawni'r Gwasanaeth Prawf a Phennaeth Diogelu'r Cyhoedd (Cymuned).
- Mae **Penaethiaid Unedau Cyflawni'r Gwasanaeth Prawf** yn gyfrifol am ddarpariaeth weithredol timau llysoedd a thimau rheoli achosion ar lefel leol ar draws ardal ddaearyddol benodol, ac am arwain gwaith ymgysylltu strategol lleol â phartneriaid perthnasol ym maes cyfiawnder troseddol.
- **Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd (Cymunedol)** sy'n arwain ac yn rheoli gweithgarwch diogelu'r cyhoedd ar gyfer y rhanbarth cyfan. Mae hyn yn cynnwys rheoli swyddogaethau rhanbarthol allweddol, fel y tîm dioddefwyr, a bod yn arweinydd swyddogaeth a chydlynu meysydd trawsbynciol, fel MAPPA.
- Mae'r **Pennaeth Ymyriadau** yn rôl newydd (yn amodol ar werthusiad swydd) i oruchwylio a rhoi cyfeiriad strategol i ddarpariaeth weithredol Gwaith Di-dâl, Rhaglenni Achrededig ac Ymyriadau Strwythuredig. Bydd gan y Pennaeth Ymyriadau gyfrifoldeb rheolwr llinell dros Benaethiaid Gwaith Di-dâl a Phenaethiaid Rhaglenni.
- Mae'r **Pennaeth Gwaith Di-dâl** yn rôl newydd (yn amodol ar werthusiad swydd) sy'n gyfrifol am reoli Gwaith Di-dâl o ddydd i ddydd, ac am ddarpariaeth yr Uwch Ganolfan Ymbresenoli.
- Mae'r **Pennaeth Rhaglenni** yn rôl newydd (yn amodol ar werthusiad swydd) sy'n gyfrifol am reoli Rhaglenni Achrededig o ddydd i ddydd, ac am ddarparu Ymyriadau Strwythuredig.
- Mae'r **Pennaeth Integreiddio Cymunedol** yn rôl newydd (yn amodol ar werthuso swyddi) i oruchwylio'r gwaith o gomisiynu a rheoli contractau gweithredol ar gyfer gwasanaethau allanol, a darparu pwyslais penodol ar sicrhau bod y gwasanaethau ymyrryd priodol ar waith i ddiwallu anghenion unigolion sy'n cael eu goruchwylio, a bod y gwasanaeth prawf yn cael dylanwad yn lleol fel bod manteision gweithio mewn partneriaeth a chyd-gomisiynu'n cael eu gwireddu. Bydd timau Comisiynu a Phartneriaethau rhanbarthol a thimau Rheoli Contractau gweithredol yn rhan o reolaeth y Pennaeth Integreiddio Cymunedol.
- Mae'r **Pennaeth Perfformiad ac Ansawdd** yn rôl sy'n bodoli'n barod ac yn gweithredu fel arweinydd strategol y rhanbarth ar gyfer perfformiad ac ansawdd, gan ddarparu cyngor, data a chynlluniau gweithredu i wella ansawdd a helpu i gomisiynu gwasanaethau. I gyflawni hyn, mae'r timau Perfformiad, Ansawdd a Throseddau Pellach Difrifol yn rhan o reolaeth y Pennaeth Perfformiad ac Ansawdd.

- Mae'r **Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol** yn rôl newydd i ddarparu arweinyddiaeth a rheolaeth bwrpasol ar gyfer swyddogaethau corfforaethol a chefn swyddfa. Byddant yn dwyn ynghyd y gwaith o reoli'r gwaith Ymgysylltu â Staff, Cydraddoldeb, Gweinyddiaeth Gorfforaethol, Cwynion a Sicrhau Gwybodaeth ar lefel ranbarthol, yn ogystal â bod yn bwynt cyswllt ar gyfer arweinyddiaeth swyddogaethol/gwasanaethau partner busnes.

Bydd yr uwch dîm arwain rhanbarthol newydd yn hyrwyddo ac yn galluogi ymateb ar draws y system i gefnogi ymatal. Gan gydweithio â chydweithwyr yn y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf a gyda chomisiynwyr a phartneriaid strategol lleol, bydd yr uwch dîm arwain yn ceisio meithrin cysylltiadau cymunedol da sy'n ymateb i'r hyn sy'n gweithio ac yn helpu i leihau'r risg o aildroseddu. Bydd y newidiadau hyn yn sicrhau atebolrwydd ac arweinyddiaeth strategol glir ar gyfer y gwasanaeth prawf fel gwasanaeth cyfan, ac yn ei gwneud yn bosibl i reoli a phrynu gwasanaethau allanol mewn ffordd sy'n ymateb i anghenion lleol ac sy'n hyblyg i flaenoriaethau a ddaw i'r amlwg.

### Strwythurau Cymru

Yng Nghymru, bydd y strwythur arweinyddiaeth yn wahanol er mwyn adlewyrchu'r trefniadau partneriaeth unigryw sy'n deillio o ddatganoli, a rhai swyddogaethau busnes sy'n cyfuno gwasanaethau carchardai a phrawf o fewn y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf yng Nghymru. Dyma rai o'r gwahaniaethau:

- Pennaeth CORRE (canolog, gweithredol, ailsefydlu, cyfeirio a gwerthuso) ac Ymarfer Effeithiol fydd enw'r Pennaeth Ymyriadau, ond bydd yr un staff yn adrodd iddo ag yn Lloegr.
- Pennaeth Glasbrintiau – Mae'r swydd ddatganoli yma'n amlinellu'r ymrwymiad a wnaed gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru mewn perthynas â menywod a chyfiawnder ieuenctid drwy gyfrwng glasbrintiau. Rhagwelir y bydd llawer mwy o lasbrintiau'n cael eu datblygu i wella taith y defnyddiwr drwy'r system cyfiawnder troseddol a'r sectorau cysylltiedig yng Nghymru, ac mae'r swydd hon yn rhan annatod o'r gwaith hwnnw.
- Ni fydd Cymru yn recriwtio Pennaeth Perfformiad ac Ansawdd, gan fod y swyddogaeth hon yn cael ei darparu ar hyn o bryd ar y cyd â Charchardai'r Sector Cyhoeddus a Phencadlys y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf drwy swyddogaeth Cymorth Strategol, Gweinyddu a Sicrwydd y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf yng Nghymru.

## Newidiadau allweddol

### Y strwythur rheoli a'r ddarpariaeth weithredol

O fewn y rhanbarthau, bydd y ddarpariaeth weithredol yn cael ei had-drefnu i greu 108 o Unedau Cyflawni'r Gwasanaeth Prawf, gyda phob un yn cael ei rheoli gan Bennaeth Unedau Cyflawni'r Gwasanaeth Prawf, a'r unedau mwyaf cymhleth yn cael cefnogaeth gan Ddirprwy Bennaeth. Mae ffiniau'r Unedau hyn wedi cael eu datblygu i gyd-fynd â ffiniau awdurdodau lleol unedol a haen uchaf. Ar y lefel hon, bydd timau'n goruchwylio pob unigolyn ac yn sicrhau bod cyfrifoldebau lleol y sector cyhoeddus (fel cysylltu â dioddefwyr a chyfrifoldebau i ddiogelu oedolion a phlant yn lleol) yn cael eu cyflawni.

Bydd ein strwythur newydd yn sicrhau bod gan y rheolwyr ddigon o gapasiti a gallu i gyflawni llwyth achosion cynyddol y gwasanaeth prawf newydd, gan adlewyrchu'r ffaith bod yr holl gyfrifoldebau rheoli achosion wedi cael eu huno, a darparu llais lleol clir ar gyfer y gwasanaeth prawf ac, mewn rhai cyd-destunau, y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf.

### Diogelu'r Cyhoedd

Fel rhan o'r adolygiad o strwythur y gwasanaeth prawf, penderfynwyd dod â gwasanaethau llety gweithredol a strategol at ei gilydd fel swyddogaeth genedlaethol o fewn y Gyfarwyddiaeth Ymyriadau Cymunedol, gan gynnwys Safleoedd Cymeradwy, BASS a Llety.

Bydd ein strwythur newydd yn sicrhau bod gan y rheolwyr ddigon o gapasiti a gallu i gyflawni llwyth achosion cynyddol y gwasanaeth prawf newydd, gan adlewyrchu'r ffaith bod yr holl gyfrifoldebau rheoli achosion wedi cael eu huno, a darparu llais lleol clir ar gyfer y gwasanaeth prawf ac, mewn rhai cyd-destunau, y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf. Mae gwaith yn cael ei wneud yn awr i gynllunio a datblygu is-adran ganolog ar gyfer Diogelwch Gwladol er mwyn rheoli achosion critigol sydd er budd diogelwch gwladol, er mwyn darparu lefel uwch o reolaeth ar yr achosion â'r risg uchaf, sy'n gymhleth ac yn uchel eu proffil.

Ar hyn o bryd mae'r gwaith o reoli unedau troseddau rhywiol, sy'n darparu rhaglenni troseddau rhywiol achrededig, yn rhan o reolaeth Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd (Cymunedol). Fodd bynnag, wrth ddod â'r Rhaglenni Achrededig eraill yn fewnol, mae hynny wedi creu cyfle – yn y tymor hir – i ddod â'r tîm hwn, ynghyd â thimau sy'n darparu Rhaglenni Achrededig eraill, o dan Bennaeth Ymyriadau ym mhob rhanbarth. Bydd hyn yn sicrhau arbenigedd, cysondeb ac effeithlonrwydd wrth ddarparu rhaglenni ar draws y gyfres o raglenni.

Yn y dyfodol, bydd rôl Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd yn parhau (a bydd dwy rôl yn Llundain oherwydd eu cymhlethdod) i fod yn arweinydd strategol rhanbarthol ar gyfer diogelu'r cyhoedd. Byddan nhw'n rheoli swyddogaethau rhanbarthol allweddol fel dioddefwyr, yn cydlynu meysydd trawsbynciol fel MAPPA, ac yn gyfrifol am weithredu unrhyw newidiadau polisi cenedlaethol ar lefel leol a rhanbarthol. Byddan nhw'n gyswllt rhanbarthol ar gyfer yr Is-adran Diogelwch Gwladol a swyddogaethau Safleoedd Cymeradwy, ac yn ymgysylltu â rhanddeiliaid rhanbarthol a chenedlaethol allweddol mewn awdurdodau lleol, yn yr heddlu, mewn unedau gwrthderfysgaeth a throseddu cyfundrefnol, a chydweithwyr yng Nghyfarwyddiaeth Gwrthderfysgaeth, Diogelwch a Threfn y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf.

### Integreiddio Cymunedol

Bydd angen i ranbarthau gael y gallu a'r capasiti i gefnogi eu cyfrifoldebau newydd i gomisiynu a rheoli contractau gwasanaethau allanol. Bydd hyn yn cynnwys gallu gweld pa wasanaethau ychwanegol sydd eu hangen i ddiwallu anghenion defnyddwyr gwasanaeth, gan gomisiynu a rheoli'r gwasanaethau hynny ac adrodd ar eu heffeithiolrwydd.

Ar hyn o bryd, nid oes gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol ddigon o adnoddau i ddatblygu ei wasanaethau ei hun, ac mae'n dibynnu ar darpariaeth y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol. Yn y dyfodol, bydd timau Comisiynu a Phartneriaeth arbenigol ym mhob rhanbarth er mwyn gweithio'n agos gyda'r canlynol: rheolwyr gweithredol a rheolwyr contractau yn y rhanbarth; cydweithwyr masnachol; arweinwyr polisi; comisiynwyr/partneriaid allanol; darparwyr a defnyddwyr gwasanaeth i adolygu a datblygu gwasanaethau. Byddan nhw'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel ac sy'n sicrhau gwerth am arian, a fydd yn diwallu anghenion a nodwyd ac yn monitro effeithiolrwydd y rhain o ran helpu i leihau aildroseddu.

Ar hyn o bryd, mae timau rheoli contract y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf yn goruchwylio cysylltiadau'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol, ac maen nhw wedi'u rhannu'n ddwy swyddogaeth: swyddogaeth strategaeth sy'n gweithio ar lefel genedlaethol, a swyddogaeth weithredol sy'n cynnwys nifer o dimau lleol sy'n gyfrifol am reoli contractau o ddydd i ddydd. Mae'r strwythur, y rolau a'r cyfrifoldebau o fewn hynny wedi datblygu a magu gwreiddiau dros amser, gyda'r swyddogaeth strategaeth yn dylanwadu ar y timau gweithredol lleol ac ar ddatblygu hunaniaeth broffesiynol benodol. Yn y dyfodol byddwn ni'n cadw'r strwythur, y rolau a'r cyfrifoldebau presennol yn y lle cyntaf, ond byddwn yn addasu lle bo angen i'r strwythur rhanbarthol newydd. Mae hyn yn golygu gwreiddio'r timau rheoli contractau gweithredol yn y rhanbarthau i reoli contractau darparwr y Gwasanaethau Adsefydlu wedi'u Comisiynu, a bod y tîm canolog yn darparu mwy o gymorth i sicrhau bod y berthynas yn cael ei rheoli'n gyson ar gyfer cyflenwyr trawsranbarthol.

Cysylltiadau â Strategaeth Fusnes y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf

**Mae'r model newydd yn cydnabod pwysigrwydd galluogi'r gwasanaeth prawf i weithio mewn partneriaeth ag amrywiaeth o ddarparwyr, a bydd yn darparu timau arbenigol i helpu pob rhanbarth i gomisiynu a chontractio'r gwasanaethau priodol i drawsnewid a gwella'r ddarpariaeth.**

Fel rhan o'n hymateb i COVID-19, fe wnaethom sefydlu Tasgluoedd Atal Digartrefedd i weithio gydag awdurdodau lleol a phartneriaid eraill i helpu i ddod o hyd i lety ar gyfer unigolion sy'n cael eu rhyddhau o'r carchar, ac ar gyfer y rheini sy'n symud ymlaen o Safleoedd Cymeradwy a Gwasanaethau Llety a Chefnogaeth Mechnïaeth. Er ein bod yn adolygu gweithrediad y tasgluoedd hyn ar hyn o bryd, mae'r manteision gweithredol yn golygu ein bod ni'n ystyried sut i'w cynnal yn y tymor hir a'u hadlewyrchu mewn strwythurau rhanbarthol.

**Ffigur 20. Rolau masnachol, comisiynu a rheoli contractau ar lefel genedlaethol a rhanbarthol**

### Masnachol a Rheoli Contractau (MRC)

**Cenedlaethol:**

- Datblygu perthynas gyda darparwyr a chomisiynwyr
- Cynghori ar strategaeth comisiynu (penderfyniadau gwneud neu brynu)
- Arwain gweithgareddau caffael
- Rheoli'r gwaith o gynefino/ffarwelio â chyflenwyr
- Rheoli'r Fframwaith Dynamig
- Llywodraethu a sicrwydd masnachol o un pen i'r llall
- Rheoli'r berthynas â chyflenwyr
- Arwain y broses caffael o un pen i'r llall
- Bod yn gyfrifol am ddyfarnu pob contract
- Rheoli achosion o dorri amodau perfformiad/ymholiadau/anghydfodau sydd wedi cael eu huwchgyfeirio
- Darparu Gwybodaeth Fasnachol
- Stiwardiaeth o'r farchnad
- Rheoli prosesau Rheolaethau Swyddfa'r Cabinet

Rolau sy'n cyd-fynd yn rhanbarthol i ddarparu cefnogaeth uniongyrchol i gomisiynu rhanbarthol/darparwyr lleol a rheoli contractau gweithredol yn rhanbarthol.

### Comisiynu a Phartneriaeth

**Cenedlaethol:**

- Darparu gwybodaeth a thystiolaeth i helpu i wneud penderfyniadau
- Cefnogi'r broses o gwblhau cynllunio busnes cenedlaethol
- Darparu cefnogaeth pwnc ar lwybrau i gefnogi dull gweithredu sy'n gyson yn genedlaethol

Bydd cefnogaeth o bosibl yn cael ei rhoi gan nifer o dimau yn HMPPS.

**Rhanbarthol:**

- Monitro ac adolygu darpariaeth gwasanaeth sydd eisoes yn bodoli
- Arwain yr asesiad o'r angen a'r galw yn y dyfodol, gan gynnwys i ddiwallu gofynion cydraddoldebau
- Datblygu a diffinio gwasanaethau a manylebau newydd
- Cefnogi caffael a phrosesau grantiau
- Cydlynu a chefnogi cydweithio lleol a rhanbarthol
- Cysoni'r dull gweithredu â chomisiynwyr eraill gan gynnwys comisiynu gwasanaethau ar y cyd.

Timau Comisiynu a Phartneriaeth ym mhob rhanbarth.

### Rheoli Contractau Gweithredol

**Cenedlaethol:**

- Goruchwylio'r gadwyn gyflenwi, newid contractau a chyflenwyr
- Cefnogi ac adrodd ar oruchwylio perfformiad cyflenwyr cenedlaethol
- Rheoli ceisiadau briffio, Rhyddid Gwybodaeth ac ati
- Sicrhau bod contractau'n cael eu rheoli'n unol â blaenoriaethau cenedlaethol ac ehangach y Weinyddiaeth Gyfiawnder.


Gweithio ochr yn ochr â nifer o dimau yn HMPPS

**Rhanbarthol:**


- Rheoli contractau o ddydd i ddydd
- Rheoli'r berthynas â chyflenwyr
- Rhoi sicrwydd y cydymffurfir â chontractau.
- Monitro perfformiad contractau a rhoi sicrwydd ynghylch prosesau talu
- Monitro'r risgiau sy'n gysylltiedig â chontractau
- Pennu a monitro gwasanaethau a chynlluniau gwella.
- Arwain gweithgareddau gadael, trawsnewid a symud

Timau Rheoli Contractau Gweithredol ym mhob rhanbarth.

Ffigur 21. Siart sefydliadol cyflwr terfynol targed ar gyfer Lloegr



Ffigur 22. Y Gyfarwyddiaeth Llety, Partneriaethau a Lleihau Aildroseddu – Strwythurau



### Perfformiad ac Ansawdd

Rydym yn bwriadu cynnal perfformiad, ansawdd a thimau Troseddau Difrifol Pellach yn y rhanbarthau. Bydd timau perfformiad yn darparu gwybodaeth reoli a dadansoddiadau, ac yn ymgysylltu ag unedau busnes i ddeall a gwella perfformiad ac ansawdd data. Bydd timau ansawdd yn darparu gweithgareddau gwella a sicrhau ansawdd er mwyn hybu ymarfer effeithiol a chefnogi staff y llys a Rheoli Dedfrydau. Mae timau Troseddau Difrifol Pellach yn cynnal adolygiadau o'r rhain i wella ymarfer yn y dyfodol. Bydd timau Troseddau Difrifol Pellach hefyd yn gyfrifol am adolygu ymarfer ('cipolwg cynnar') yn unol â chanllawiau cenedlaethol i dynnu sylw at unrhyw faterion sy'n galw am ymateb rheoli ar unwaith. Bydd adnoddau yn y meysydd hyn yn cael eu hehangu i adlewyrchu'r llwyth achosion cynyddol.

### Gwasanaethau Corfforaethol

Rydym yn bwriadu cynnal timau gweinyddu corfforaethol a thimau cwynion ym mhob rhanbarth. Bydd timau gweinyddu corfforaethol yn cyflawni tasgau trafodiadol corfforaethol, pan nad yw'r tasgau hynny'n weithredol nac yn cael eu cefnogi gan sefydliadau partner. Bydd y timau cwynion yn cynnal ymchwiliadau mewn perthynas â chwynion ffurfiol, ac yn cynnwys rolau unigol sy'n cefnogi ymgysylltiad y staff, sicrhau gwybodaeth a chydraddoldeb.

Bydd adnoddau yn y meysydd hyn yn cael eu hehangu i adlewyrchu'r cynnydd yn y galw sy'n gysylltiedig ag ehangu cyfrifoldebau. Yn benodol, bydd mwy o bwyslais ar weithgareddau sy'n ymwneud â chydraddoldeb ym mhob rhanbarth er mwyn adlewyrchu gwell disgwyliadau o ran adrodd ar gydraddoldeb, gan sicrhau ein bod ni'n cyflawni Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Bydd hyn yn golygu dull gweithredu mwy strategol a chynhwysfawr o dan arweinyddiaeth ranbarthol, sy'n sicrhau bod prosesau adrodd ar gydraddoldeb yn cael eu hintegreiddio yn y gwasanaeth prawf newydd ac ymysg darparwyr o dan gontract.

### Trosglwyddo

I gefnogi'r broses o drosglwyddo'n hwylus i'r trefniadau hyn a darparu sylfaen sefydlog ar gyfer uno gwasanaethau prawf yn 2021, mae'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol wedi dechrau ad-drefnu o saith Is-adran i 12 rhanbarth. Mae pob un o'r 12 Cyfarwyddwr Prawf Rhanbarthol wedi'u penodi ac wedi dechrau ar eu swydd ym mis Ebrill 2020, gan ysgwyddo'r cyfrifoldeb rheoli dros y ddarpariaeth weithredol yn eu hardal ddaearyddol. Hefyd, mae'r gwaith o recriwtio nifer o rolau wedi cael ei ddwyn ymlaen lle mae angen busnes critigol clir i wneud hynny, er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflwyno'r strwythur rhanbarthol newydd. Mae hyn wedi canolbwyntio ar yr uwch dîm rheoli sy'n adrodd i'r Cyfarwyddwr Prawf Rhanbarthol.

### Pencadlys

Mae'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol bob amser wedi manteisio ar gefnogaeth ehangach gan y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf a Phencadlys y Weinyddiaeth Gyfiawnder er mwyn galluogi ei ddarpariaeth weithredol drwy ddarparu arbenigedd, goruchwyliaeth a chymorth i bartneriaid busnes. Mae cael adnodd cenedlaethol i gefnogi nifer o unedau darparu yn arwain at lawer o fanteision, ac yn cynnwys osgoi dyblygu, gwella effeithlonrwydd a chydlynu, a'r gallu i feithrin gwybodaeth arbenigol a rhannu arferion gorau.

Gyda mwy o ranbarthau'n cynnal mwy o achosion ac yn ysgwyddo mwy o gyfrifoldebau, bydd angen mwy o gefnogaeth gan y Pencadlys na'r hyn a oedd ei angen gan Is-adrannau'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol.

Yn yr Is-adran genedlaethol ar Strategaeth Fusnes a Newid yn Lloegr, mae timau rhanbarthol wedi cael eu creu i sicrhau eu bod yn gallu parhau i gefnogi'r gwaith o weithredu rhaglenni a phrosiectau newid cenedlaethol yn lleol, yn ogystal â chynrychioli'r rhanbarthau mewn gweithgareddau newid cenedlaethol.

Yn y dyfodol, bydd rhanbarthau'n parhau i fanteisio ar gefnogaeth y Pencadlys, gan gynnwys Adnoddau Dynol, Cyllid ac Iechyd, Diogelwch a Thân. Bydd hyn yn gymorth diwygiedig ar gyfer y cynnydd yn nifer yrhanbarthau a'r cyfrifoldebau estynedig ar gyfer Rheoli Dedfrydau, darparu ymyriadau, a chomisiynu a rheoli contractau gwasanaethau cymorth lleol arbenigol.

### Galluogi pobl i wneud eu gorau: Cefnogi ein pobl

Rydym yn deall bod ein staff yn hanfodol i ddarparu'r model newydd hwn. Rydym yn canolbwyntio ar sicrhau proses drosglwyddo hwylus fel bod staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, eu cynnwys a'u bod yn rhan o'r diwygiadau hyn, ac ar gyflwyno gwelliannau tymor hwy sy'n cefnogi datblygiad proffesiynol y staff ac yn creu gweithlu iachach, mwy amrywiol a llawn cymhelliant.

### Trosglwyddo pobl

Rydym yn cydnabod bod y broses o drosglwyddo i'r model newydd yn golygu newid sylweddol pellach i staff prawf yn y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol. Mae'r rhaglen wedi buddsoddi mewn swyddogaeth bwrpasol i reoli newid, a fydd yn sicrhau bod y broses drosglwyddo a symud yn cael ei rheoli'n dda. Yng Nghymru, rydym eisoes wedi dod â'r gwaith Rheoli Dedfrydau yn rhan o'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, sy'n rhoi cyfle i wella ansawdd yn gynnar ac i ddysgu gwersi er mwyn cyfrannu at y broses drawsnewid ehangach. Ein pwyslais ar gyfer y diwrnod cyntaf fydd trosglwyddiad hwylus, gan ganolbwyntio ar sicrhau bod y gwaith i ddiogelu'r cyhoedd ac adsefydlu yn y gymuned yn parhau'n ddi-dor, gyda rhagor o newidiadau i ddilyn.

Mae'n bwysig ein bod ni'n sicrhau cydbwysedd rhwng y gofynion gweithredol presennol a pharatoi ar gyfer y dyfodol. Rydym yn ystyried profiad yr holl staff wrth iddyn nhw symud ymlaen drwy'r broses drosglwyddo i'r model unedig, ac rydym yn ystyried hyn yn ein gwaith gyda rhanddeiliaid; mewn prosesau rydym yn eu datblygu; neu yn ein negeseuon a'n deunyddiau.

Mae'r swyddogaeth rheoli newid wedi cael ei sefydlu i gynnwys pob un o'r tair rhaglen brawf (Diwygio, Gweithlu ac Adferiad). Mae'r fframwaith ar gyfer cyflwyno newid yn effeithiol yn canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth drwy ymgysylltu, er mwyn mabwysiadu'r newidiadau hyd at fis Mehefin 2021, ac ar ôl hynny, ar draws y system brawf.

Rydym wedi datblygu egwyddorion rheoli newid sy'n diffinio sut rydym ni wedi delio â newid, ac yn dal i ddelio â newid, ar draws y system brawf.

- Byddwn yn rhoi sylw i'r diwylliant yn benodol, ac yn creu diwylliant newydd/cyfun.
- Byddwn yn asesu'r cyd-destun diwylliannol drwy ddefnyddio diagnosteg ddiwylliannol er mwyn deall yn well pa mor barod yw'r sefydliad ar gyfer newid.
- Byddwn yn paratoi ar gyfer yr annisgwyl, gan fod pob newid wastad yn gwyro rhywfaint oddi wrth y cynllun.
- Byddwn yn siarad ag unigolion yn ogystal â'r sefydliad drwy gynnig sicrwydd yn wyneb ansicrwydd, gan fod mor onest ac mor glir â phosibl.
- Byddwn yn rhoi sylw i elfen ddynol y broses o newid, drwy sicrhau bod hyn yn cael ei integreiddio yn ein rhaglenni, ein dyluniad a'n penderfyniadau.
- Byddwn yn sicrhau bod arweinwyr ar bob lefel, sy'n cefnogi ac wedi ymrwymo i gyfeirio y broses newid, yn dangos esiampl/arwain y newid.
- Byddwn yn galluogi newid gwirioneddol ar y rheng flaen, gydag arweinwyr newid ymroddgar a chymwys ar draws y rhaglen a'r rhanbarthau.
- Byddwn yn herio realiti, yn dangos ffydd ac yn creu gweledigaeth y gellir ei haddasu ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd ar wahanol adegau.
- Byddwn yn creu perchnogaeth, nid dim ond derbyn, drwy arweinyddiaeth wasgaredig sydd â dylanwad eang i gefnogi'r newidiadau.
- Byddwn yn sicrhau bod gohebiaeth yn mynd ati i atgyfnerthu negeseuon craidd drwy roi cyngor rheolaidd, amserol sy'n ysbrydoli ac yn ymarferol.

Rhan o rôl y swyddogaeth yw sicrhau ein bod ni'n gallu cyfleu gweledigaeth glir ar gyfer y dyfodol, a dod â phobl gyda ni wrth i ni wneud y newidiadau i gyflwyno model unedig newydd ar gyfer y maes prawf. Mae cyfres o adnoddau ymgysylltu, gan gynnwys naratif newid, wedi cael eu datblygu i gefnogi'r newidiadau ac i gefnogi'r gwaith newid yn y diwylliant yn y tymor hir. Mae'r adnoddau ymgysylltu hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau mwy o lwyddiant o ran mabwysiadu'r newid, y manteision a fwriedir a ffyrdd newydd o weithio. Eu nod yw symleiddio cymhlethdod rhaglenni, gan adrodd stori syml am yr hyn fydd yn newid a'r hyn na fydd yn newid, helpu gyda digwyddiadau ymgysylltu, hybu adborth a chefnogi trafodaethau gydag arweinwyr a chydweithwyr ynghylch sut bydd y newidiadau hynny'n edrych ac yn teimlo, gan sicrhau bod ganddynt rôl o ran llywio a dylanwadu ar y dyfodol. Rhaid i bobl deimlo bod newid yn digwydd gyda nhw, yn hytrach nag iddyn nhw, er mwyn sicrhau proses drosglwyddo lwyddiannus a diwylliant cadarnhaol. Byddwn yn parhau i gyfathrebu drwy'r naratif newid a fydd yn cael ei ddiweddaru hyd at y diwrnod cyntaf ac ar ôl hynny wrth i weithgareddau trosglwyddo ddod yn gliriach.

Rydym yn dal i gydweithio ar drosglwyddo pobl gyda rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys Cyfarwyddwyr Prawf Rhanbarthol, cyflogwyr presennol, rhwydweithiau staff ac undebau llafur cydnabyddedig. Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda rhiant-sefydliadau a'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol i sicrhau ein bod yn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt i reoli eu gweithlu a'u cadwyn gyflenwi yn effeithiol yn ystod y cyfnod hwn o newid sefydliadol, ac i leihau'r risg y bydd mwy o staff yn gadael yn ystod y cyfnod trosglwyddo.

Rydym wedi diffinio ffiniau'r broses o drosglwyddo gwasanaethau – naill ai i'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf (y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol) neu i ddarparwr y Gwasanaethau Adsefydlu wedi'u Comisiynu. Mae cyflogwyr presennol yn defnyddio'r diffiniadau hyn o wasanaethau i benderfynu a yw eu staff yn cael eu neilltuo ai peidio ac ym mhle, a byddant yn cydweithio â'u staff yn unol â hynny. Bydd staff sy'n cael eu neilltuo yn symud i naill ai'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf (y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol) neu i ddarparwyr y Gwasanaethau Adsefydlu wedi'u Comisiynu ar 26 Mehefin 2021.

Bydd y gwaith o drosglwyddo cyflogaeth i'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf (y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol) yn cael ei wneud drwy Gynllun(iau) Statudol ar gyfer Trosglwyddo Staff, yn unol â darpariaethau Deddf Rheoli Troseddwyr 2007, ac yn cael ei ategu gan Ddatganiad Ymarfer Swyddfa'r Cabinet ar Drosglwyddo Staff yn y Sector Cyhoeddus, yn hytrach na drwy drosglwyddiadau o dan y Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) (TUPE). Fodd bynnag, bydd darpariaethau'r cynllun(iau) trosglwyddo staff yn dilyn dull gweithredu TUPE yn fras.

Bydd y broses o drosglwyddo cyflogaeth i ddarparwyr y Gwasanaethau Adsefydlu wedi'u Comisiynu yn cael ei gwneud drwy TUPE, a fydd yn diogelu telerau ac amodau cyflogaeth contractiol y cyflogai ar ôl y trosglwyddo.

### Trosglwyddo i'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf (y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol)

Yn dilyn y cyhoeddiad ym mis Mehefin 2020 y byddai'r gwasanaeth prawf yn darparu ymyriadau wedi'u diffinio o dan y model newydd, bydd mwy o staff yn cael eu neilltuo i'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf (y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol) ar ddiwedd contract y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol ym mis Mehefin 2021. Mae nifer y cyflogwyr presennol y mae angen i ni weithio gyda nhw i hwyluso hyn wedi cynyddu hynny, ac erbyn hyn mae'n cynnwys rhiant-sefydliadau'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol, y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol ac is-gontractwyr/ cadwyni cyflenwi. Rydym yn gweithio gyda'r cyflogwyr presennol i drafod y gwaith manwl y bydd angen ei wneud yn ystod y cyfnod symud a hyd at y pwynt trosglwyddo, er mwyn gallu trosglwyddo staff yn hwylus.

Rydym yn paratoi gweithgarwch newid busnes i helpu'r staff sy'n cael eu trosglwyddo gyda deunydd cynefino ac ymgyfarwyddo priodol i'w helpu i weithredu mewn sefydliad newydd ac yn un o adrannau'r Gwasanaeth Sifil, yn ogystal â chefnogi'r gwaith o greu gweithlu prawf newydd ac unedig. Rydym yn gweithio gydag arbenigwyr pwnc i nodi'r gofynion dysgu a datblygu sydd eu hangen i gefnogi'r broses drosglwyddo. Bydd y gofynion yn cael eu blaenoriaethu, gan ddechrau gydag unrhyw elfennau sy'n hanfodol er mwyn gweithredu ar y diwrnod cyntaf. Dyma rai o'r blaenoriaethau dysgu i gynorthwyo'r diwrnod cyntaf:

- cael croeso cynnes a phroses gynefino gorfforaethol i'r Gwasanaeth Sifil, y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf a'r gwasanaeth prawf newydd
- sicrhau bod staff yn gallu cael mynediad at y systemau a'u defnyddio (gan gynnwys TG Corfforaethol a hyfforddiant perthnasol ar systemau corfforaethol)
- darparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar y staff i'w helpu i gyflawni eu rôl o'r diwrnod cyntaf, ac i staff gweithredol ar adegau allweddol ar ôl hynny
- galluogi staff i barhau ag unrhyw gymwysterau proffesiynol/cynlluniau prentisiaeth y maen nhw hanner ffordd drwyddynt

Ar ôl y diwrnod cyntaf, bydd angen rhagor o hyfforddiant ar gyfer yr holl staff, a bydd hefyd angen ei flaenoriaethu a'i gyflwyno fesul cam i liniaru'r effaith ar y ddarpariaeth weithredol. Yn unol â Strategaeth y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf, rydym yn cefnogi diwylliant dysgu, agored ac mae gwella ein darpariaeth dysgu a datblygu yn un o ymrwymiadau allweddol Strategaeth y Gweithlu (gweler isod). Bydd manylion yr hyfforddiant alinio pwrpasol ar gyfer y rhai sydd mewn rolau sydd angen cymhwyster prawf yn y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, yn cael eu rhannu â chyflogwyr presennol ar ôl iddyn nhw gael eu cadarnhau. Rydym wedi dweud yn glir, ac yn dal i ddweud yn glir, na fyddai diffyg cymhwyster prawf yn atal aelod o staff rhag trosglwyddo i'r gwasanaeth prawf newydd os yw'n cael ei asesu fel aelod sydd o fewn y cwmpas i wneud hynny.

Ein dull gweithredu yw sicrhau cyn lleied o newid â phosibl ar y diwrnod cyntaf, ar wahân i'r hyn sy'n angenrheidiol ee, gweithredu'r Cytundeb Cenedlaethol. Felly, ar y diwrnod cyntaf, dim ond pan na fyddai staff yn gallu gweithio'n effeithiol fel arall ar ôl cael eu trosglwyddo y byddai newidiadau'n cael eu gwneud. Rydym yn gweithio i asesu lle mae angen newidiadau, a bydd hynny'n cyfrannu at ein gwaith cynllunio a pharatoi ehangach ar gyfer y gweithlu. Ar ôl y trosglwyddo, byddwn yn gweithio gyda rhanbarthau i symud o safle'r diwrnod cyntaf i'r model cyflwr terfynol. Bydd yr amser mae'n ei gymryd i gyrraedd y cyflwr terfynol yn amrywio ar draws rhanbarthau a swyddogaethau.

Un o brif feysydd ffocws Strategaeth y Gweithlu yw denu a chadw pobl dalentog. Felly mae cadw staff medrus yn flaenoriaeth allweddol, a byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda chyflogwyr ac undebau llafur i gefnogi'r broses o drosglwyddo i'r model yn y dyfodol, ac i darfu cyn lleied â phosibl.

### Trosglwyddo i ddarparwyr y Gwasanaethau Adsefydlu wedi'u Comisiynu

Drwy'r gwaith neilltuo y mae'r cyflogwyr presennol yn ei wneud, byddant yn nodi a yw eu staff yn cael eu neilltuo i elfennau Fframwaith Dynamig y model ar gyfer y dyfodol. Bydd canlyniad cystadlaethau'r Fframwaith Dynamig wedyn yn pennu i ba gyflogwr yn y dyfodol y byddai staff o fewn y cwmpas yn cael eu trosglwyddo iddo.

Ar ôl nodi hynny, bydd y cyflogwyr yn y dyfodol yn gweithio gyda'r cyflogwyr presennol i gytuno ar y gweithgarwch a'r amseroedd symud angenrheidiol er mwyn sicrhau bod y staff yn cael eu trosglwyddo'n hwylus.

### Polisi diogelwch a fetio staff

Bydd gan ddarparwyr yr opsiwn i gyflogi unigolion a oedd yn arfer ymwneud â'r gwasanaethau prawf, a gwirfoddolwyr ee, mentoriaid cymheiriaid. Fodd bynnag, bydd hyn yn unol â phrosesau fetio cyfredol y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf y cytunwyd arnynt. Os yw'n bosibl y byddai cyn-ddefnyddiwr gwasanaeth yn methu'r archwiliadau fetio safonol, gall darparwyr ddefnyddio'r polisi 'Standard Plus' sy'n adeiladu ar y strategaeth 'Going Forward for Employment' gan Swyddfa'r Cabinet. Mae angen iddyn nhw ddefnyddio meini prawf risg ychwanegol, cynnal asesiad risg ac, yn y pen draw, mae angen i'r darparwr gadarnhau ei fod yn hyderus y gall reoli unrhyw risg ar gyfer yr unigolyn.

Cysylltiadau â Strategaeth Fusnes y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf

**Byddwn yn galluogi ein gweithlu i wneud eu gorau ac i berfformio i'r safon uchaf drwy ddenu a chadw pobl dalentog, hyrwyddo eu llesiant, a darparu'r sgiliau a'r adnoddau i'w paratoi ar gyfer y dyfodol.**

### Datblygu ein Gweithlu

Mae heriau yn sgil COVID-19 wedi cadarnhau bod ein gweithlu'n hanfodol er mwyn darparu gwasanaethau prawf yn llwyddiannus, a'i bod yn rhaid i'r newidiadau a wnawn i'r system yn y dyfodol fynd law yn llaw â chefnog staff prawf drwy fuddsoddi yn y sgiliau, y galluoedd a'r ffyrdd o weithio sydd eu hangen arnynt i wneud eu gwaith i'r safon uchaf. Er enghraifft, roedd y ffordd arloesol yr oedd y gwasanaeth prawf wedi addasu ac ymateb i'r pandemig yn dangos sut gallwn ni weithio mewn ffyrdd mwy clyfar.

Ym mis Gorffennaf 2020, roedd Strategaeth y Gweithlu Prawf a gyhoeddwyd yn amlinellu ein huchelgais ar gyfer gweithlu cadarnhaol, cynhwysol ac amrywiol, gan ganolbwyntio ar yr amcanion canlynol:

- Hybu llesiant i bawb.
- Denu a chadw pobl dalentog.
- Cefnogi a datblygu ein pobl.
- Creu gweithlu mwy amrywiol lle mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys.
- Meithrin arweinwyr hyderus sy'n ysbrydoli ac yn grymuso eraill.

Er y bydd yr holl amcanion yn hanfodol i hwyluso'r gwaith o ddarparu gwasanaethau prawf yn effeithiol yn y dyfodol, i ddarparu'r model gweithredu targed mae'n rhaid cael y nifer priodol o staff wrth eu gwaith i reoli'r llwyth achosion (denu a chadw pobl dalentog) ac sydd â'r sgiliau angenrheidiol i reoli risg, diogelu'r cyhoedd a helpu i wneud newidiadau cadarnhaol i fywydau pobl (cefnogi a datblygu ein pobl).

### Cefnogi a datblygu ein pobl: Model newydd ar gyfer dysgu a datblygu

Bydd y model newydd yn darparu ffordd gynaliadwy a modern o ddysgu a datblygu – gan ein galluogi i fodloni'r galw cynyddol am ddysgu a datblygu ac i gyflawni'r agenda broffesiynol. Bydd adnoddau dysgu ymarferol o ansawdd uchel, sy'n mynd i'r afael â phryderon staff ac yn helpu gyda thasgau o ddydd i ddydd, ar gael yn rhwydd. Bydd ein model newydd yn annog mwy o gyfrifoldeb personol dros ddysgu, gydag arweinwyr a rheolwyr yn mynd ati i hyfforddi a mentora staff i gyrraedd safonau proffesiynol ac i gyflawni eu huchelgais bersonol o ran gyrfa.

Bydd yn darparu dull clir ar gyfer caffael, cyrchu, (ail)ddylunio, darparu a gwerthuso cynnyrch dysgu, sy'n deall ac yn mynd i'r afael yn well ag anghenion staff, ar sail profiad y dysgwyr ac ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Rydym yn symud tuag at ddull gweithredu mwy hyblyg ac ystwyth sy'n defnyddio technoleg fodern. Bydd hyn yn golygu bod profiadau ac adnoddau dysgu ar gael yn rhwydd i'n staff, gan gynnwys adnoddau dysgu digidol, y gellir cael gafael arnynt pan fo angen. Bydd yr adnoddau dysgu digidol yn edrych ac yn teimlo'n wahanol iawn i adnoddau eDdysgu traddodiadol. Bydd adnoddau fel fideos, astudiaethau achos, templedi, canllawiau, fforymau trafod a rhestrau gwirio ar gael. Bydd yr adnoddau'n seiliedig ar anghenion dysgwyr ac ar ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ac yn cael eu hategu gan drafodaethau myfyriol parhaus rhwng unigolion a'u rheolwr llinell.

### Cefnogi a datblygu ein pobl: Panel Cynghori ar Ddysgu yn y Gwasanaeth Prawf[10]

Rydym wedi sefydlu Panel Cynghori ar Ddysgu yn y Gwasanaeth Prawf i gefnogi'r gwaith o ddatblygu cwricwlwm o ansawdd sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ac wedi'i lywio gan arbenigwyr. Bydd gwreiddio safbwyntiau allanol mewn ymarfer prawf ac effeithiolrwydd dysgu yn y model yn creu dull rhagweithiol, agored a chydweithredol o gynllunio a datblygu'r broses ddysgu ar gyfer y gwasanaeth prawf.

[10] Awdurdod y Cwricwlwm oedd yr hen enw.

### Cefnogi a datblygu ein pobl: Cofrestr a safonau ymarfer

Rydym wedi dechrau ymgynghori ar Safonau Proffesiynol ar gyfer staff prawf. Mae'r safonau'n strategol, yn cyd-fynd â'r weledigaeth ar gyfer y gweithlu prawf, yn ddefnyddiol ac yn dangos y proffesiynoldeb a'r ymddygiad a ddisgwylir gan y staff. Bydd y safonau'n hwylus i'r staff ac yn gweithio fel safonau ymbarél uwchben y safonau galwedigaethol, arolygiaeth, ansawdd, seiliedig ar gymhwysedd a galwedigaethol penodol sydd eisoes yn bodoli. Bydd staff yn deall sut disgwylir iddynt ddefnyddio'r Safonau Proffesiynol, a sut mae'r safonau hynny'n cyd-fynd â'r disgwyliadau ehangach o'r staff yn eu gwaith.

Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu fframwaith cofrestr broffesiynol ar gyfer ymarferwyr prawf sydd wedi cymhwyso. Bydd y gofrestr broffesiynol yn diogelu safonau ymarfer ac yn cynyddu hyder y cyhoedd mewn gwasanaethau prawf.

### Denu a chadw pobl dalentog: Recriwtio

Rydym yn canolbwyntio ar recriwtio a hyfforddi mwy o swyddogion prawf i gefnogi'r gwasanaeth a llwyth achosion. Erbyn mis Mehefin 2021, byddwn wedi cynyddu'n sylweddol nifer y swyddogion prawf dan hyfforddiant rydym yn eu recriwtio bob blwyddyn er mwyn cefnogi'r gwaith o ddarparu'r model gweithredu targed. Yn wir, yn 2020/21 yn unig, rydym wedi ymrwymo i recriwtio 1,000 o staff prawf newydd dan hyfforddiant. Yn y flwyddyn ariannol ganlynol (2021/22), byddwn ni'n recriwtio hyd yn oed mwy o staff, i gael 1,500 o staff prawf dan hyfforddiant.

Rydym yn datblygu Strategaeth Recriwtio a Chadw tair i bum mlynedd, a fydd yn ein helpu i gefnogi anghenion recriwtio dros y blynyddoedd nesaf. Bydd y strategaeth hon yn ein galluogi i gynllunio'n well pwy rydym yn eu recriwtio a phryd, a sut rydym yn helpu ein staff i ffynnu. Erbyn y diwrnod cyntaf, byddwn wedi adolygu'r ffordd rydym yn recriwtio ar gyfer y Cymhwyster Proffesiynol mewn Gwaith Prawf ac wedi rhoi system fwy syml ac ystwyth ar waith, sy'n ein galluogi i ddenu recriwtiaid newydd i'r gwasanaeth yn gyflymach. Bydd hyn yn ein helpu i gynyddu ein lefelau staffio yn sylweddol, gan greu cronfa o dalentau amrywiol a model recriwtio hyblyg ac arloesol.

Byddwn ni wedi ystyried amrywiaeth o gymhellion gwahanol er mwyn recriwtio mewn safleoedd "anodd eu llenwi", yn y tymor byr a'r tymor hir. Mae hyn yn cynnwys cynnal ymgyrchoedd marchnata penodol yn yr ardaloedd hynny er mwyn denu mwy o swyddogion prawf dan hyfforddiant, sef yr hyn wnaethom ni ar gyfer yr ymgyrch ddiweddaraf. Rydym hefyd yn ehangu'r llwybrau i'r maes prawf, gan gynnwys ystyried sut gallem dargedu cyn-ddefnyddwyr gwasanaeth i ddarparu cyfleoedd cyflogaeth, a chreu gweithlu sy'n adlewyrchu'n well amrywiaeth ein cymdeithas a'r bobl hynny rydym yn eu goruchwylio.

I gydnabod rôl allweddol cyflogaeth yn y broses adsefydlu, bydd y Gwasanaeth Prawf newydd yn gweithio gyda'r Rhwydwaith Dyfodol Newydd – sy'n helpu pobl sy'n gadael y carchar i gael gwaith – er mwyn sicrhau cymaint o gyfleoedd â phosibl i ddefnyddwyr gwasanaeth presennol, a chyn-ddefnyddwyr gwasanaeth, gael swydd gyda ni. Mae gwaith o dan arweiniad cymheiriaid, gan gynnwys cynlluniau mentora cymheiriaid, yn elfen hollbwysig o'r gwaith hwn. Mae gan gydweithwyr sydd wedi dilyn y llwybr hwn i gyflogaeth lefelau uchel o gymhelliant yn aml iawn, ac maen nhw'n rhai o'n staff mwyaf ymroddgar a brwdfrydig. Mae rolau cymorth gan gymheiriaid yn darparu cymorth un i un i ddefnyddwyr gwasanaeth yn y ddalfa ac yn y gymuned; yn hwyluso grwpiau cymorth gan gymheiriaid (gan gynnwys ar gyfer carfannau penodol); yn ymgymryd â hyfforddiant mentora cyfoedion ac yn darparu cyd-drefniant/rheolaeth llinell ar gyfer gweithwyr cyfoedion rheng flaen. Bydd rôl genedlaethol yn cael ei nodi i sbarduno datblygu gwaith sy'n cael ei arwain gan gymheiriaid ar draws y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf, a darparu dull seiliedig ar dystiolaeth a sicrwydd ansawdd ar gyfer gweithgareddau sy'n cael eu harwain gan gymheiriaid.

### Denu a chadw pobl dalentog: Llwybrau gyrfa

Rydym yn treialu llwybr cynnydd cyflym o Swyddog Gwasanaeth Prawf i Swyddog Prawf mewn pedwar rhanbarth, ac rydym eisiau amrywio ein llwybrau mynediad, gan gynnwys gwella ein gallu i gydnabod pa brofiad blaenorol sy'n paratoi pobl ar gyfer gyrfa yn y maes prawf.

Mae cyfleoedd datblygu a llwybrau gyrfa yn bodoli sy'n creu arweinwyr cefnogol a chadarn ar bob lefel. Byddwn ni'n ei gwneud hi'n haws i bobl symud yn fewnol, ac yn darparu llwybrau gyrfa sy'n ein galluogi ni i gadw staff ac i annog y rhai sy'n symud ar draws y system gyfiawnder i ddychwelyd i'r gwasanaeth gyda phrofiad ehangach. Mae hyn hefyd yn cynnwys cyflwyno cyfleoedd clir i symud yn ystod gyrfa, a chyfleoedd dysgu a datblygu ar y cyd ar draws partneriaid yn y llywodraeth, y sector gwirfoddol a'r sector preifat, a'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf erbyn 2022/23.

### Denu a chadw pobl dalentog: Talu

Rydym yn parhau i weithio gyda staff ac undebau llafur i fwrw ymlaen â'n gwaith cydweithredol ar foderneiddio cyflogau yn 2020/21 a thu hwnt. Rydym yn datblygu cynigion sy'n canolbwyntio ar wella'r cynigion cyffredinol sydd ar gael i staff.

## Moderneiddio ein hystâd

Gan gyfeirio at egwyddor strategol y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf, moderneiddio ein hystadau a'n technoleg, nod ein strategaeth ystadau yw darparu llwyfan ystâd hirdymor cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau prawf sy'n cyflawni ein dyletswyddau cyffredinol o ran adsefydlu a diogelu'r cyhoedd, gan sicrhau gwerth da am arian ar yr un pryd.

Bydd y strategaeth ystadau gyfun a fydd yn cynefino'r ystadau sy'n ofynnol i redeg y system brawf yn y dyfodol, yn sicrhau bod gennym yr ystâd angenrheidiol i fodloni dyheadau'r gwasanaeth prawf yn y dyfodol.

Cysylltiadau â Strategaeth Fusnes y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf

## Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod ein hystâd yn addas ar gyfer yr amgylchedd darparu yn y dyfodol, ac yn darparu gwerth da am arian i'r cyhoedd.

Byddwn hefyd yn moderneiddio'r ystâd gyda £127 miliwn o gyllid cyfalaf a fydd yn arwain at greu 55 o safleoedd newydd, a gaiff eu datblygu gan ddefnyddio 'Canllaw Dylunio' y gwasanaeth prawf newydd, gan greu amgylcheddau modern a "Chanolfannau cyswllt ar gyfer y Dyfodol" i'n staff ac i ddefnyddwyr ein gwasanaeth. Byddwn hefyd yn darparu £20 miliwn o gyllid i ddiweddaru'r ystâd bresennol.

Rydym yn cydnabod bod yr ystâd yn cynnwys amrywiaeth eang o adeiladau (o ran oed, cyflwr, strwythur a chynllun), ac nad yw ym mhob achos yn addas i anghenion ein staff na'r defnyddwyr gwasanaeth. Yn unol â'n dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 rydym wedi datblygu rhestr wirio a fframwaith hygyrchedd, ac wedi asesu ein hystâd yn erbyn hyn er mwyn helpu arweinwyr lleol y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol i benderfynu ar yr opsiynau gorau o ran safle ar gyfer y diwrnod cyntaf. Wrth symud ymlaen rydym yn gwybod bod rhagor o waith i'w wneud ac, yn unol â hynny, byddwn yn cynnal asesiad pellach o'n hystâd er mwyn cyfrannu at raglenni cynnal a chadw sydd wedi'u cynllunio ar gyfer y dyfodol, a'r ffordd rydym yn defnyddio ein hadeiladau.

Byddwn ni'n sicrhau bod yr ystâd yn gallu ymateb a gweithredu fel catalydd i gyflwyno ffyrdd clyfar o weithio, a fydd yn ceisio gwneud y defnydd gorau posibl o'n gweithleoedd a'n technoleg i wella cynhyrchiant a hybu gwell cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith i'r staff. Byddwn yn gwario £12 miliwn dros y tair blynedd nesaf ar weithgareddau penodol fel rhan o hyn, a fydd, yn ymarferol, yn golygu y gall ein staff fanteisio ar ddesgiau bach a mannau gwaith mwy deinamig i ategu gwell cydweithio.

Bydd y strategaeth ystadau'n goruchwylio pedair blynedd o waith trosglwyddo a thrawsnewid yr ystâd er mwyn:

- gwella ansawdd yr eiddo presennol, a lle mae eiddo newydd yn cael ei ddylunio a gwaith ffitio yn cael ei wneud
- cefnogi uchelgeisiau ein gweithlu drwy wella ein gallu i recriwtio a chadw staff drwy gynnig amgylchedd gwaith o ansawdd uchel sy'n galluogi diwylliant gweithio clyfar, gan ddefnyddio'r arferion gweithio effeithiol sy'n deillio o fodelau darparu newydd a fabwysiadwyd o ganlyniad i COVID-19
- darparu ystâd sy'n rhoi cyfle i wella ansawdd y berthynas rhwng unigolion sy'n cael eu goruchwylio ac Ymarferwyr Prawf
- lle bo modd, hybu (drwy ddyluniad ein hystâd) cydweithio ag awdurdodau datganoledig, gan gynnwys Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, a phartneriaid darparu

Mae ein strategaeth ystadau wedi cael ei llywio gan ymgynghoriad â staff gweithredol, a'r nodau yw sicrhau ystâd:

- sydd, lle bo modd, yn cefnogi gwell integreiddio a phartneriaethau rhwng y gwasanaeth prawf newydd a phartneriaid cyfiawnder lleol eraill
- sydd mewn wedi lleoliad ddaearyddol sy'n sicrhau amser teithio rhesymol i unigolion sy'n cael eu goruchwylio i ddefnyddio gwasanaethau, ac i annog pobl i gydymffurfio
- sy'n ei gwneud yn bosibl i gynnal a chadw lle glân
- sy'n darparu lle cyfrinachol priodol i ryngweithio ag unigolion sy'n cael eu goruchwylio, a digon o le i grwpiau neu ystafelloedd hyfforddi ar gyfer darparu ymyriadau
- sy'n ddiogel ac yn hygyrch i'r holl staff ac unigolion sy'n cael eu goruchwylio, ond bod y risg yn briodol
- sy'n sicrhau gwerth am arian ac effeithlonrwydd
- sy'n helpu darparwyr y Gwasanaethau Adsefydlu wedi'u Comisiynu i fuddsoddi cymaint â phosibl yn y broses o ddarparu gwasanaethau drwy ddefnyddio rhent rhad pan fydd lle ar y cyd ar gael ar gyfer gweithio mewn partneriaeth yn ystad y gwasanaeth prawf
- sy'n gynaliadwy yn amgylcheddol, fel y nodir o dan Bolisi Ymrwymiadau Gwyrdd y Llywodraeth
- sy'n darparu mynediad ar gyfer anghenion amrywiol staff ac unigolion sy'n cael eu goruchwylio, yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010 a'r naw nodwedd warchodedig

### Gofynion lefel sylfaen ar gyfer ystâd y dyfodol

Bydd cyflwyno Gwaith Di-dâl, Rhaglenni Achrededig ac Ymyriadau Strwythuredig yn y gwasanaeth prawf newydd, ochr yn ochr â Rheoli Dedfrydau, yn golygu y byddwn yn trosglwyddo'r rhan fwyaf o'r ystâd o'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol presennol. Mae cynlluniau ar waith i sicrhau ein bod yn rheoli'r ystâd newydd hon yn effeithiol ac yn effeithlon, yn unol ag egwyddorion Strategaeth y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf.

### Gofynion ar gyfer y dyfodol

Er mwyn cefnogi gweithrediadau yn y dyfodol, byddwn yn sefydlu Tîm Rheoli Cyfleusterau penodol ar gyfer Ystadau'r Gwasanaeth Prawf, gyda mwy o adnoddau i gefnogi'r gwaith parhaus o gynnal a chadw ein hadeiladau. Mae'r rhaglen hefyd wedi nodi set o ofynion sylfaenol a nodweddion gweithredu delfrydol a ddylai fod yn rhan o'r ateb ar gyfer yr ystâd a'r agenda moderneiddio. Cyflawnir hyn drwy bedair blynedd o gyllid ychwanegol ar gyfer gwaith cynnal a chadw sydd wedi cronni er mwyn gwneud iawn am ddiffyg cyllid yn y gorffennol, prosiectau ystadau penodol, a gwaith i'w gwneud yn bosib i gyflwyno ffyrdd clyfar o weithio. Bydd hyn yn cael ei gyflawni gan dimau ystadau amlddisgyblaeth rhanbarthol a fydd, yn rhannol, yn newid i fusnes yn ôl yr arfer er mwyn sicrhau parhad. Dyma'r gofynion lefel sylfaenol a'r nodweddion gweithredu delfrydol:

- **Cydymffurfio â deddfwriaethau a rheoliadau**
  Ystâd sy'n bodloni'r holl ofynion cydymffurfio rheoleiddiol a deddfwriaethol o ran iechyd a diogelwch, mynediad a chydraddoldeb.

- **Mewn cyflwr da – wedi cael buddsoddiad digonol**
Mae'r elfennau ffabrig, mecanyddol ac electronig (os yw'n berthnasol) yn gweithio'n dda, heb unrhyw ofynion na phroblemau trwsio mawr wedi cronni; gwella'r gallu i gynnal amgylcheddau glân.
- **Iechyd, Diogelwch a Llesiant**
Mae'r strwythur ffisegol yn ei gwneud yn bosibl i gynnal a chadw'r safle a'i defnyddio mewn ymateb i achosion sy'n ymwneud â haint (ee, awyru effeithiol). Gofalu bod systemau gwresogi ac awyru yn gallu sicrhau digon o awyr iach.
- **Yn addas yn ddigidol ac yn dechnolegol**
Sicrhau bod gan yr adeilad y seilwaith TGCh priodol i fanteisio i'r eithaf ar ddatblygiadau yn awr ac yn y dyfodol. Hwyluso'r broses o osod dyfeisiau perifferol AV modern i leihau'r angen i fod yn bresennol mewn cyfarfodydd wyneb yn wyneb.
- **Diogel**
Eiddo sy'n cynnwys yr holl osodiadau diogelwch angenrheidiol er mwyn diogelu staff, ymwelwyr ac unigolion sy'n cael eu goruchwylio.
- **Sicrwydd deiliadaeth**
Trefniadau deiliadaeth priodol yn eu lle i gefnogi deiliadaeth barhaus heb y bygythiad o orfod symud o bosibl.

Yn ogystal â'r gofynion sylfaenol, bydd y Canllaw Dylunio yn sefydlu nifer o nodweddion sy'n galw am lwyfan ystadau cadarn a modern sy'n cydymffurfio â COVID, ac a fydd yn darparu glasbrint ar gyfer Canolfannau Cyswllt y Gwasanaeth Prawf yn y dyfodol drwy wneud y canlynol:

- sicrhau bod staff ac unigolion sy'n cael eu goruchwylio yn cael eu cadw'n ddiogel: mesurau diogelwch technolegol ffisegol a chudd (teledu cylch cyfyng neu ffob allwedd) sy'n cefnogi gweithrediadau ac yn diogelu a thawelu meddwl y staff
- hybu llesiant staff ac unigolion sy'n cael eu goruchwylio: gosod offer a chyfleusterau modern (ee, seddi meddal a darparu cegin), gyda darpariaeth rheoli cyfleusterau effeithiol i gefnogi hynny
- darparu'r ystâd angenrheidiol i alluogi staff i weithio mewn ffordd fwy hyblyg, a galluogi'r amgylcheddau sy'n cefnogi iechyd a llesiant staff drwy drefniadau glanhau priodol, ymatebol a threfnus
- sicrhau hygyrchedd a chydraddoldeb drwy ddylunio: hybu hygyrchedd drwy arwyddion a nodweddion ffisegol a chadw at ganllawiau dylunio, cydraddoldeb a hygyrchedd ystadau i ddiddymu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac ymddygiad sydd wedi'i wahardd gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- cefnogi'r agenda cynaliadwyedd: Buddsoddi mewn nodweddion ffisegol mewn adeiladau (ee defnyddio ynni a dŵr yn effeithlon, ac atebion ffotofoltäig solar lle bo'n bosibl), gan sicrhau bod y gwaith yn cydymffurfio ag Ymrwymiad Gwyrdd y Llywodraeth a deddfwriaethau adeiladu, gan gynnwys safonau prynu'r Llywodraeth

- proses gadarn i reoli asedau: strategaeth ystadau gyfredol wedi'i chadarnhau, sy'n cael cyllid priodol i gefnogi gofynion gweithredol yn y dyfodol drwy raglen cynnal a chadw wedi'i blaengynllunio, a chadw at ganllawiau ar arferion gorau o ran cynaliadwyedd, hygyrchedd a chydraddoldeb

Cysylltiadau â Strategaeth Fusnes y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf

**Byddwn ni'n sicrhau bod gan staff yr adnoddau digidol priodol i gefnogi'r gwaith o ddarparu'r model newydd, gan eu galluogi i ddarparu'r gwasanaeth mwyaf effeithlon ac effeithiol posibl ac i defnyddio data i lywio a gwella eu barn broffesiynol.**

## Moderneiddio ein gwasanaethau technoleg, digidol a data

Mae ar staff y gwasanaeth prawf angen gwasanaethau digidol symlach, cliriach a chyflymach i gefnogi'r gwaith o ddarparu'r model newydd. Rydym yn cydnabod bod hwn yn faes lle mae'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol weithiau wedi llusgo y tu ôl i'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol, ac nad yw'r rhaglenni presennol yn diwallu anghenion defnyddwyr. Yn lle hynny, efallai y bu'n rhaid i staff rheng flaen dreulio cyfran helaeth o'u hamser ar dasgau gweinyddol sylfaenol, yn hytrach na gallu ychwanegu gwerth go iawn fel gweithwyr prawf proffesiynol.

Bydd dull digidol newydd yn darparu gwasanaethau ar gyfer y gwasanaeth prawf newydd, ac ar gyfer darparwyr Gwasanaethau Adsefydlu wedi'u Comisiynu sy'n:

- cefnogi prosesau busnes mwy effeithlon, sy'n golygu nad oes rhaid i Ymarferwyr Prawf wneud tasgau gweinyddol diangen a llafurus
- defnyddio data'n well fel sail i farn broffesiynol
- ei gwneud yn bosibl i wneud gwaith mwy penodol gydag unigolion er mwyn sicrhau ein canlyniadau busnes cyffredin
- darparu ffordd i unigolion sy'n cael eu goruchwylio ymgysylltu'n well â'u dedfryd, ac yn helpu i wella canlyniadau adsefydlu
- gwella'r gefnogaeth ar gyfer comisiynu, yn ogystal â rheoli a pherfformiad y gwasanaeth prawf newydd a chyflenwyr o dan y Fframwaith Dynamig[11]

[11] Bydd cyflenwyr o dan y Fframwaith Dynamig yn defnyddio gwasanaethau digidol newydd i ddarparu gwasanaethau prawf yng Nghymru a Lloegr. Bydd gwasanaethau newydd yn cael eu dylunio i fod yn ddiogel iawn. Byddant yn cynnwys y datblygiadau diweddaraf ym maes seiberddiogelwch, ac yn gallu gweithredu mewn rhwydweithiau dim ymddiriedaeth. Felly byddant ar gael dros y rhyngrwyd, gan ddileu'r angen i gynnal cysylltiad diogel drwy Rwydwaith Gwasanaethau Cyhoeddus. Dim ond porwr modern i gael mynediad at y gwasanaethau digidol newydd fydd ei angen ar y mwyafrif helaeth o gyflenwyr o dan y Fframwaith Dynamig.

Mae golwg ddi-dor ar daith yr unigolyn – sy'n dechrau yn y llys ac yn parhau drwy ei ddedfryd a'i daith adsefydlu – yn rhan ganolog o'r strategaeth ddigidol a data ar gyfer y maes prawf (ac fel rhan o gynlluniau ehangach y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf). Cydgysylltu data ar anghenion a risgiau yn fwy effeithiol â chanlyniadau adsefydlu defnyddwyr sy'n ei gwneud yn bosibl y weld y daith honno'n ddi-dor.

### Sut rydym yn cyflawni'r newidiadau hyn

Rydym wedi mabwysiadu dull gweithredu ystwyth. Mae hyn yn ein galluogi i brofi tybiaethau ac i brofi gwerth yn gynnar yng nghylch oes cynnyrch, gan leihau'r risg o adeiladu'r peth anghywir nad yw'n diwallu anghenion defnyddwyr.

Mae taith defnyddiwr gwasanaeth prawf yn aml yn cynnwys carchar (fel rhan o ddedfryd o garchar). Bydd darparu gwasanaethau digidol newydd ar gyfer y maes prawf yn cyd-fynd â gwasanaethau digidol newydd ar gyfer carchardai, er mwyn darparu dull gweithredu cydgysylltiedig ac yn unol â nod Strategaeth Fusnes y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf i weithredu fel 'un Gwasanaeth Carchardai a Phrawf'.

Er y bydd gwasanaethau digidol yn cael eu rhyddhau'n gynnar ac yn aml, byddan nhw bob amser yn diwallu anghenion eu defnyddwyr, gofynion y rhaglen a safonau'r llywodraeth. Bydd y rhain yn cael eu gwella'n barhaus i sbarduno arbedion effeithlonrwydd a gwelliannau ar draws y maes prawf. Byddwn ni'n glynu wrth egwyddorion dylunio er mwyn sicrhau cysondeb o ran y ddarpariaeth, gan gynnwys:

- casglu data dim ond pan fydd ei angen, a dim ond unwaith
- profi cynnyrch a gwasanaethau gyda defnyddwyr yn rheolaidd bob amser, er mwyn ei gwneud yn haws eu defnyddio ac yn fwy hwylus
- dylunio mewn ffordd sy'n cefnogi anghenion defnyddwyr (i gyflawni eu nodau)
- bydd gwasanaethau'n cefnogi ymddygiadau y gellir eu mesur a'u monitro yn erbyn y canlyniadau a ddymunir

Bydd yr egwyddorion hyn yn amlwg mewn gwasanaethau:

- sy'n gyson o ran y ffordd maen nhw'n edrych ac yn teimlo
- sydd â phwrpas clir, wedi'i fynegi mewn trafodiad o'r dechrau i'r diwedd
- sy'n darparu ffyrdd i bartneriaid mewnol ac allanol integreiddio a rhannu data'n hawdd (fel sy'n briodol)
- sy'n cael eu hailadrodd, eu diweddaru a'u hymestyn, yn gymharol gyflym ac yn effeithlon
- sy'n gallu dangos tystiolaeth a ydynt yn effeithiol o ran cyflawni'r amcanion a'r canlyniadau a ddymunir ar gyfer y maes prawf

### Strategaeth data

Rydym yn cydnabod gwerth trin data fel ased strategol, a'r angen i sefydlu sylfaen dystiolaeth gref sy'n ein helpu i wella canlyniadau defnyddwyr gwasanaeth, lleihau aildroseddu, diogelu'r cyhoedd a chefnogi ein staff rheng flaen. Gall data roi gwell dealltwriaeth i ni o anghenion unigolion, a bydd yn gwneud hynny, gan ein galluogi i gefnogi a rheoli eu proses adsefydlu'n well drwy dargedu ymyriadau'n briodol. Bydd gwella ansawdd y data sydd ar gael yn helpu i sicrhau bod yr ymyriadau priodol yn cael eu darparu ar yr adeg iawn i'r garfan iawn, gan arwain at wasanaeth prawf cost-effeithiol a chanlyniadau gwell.

Cysylltiadau â Strategaeth Fusnes y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf

**Mae ein diwylliant dysgu, agored yn cydnabod pwysigrwydd data fel ased strategol a fydd yn galluogi Ymarferwyr Prawf i ddarparu gwasanaethau personol ac arloesol sy'n hybu canlyniadau gwell a defnydd mwy effeithlon o adnoddau.**

Ar hyn o bryd, mae rhai bylchau sylweddol yn y dystiolaeth sy'n rhwystro'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder rhag gwneud cynnydd yn erbyn eu nodau craidd. Mae'r sylfaen dystiolaeth hefyd wedi bod yn gymharol statig dros y blynyddoedd diwethaf. Er enghraifft, mae'r garfan sydd wedi'i diffinio ar hyn o bryd ar gyfer troseddwyr cyson iawn mor amrywiol fel bod angen mwy o ymchwil cyn y gellir gwneud argymhellion penodol. Hefyd, mae ein model data yn dameidiog iawn, yn arafu'r gwaith o gynhyrchu tystiolaeth ac yn dyblygu ymdrechion rhwng timau. Mae hyn yn rhwystro polisïau sy'n cael eu llywio gan ddata a phenderfyniadau gweithredol. O ganlyniad, dros y blynyddoedd nesaf rydym eisiau buddsoddi yn ein seilwaith data er mwyn darparu'r data sydd ei angen arnom i ateb y cwestiynau hyn. Rydym ni eisiau symleiddio'n sylweddol y broses o gael mynediad at ddata, yn rhannol drwy ddatblygu a hybu llwyfan dadansoddol, felly bod llai o amser yn cael ei dreulio yn canfod, yn uno ac yn glanhau data.

Byddwn yn symleiddio'r broses o gael mynediad at ddata drwy drawsnewid digidol. Byddwn yn dylunio ein saernïaeth a'n gwasanaethau digidol er mwyn casglu'r data priodol, gwneud y broses o gasglu data yn llai beichus, atal data drwg rhag cyrraedd, a'i gwneud yn haws i gasglu a dadansoddi data. Byddwn yn hwyluso'r broses o drosglwyddo rhwng ein systemau presennol a'n gwasanaethau newydd drwy roi gwybod i arbenigwyr data yn y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Data a Dadansoddi am y newidiadau sydd ar y gweill o ran llifau data a meysydd data, er mwyn gallu canfod a chyfleu'r effeithiau ar adroddiadau parhaus.

Yna, gallwn ddechrau defnyddio'r technegau diweddaraf sydd ar flaen y gad ym maes gwyddoniaeth data moesegol a deallusrwydd artiffisial/dysgu peirianyddol i greu gwybodaeth mewn amser real (ar draws ein system), a'i rhannu â staff rheng flaen ar adeg y penderfyniad. Yn y pen draw, rydym ni am newid sut deimlad ydyw i'r staff wrth wneud penderfyniad sy'n seiliedig ar ddata. Ar hyn o bryd, os yw'r data a'r dystiolaeth i gefnogi penderfyniad (ee, archebu ymyriad) yn bodoli, mae angen i staff y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol ymgymryd â phroses ar wahân i gael gafael ar y data/tystiolaeth dan sylw (ee, darllen y canllawiau polisi, darllen erthygl sydd wedi cael ei chyhoeddi, dod o hyd i adroddiad, neu ddefnyddio adodd sy'n bodoli eisoes) a rhoi hyn ar waith.

Yn y dyfodol, gallwn ddatblygu ein sylfaen dystiolaeth yn barhaus gyda chyfuniad o ddulliau ansoddol a meintiol, a gwneud argymhellion i staff o fewn llifau gwaith. Bydd hyn yn arbed amser gwerthfawr i Ymarferwyr Prawf, y gallant ei dreulio ar weithgareddau mwy gwerthfawr sy'n cyfrannu at oruchwyliaeth fwy effeithiol.

Drwy wreiddio gwyddor data mewn systemau archebu ymyriadau, gallwn dynnu sylw at yr ymyriadau y mae unigolyn yn gymwys ar eu cyfer, a darparu'r dystiolaeth sydd wrth wraidd y sail resymegol honno. Bydd hyn yn arwain at asesiadau mwy effeithiol, ac atgyfeiriadau sy'n cefnogi newid ymddygiad er mwyn lleihau aildroseddu ac sy'n cael llawer o effaith.

## Data ar gyfer Polisi

Gall gwyddor data chwarae rôl hollbwysig i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau strategol canolog sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Drwy gyflymu'r broses o gynhyrchu tystiolaeth, byddwn yn galluogi cylchoedd llunio polisïau sy'n seiliedig ar ddata. Yn gyntaf, byddwn yn casglu'r data angenrheidiol i gynnal dadansoddiad o'r effaith. Yna, gallwn fodelu canlyniadau disgwyliedig penderfyniadau allweddol. Ar ôl gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth, gallwn fonitro'r effaith wirioneddol. Os bydd hyn yn datgelu canlyniadau annymunol neu anfwriadol, gallwn newid penderfyniadau polisi neu gaffael. Os nad oes digon o ddata i wneud penderfyniad, byddwn yn buddsoddi yn y broses o addasu ein gwasanaethau digidol er mwyn casglu'r data hwnnw. Felly, mae modd defnyddio data ar bob cam yn y broses o wneud penderfyniadau i sicrhau ein bod yn gweithredu'n effeithlon ac yn effeithiol.

## Trawsnewid digidol

Er bod y pwyslais ar ddylunio a darparu gwasanaethau digidol modern newydd, byddwn yn dal i ddibynnu ar y systemau a'r seilwaith presennol tan 2024. Felly, bydd y systemau presennol yn cael eu rhedeg ochr yn ochr, a'u hintegreiddio, â'r gwasanaethau newydd.

Mae'r ffordd rydym yn newid o'r systemau presennol hyn – rydym yn dibynnu arnyn nhw i wneud tasgau parhaus – i wasanaethau digidol newydd, yn allweddol. Rydym yn bwriadu datblygu swyddogaethau craidd i ddisodli tasgau allweddol yn ogystal â chadw data perthnasol ac, yn y broses, lleihau ymarferoldeb y systemau presennol a'u defnydd fel storfa ddata. Un enghraifft o'r agwedd yma at drawsnewid yw ymyriadau. Byddwn yn creu gwasanaeth digidol newydd i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau drwy'r Fframwaith Dynamig. Er y bydd y gwasanaeth newydd hwn yn cefnogi'r Gwasanaethau Adsefydlu wedi'u Comisiynu i ddechrau, byddwn yn ei ehangu dros y blynyddoedd nesaf i gefnogi ymyriadau eraill fel Rhaglenni Achrededig fel bod gan Ymarferwyr Prawf un gwasanaeth digidol i ategu eu holl atgyfeiriadau.

Dyma'r tair prif system sy'n cael eu defnyddio gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol ar hyn o bryd:

- Systemau Asesu Troseddwyr: Yr adnodd asesu risg ac anghenion a ddefnyddir ar draws y gwasanaethau carchardai a phrawf
- National Delius (nDelius): System rheoli dedfryd a storfa cofnodion achos ar gyfer unigolion sydd o dan reolaeth y gwasanaeth prawf
- Rheolwr Ymyriadau: adnodd a ddefnyddir i gadw golwg ar y gwaith o ddarparu a monitro Rhaglenni Achrededig

Bydd angen gwneud rhai newidiadau i'r systemau hyn i gefnogi'r strwythurau sefydliadol newydd, systemau talu a fframweithiau perfformiad ac adrodd, fel modelau rhanbarthol newydd, a rhai atgyfeiriadau o ymyriadau ar gyfer y diwrnod cyntaf. Fodd bynnag, nid ydym yn bwriadu mynd ati i ddatblygu'r systemau hyn, a bydd unrhyw newidiadau yn cael eu gwneud ar sail anghenion.

Yr ail her ar gyfer yr elfen ddigidol yw trawsnewid y ffordd mae gwasanaethau prawf yn cael eu darparu, gan gefnogi proses drosglwyddo hwylus ar gyfer mis Mehefin 2021. Er mwyn paratoi ar gyfer y cyfnod trosglwyddo, byddwn yn dysgu sut mae Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol wedi defnyddio systemau a rhaglenni i gefnogi eu gwasanaethau, a byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon, yn ogystal â phrofiad ymarferwyr, wrth ddylunio gwasanaethau newydd. Yn achos rhai o staff y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol sy'n dod i mewn i'r gwasanaeth prawf newydd, rydym yn rhagweld na fydd rhai llifau gwaith mor syml neu mor hawdd eu cwblhau ar y dechrau, wrth i ni newid i wasanaethau digidol newydd.

Bydd y gwasanaethau rydym ni'n eu datblygu yn ddefnyddiol ac yn hygyrch i'r rhai sy'n eu defnyddio; yn ddiogel; yn gallu cael eu haddasu o ran maint; yn gadarn ac yn ymatebol. Rydym eisiau gallu arsylwi a chofnodi pob agwedd ar ein gwasanaethau, er mwyn i ni allu monitro a datrys problemau gydag unrhyw systemau yn y dyfodol. Byddwn hefyd yn cyflwyno un wedd ar bob defnyddiwr gwasanaeth, sy'n cysylltu data ar draws pob system – hen a newydd – ac sy'n galluogi system safonol o gofnodi'r hyn sydd wedi digwydd i unigolyn ar draws y system gyfiawnder drwyddi draw.

### Y Ddarpariaeth Ddigidol: Ymyriadau

Rydym wedi ymrwymo i weddnewid y ffordd rydym yn cyfeirio ac yn rheoli ymyriadau (Gwaith Di-dâl, Rhaglenni Achrededig, Ymyriadau Strwythuredig a Gwasanaethau Adsefydlu wedi'u Comisiynu). Mae hyn yn cynnwys y prosesau o ychwanegu, canfod a chyfeirio at ymyriad, cadw golwg ar y cynnydd, a derbyn adborth ar ymyriad a'i werthuso.

Bydd Ymarferwyr Prawf yn gallu dod o hyd i unigolion a'u cyfeirio at ymyriad drwy un gwasanaeth digidol, yn hytrach na gorfod newid rhwng hyd at bedair system fel sy'n digwydd ar hyn o bryd. Yn gyffredinol, byddwn ni'n datblygu un neu ragor o wasanaethau digidol a fydd yn galluogi'r prosesau hyn, ac yn creu set gynhwysfawr a chysylltiedig o ansawdd uchel sy'n cynnwys data am ymyriadau a fydd yn cael ei dadansoddi a'i gwerthuso'n barhaus ar ein llwyfan dadansoddol. Bydd y canlyniadau'n cyfrannu at adnoddau gwyddoniaeth data modern, fel peiriannau argymell, a fydd yn galluogi Ymarferwyr Prawf i anfon unigolion sy'n cael eu goruchwylio i'r ymyriad iawn ar yr adeg iawn.

### Y Ddarpariaeth Ddigidol: Cofnodion achosion

Byddwn yn creu ffordd gliriach, symlach a chyflymach i Ymarferwyr Prawf gofnodi gwybodaeth, gan eu galluogi i ganolbwyntio ar weithgareddau â blaenoriaeth. Bydd gwasanaethau digidol newydd yn hwyluso gwell proses o rannu gwybodaeth rhwng llysoedd, y gwasanaeth prawf a charchardai, yn ogystal â gwell proses o gofnodi a rheoli'r cynllun dedfrydu, cynlluniau rheoli risg a chyflawni amcanion.

Ar gyfer staff y llys, byddwn yn datblygu gwasanaeth digidol yn gyntaf a fydd yn rheoli achosion llys, o'r gwrandawiad cyntaf i'r canlyniad. Byddwn yn gwneud hyn drwy integreiddio systemau presennol y llysoedd, gwaith achos a'r systemau asesu gyda'i gilydd i greu un wedd ar gyfer defnyddwyr, sy'n dangos popeth sy'n digwydd yn eu llys. Bydd yn cynorthwyo staff prawf i ganfod achosion sydd o ddiddordeb, i baratoi argymhellion dedfrydu cyson sy'n cyfateb i addasrwydd a chymhwysedd unigolion, ac i drosglwyddo achosion i'r darparwyr cywir, boed yn y carchar neu yn y gymuned.

Mae gwasanaeth newydd, a fydd yn helpu staff i baratoi achos ar gyfer dedfryd, yn nyddiau cynnar ei ddatblygiad. Bydd yn bwydo gwybodaeth berthnasol am ddiffynnydd yn awtomatig i systemau prawf, gan sicrhau bod staff yn gallu cael gafael ar yr holl wybodaeth yn syth mewn un lle, yn hytrach na bod angen chwilio drwy sawl system. Bydd y gwasanaeth yn nodi ac yn blaenoriaethu achosion sy'n debygol o fod angen adroddiad cyn dedfrydu, ac yn defnyddio data am risg, polisi ac anghenion troseddegol i argymell dedfryd i'r llys. Y canlyniad cyffredinol yw lleihau nifer y gohiriadau y mae'r gwasanaeth prawf yn gofyn amdanynt, a datblygu cynrychiolaeth gywir o'r risgiau a'r anghenion i gefnogi dedfryd a argymhellir sy'n diogelu'r cyhoedd ac yn helpu'r broses adsefydlu.

Bydd sicrhau bod unigolion yn cael eu neilltuo i'r Ymarferydd Prawf cywir yn un o nodweddion allweddol y model newydd. I gefnogi hyn, byddwn yn cynnwys rheolau busnes yn ein gwasanaethau digidol i sicrhau bod risgiau ac anghenion unigolyn yn cael eu paru ag Ymarferydd Prawf sydd â'r sgiliau a'r profiad mwyaf priodol. Byddwn yn sicrhau bod data perthnasol ar gael i holl staff y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf sydd angen mynediad at y data hwnnw, p'un a ydyn nhw'n gweithio mewn carchardai neu yn y maes prawf.

Efallai y bydd yr wybodaeth ar gyfer achosion hefyd yn gwella ar gyfer rhai unigolion a fydd wedi cael cyfweliad ar ôl dedfrydu yn y llys, a bydd hefyd yn adlewyrchu protocolau cenedlaethol a lleol newydd gyda'r heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas ag arestio, galwadau'n ymwneud â cham-drin domestig a gwybodaeth am ddiogelu.

### Y Ddarpariaeth Ddigidol: Asesu risgiau ac anghenion

Mae llawer o asesiadau risg yn cael eu cynnal ar gyfer gwahanol fathau o unigolion ar wahanol gamau yn y ddedfryd, sy'n arwain at lawer o ddyblygu. Hefyd, nid yw'n rhwydd diweddaru llawer o'r asesiadau risg.

Byddwn yn creu ffordd fwy deinamig a hyblyg o asesu risgiau ac anghenion, sy'n defnyddio data o wasanaethau ymyriadau a chofnodi achosion i ddiweddaru proffiliau risg yn awtomatig a/neu i sbarduno rhagor o gwestiynau i'r Ymarferydd Prawf. Bydd hyn yn sicrhau bod asesiadau risg ac anghenion yn fwy cywir ar unrhyw adeg benodol.

Wrth i ni newid o'r 'model' presennol o asesu risg ac anghenion yn y Systemau Asesu Troseddwyr i'r model deinamig mwy newydd, byddwn yn symleiddio ac yn ad-drefnu cynnwys asesiadau drwy ddileu cwestiynau sy'n cael eu hailadrodd a chasglu'r data iawn ar yr adeg iawn. Bydd hyn yn ein galluogi i greu cynllun dedfrydu sy'n briodol ac yn ymateb i anghenion unigolyn.

### Y Ddarpariaeth Ddigidol: Ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth

Un maes allweddol ar gyfer trawsnewid y maes prawf yw cynnwys unigolion yn eu prosesau dedfrydu ac adsefydlu. Mae gan dechnoleg ddigidol ran bwysig i'w chwarae yn hyn o beth, gan fod mwy a mwy o ddisgwyliad y bydd y cyswllt rhwng y gwasanaeth prawf a'r defnyddiwr gwasanaeth yn digwydd ar y we. Gan ategu llythyrau a galwadau ffôn, byddwn yn ceisio darparu gwasanaeth sy'n rhoi mwy o eglurder i'r rhai sy'n ymwneud â'r gwasanaethau prawf ynghylch ble mae angen iddyn nhw fod, pryd, a pham.

Yr ail nod yw sicrhau tryloywder yn y broses, fel bod y rhai sy'n rhan o'r gwasanaethau prawf yn gallu gweld beth sydd wedi cael ei benderfynu gan bwy a pham.

Bydd gwasanaethau digidol hefyd yn annog Ymarferwyr Prawf i ymgysylltu â'r rhai y maen nhw'n eu goruchwylio pan fo angen. Bydd fflagiau a negeseuon atgoffa yn cael eu cynnwys mewn gwasanaethau digidol er mwyn gallu ymgysylltu'n rhagweithiol, yn hytrach nag yn adweithiol. Er enghraifft, ar ei ffurf symlaf, gallem roi gwybod i staff pan fydd meysydd allweddol yn newid er mwyn eu hatgoffa i fynd ar ôl hynny. Gan ei fod yn fwy cymhleth, gall fod yn fodel rhagfynegi sy'n ystyried y tebygolrwydd o beidio â chwblhau ymyriad sy'n monitro nifer o ffactorau, ac yn dangos fflag ar ôl cyrraedd trothwy.

Yn olaf, rydym yn helpu i gyflwyno cynllun dedfrydu y gall unigolion sy'n cael eu goruchwylio gyfeirio ato, ei drafod a chytuno i'w ddilyn. Rydym yn rhagweld y bydd hyn yn cael ei ddefnyddio i alluogi unigolion i ddarparu tystiolaeth i gefnogi diffyg cydymffurfio, ac i roi adborth ar yr amcanion maen nhw wedi cytuno arnynt. Bydd hyn yn eu galluogi i ymgysylltu'n well ac i deimlo fel petaent wedi'u cynnwys ym mhroses y cynllun dedfrydu, yn hytrach na'i fod yn rhywbeth sy'n cael ei wneud iddynt.

## Gwella ansawdd data i gefnogi cydraddoldeb

Mae angen gwella'r data presennol ar nodweddion gwarchodedig, ac mae'n rhan allweddol o'n dull newydd o hybu gwelliannau i berfformiad. Ein nod yw mynd i'r afael ag ansawdd amrywiol y data a gofnodir gan y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol wrth i ni symud swyddogaethau craidd Rheoli Dedfrydau i un sefydliad, gan greu swyddogaeth ganolog a fydd yn ei gwneud yn bosibl i gofnodi data'n fwy effeithlon ac mewn fformat safonol.

Bydd hyn yn golygu bod modd datblygu cynhyrchion gwyddor data yn deg, a bydd y data sy'n cael ei gasglu sy'n ymwneud â nodweddion gwarchodedig yn cael ei ddefnyddio i sicrhau bod cynhyrchion gwyddor data yn cael eu datblygu'n deg, heb adlewyrchu unrhyw ragfarnau sylfaenol.

## Ffigur 23. Trosolwg o swyddogaethau digidol ar y diwrnod cyntaf a'r tu hwnt

| | Mynediad | Prawf mewn llys | Dyrannu achosion | Rheoli dedfrydau | Asesu niwed risg a | Adsefydlu | Cyflawni ymyriadau *Fel Swyddog Prawf...* | Cyflawni ymyriadau *Fel Darparwr Prawf...* | Data a pherfformiad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Diwrnod un** | Ar y Diwrnod cyntaf bydd un ffordd ar gael i'r staff prawf fewngofnodi i systemau<br>**GWASANAETH DIGIDOL NEWYDD** | Mae mynediad gwell at wybodaeth yn gwneud prosesau llys y gwasanaeth prawf yn haws<br>**GWASANAETH DIGIDOL NEWYDD** | Bydd y systemau sy'n bodoli ar hyn o bryd yn cael eu haddasu i adlewyrchu'r model haenau unedig newydd | Mae prototeip teclyn cynnar ar gyfer Rheoli Dedfrydau wedi cael ei ddylunio i ddiwallu anghenion Ymarferwyr Prawf a defnyddwyr gwasanaeth | Bydd systemau sydd eisoes yn bodoli'n cael eu defnyddio i asesu'r risg a'r angen. Ni fydd hyn yn golygu newid i'r rhan fwyaf o'r staff | Ni fydd newid i wasanaethau digidol ar gyfer adsefydlu | Bydd Ymarferwyr Prawf yn gallu canfod ac atgyfeirio at wasanaeth ar y Fframwaith Dynamig a monitro'r cynnydd<br>**GWASANAETH DIGIDOL NEWYDD** | Bydd cyflenwyr masnachol sy'n cyflawni drwy'r Fframwaith Dynamig yn gallu ychwanegu a rheoli eu gwasanaeth<br>**GWASANAETH DIGIDOL NEWYDD** | Bydd gwybodaeth am ddata a pherfformiad ar gael drwy fecanweithiau sydd eisoes yn bodoli gan fwyaf |
| **Nesaf** (+1 blwyddyn) | | Mae adroddiadau cyn-dedfrydu'n cael eu defnyddio'n ehangach ac wedi cael eu hail-ddylunio i wella'r ansawdd ac i wella canlyniadau dedfrydu | Bydd teclyn dyrannu newydd yn sicrhau bod achosion yn cael eu dyrannu ar sail gwybodaeth i'r swyddfa ac i'r Ymarferydd Prawf priodol | Mae teclyn Rheoli Dedfrydau newydd yn ysgafnhau'r baich sydd ar yr Ymarferwyr Prawf ac yn hybu ymgysylltiad y defnyddiwr gwasanaeth | Mae gwaith yn cael ei wneud i ddatblygu gwasanaeth asesu risg dynamig ac mae modd gweithredu arno ac y bydd modd ei ddefnyddio ar draws rhannau o'r daith prawf, gan ddechrau yn y llys | Bydd asesiadau ar gyfer ailsefydlu yn cael eu cynnwys o fewn "Asesu Risgiau ac Anghenion". Bydd ymyriadau ar gyfer y rheini sy'n gadael carchardai yn cael gwasanaeth drwy "Gyflawni Ymyriadau" | Bydd Ymarferwyr Prawf yn gallu canfod ac atgyfeirio ymyriadau sy'n cael eu cyflawni gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol<br>Bydd Ymarferwyr Prawf yn gallu atgyfeirio a threfnu defnyddwyr gwasanaeth ar Waith Di-dâl | Bydd y Gwasanaeth Prawf yn gallu ychwanegu a rheoli ymyriadau, gan gymryd lle Rheolwr Ymyriadau<br>Bydd y Gwasanaeth Prawf yn gallu ychwanegu a rheoli Gwaith Di-dâl | Bydd gwella'r ffordd mae data'n cael ei gasglu, ei storio a'i ddefnyddio yn helpu i wneud penderfyniadau ar y rheng flaen yn ogystal ag ar draws y gwasanaeth prawf |
| **Yn ddiweddarach** (+2 flynedd) | ***Bydd gwasanaethau cwbl ddigidol yn parhau i gael eu gwella o'r fersiynau a gafodd eu rhyddhau'n wreiddiol yn y cam diweddarach hwn. Bydd rhagor o swyddogaethau a nodweddion yn cael eu hychwanegu ac rydyn ni'n disgwyl gweld rhai o'r canlyniadau canlynol:*** | | Bydd modd defnyddio data am y gweithlu'n strategol i reoli capasiti'r gwasanaeth prawf | Mae teclyn Rheoli Dedfrydau gwell yn rhoi rôl i'r defnyddiwr gwasanaeth yn ei ddedfryd, gan arwain at ganlyniadau adsefydlu gwell | Mae nifer yr asesiadau ar wahân yn is ac mae rhai agweddau'n cael eu hawtomeiddio, gan arbed amser i staff a gan wella cywirdeb a chysondeb | Mae anghenion adsefydlu'n cael eu canfod yn gywir, yn unol â hyd dedfryd yr unigolyn a drwy gysylltu â chydweithwyr carchar HMPPS | Mae data perfformiad ar effeithiolrwydd ymyriadau yn rhoi sylfaen dystiolaeth sy'n arwain at benderfyniadau gwell am ddedfrydu | Mae gan y gwasanaeth prawf y data sydd ei angen er mwyn rheoli ei ecosystem cyflenwyr yn effeithiol (ee ceisiadau am daliadau thorri amodau acontractau) | Bydd cofnodi data o ansawdd uchel, storio a chyfwyno gwasanaethau newydd yn arwain at benderfyniadau gwell a chanlyniadau gwell i leihau aildroseddu |

### Technoleg well

Mae'r seilwaith technoleg y mae'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn dibynnu arno wedi cael ei ddatblygu'n sylweddol, er mwyn sicrhau bod gan ein gweithlu fynediad at offer priodol, modern a hyblyg i gefnogi'r gwaith o ddarparu ymarfer prawf effeithiol, gan gynnwys gliniaduron, cyfrifiaduron bwrdd gwaith a dyfeisiau tabled; teleffoni; Wi-Fi; a sganio ac argraffu. Ar adeg pan fo trefniadau gweithio wedi newid o fod yn y swyddfa i weithio o bell a gweithio o bell, rydym wedi gallu newid yn hwylus rhwng y rhain, ac mae'r buddsoddiad hwn mewn technoleg wedi creu cryfder sefydliadol, a bydd staff newydd yn elwa o hynny. Drwy ddod â staff Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn rhan o Lwyfan y Weinyddiaeth Gyfiawnder, rydym yn cydnabod y byddwn yn gwella'r ddarpariaeth TG ar gyfer y rhan fwyaf o'r defnyddwyr hyn, ac y bydd eu hychwanegu at un llwyfan Cyfiawnder yn ei gwneud yn bosibl i gydweithio'n llawn â'r gwasanaethau carchar a GLIThEM.

### Mynediad darparwr Gwasanaethau Adsefydlu wedi'u Comisiynu at System yr Awdurdod

Bydd darparwyr Gwasanaethau Adsefydlu wedi'u Comisiynu yn defnyddio'r gwasanaethau digidol newydd sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd. Bydd y gwasanaethau hyn – sy'n cael eu galw'n System yr Awdurdod – yn cael eu defnyddio i reoli'r ddarpariaeth, ac i ddarparu gwybodaeth i'r gwasanaeth prawf gan ddarparwyr am yr ymyriadau sydd ar gael.

Yn ystod y cyfnod gweithredu, bydd disgwyl i gynigwyr llwyddiannus sicrhau bod eu seilwaith, eu caledwedd ac unrhyw feddalwedd ychwanegol yn barod ac yn bodloni'r gofynion diogelwch perthnasol. Bydd dyfeisiau defnyddwyr sy'n cysylltu â gwasanaethau digidol newydd drwy borwyr modern yn cefnogi prosesau busnes craidd wrth ddarparu'r gwasanaethau. Y Weinyddiaeth Gyfiawnder fydd yn rheoli mynediad at y gwasanaethau digidol hyn, a'r data sydd ei angen ar gyflenwyr i ddarparu Gwasanaethau Adsefydlu wedi'u Comisiynu.

Drwy ofyn am ddata cyflawn, amserol a safonol gan ddarparwyr Gwasanaethau Adsefydlu wedi'u Comisiynu, bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn gallu comisiynu ar sail yr holl wybodaeth. Bydd gwerthusiadau parhaus o gyflenwyr, a ddefnyddir i lywio penderfyniadau masnachol, yn cymell ymddygiad cadarnhaol gan ddarparwyr ac yn dangos enghreifftiau arloesol llwyddiannus y gallwn ddysgu oddi wrthynt. Bydd datblygu sylfaen dystiolaeth werthfawr yn galluogi comisiynwyr i ddeall pa ddarparwyr a rhaglenni sy'n mynd i'r afael orau ag anghenion carfannau penodol o ddefnyddwyr gwasanaeth. Fel hyn, gallwn ddefnyddio'r farchnad i wella ansawdd a chanlyniadau defnyddwyr gwasanaeth.

Bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn darparu cymorth i ddefnyddwyr y gwasanaethau digidol newydd, a bydd yn parhau i ymgysylltu â darparwyr ar wella a datblygu'r rhain yn barhaus yn y dyfodol.

### Diogelu gwybodaeth

Byddwn yn sicrhau y cydymffurfir â'r ddeddfwriaeth berthnasol ar ddiogelu data. Pan fydd systemau a seilwaith cyflenwyr yn prosesu, yn storio neu'n trosglwyddo data'r Awdurdod, bydd yr Awdurdod yn gofyn am sicrwydd bod darparwyr yn dilyn arferion gorau'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol, yr Awdurdod ac arferion gorau masnachol yn maes seiberddiogelwch. Bydd angen i gyflenwyr sy'n defnyddio Systemau'r Awdurdod gydymffurfio â chynllun 'Cyber Essentials Plus' y llywodraeth, sy'n cael ei archwilio'n annibynnol, a bydd ganddynt System Rheoli Diogelwch Gwybodaeth sy'n bodloni'r safonau priodol.

# Atodiad A

Tystiolaeth ac Ymarfer prawf effeithiol

# Cyflwyniad

## Pwrpas yr Atodiad hwn

Mae staff prawf yn helpu unigolion i newid eu bywyd. Mae'r bennod hon yn disgrifio'r sylfaen dystiolaeth sy'n sail i ymarfer prawf effeithiol, gan gynnwys asesu; goruchwylio, sgiliau a rheoli risg, yn ogystal â darparu ymyriadau, fel rhaglenni ymddygiad troseddol a Gwaith Di-dâl.

Mae hefyd yn amlinellu sut byddwn yn galluogi ymarfer a phenderfyniadau ar sail tystiolaeth yn y model prawf yn y dyfodol, yn ogystal â chomisiynu a darparu gwasanaethau mewn ffordd effeithlon ac effeithiol.

Mae ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer y maes prawf yn cynnwys cyfuno gwybodaeth o astudiaethau trylwyr sy'n gwerthuso ymyriadau penodol, gydag astudiaethau sy'n dweud mwy wrthym am yr hyn sy'n bwysig i unigolion yn eu cyd-destun cymdeithasol, a deall sut maen nhw'n gwneud newid tymor hir i'w bywyd.

Mae strategaeth fusnes y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf yn sefydlu 'diwylliant dysgu, agored' fel un o'r pedair egwyddor a fydd yn strwythuro ein cynlluniau a'n blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol. Bydd y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf yn chwilio'n barhaus am ffyrdd o wella perfformiad ac o ddarparu ein gwasanaethau'n effeithlon ac yn effeithiol, gan gynyddu'r defnydd o dystiolaeth, gwybodaeth a data i wella ein dealltwriaeth o'r hyn sy'n gweithio. Byddwn hefyd yn edrych ar arferion da y tu mewn a'r tu allan i'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf, ac yn dysgu o'n llwyddiannau a'r hyn nad yw wedi gweithio'n dda, gan rannu'r hyn a ddysgwyd ar draws y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf a'n partneriaid. Drwy wneud hynny, rydym yn helpu staff prawf i ddysgu a datblygu ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth, drwy wneud y canlynol:

- darparu dull o ddysgu ar draws y system sy'n cynnwys staff yn y gwaith o ddatblygu a defnyddio tystiolaeth a gwybodaeth yn eu gwaith o ddydd i ddydd, yn ogystal â chefnogi penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth am y gwasanaethau sydd eu hangen i ddiogelu'r cyhoedd ac i leihau aildroseddu
- bydd y rhaglen i ddiwygio'r gweithlu yn ei gwneud yn bosibl i ddatblygu gweithlu sydd â'r sgiliau a'r galluoedd priodol i gyflawni o dan y model unedig newydd, drwy sicrhau mynediad at y cyfleoedd dysgu a datblygu gorau sydd ar gael sy'n seiliedig ar dystiolaeth, er mwyn darparu gwasanaethau'n effeithlon ac yn effeithiol

### Beth yw tystiolaeth, a sut dylem ei defnyddio fel sail ar gyfer ymarfer a phenderfyniadau yn y gwasanaeth prawf?

Nid yw cadw at dystiolaeth yn golygu ymrwymo i fodelau neu theorïau penodol. Mae defnyddio tystiolaeth yn gofyn am ddiwylliant sefydliadol sy'n hybu profi, dysgu a gwella wrth i dystiolaeth newydd ddod i'r amlwg. Bydd y capasiti dysgu drwy systemau rydym yn ei ddatblygu yn y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf yn helpu i flaenoriaethu prosiectau i lenwi bylchau yn ein gwybodaeth ac ategu gwelliant parhaus.

Cyhoeddwyd [crynodeb o dystiolaeth ar leihau] aildroseddu yn 2014, a oedd yn cynnwys tystiolaeth fanwl ar gyfer amrywiaeth o ymyriadau ac anghenion a oedd yn gysylltiedig â throseddu. Mae hyn yn dal yn berthnasol iawn i ddull gweithredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer y maes prawf yn y dyfodol.

Mae'r atodiad yma'n ychwanegu at y crynodeb hwnnw drwy dynnu sylw at dystiolaeth ynghylch ymarfer effeithiol, gan gynnwys rheoli ac asesu risg, sgiliau goruchwylio, cyfiawnder gweithdrefnol, ymyriadau a dulliau gweithredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer ymgysylltu â'r rhai sydd â nodweddion gwarchodedig, elfennau bregus neu anghenion cymhleth penodol. Byddwn yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i staff wrth i ni ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth.

Mae sawl peth yn achosi ymddygiad troseddol. I leihau aildroseddu, mae hynny'n fwy tebygol o gael ei gyflawni drwy gyfuniad o brofiadau, gwasanaethau ac amgylchiadau yn hytrach nag un ymyriad. Mae sgiliau perthnasoedd cryf yn hanfodol er mwyn ymgysylltu'n effeithiol, ond mae sgiliau goruchwylio penodol – gan gynnwys defnyddio technegau ymddygiad gwybyddol, cyfweld cymhellol a 'gogwydd tuag at adsefydlu' – yn gwneud gwahaniaeth i ganlyniadau unigolion.

### Beth yw tystiolaeth gref?

Mae tystiolaeth gref yn ein helpu ni i ddeall beth sy'n effeithiol a beth nad yw'n effeithiol. Mae'n seiliedig ar astudiaethau ymchwil a gwerthuso o ansawdd da, sy'n cael eu hefelychu ar draws gwahanol grwpiau. Er mwyn sicrhau bod rhywbeth yn gweithio, mae angen i werthusiad gynnwys grŵp cymharu cyfatebol i asesu beth fyddai wedi digwydd heb yr ymyriad. Mae hyn yn lleihau'r posibilrwydd mai rhywbeth arall oedd yn gyfrifol am y canlyniadau.

Dylid hefyd ailadrodd gwerthusiadau ar wahanol grwpiau o bobl ac mewn gwahanol gyd-destunau. Gall hyn helpu i ddangos pa mor ddefnyddiol yw'r canfyddiadau, ac a oes modd eu defnyddio gyda gwahanol bobl a lleoliadau. Dylid hefyd ailadrodd gwerthusiadau oherwydd gallai canlyniadau un astudiaeth yn unig fod o ganlyniad i rywbeth sy'n benodol i'r astudiaeth honno, neu rywbeth unigryw am y bobl sy'n cymryd rhan.

Mae cael ffynonellau eraill o wybodaeth a data yn hanfodol er mwyn deall darpariaeth effeithiol yn y maes prawf. Dyma enghreifftiau:

- ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth
- ymgysylltu â staff
- data perfformiad
- gwybodaeth archwilio a sicrwydd
- gwybodaeth a thystiolaeth gan gyrff craffu (ee, [Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi – Academic Insights])

### Tystiolaeth ar gyfer darparu gwasanaethau prawf yn effeithiol

Pwrpas yr adran hon yw amlinellu'r dystiolaeth sy'n sail i ddarparu gwasanaethau prawf yn effeithiol.

### Beth rydym yn ei wybod yn barod

Mae gennym dystiolaeth gadarn am rai ffactorau dynol sy'n bwysig er mwyn deall aildroseddu. Rhaid cydbwyso'r rhain ochr yn ochr â ffactorau amddiffyn sy'n deillio o ymchwil ymatal.

## Ffactorau dynol sy'n gysylltiedig ag aildroseddu

### Mae'r ffactorau hyn yn cael eu derbyn ers tro, ac yn cael eu cymhwyso'n eithaf da gan y gwasanaethau prawf:

- agweddau sy'n cefnogi troseddu
- rhwydweithiau o gyfoedion gwrthgymdeithasol
- byrbwylltra/lefel isel o hunanreolaeth
- diffyg perthnasoedd cadarnhaol/perthnasoedd gwael
- camddefnyddio sylweddau
- diffyg cyflogaeth a chyflogadwyedd
- diffyg llety addas
- gwyriadau rhywiol, diddordeb mawr mewn rhyw ac obsesiwn â rhyw
- credoau sy'n cefnogi troseddau penodol fel trais domestig ac eithafiaeth
- hanes o droseddu
- rhywedd
- oedran

### Mae'r ffactorau hyn yn cael eu derbyn ers tro, ond nid ydynt bob amser yn cael eu cymhwyso'n dda:

- aeddfedrwydd seicogymdeithasol
- anaf i'r ymennydd

### Nid ydym yn gwybod digon am sut mae'r ffactorau hyn yn berthnasol i aildroseddu:

- profiad o ofal
- anawsterau dysgu a chyfathrebu
- sut mae ffactorau'n cyfuno i ddylanwadu ar risg

### Mae'r ffactorau sefyllfaol sy'n gysylltiedig ag aildroseddu yn amlwg ers tro, ond nid ydynt bob amser yn cael eu cymhwyso:

- canfyddiad o anghyfiawnder cymdeithasol, neu ddefnydd anghyfreithlon o awdurdod
- aflonyddwch sifil a thrais a orfodwyd gan ryfel
- tlodi, amddifadedd

**Mae'r ffactorau sefyllfaol sy'n gysylltiedig ag aildroseddu yn amlwg ers tro, ond nid ydynt bob amser yn cael eu cymhwyso:**

- sgiliau ac agwedd y staff
- allgáu cymdeithasol
- cyfleoedd i gael adnoddau gwerthfawr neu foddhad personol o droseddu
- diffyg rheolaeth gymdeithasol effeithiol

Er ei bod yn annhebygol y bydd un ymyriad yn gwneud i unigolyn roi'r gorau i droseddu, mae tystiolaeth bod cyfuniad o ymyriadau effeithiol a sgiliau staff i gymell ac ymgysylltu ag unigolion yn gallu lleihau aildroseddu. Mae angen paru'r rhain hefyd â lefel y risg a achosir gan yr unigolyn.

### Beth sydd ddim yn gweithio

Mae'n bwysig bod yn ymwybodol o dystiolaeth am yr hyn nad yw'n gweithio. Mae'n ymddangos nad yw rhai ymyriadau'n cael unrhyw effaith ar aildroseddu, neu eu bod yn achosi niwed drwy godi cyfraddau aildroseddu'r bobl hynny sy'n cymryd rhan ynddynt, fel yr ymyriadau hynny sydd:

- ddim yn meithrin sgiliau a all helpu pobl i ymddwyn yn wahanol yn y dyfodol (ee, cyrsiau codi ymwybyddiaeth yn unig)
- yn atgyfnerthu'r ffordd mae person yn gweld ei hun fel 'troseddwr', neu ddim yn helpu pobl i greu hunaniaeth rhag-gymdeithasol amgen
- ddim yn targedu'r ffactorau hynny y mae ymchwil yn awgrymu eu bod yn gysylltiedig ag aildroseddu
- yn dibynnu ar ffactorau cymell allanol (fel cosb a/neu ofn) i sicrhau newid, gan fethu cefnogi unigolion i newid eu hagweddau a'u hymrwymiad eu hunain i fywyd heb droseddu
- yn cael eu rhoi ar waith yn wael, oherwydd goruchwyliaeth a hyfforddiant gwael i'r staff, problemau gyda chyllid a chynaliadwyedd, targedau gwael, prosesau gwael ar gyfer sicrhau ansawdd a diffyg gwerthuso priodol

### Dulliau effeithiol o oruchwylio yn y gymuned

Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar sgiliau goruchwylio, ac fe'i dilynir gan adran ar ymyriadau.

Mae sgiliau perthnasoedd cryf yn hanfodol er mwyn ymgysylltu'n effeithiol, ond mae sgiliau goruchwylio penodol – gan gynnwys defnyddio technegau ymddygiad gwybyddol, cyfweld cymhellol a 'gogwydd tuag at adsefydlu' – yn gwneud gwahaniaeth i ganlyniadau unigolion.

Mae sgiliau perthnasoedd yn cynnwys: gwrando, empathi, caredigrwydd, dangos consyrn a pharch, bod yn glir ynghylch rolau a disgwyliadau, bod yn ddibynadwy ac yn gyson, a chyfleu gobaith ynghylch y posibilrwydd o newid. Mae'r rhain yn cyfrannu at ymgysylltu effeithiol, ac yn paratoi'r ffordd ar gyfer sgiliau goruchwylio penodol sydd â'r bwriad o sicrhau newid.

Mae sgiliau goruchwylio wedyn yn canolbwyntio ar helpu'r person i newid. Hynny yw, ni fydd person o reidrwydd yn newid dim ond oherwydd bod ganddynt berthynas â goruchwyliwr. Efallai y bydd angen i'r person ddysgu ffyrdd newydd o feddwl, ymddygiadau newydd a thechnegau datrys problemau.

Mae astudiaethau o'r ffordd y mae ymarferwyr yn ymgysylltu ag unigolion yn dangos bod sgiliau penodol, fel cyfweld cymhellol ac ailstrwythuro gwybyddol, yn gallu hybu'r broses o newid ymddygiad. Mae ymarfer o'r fath yn gofyn am hyfforddiant i'r staff, a diwylliant sefydliadol sy'n sicrhau bod anghenion dysgu ymarferwyr ac unigolion sy'n cael eu goruchwylio yn rhan ganolog o'i strwythurau a'i brosesau.

Mae mwy a mwy o dystiolaeth ryngwladol yn dangos pwysigrwydd 'arferion cywiro craidd' – neu sgiliau goruchwylio effeithiol – er mwyn sicrhau canlyniadau cadarnhaol ac adsefydlu, gan gynnwys diogelu'r cyhoedd, i'r rhai sydd ar drwyddedau a gorchmynion cymunedol.[12]

Mae hyd yn oed y cyswllt cynharaf, fel asesiadau cyn dedfrydu, yn gyfle i gynnwys unigolyn mewn trafodaeth sy'n cefnogi newid. Mae ymyriadau, fel rhaglenni ymddygiad troseddol a gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar gyflogaeth neu lety, yn gweithio'n well pan fydd yr unigolyn yn cael cefnogaeth gan Ymarferydd Prawf sy'n defnyddio sgiliau goruchwylio effeithiol.

[12] Mewn ymateb i hyn, mae'r Gwasanaeth Prawf yn Iwerddon wedi penderfynu cyflwyno Fframwaith Iwerddon ar Oruchwylio Troseddwyr – mae rhagor o fanylion ar gael yma: **https://www.pbni.org.uk/wp-content/uploads/2020/11/IPJ-Vol-17-full-pdf-compressed-002...pdf#page=26**

## Trotter 2013 – Adolygiad systematig o wyth astudiaeth:

- Canfu pob astudiaeth fod cyfraddau aildroseddu'r cleientiaid yn is pan fydd swyddogion prawf yn defnyddio sgiliau ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth
- Roedd y sgiliau perthnasol yn cynnwys atgyfnerthu a modelu rhag-gymdeithasol, datrys problemau a thechnegau ymddygiad gwybyddol.

## Smith et al 2018 – Asesiad Cyflym o'r Dystiolaeth a oedd yn cynnwys 13 astudiaeth:

- Yn gyffredinol, mae goruchwyliaeth yn cael effaith gadarnhaol ar leihau aildroseddu.

## Ffactorau goruchwylio effeithiol ym maes prawf:

- Canolbwyntio ar newid a ffactorau troseddegol yn hytrach na dibynnu'n llwyr ar fonitro a mynd i'r afael â phroblemau a godir gan yr unigolyn.
- Yn seiliedig ar egwyddorion risg, angen ac ymatebolrwydd.
- Cymryd rhan hefyd mewn rhaglenni triniaeth strwythuredig.
- Yn cynnwys perthynas gref a phwrpasol rhwng y goruchwyliwr a'r sawl sy'n cael ei oruchwylio.

- Staff yn fedrus mewn technegau fel cyfweld cymhellol a therapi gwybyddol ymddygiadol.
- Mae staff yn cael hyfforddiant a chefnogaeth yn barhaus.

Mae'r ffactor cyntaf hwn yn seiliedig ar dystiolaeth y bydd canolbwyntio ar ffactorau sy'n gysylltiedig â throseddu yn ystod sesiynau goruchwylio yn fwy effeithiol na delio â materion eraill a godir gan yr unigolyn.

Gall monitro ymddygiad sy'n gysylltiedig â risg fod yn berthnasol i reoli rhai unigolion, ond dylai hyn fod yn gymesur â'r risg a achosir ac yn gytbwys â phwyslais ar ffactorau sy'n gallu newid.

Canfu Bonta ynghyd â chydweithwyr (2011) mai po fwyaf yr oedd Ymarferwyr Prawf yn siarad am ofynion neu amodau'r drwydded neu'r gorchymyn cymunedol, yr uchaf oedd y gyfradd aildroseddu. Daethant i'r casgliad bod rhoi gormod o bwyslais ar amodau'r broses prawf, neu ar rôl orfodi'r Ymarferydd Prawf, yn cael effaith negyddol ar y berthynas ac yn amharu ar gefnogi unigolion drwy ymyriadau sy'n helpu.

**Ffigur 24. Ffactorau troseddegol y bydd gwasanaethau adsefydlu yn rhoi sylw iddynt**

I hybu adsefydlu a lleihau risg, mae angen rhoi pwyslais ar ffactorau troseddegol. Mae hyn yn golygu galluogi pobl i symud ymlaen o'r canlynol....

- **Byrbwylltra** i feddwl am ganlyniadau, gan ystyried safbwyntiau pobl eraill a rheoli emosiynau cryf
- **Agweddau sy'n cefnogi troseddau i hunaniaeth nad yw'n droseddol** y mae pobl eraill yn bwysig iddo ac sy'n teimlo'n optimistaidd am fywyd heb droseddu
- **Defnyddio cyffuriau mewn ffordd broblemus** i ddefnyddio mewn ffordd ddiogel neu sobrwydd
- **Goryfed mewn pyliau** i yfed yn gall neu sobrwydd
- **Dyledion** i sgiliau rheoli arian
- **Digartrefedd** i fod â llety addas a'i gadw
- **Rhwydweithiau cymdeithasol troseddol** i gael ffrindiau a grwpiau cymdeithasol nad ydynt yn ymwneud â throseddau
- **Perthynas wael â'r teulu** i berthynas gynnes, gefnogol a llawn gofal gyda'r teulu
- **Diffyg gwaith** i fwy o gyflogadwyedd a chyflawni cyflogaeth foddhaol
- **Defnyddio amser hamdden mewn ffordd wael** i gael boddhad o weithgareddau hamdden nad ydynt yn ymwneud â throseddu

Drwy ganolbwyntio ar newid yn hytrach na monitro ymddygiad, gall ymarferwyr ddefnyddio tystiolaeth am ymatal.

Mae ymatal yn golygu sut mae pobl sydd â phatrwm blaenorol o droseddu yn peidio â throseddu. Mae helpu rhywun i ymatal rhag cyflawni troseddau yn golygu credu ynddynt a chyfleu ymdeimlad o obaith am eu dyfodol, a sut gallant fyw bywyd heb droseddu. Mae ymatal yn broses, ac mae amgylchiadau rhywun, y ffordd mae'n meddwl, a'r hyn sy'n bwysig iddo yn dylanwadu ar hynny. Mae'n debygol y bydd pethau'n mynd o'i le ar y cychwyn.

Mae hybu amrywiaeth o ffactorau amddiffyn, a defnyddio dull gweithredu sy'n seiliedig ar gryfderau, yn rhan o'r broses oruchwylio. Er enghraifft, mae teulu cryf a chefnogol a pherthnasoedd agos yn gallu helpu unigolion ar eu taith ymatal. Mae carcharorion sy'n cael ymweliadau gan y teulu yn llai tebygol o aildroseddu na'r rhai nad ydynt yn cael ymweliadau gan y teulu. Maen nhw hefyd yn fwy tebygol o gael gwaith, hyfforddiant a llety ar ôl cael eu rhyddhau. Mae gweithio gydag unigolion a'u teuluoedd i ddatblygu perthynas fwy cadarnhaol yn enghraifft o hybu ffactorau amddiffyn.

### Sut mae hyn yn berthnasol yn y model prawf ar gyfer y dyfodol:

Wrth gomisiynu gwasanaethau yn y maes prawf, byddwn yn defnyddio tystiolaeth am yr hyn sy'n gweithio, a beth nad yw'n gweithio, neu beth sy'n niweidiol. Yn y model yn y dyfodol, byddwn yn comisiynu ymyriadau adsefydlu ac ailsefydlu i fynd i'r afael ag anghenion y rheini sydd ar gyfnod prawf sydd naill ai'n amharu ar y daith i roi'r gorau i droseddu, neu y mae angen rhoi sylw iddynt er mwyn gallu rhoi'r sefydlogrwydd angenrheidiol i ganolbwyntio ar ffactorau sy'n ymwneud â throseddu, a elwir hefyd yn anghenion troseddegol. Bydd yn rhaid i ddarparwyr ddangos sut mae gwasanaethau perthnasol yn seiliedig ar yr egwyddorion sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer ymyriadau effeithiol.

Byddwn hefyd yn chwilio am dystiolaeth o sut mae'r ymyriadau hyn yn cael eu teilwra i ddiwallu anghenion unigolion ar frys, ac yn ymateb i nodweddion amrywiaeth o grwpiau, gan gynnwys oedolion ifanc a phobl sydd ag anableddau dysgu a heriau dysgu.

Bydd capasiti dysgu drwy systemau cyfan y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf yn helpu comisiynwyr prawf i wneud dewisiadau sy'n seiliedig ar ddata a thystiolaeth.

### Yn seiliedig ar egwyddorion risg, angen ac ymatebolrwydd

Mae'r broses o ddewis yr ymyriadau priodol i gefnogi rhywun sy'n cael ei oruchwylio gan y gwasanaeth prawf i helpu i leihau'r tebygolrwydd o aildroseddu, neu niwed difrifol, yn seiliedig ar egwyddorion risg, angen ac ymatebolrwydd.

Mae'r egwyddorion risg, angen ac ymatebolrwydd yn cael eu derbyn yn gyffredinol, ac maen nhw'n seiliedig ar dystiolaeth ac yn sail i'n dull adsefydlu. Maen nhw'n ein helpu ni i ganolbwyntio ar yr hyn sy'n berthnasol i ymddygiad troseddol unigolyn er mwyn diogelu'r cyhoedd a lleihau aildroseddu:

- Mae risg yn ymwneud â phwy i'w targedu, ar sail eu tebygolrwydd o aildroseddu. Mae hyn yn bwysig oherwydd dylai ymyriadau gyfateb i'r tebygolrwydd o aildroseddu a/neu'r risg o niwed difrifol.
- Mae angen yn ymwneud â beth dylid ei wneud, a pha rai o ffactorau'r unigolyn sy'n gysylltiedig â throseddu y dylem roi sylw iddynt er mwyn lleihau aildroseddu.

- Mae ymatebolrwydd yn ymwneud â sut dylem weithio gydag unigolyn gan ddefnyddio'r ffyrdd mwyaf effeithiol o leihau aildroseddu. Mae'r sgiliau goruchwylio a ddisgrifir uchod yn un elfen o ymatebolrwydd. Mae ymatebolrwydd hefyd yn ymwneud ag addasu dulliau gweithredu er mwyn ymateb i amgylchiadau, galluoedd a chryfderau unigol pobl.

Dangosodd Drake (2011) fod cyfraddau aildroseddu yn gostwng (tua 10%) os oedd unigolion yn derbyn triniaeth wrth gael eu goruchwylio, gyda mwy o ostyngiad yn gysylltiedig â mwy o gyswllt wyneb yn wyneb. Roedd y cyfraddau aildroseddu yn gostwng ymhellach (16%) os oedd yr oruchwyliaeth yn rhoi'r egwyddorion risg, angen ac ymatebolrwydd ar waith.

### Asesu

Mae asesu risg ac anghenion unigolyn yn gywir, a deall sut i ymateb i'w nodweddion unigol, yn helpu i dargedu ymyriadau yn y ffordd fwyaf effeithiol. Mae hyn yn ddull gweithredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth er mwyn gallu diogelu'r cyhoedd, lleihau aildroseddu a hybu defnydd cymesur o adnoddau.

Mae'r egwyddorion risg, angen ac ymatebolrwydd yn helpu ymarferwyr i asesu faint o oruchwyliaeth a'r mathau o ymyriadau sy'n gymesur â'r tebygolrwydd y bydd yr unigolyn yn aildroseddu, a'r risg o niwed difrifol. Dylid canolbwyntio ymdrech adsefydlu ddwys ar y rhai hynny sy'n fwy tebygol o aildroseddu.

Ar gyfer y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf, mae Safonau Asesu Troseddwyr ar hyn o bryd yn darparu fframwaith asesu strwythuredig a safonedig ar draws yr anghenion craidd sy'n gysylltiedig â throseddu. Y ffordd fwyaf effeithiol a chyson o asesu unigolion yw defnyddio adnodd wedi'i safoni a'i ddilysu i asesu risg, ac sy'n integreiddio dyfarniadau actwaraidd a barn broffesiynol. Mewn Systemau Asesu Troseddwyr, mae hyn yn golygu defnyddio adnoddau rhagfynegi sydd wedi'u dilysu, fel OGRS3, a'r adnoddau ar gyfer risg o aildroseddu difrifol, ochr yn ochr â barn broffesiynol strwythuredig sy'n seiliedig ar ddealltwriaeth o natur y risg o niwed difrifol, sut i reoli'r risg a'i lleihau.

Mewn adroddiadau cyn dedfrydu, yn barod i gynghori'r llys ar gynigion dedfrydu addas, mae defnyddio adnoddau asesu yn galluogi ymarferwyr i ddangos tystiolaeth o'u hasesiad mewn ffordd decach a mwy cyson.

Mae hyn yn arwain at gynigion dedfrydu a fydd yn rhoi sylw i anghenion a nodwyd ac yn lleihau'r risg o aildroseddu. Mae'r Fframwaith Cynigion Effeithiol yn galluogi'r maes prawf i helpu i wneud argymhellion mwy cyson i'r llysoedd.

## Sut mae hyn yn berthnasol yn y model prawf ar gyfer y dyfodol:

### Cydraddoldeb, cymesuredd a mynediad cyfartal at wasanaethau

Mae'r model prawf ar gyfer y dyfodol yn hybu cysondeb ac effeithiolrwydd yn y ffordd mae staff yn asesu ac yn cynllunio ymyriadau ar gyfer y rhai sydd ar gyfnod prawf. Bydd hyn yn gwella'r ddarpariaeth i unigolion agored i niwed, gan gynnwys y rhai sydd â llawer o anghenion ac anghenion cymhleth, y rhai sydd mewn perygl o fod yn ddigartref, ac unigolion a allai wynebu anfantais neu wahaniaethu ar sail nodweddion gwarchodedig.

Mae Atodiad A, Rhan Dau yn cynnwys rhagor o wybodaeth am ddulliau gweithredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer gweithio gydag unigolion sydd â nodweddion gwarchodedig.

### Y Panel Ymyriadau Effeithiol

Bydd Panel Ymyriadau Effeithiol cenedlaethol yn cael ei sefydlu i roi sicrwydd bod Ymyriadau Strwythuredig yn cael eu cynllunio a'u darparu yn unol ag egwyddorion sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer ymyriadau effeithiol.

### Cymhelliant a pharodrwydd i newid

Mae'r cyswllt cyntaf rhwng yr Ymarferydd Prawf a'r unigolyn sy'n cael ei asesu hefyd yn gosod y naws ar gyfer y ffordd mae'r unigolyn yn gweld y gwasanaeth prawf, ac yn effeithio ar ei barodrwydd i ymgysylltu. Mae defnyddio sgiliau goruchwylio, fel cyfweld cymhellol a thechnegau ymddygiad gwybyddol yn ystod sesiynau asesu, yn helpu i baratoi unigolyn ar gyfer newid.

Bydd unigolion yn aml yn cymryd cam yn ôl yn ystod y broses adsefydlu, a bydd angen ailasesu ac ailwerthuso blaenoriaethau a'r gweithgareddau a ddewisir yn dilyn hynny. Bydd angen i benderfyniadau ynghylch y math iawn o weithgaredd adsefydlu ar yr adeg iawn gael eu gwneud fesul achos, gyda chymorth yr egwyddorion risg, angen ac ymatebolrwydd.

### Cyfiawnder gweithdrefnol yn y cam asesu

Mae ymchwil yn dangos effaith gadarnhaol cyfiawnder gweithdrefnol yn y carchar ac mewn lleoliadau prawf. Mae hyn yn dangos pam mae angen i bobl yn y carchar ac ar gyfnod prawf gael eu trin mewn ffordd sy'n gyfiawn yn weithdrefnol gan y rhai sydd mewn awdurdod.

Mae cyfiawnder gweithdrefnol yn dechrau gyda'r cyswllt cyntaf rhwng y gwasanaeth prawf a'r unigolyn. Mae'n golygu i ba raddau mae rhywun yn ystyried bod pobl mewn awdurdod yn defnyddio prosesau neu'n gwneud penderfyniadau amdanynt mewn ffordd deg a chyfiawn. Yn ôl theori cyfiawnder gweithdrefnol, os yw pobl yn teimlo eu bod yn cael eu trin mewn ffordd sy'n gyfiawn yn weithdrefnol, maen nhw'n gweld pobl mewn awdurdod yn fwy teg ac yn eu parchu'n fwy. Maen nhw'n fwy tebygol o gydymffurfio â phenderfyniadau'r bobl mewn awdurdod. Mae hyn yn wir hyd yn oed os yw canlyniad y penderfyniad neu'r broses yn anffafriol neu'n anghyfleus, ac mae hynny'n berthnasol wrth egluro asesiadau risg a chynlluniau rheoli risg fel rhan o weithgareddau diogelu'r cyhoedd.

> Mae Maguire a Raynor (2015) yn pwysleisio'r angen i helpu gydag anghenion sylfaenol brys yn gyntaf, ac yna i ymgysylltu cymaint â phosibl a gosod nodau ar y cyd cyn cyflwyno ymyriadau.
>
> Mae hyn yn berthnasol i adsefydlu yn ogystal â chynlluniau rheoli risg sydd â'r nod o leihau'r risg o niwed difrifol er mwyn diogelu'r cyhoedd. Yn y ddwy sefyllfa, mae'n bwysig bod yr unigolyn yn teimlo ei fod yn gwneud cynnydd, a bod ei gynnydd yn cael ei gydnabod.

### Ffigur 25: Y pedair egwyddor allweddol ar gyfer cyfiawnder gweithdrefnol sy'n berthnasol yn ystod pob cyswllt ag unigolion sy'n ymwneud â'r gwasanaethau prawf

**Llais**
Gallu cyflwyno eu hochr nhw o'r stori a bod y ffigur mewn awdurdod yn ystyried hyn yn gywir.

**Niwtraliaeth**
Defnyddio'r rheolau mewn ffordd dryloyw, agored a chyson. Gwneud penderfyniadau egwyddorol mewn ffordd niwtral.

**Parch**
Cymryd materion o ddifri, bod yn gwrtais a pharchu hawliau.

**Cymhellion dibynadwy**
Didwylledd a gofal. Bod yn agored ac yn onest a gwneud y gorau i bawb.

## Cyfiawnder gweithdrefnol, rheoli risg a diogelu'r cyhoedd

Mae diogelu'r cyhoedd a goruchwyliaeth effeithiol yn mynd law yn llaw. Mae adsefydlu hyd yn oed yn bosibl wrth wneud penderfyniadau i ddiogelu'r cyhoedd. Mae Manchak et al (2014) yn nodi pwysigrwydd integreiddio cyfiawnder gweithdrefnol mewn goruchwyliaeth gymunedol. Mae ymarferwyr sy'n cydbwyso eu rolau rheoli achosion a gorfodi yn cael canlyniadau gwell gydag unigolion (ee Paparozzi a Grendreau 2005).

> Pan oedd goruchwyliaeth ddwys yn cael ei chyfuno ag ymyriadau adsefydlu, canfu Paparozzi a Gendreau (2005) ei bod yn gostwng cyfraddau diddymu parôl o 48% i 19%, a oedd rhwng 10% ac 20% yn llai nag ar gyfer y grŵp a oedd yn cael goruchwyliaeth draddodiadol yn unig.

## Galw'n ôl i'r carchar

Mae pobl sydd wedi cael dedfryd benodol yn cael eu galw'n ôl os yw eu hymddygiad yn awgrymu bod eu risg o droseddu eto wedi cynyddu, ac na ellir rheoli'r risg honno'n ddiogel yn y gymuned. Mae carcharorion sy'n cael eu galw'n ôl yn fwy tebygol o gael ail-euogfarn am drosedd dreisgar, rywiol, ddifrifol neu unrhyw drosedd, yn fwy tebygol o gael eu hasesu fel rhai sydd â risg uchel o niwed difrifol, ac yn agored i niwed. Mae'r profiad o alw'n ôl yn un negyddol ar y cyfan, ond mae carcharorion sy'n cael eu galw'n ôl yn tueddu i fod eisiau dyfodol gwahanol, ac i fod wedi'u cymell i sicrhau hynny. Gallai cydnabod, atgyfnerthu a chefnogi hyn wella natur adsefydlu y broses galw'n ôl. Er enghraifft, gallai creu cynllun dedfrydu newydd helpu'r unigolyn i ddeall yr hyn a ddisgwylir ganddo, ac i osgoi cael ei alw'n ôl yn y dyfodol.

### Cymryd rhan hefyd mewn rhaglenni triniaeth strwythuredig

Gwyddom fod goruchwyliaeth gydag ymarferydd medrus cyn, yn ystod ac ar ôl ymyriadau a rhaglenni adsefydlu yn helpu i gael y manteision gorau o'r driniaeth.

> I gynyddu'r siawns o lwyddo, dywedodd Duwe (2017) y dylai ymyriadau fod yn rhan o ddull **holistaidd** sy'n cynnwys goruchwyliaeth dda a chymorth gyda materion ymarferol fel tai neu gyflogaeth (Raynor a Maguire, 2016). Bydd goruchwyliaeth gan ymarferydd medrus yn helpu'r person i ymarfer, gwreiddio a chynnal y sgiliau y mae wedi'u dysgu yn sgil yr ymyriad. Yn yr un modd, mae ymchwil yn dangos fod pobl yn fwy tebygol o fanteisio ar gyfleoedd "ailsefydlu" newydd, fel dod o hyd i swydd neu gadw tenantiaeth, os ydyn nhw wedi mynd i'r afael yn gyntaf â'u hymddygiad troseddol, eu ffordd o feddwl a'u hagweddau.

### Ymyriadau a rhaglenni ymddygiad troseddol

Nod y gwasanaethau hyn yw helpu unigolion i newid eu ffordd o feddwl, eu hagweddau a'u hymddygiad a allai eu harwain i aildroseddu. Mae rhaglenni'n annog agweddau rhag-gymdeithasol a nodau ar gyfer y dyfodol, a'u pwrpas yw helpu pobl i ddatblygu sgiliau newydd er mwyn rhoi'r gorau i droseddu. Mae rhaglenni'n aml yn defnyddio technegau ymddygiad gwybyddol. Ceir tystiolaeth ryngwladol dda fod y rhain yn effeithiol dros ben wrth leihau aildroseddu.

Mae tystiolaeth yn dangos bod ansawdd dyluniad rhaglenni a'r broses o'u darparu yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i'r canlyniadau. Mae'r rhaglenni yn fwyaf effeithiol pan fyddant yn cael eu targedu'n briodol a'u darparu mewn diwylliant prawf neu garchar sy'n cefnogi'r broses adsefydlu a datblygu staff, ac yn cael eu darparu gan staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol. Dylid sicrhau ansawdd y gweithgareddau hefyd. Mae rhaglenni hefyd yn fwy tebygol o weithio os ydyn nhw'n cael eu cynnig fel rhan o becyn o weithgareddau a chymorth adsefydlu, sy'n cynnwys goruchwyliaeth gan ymarferydd medrus, a chymorth gyda materion ymarferol fel dod o hyd i swydd neu lety.

Mae rhaglenni neu ymyriadau effeithiol yn cynnwys nodweddion cyffredin sy'n lleihau aildroseddu. Rydym wedi troi'r rhain yn egwyddorion sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer ymyriadau, fel hyn:

- mae'r canlyniad a fwriedir yn dilyn y gweithgaredd yn cyd-fynd â'r dystiolaeth am yr hyn sy'n gweithio i leihau aildroseddu, i hybu ymatal ac i ddiogelu'r cyhoedd
- mae rhesymeg gredadwy dros sut bydd y gweithgaredd yn gweithio, pam ac i bwy
- dylai'r gweithgaredd fod â strwythur sy'n caniatáu iddo gael ei ddyblygu
- mae proses ddethol er mwyn i'r gweithgaredd dargedu'r unigolion priodol
- dylai dyluniad y gweithgaredd sicrhau bod gan unigolion sgiliau defnyddiol, gan geisio gofalu na fydd neb o dan anfantais nac yn cael ei niweidio
- bydd ansawdd y gweithgaredd yn cael ei sicrhau, er mwyn gwneud yn siŵr ei fod yn cael ei ddarparu fel y cafodd ei gynllunio

- mae dyluniad y gweithgaredd yn dangos ymrwymiad i ymchwil a gwerthuso, a ddangosir drwy gael proses glir, systematig a hwylus ar gyfer monitro canlyniadau. Dylai hyn gynnwys tystiolaeth ynghylch a yw'r manteision a fwriadwyd yn digwydd, ac a yw anfanteision a niwed yn cael eu hosgoi.

Bydd yr egwyddorion hyn yn cael eu defnyddio gan baneli ymyriadau effeithiol yn y model prawf ar gyfer y dyfodol.

Ar gyfer y rhaglenni hynny sy'n ceisio cael eu hachredu, mae'r Panel Cynghori ac Achredu Gwasanaethau Cywirol yn defnyddio meini prawf achredu. Mae achredu rhaglenni'n rhoi'r lefel uchaf o hyder i ni eu bod wedi cael eu dylunio, eu darparu a'u gwerthuso'n dda.

### Meini prawf achredu

Mae rhaglenni ac ymyriadau o ansawdd uchel:

- yn seiliedig ar dystiolaeth a/neu â rhesymeg gredadwy dros leihau aildroseddu neu hybu ymatal
- yn rhoi sylw i ffactorau sy'n berthnasol i aildroseddu ac ymatal
- yn targedu unigolion priodol
- yn datblygu sgiliau newydd (yn hytrach na dim ond codi ymwybyddiaeth)
- yn cymell, ennyn diddordeb a chadw'r rhai sy'n cymryd rhan
- yn cael eu darparu yn unol â'r bwriad gan staff sydd â sgiliau priodol, ac mae eu hansawdd wedi'i sicrhau
- yn cael eu gwerthuso

Mae defnyddio'r egwyddorion risg, anghenion ac ymatebolrwydd i helpu i dargedu'r rhaglenni iawn ar gyfer y bobl iawn yn golygu bod lefel y gefnogaeth a ddarperir gan raglen yn cyfateb i'r tebygolrwydd y bydd yr unigolyn yn aildroseddu.

Dylai rhaglenni ymdrin â'r elfennau y mae angen i unigolyn roi sylw iddynt er mwyn rhoi'r gorau i droseddu, er enghraifft, bod yn fyrbwyll neu fod â diffyg sgiliau o ran perthnasoedd. Dylid addasu'r dull gweithredu er mwyn ymateb i amgylchiadau, galluoedd a chryfderau unigol pobl, gan gynnwys defnyddio rhaglenni'n benodol ar gyfer pobl â heriau ac anableddau dysgu.

### Yn cynnwys perthynas gref ac ystyrlon rhwng y goruchwyliwr a'r sawl sy'n cael ei oruchwylio

Nid proses a wneir i unigolyn sy'n cael ei oruchwylio yw goruchwyliaeth. Mae'n fwy cymhleth, a bydd natur y berthynas rhwng yr ymarferydd a'r unigolyn sy'n cael ei oruchwylio yn effeithio ar y profiad. Mae ymarfer prawf effeithiol hefyd yn cydnabod y ffactorau sefyllfaol a'r amgylchiadau sy'n berthnasol i droseddu, na ellir eu newid drwy ganolbwyntio dim ond ar yr unigolyn. Mae'r rhain yn cynnwys canfyddiadau o gyfiawnder a phrofiadau o dlodi neu amddifadedd.

- Rhoi sylw i rwystrau ymarferol rhag ymatal, gan ddarparu gwybodaeth a mynediad at adnoddau lleol.
- Teilwra gwasanaethau ac ymyriadau yn unol ag anghenion a galluoedd yr unigolyn, gan edrych ar faterion megis cymhelliant, hunanhyder a chyfalaf cymdeithasol.

Canfu Chamberlain ynghyd â chydweithwyr (2013) fod y cyfraddau aildroseddu yn uwch ymysg unigolion sydd â pherthynas negyddol ag aelod o staff.

Mewn astudiaeth fach, daeth Leibrich (1993) i'r casgliad fod ansawdd y berthynas oruchwylio yn hollbwysig o ran helpu i ymatal, gyda goruchwylwyr a'r rhai sy'n ceisio ymatal yn cytuno ar y ffactorau sy'n galluogi perthynas gadarnhaol:

- Poeni o ddifri.
- Egluro'r disgwyliadau'n glir.
- Lefel o ymddiriedaeth.

Canfu Shapland (2012) fod y gwasanaeth prawf yn fwy effeithiol pan fydd staff yn meithrin perthnasoedd gwirioneddol ddilys a therapiwtig sy'n canolbwyntio ar ofal proffesiynol, ymatal a chynllunio ar gyfer y dyfodol yn hytrach na chanolbwyntio ar fonitro a goruchwylio.

Lluniodd Shapland ynghyd â chydweithwyr (2012) grynodeb o'r ffactorau sy'n bwysig er mwyn cael profiadau da yng nghyswllt goruchwylio. Mae hefyd yn bwysig dweud y gallai'r gwrthwyneb nid yn unig fod yn niwtral, gallai hefyd fod yn niweidiol o ran ymatal.

- Meithrin perthnasoedd gwirioneddol ddilys a therapiwtig sy'n canolbwyntio ar ofal proffesiynol am y person sy'n cael ei oruchwylio, ei broses ymatal a'i ddyfodol.
- Gwrando'n astud ar bobl a'u hannog i nodi eu hanghenion ac i osod nodau ar gyfer goruchwyliaeth – seilio hyn ar ddeinameg therapiwtig sy'n annog trafodaethau agored a datrys problemau.
- Canolbwyntio ar ymatal, a deall sut mae pobl yn llithro'n ôl er mwyn eu hatal rhag gwneud hynny.

Canfu Chadwick et al (2015) fod y swyddogion hynny a oedd wedi cael eu hyfforddi ac yn defnyddio arferion cywiro craidd wedi llwyddo i ostwng y cyfraddau aildroseddu llawer mwy na'r rhai nad oeddent.

Canfu Labrecque et al (2015) gysylltiad rhwng technegau Cyfweld Cymhellol a Therapi Gwybyddol Ymddygiadol a chyfraddau aildroseddu.

Canfu Raynor et al (2014) fod cyfraddau ail-euogfarn yn sylweddol is ymhlith y rhai sy'n cael eu goruchwylio gan ymarferwyr prawf a ddefnyddiodd fwy o sgiliau o restr wirio, gan gynnwys y ffordd o gyflwyno'r cyfweliad, cyfathrebu heb ddefnyddio geiriau, cyfathrebu ar lafar, defnydd effeithiol/teg o awdurdod, cyfweld cymhellol, modelu rhag-gymdeithasol, datrys problemau ac ailstrwythuro gwybyddol.

Canfu Trotter (2013) fod cyfraddau aildroseddu unigolion yn is pan oedd y swyddogion prawf yn defnyddio sgiliau ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

### Staff yn fedrus mewn technegau fel cyfweld cymhellol a therapi gwybyddol ymddygiadol

Mae'r dystiolaeth o bwysigrwydd sgiliau'r staff yn fwy cadarn nag unrhyw ffactor arall.

## Sut mae hyn yn berthnasol yn y model prawf ar gyfer y dyfodol:

### Dulliau goruchwylio yn y gymuned

Rydym wedi dysgu o ddulliau rhyngwladol o oruchwylio effeithiol er mwyn datblygu'r dull gweithredu yng Nghymru a Lloegr. Mae gwerthusiadau o ganlyniadau dulliau rhyngwladol o feithrin sgiliau goruchwylio effeithiol wedi dynodi egwyddorion craidd sy'n dylanwadu ar eu heffeithiolrwydd. Darllenwch Atodiad A, Rhan Tri, i weld enghreifftiau o ddulliau rhyngwladol, gan gynnwys hyfforddiant staff ar leihau achosion o ail-arestio, goruchwyliaeth gymunedol ragweithiol, a'r cynllun hyfforddiant strategol ar gyfer goruchwylio yn y gymuned.

### Sgiliau ar gyfer ymgysylltu a datblygu effeithiol (SEED)

Yng Nghymru a Lloegr, mae'r egwyddorion ar gyfer goruchwyliaeth effeithiol wedi cael eu rhoi ar waith drwy SEED er mwyn datblygu sgiliau ymarferwyr ar gyfer ymgysylltu effeithiol, drwy hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus gyda'r disgwyliad y byddai'n lleihau aildroseddu.

**Elfennau SEED:**

- meithrin perthynas
- strwythuro sesiynau
- defnyddio egwyddorion risg, angen ac ymatebolrwydd
- cyfweld cymhellol
- technegau ymddygiad gwybyddol
- modelu rhag-gymdeithasol

Mae'r model yn cynnwys hyfforddiant craidd, wedi'i ddilyn gan hyfforddiant dilynol chwarterol y mae timau o ymarferwyr yn ei fynychu gyda'u tîm, a datblygiad proffesiynol parhaus i gefnogi dysgu.

Nod y model yw newid y diwylliant er mwyn galluogi ymarfer proffesiynol a phwyslais ar ganlyniadau o ansawdd uchel. Erbyn hyn mae SEED wedi cael ei ddwyn ynghyd â model peilot ar gyfer goruchwyliaeth fyfyriol i gynhyrchu'r sgiliau ar gyfer model ymgysylltu, datblygu a goruchwylio effeithiol (SEEDS) (edrychwch ar ffactor 6 isod).

### Gwaith Di-dâl

Mae sgiliau goruchwylwyr Gwaith Di-dâl yn hanfodol i helpu unigolion i fyw eu bywyd mewn ffordd sy'n parchu'r gyfraith.

Mae'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf yn cydnabod pwysigrwydd sgiliau craidd i staff Gwaith Di-dâl er mwyn eu galluogi i ymgysylltu'n dda ag unigolion sy'n gwneud Gwaith Di-dâl. Mae hyn yn eu helpu i gymell cydymffurfiaeth â gorchmynion ac i ddefnyddio sgiliau fel modelu rhag-gymdeithasol a thechnegau datrys problemau i ddatblygu sgiliau bywyd. Byddwn yn parhau i ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth i gefnogi ymarfer effeithiol ar gyfer Gwaith Di-dâl.

### Hyfforddiant a chefnogaeth barhaus i'r staff

Mae angen i ymarferwyr gael eu cefnogi gan ddiwylliant, rheolaeth a strwythurau i'w helpu i wneud eu gwaith yn dda.

Bydd y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf yn helpu ei ganghennau gweithredol, gan gynnwys y gwasanaeth prawf a'i bartneriaid, i ddatblygu diwylliant o ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Bydd hyn yn cynnwys mynediad at ddata, tystiolaeth a gwybodaeth o safon uchel, a bydd yn cyd-fynd â diwylliant sy'n gwerthfawrogi cyfraniad staff a defnyddwyr gwasanaeth i ddatblygu ein gwybodaeth ni drwy eu profiad a'u gallu nhw.

## Sut mae hyn yn berthnasol i'r model prawf ar gyfer y dyfodol:

### SEEDs2

Datblygwyd SEEDs2 yn dilyn y gwersi a ddysgwyd wrth weithredu SEED, ac mae'n seiliedig ar ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn rhoi pwyslais ar bolisi, ac ar ofynion i staff prawf ddilyn hyfforddiant. Bydd y dull hwn yn parhau yn y model prawf ar gyfer y dyfodol fel un o elfennau craidd proffesiynoli. Mae tair elfen i'r dull hwn:

- Fframwaith cyfarfodydd goruchwylio a rheoli llinell.

  Mae'r fframwaith hwn ar waith yn y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol ers mis Ebrill 2019 i sicrhau bod staff yn cael eu goruchwylio'n rheolaidd, gan gynnwys arsylwi ymarfer a thrafodaethau am oruchwylio ymarfer. Mae hyn yn helpu staff i bwyso a mesur eu gwaith er mwyn ysgogi eu datblygiad a'u dysgu eu hunain.

- Hyfforddiant Rhan Un SEEDs2 i reolwyr.

  Mae'r hyfforddiant hwn yn cefnogi'r fframwaith cyfarfodydd goruchwylio a rheoli llinell.

- Hyfforddiant Rhan Dau SEEDs2 i ymarferwyr.

  Mae hyn yn adeiladu ar elfennau SEED gyda chynnwys ychwanegol fel cyfiawnder gweithdrefnol a llafur emosiynol.

## Ymgysylltu ag unigolion sy'n cael eu goruchwylio

Mae'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf yn defnyddio ystod o ddata a thystiolaeth y mae angen eu rhoi ar waith mewn cyd-destun. Mae ymgynghori ac ymgysylltu ag unigolion sy'n ymwneud â'r gwasanaethau prawf yn elfen hollbwysig o'r cyd-destun hwn. Ceir cydnabyddiaeth a thystiolaeth eang hefyd fod cynnwys pobl sydd â phrofiad o wasanaethau yn gallu helpu darparwyr i wella eu darpariaeth.

Mae corff cynyddol o dystiolaeth yn cysylltu ymgysylltu (gyda defnyddwyr gwasanaeth) ag ymatal ac adferiad, gan ddangos bod cymryd rhan yn gallu cael effaith gadarnhaol ar lwyddiant proses adsefydlu yr unigolyn ei hun. Disgwylir i ddarparwyr ymgysylltu'n systematig ac yn ystyrlon â'r unigolion y maen nhw'n datblygu ac yn darparu gwasanaethau ar eu cyfer.

Mae'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf wedi datblygu safonau rhagoriaeth yn ddiweddar ym maes cynnwys defnyddwyr gwasanaeth, drwy ymgynghori â dros 200 o unigolion (edrychwch ar Atodiad A, Rhan Pedwar). Mae'r safonau'n seiliedig ar safonau rhagoriaeth mewn gwasanaethau cwsmeriaid yn y Deyrnas Unedig, ac maen nhw'n cyd-fynd ag agweddau allweddol ar y model rhagoriaeth cydnabyddedig, yn ogystal â disgwyliadau Arolygiaeth Prawf EM ac Arolygiaeth Charchardai EM.

Mae'r safonau'n gosod disgwyliadau cyson a chenedlaethol ar draws carchardai a'r maes prawf, er mwyn sbarduno gwelliannau a helpu i rannu arferion da. Drwy fabwysiadu a defnyddio'r safonau hyn, mae darparwyr yn dangos eu hymrwymiad i ymgysylltu ac ymgynghori ag unigolion sy'n ymwneud â'r gwasanaethau prawf, fel un o nodweddion allweddol eu diwylliant adsefydlu.

Mae holl is-adrannau'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol wedi mabwysiadu'r safonau ac yn cynnal hunanasesiadau sy'n caniatáu i ddarparwyr amlinellu arferion cyfredol a thynnu sylw at gynlluniau. Mae pecyn adnoddau hefyd yn cael ei ddatblygu, a fydd yn cynnwys enghreifftiau o arferion da, rhestrau gwirio a chanllawiau. Bydd hwn ar gael yn gynnar yn 2020.

### Cyfeiriadau a darllen pellach

Bonta, J.; Bourgon, G.; Rugge, T.; Scott, T-L.; Yessine, A. K.; Gutierrez, L.; & Li, J. (2011). An Experimental Demonstration of Training Probation Officers in Evidence-Based Community Supervision. Criminal Justice & Behavior, 38, 1127-1148.

Chadwick, N.; Dewolf, A. & Serin, R. (2015). Effectively training community supervision officers: A meta-analytic review of the impact on offender outcome. Criminal Justice & Behavior, 42, 977-989.

Chadwick, N.; Serin, R. C.; & Lloyd, C. D. (2019). Examining community supervision officers' skills and behaviors: A review of strategies for identifying the inner-workings of face-to-face supervision sessions. Yn P. Ugwudike; P. Raynor; F. Taxman; C. Trotter;

H. Graham; & F. McNeil (Ed) The Routledge Companion to Rehabilitative Work in Criminal Justice (pp. 274-287). Oxon: Routledge.

Dowden, C., & Andrews, D. A. (2004). The importance of staff practice in delivering effective correctional treatment: A meta-analytic review of core correctional practice. International Journal of Offender Therapy and Comparative Criminology, 48, 203-214.

Drake, E. K. (2011). "What Works" in community supervision: Interim report. Olympia: Washington State Institute for Public Policy.

Duwe, D. (2017) The Use and Impact of Correctional Programming for Inmates on Pre- and Post-Release Outcomes. U.S. Department of Justice Office of Justice Programs National Institute of Justice NCJ 250456

Leibrich, J. (1993). Straight to the point: angles on giving up crime. Dunedin: University of Otago Press.

Lovins, B.; Cullen, F. T.; Latessa, E. J.; Jonson, C. L.; & Lero, C. (2018). Probation Officer as a coach: Building a new professional identity. Federal Probation, 82, 13-19.

Maguire, M., Grubin, D., Losel, F., Raynor, P. (2010) What Works' and the Correctional Services Accreditation Panel: Taking stock from an inside perspective. In Criminology and Criminal Justice Volume: 10 issue: 1, page(s): 37-58

Maguire, M. & Raynor, P. (2016). Offender management in and after prison: The end of 'end to end'? Criminology and Criminal Justice, 17, 138-157.

Manchak, S. M.; Kennealy, P. J.; & Skeem, J. L. (2014). Officer-Offender Relationship Quality Matters: Supervision Process as Evidence-Based Practice. The Journal of American Probation and Parole Association Perspectives, 38, 57-70.

Maruna, S. & Mann, R. (2019). Reconciling 'Desistance' and 'What Works'. Arolygiaeth Prawf EM. Academic Insights 2019/1. Cyrchwyd o https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/wp-content/uploads/sites/5/2019/02/Academic-Insights-Maruna-and-Mann-Feb-19-final.pdf

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2014). Transforming Rehabilitation: A summary of evidence on reducing reoffending (second edition). Llundain: Ministry of Justice Analytical Series. Cyrchwyd o https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/243718/evidence-reduce-reoffending.pdf

Paparozzi, M. A. & Gendreau, P. (2005). An intensive supervision program that worked: Service delivery, professional orientation and organizational supportiveness. The Prison Journal, 85,445-466.

Raynor, P. (2019). Supervision skills for probation practitioners. Arolygiaeth Prawf EM. Academic Insights 2019/5. Cyrchwyd o https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/wp-content/uploads/sites/5/2019/08/Academic-Insights-Raynor.pdf

Raynor, P.; Ugwudike, P.; & Vanstone, M. (2014). The impact of skills in probation work: A reconviction study. Criminology & Criminal Justice, 14, 235-249.

Raynor, P. & Vanstone, M. (2018). What matters is what you do: The rediscovery of skills in probation practice. European Journal of Probation, 10, 199-214.

Shapland, J.; Bottoms, A.; Farrall, S.; McNeill, F.; Priede, C. & Robinson,

G. (2012). The quality of probation supervision – a literature review. Centre for Criminological Research: The University of Sheffield.

Smith, A.; Heyes, K.; Fox, C.; Harrison, J.; Kiss, Z.; & Bradbury, A. (2018). The effectiveness of probation supervision towards reducing reoffending: A rapid evidence assessment. Probation Journal, 65, 407-428.

Trotter, C. (2013). Reducing recidivism through probation supervision: What we know and don't know from four decades of research. Federal Probation, 77, 43-48.

Tyler, T. R. (2008). Procedural justice and the courts. Court Review, 44, 26-31.

# Atodiad A – Rhan Dau: gwybodaeth am gydraddoldeb, cymesuredd a mynediad cyfartal at wasanaethau

Mae Atodiad A, Rhan Dau yn darparu gwybodaeth am ddulliau gweithredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer gweithio gydag unigolion sydd â nodweddion gwarchodedig a grwpiau agored i niwed. Gall pobl a gafwyd yn euog o drosedd fod â sawl nodwedd warchodedig a/neu elfennau sy'n eu gwneud yn fregus. Yn ogystal â chynllunio gwasanaethau ar sail yr amryw o anghenion a heriau y mae'r person yn eu hwynebu, dylai staff prawf hefyd fod yn ymwybodol o'r effeithiau y gallai'r anghenion a'r nodweddion gwarchodedig hyn eu cael ar brofiad unigolyn a'i allu i gael gafael ar gymorth. Hynny yw, ni fydd pob person yn profi anghydraddoldebau a heriau yn yr un ffordd, ac efallai na fydd yr hyn sy'n gweithio'n dda i un person yn teimlo'n berthnasol i rywun arall.

### 1. Pobl Ddu ac Asiaidd a phobl o grwpiau lleiafrifoedd ethnig eraill

Mae pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) yn cael eu gorgynrychioli yn y system cyfiawnder troseddol. Maen nhw'n cynrychioli cyfran uwch o'r boblogaeth cyfiawnder troseddol nag o'r boblogaeth gyffredinol yng Nghymru a Lloegr.

Mae'r gwaith ymchwil yn gyfyngedig, fodd bynnag, mae astudiaethau ar gael sy'n dangos rhai dulliau addawol o wneud gwasanaethau'n fwy ymatebol i anghenion unigolion BAME.

Gall rhwystrau rhag triniaeth effeithiol ymysg pobl BAME amharu ar eu gallu i ddechrau, cwblhau neu ymgysylltu â gwasanaethau. Gallai rhwystrau gynnwys:

- ofn neu brofiadau o hiliaeth neu wahaniaethu
- y canfyddiad (a'r realiti o bosibl) na fydd yr ymyriad yn berthnasol yn ddiwylliannol

Mae ymchwil yn awgrymu'r syniad mai rhywbeth wedi'i greu gan bobl wyn yn bennaf yw therapi, neu 'driniaeth', ac nad oes unrhyw gymhariaeth ddiwylliannol gyfatebol. Mae hyn yn awgrymu bod rhai pobl BAME yn teimlo nad yw'r driniaeth yn hygyrch nac yn berthnasol iddynt. Efallai eu bod yn ofni y byddan nhw'n cael eu camddeall neu eu barnu yn ôl safonau a disgwyliadau pobl eraill.

Er bod ymyriadau cywiro nad ydynt yn cael eu haddasu'n ddiwylliannol neu'n benodol i BAME yn gallu bod o fudd i bobl BAME sydd yn y carchar ac ar gyfnod prawf, mae pobl BAME yn gallu teimlo'n ynysig ac nad yw pobl yn eu deall yn yr ymyriadau hyn. Mae rhai astudiaethau'n awgrymu bod modd goresgyn hyn drwy driniaeth sydd:

- yn ymwybodol o ddiwylliannau, yn sensitif ac yn gynhwysol
- yn cael ei darparu gan staff sensitif ac sy'n ymwybodol o ddiwylliannau
- yn cael ei darparu gan staff o gefndiroedd ethnig tebyg i'r defnyddwyr gwasanaeth

Ceir tystiolaeth gynnar bod ymdeimlad cryf o falchder a hunaniaeth ddiwylliannol yn gysylltiedig â mwy o ostyngiad yn y cyfraddau camddefnyddio sylweddau ymhlith pobl ifanc. Gallai cydnabod ac annog hunaniaeth ddiwylliannol yn glir fod yn ffordd addawol o wneud gwasanaethau adsefydlu'n fwy ymatebol i bobl BAME.

Ceir rhagor o wybodaeth yn: www.gov.uk/guidance/black-and-minority-ethnic-service-users-effectiveness-of-rehabilitative-services.

### 2. Dynion ifanc

Mae dynion ifanc sy'n oedolion yn wynebu mwy o risg nag oedolion hŷn o aildroseddu ac o aildroseddu mewn ffordd dreisgar. Maen nhw hefyd yn ymateb yn wahanol i wasanaethau, systemau ac ymyriadau. Mae'r papur 'Better outcomes for young adult men' yn cyfuno'r dystiolaeth i nodi'r anghenion blaenoriaethol ar gyfer dynion ifanc sy'n oedolion, a chanllawiau ar y ffyrdd mwyaf effeithiol neu addawol o fynd i'r afael â phob un o'r rhain.

Er bod y ddeddfwriaeth bresennol yn diffinio oedolion ifanc fel pobl rhwng 18 ac 20 oed, mae pobl ifanc yn parhau i aeddfedu'n seicolegol ac yn gymdeithasol hyd at ganol eu hugeiniau. Felly, mae'r un dulliau'n debygol o fod yn berthnasol i lawer o oedolion dros 20 oed, ac yn enwedig y rhai o dan 25 oed. Gwyddom erbyn hyn fod y rhannau o'r ymennydd sy'n gyfrifol am reoli byrbwylltra, rheoleiddio a dehongli emosiynau, yn parhau i ddatblygu ymhell ar ôl dod yn oedolion. Mae pobl ifanc yn dal i ddatblygu eu gallu i: reoli eu hunain, ystyried safbwyntiau ehangach a meddwl am y dyfodol wrth wneud penderfyniadau; a gwybod pwy ydyn nhw a beth maen nhw eisiau bod, yn ogystal â'u gallu i wrthsefyll dylanwad cyfoedion.

Gyda'i gilydd, mae'r ffactorau hyn yn cael eu galw'n 'aeddfedrwydd seicogymdeithasol'. Mae anaeddfedrwydd seicogymdeithasol yn gyffredin mewn dynion ifanc sydd yn y carchar neu o dan oruchwyliaeth y gwasanaeth prawf.

Mae tystiolaeth yn awgrymu bod y dulliau canlynol yn gweithio'n dda gyda dynion ifanc:

- Rhaglenni strwythuredig i wella sgiliau meddwl a rheoli emosiynau – mae'r rhain yn cynnwys sgiliau gwybyddol ac ymyriadau rheoli dicter.
- Gwasanaethau sy'n darparu cefnogaeth a strwythur ychwanegol wrth symud o'r carchar i'r gymuned.
- Ymyriadau sydd wedi'u cynllunio i gryfhau'r berthynas rhwng teuluoedd.
- Ymyriadau rheoli straen fel ymlacio neu hyfforddiant ymwybyddiaeth ofalgar.
- Addysg.
- Hyfforddiant cyflogaeth a chymorth i ddod o hyd i swydd.
- Gweithgareddau sy'n annog pobl i gymryd cyfrifoldeb ac i greu hunaniaeth gadarnhaol. Mae'r rhain yn cynnwys ymgymryd â rolau cefnogaeth gan gymheiriaid.
- Cyfiawnder Adferol drwy gynadleddau dioddefwyr-troseddwyr (ar gyfer troseddau sy'n ymwneud ag eiddo).

Hefyd, byddem yn disgwyl y gallai hyfforddiant aeddfedrwydd seicogymdeithasol helpu staff i ddatblygu sgiliau effeithiol a'u rhoi ar waith er mwyn uniaethu â dynion ifanc, ymateb iddyn nhw a'u hyfforddi.

Mae menywod yn aeddfedu ar gyfradd wahanol ac yn dangos aeddfedrwydd mewn ffyrdd gwahanol i ddynion.

Gweler https://www.gov.uk/guidance/young-adult-male-offenders

### 3. Menywod a gafwyd yn euog o drosedd

Mae'r dystiolaeth orau sydd ar gael yn awgrymu mai ymyriadau sy'n seiliedig ar drawma a rhywedd, ac sy'n mynd i'r afael â ffactorau risg ar gyfer aildroseddu, yw'r rhai mwyaf effeithiol i leihau aildroseddu ymysg menywod.

Yn ôl astudiaeth o'r risgiau sy'n gysylltiedig ag aildroseddu, er bod yr un ffactorau risg yn bodoli ar gyfer menywod a dynion, ar gyfer rhai materion, bydd y cysylltiad â throseddu ychydig yn gryfach ymysg menywod na dynion. Mae'r cysylltiad rhwng aildroseddu a chyffuriau dosbarth A a goryfed mewn pyliau yn gryfach ymysg menywod nag ymysg dynion. Ar ben hynny, roedd goryfed mewn pyliau, diffyg agosatrwydd â'r teulu, a diffyg sgiliau rheoli tymer yn fwy dylanwadol o ran rhagweld aildroseddu treisgar ymysg menywod nag ymysg dynion.

Mae'r anghenion mwyaf cyffredin ar gyfer menywod a dynion (nad ydynt bob amser yn gysylltiedig ag aildroseddu) yr un fath, sef datrys problemau, byrbwylltra a bod yn ddi-waith. Fodd bynnag, mae tystiolaeth bod ymyriadau sy'n ymateb i rywedd (yn enwedig rhaglenni ymddygiad gwybyddol) yn dangos mwy o addewid na dulliau gweithredu sy'n niwtral o ran rhywedd. Gallai dull gweithredu sy'n ystyriol o'r rhywiau gynnwys creu deunydd a chynnwys ar gyfer rhaglenni sy'n adlewyrchu realiti bywydau menywod, ac sy'n mynd i'r afael â phroblemau'r rheini sy'n cymryd rhan.

Yn 2018, cyhoeddodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder strategaeth ar gyfer troseddwyr sy'n fenywod, a lansiodd raglen waith newydd i wella canlyniadau i fenywod a gafwyd yn euog o droseddau. Mae gan y strategaeth dair prif flaenoriaeth: ymyriadau cynharach, pwyslais ar atebion yn y gymuned a, lle defnyddir cystodaeth fel dewis olaf ar gyfer y troseddau mwyaf difrifol, darparu gwell cystodaeth.

Mae canllawiau ar y meysydd blaenoriaeth ar gyfer ymyriadau wedi'u hamlinellu yn y ddogfen Better Outcomes for Women Offenders. Sef:

- Sefydlogi a mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau, yn enwedig defnyddio cyffuriau dosbarth A, goryfed mewn pyliau a goryfed cronig.
- Mynd i'r afael â phroblemau iechyd meddwl, yn enwedig drwy gael mynediad at wasanaethau. Yn benodol, gorbryder ac iselder, anhwylder personoliaeth, anhwylder straen wedi trawma, a thrawma.
- Helpu menywod i feithrin perthnasoedd teuluol iach a chefnogol, yn enwedig gyda'u plant, gan ganolbwyntio ar ymlyniad ac anwylder.
- Meithrin sgiliau rheoli emosiynau er mwyn cadw rheolaeth ar ymddygiad byrbwyll ac emosiynau dinistriol.
- Helpu menywod i ddod o hyd i rywle diogel i fyw, i ddysgu sut i reoli eu harian, i gael mynediad at addysg ac i wella eu cyflogadwyedd.
- Helpu menywod i ddatblygu hunaniaeth gadarnhaol nad yw'n droseddol, gan eu hannog i wneud daioni i'w cymuned neu i eraill, a defnyddio hyn i newid y ffordd maen nhw'n disgrifio eu hunain.
- Helpu menywod i gredu yn eu gallu i reoli eu bywyd ac i gael amcanion.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i https://www.gov.uk/guidance/women-convicted-of-crime

### 4. Heriau, anawsterau ac anableddau dysgu

Mae anabledd dysgu yn golygu llai o allu deallusol (IQ sy'n llai na 70) ac anhawster â gweithgareddau bob dydd (er enghraifft tasgau yn y cartref neu gymdeithasu) sy'n effeithio ar rywun drwy gydol ei fywyd. Mae **anabledd** dysgu yn wahanol i **anhawster** dysgu, gan nad yw anhawster dysgu yn effeithio ar ddeallusrwydd cyffredinol. Mae sawl math gwahanol o anhawster dysgu, a dyma rywfaint o'r rhai mwyaf cyfarwydd: dyslecsia, anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD), dyspracsia a dyscalcwlia. Nid yw'n anghyffredin i bobl gael anableddau dysgu yn ogystal ag anawsterau dysgu.

Nid oes diffiniad cyffredin o anabledd neu anhawster dysgu ar draws asiantaethau'r llywodraeth, ac felly mae'n anodd cyfrifo faint o bobl yn y system cyfiawnder troseddol sydd ag anabledd neu anhawster dysgu. Yn 2018, amcangyfrifodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder ei bod yn bosibl bod gan 32% o fenywod a 28% o ddynion a oedd mewn gofal yn y gymuned neu mewn cystodaeth anabledd neu heriau dysgu – ar sail adnodd sgrinio sy'n defnyddio eitemau mewn Systemau Asesu Troseddwyr. Defnyddir y term 'her dysgu' pan fydd gan berson IQ sydd rhwng 70 ac 80, ac na fyddai felly'n bodloni'r meini prawf diagnostig ar gyfer anhawster dysgu, ond sydd, serch hynny, yn dal i wynebu heriau o ran dysgu ac ymdopi o ddydd i ddydd. Nid yw'r amcangyfrif hwn yn cynnwys y rhai sydd ag anawsterau dysgu.

Os nad yw pobl yn gwybod bod gan rywun heriau neu anabledd dysgu, ac os na fydd y person hwnnw'n cael cefnogaeth, mae'n bosibl y bydd yn cael trafferth ymdopi â bywyd bob dydd, ac efallai na fydd yn elwa o'r amrywiaeth o wasanaethau sydd ar gael i helpu'r broses adsefydlu.

Mae gwneud addasiadau rhesymol a darparu cefnogaeth i bobl ag anabledd, anhawster neu heriau dysgu yn gallu eu helpu i deimlo ymlyniad i'w dedfryd ac i ymdopi'n well â bywyd bob dydd. Dyma rai enghreifftiau o sut i wneud hyn:

- rhoi cyfleoedd i staff ddatblygu dealltwriaeth o beth yw anabledd ac anhawster dysgu, sut gallent ei adnabod, a beth i'w wneud i helpu unigolion
- darparu gwybodaeth ysgrifenedig mewn fformatau hawdd eu darllen, gan ddefnyddio iaith glir a brawddegau syml. Er enghraifft, defnyddio tair brawddeg syml yn hytrach nag un frawddeg gymhleth
- cyfathrebu ar lafar mewn ffordd glir gan ddefnyddio iaith syml, a gofyn i bobl rannu eu dealltwriaeth nhw o'r hyn sydd wedi cael ei gyfleu iddynt. Esboniwch bethau un cam ar y tro, yn hytrach na disgwyl i bobl gofio cyfres o gamau
- cydnabod bod rhai unigolion, yn enwedig y rhai sydd ag Awtistiaeth, yn ei chael yn anodd goddef sŵn, gwres, golau, y teimlad o ddillad ac ati. Gallai hyn fod yn ffactor sydd wrth wraidd yr hyn sy'n ymddangos fel ymddygiad sy'n tarfu ar eraill
- lleihau'r pryder y mae sefyllfaoedd newydd a newid yn ei achosi i rai unigolion sydd ag Awtistiaeth neu anableddau ac anawsterau dysgu eraill, drwy ddefnyddio adnoddau fel dyddiaduron gweledol a byrddau stori sy'n egluro beth fydd yn digwydd
- cydnabod bod gweithgareddau sylfaenol o ddydd i ddydd yn gallu bod yn anodd i rai pobl, gan gynnwys bod yn y lle iawn ar yr adeg iawn, glanhau a hunanofal. Peidiwch â'u cosbi am hyn, a dewch o hyd i ffyrdd o helpu

Mae pecyn cymorth ar gael i staff prawf a staff carchardai i'w helpu i sicrhau bod gwasanaethau'n gweithio i bobl ag anableddau a heriau dysgu.

### 5. Pobl sy'n Lesbiaid, yn Hoyw, yn Ddeurywiol, yn Drawsrywiol, yn Rhyngrywiol a phobl o rywedd a rhywioldeb arall, ac sy'n amrywiol o ran rhywedd (LGBTTI)

Mae'n anodd gwybod yn fanwl gywir faint o bobl LGBTI+ sy'n cael eu goruchwylio gan y gwasanaeth prawf ar hyn o bryd. Mae tystiolaeth yn awgrymu y gallai llawer o bobl fod yn amharod i ddatgelu eu cyfeiriadedd rhywiol neu eu hunaniaeth o ran rhywedd oherwydd bod arnynt ofn cael eu herlid, neu agweddau gwahaniaethol gan eraill, gan gynnwys staff. Mae pennu diffiniadau clir a chytunedig yn anodd hefyd, oherwydd nid yw cyfeiriadedd rhywiol – yn wahanol i hil neu ryw – yn gategori sy'n cael ei ddefnyddio'n aml neu'n gyson mewn arolygon swyddogol. Fodd bynnag, mae tystiolaeth yn dangos bod nifer y bobl LGBTI+ yn y system cyfiawnder troseddol o leiaf yn debyg i'w cyfran yng nghyfanswm y boblogaeth. Mae ymchwil ryngwladol yn llawer mwy unffurf wrth ddod i'r casgliad bod unigolion trawsryweddol yn cael eu gorgynrychioli fel arfer yn y system cyfiawnder troseddol.

Mae llawer o'r ymchwil sy'n bodoli ar brofiadau ac anghenion pobl LGBTI+ yn y system cyfiawnder troseddol yn fach o ran maint ac yn archwiliol ei natur. Mae angen gwell monitro a mwy o ymchwil. Fodd bynnag, rhaid gwneud hyn yn ofalus ac yn barchus. Dylid hyfforddi staff ynghylch pwrpas casglu data monitro ac ymchwil a sut i ofyn y cwestiwn; a bod yn glir ynghylch sut bydd yr wybodaeth hon yn cael ei storio a'i defnyddio.

Mae'r ymchwil sydd ar gael yn cyfeirio at rai dulliau gweithredu addawol ar gyfer sicrhau bod gwasanaethau adsefydlu'n fwy ymatebol i anghenion pobl LGBTI+.

Mae rhoi gwybodaeth, hyfforddiant a/neu arweiniad i staff yn allweddol i hyn, fel eu bod yn teimlo'n hyderus wrth weithio'n effeithiol gyda phobl LGBTI+, ac yn enwedig wrth godi materion sy'n ymwneud â hunaniaeth o ran rhywedd a chyfeiriadedd rhywiol lle bo hynny'n berthnasol i ddarparu'r gefnogaeth angenrheidiol. Er enghraifft, ystyried anghenion person trawsryweddol os yw'r staff yn rhoi cyngor ar ddedfryd o garchar ar y cam Adroddiad Cyn Dedfrydu.

Dyma ffyrdd eraill o ddelio â hyn:

- cyfeirio at yr unigolyn gan ddefnyddio'r enw a'r rhagenwau rhyweddol mae'n eu ffafrio
- drwy ystyried y rhwystrau ychwanegol y gallai pobl LGBTI+ eu hwynebu yn ystod y broses oruchwylio ac adsefydlu, bydd modd cael ymyriadau mwy ymatebol. Gallai'r rhwystrau gynnwys cael eu gwrthod, ynysu cymdeithasol, gwahaniaethu ac aflonyddu, sy'n gallu achosi rhwystrau sy'n ymwneud â chyswllt cymdeithasol â theulu/ffrindiau, cyflogaeth, addysg, llety, gofal iechyd a gwasanaethau eraill
- gwneud ymyriadau sy'n berthnasol i bobl LGBTI+, er enghraifft drwy wneud newidiadau i ddeunyddiau cyrsiau fel bod cyfeiriadedd rhywiol a/neu hunaniaeth o ran rhywedd yn cael eu cydnabod a'u cynnwys
- mewn rhai achosion, darparu mynediad at wasanaethau penodol sy'n gallu deall hunaniaeth LGBTI+ y person

- ystyried trefn ymyriadau os yw unigolyn yn mynd drwy broses ailbennu rhywedd, gan gydnabod bod hwn yn ddigwyddiad cymhleth, llawn straen sy'n newid bywyd, ac y gallai effeithio ar allu seicolegol y person i gymryd rhan mewn ymyriad
- gwneud diwylliant LGBTI+ yn fwy amlwg mewn gwasanaethau prawf
- annog staff i bwyso a mesur eu credoau a'u rhagfarnau eu hunain, ac i gymryd cyfrifoldeb dros addysgu a dysgu am y boblogaeth hon

## 6. Gwybodaeth am grwpiau agored i niwed

### 6.1. Anaf trawmatig i'r ymennydd

Mae Anaf Trawmatig i'r Ymennydd yn disgrifio rhywbeth sy'n amharu ar weithrediad arferol yr ymennydd, sy'n cael ei achosi fel arfer gan rym allanol – fel amlaf, syrthio, damweiniau ffordd, yr ymennydd yn cael ei daro gan wrthrychau/yn taro yn erbyn gwrthrychau, ac ymosodiadau. Anafiadau ysgafn yw'r rhan fwyaf, gyda mân symptomau sydd fel arfer yn diflannu ar ôl ychydig wythnosau. Gall anafiadau mwy difrifol arwain at anawsterau gwybyddol a datblygiadol. Yn aml ceir newidiadau mewn personoliaeth, fel arfer yn ymwneud â byrbwylltra, llai o reolaeth dros dymer a llai o sgiliau cymdeithasol. Mae profi nifer o anafiadau trawmatig, llai difrifol, i'r ymennydd yn gallu cael effaith debyg i gael un anaf difrifol.

Mae perthynas rhwng anaf trawmatig i'r ymennydd ac ymddygiad troseddol, treisgar, carcharu ac aildroseddu. Mae anaf trawmatig i'r ymennydd yn cynyddu'r tebygolrwydd o gyflawni trosedd ymysg dynion a menywod. Mae cyfraddau troseddu yn uwch ymysg pobl sydd wedi cael mwy nag un anaf trawmatig i'r ymennydd. Yn aml iawn, mae anaf o'r fath hefyd yn digwydd ochr yn ochr â phroblemau eraill, fel defnyddio cyffuriau a phroblemau iechyd meddwl.

Dylid cyfeirio at anafiadau o'r fath mewn adroddiadau cyn dedfrydu, er mwyn i hynny gael ei ystyried wrth wneud penderfyniadau am unigolion. Os daw'r anaf i'r amlwg yn dilyn prawf sgrinio cychwynnol, dylid cyfeirio'r achos at weithwyr gofal iechyd proffesiynol er mwyn asesu ymhellach.

Mae siarad am yr anaf a'i effeithiau yn gallu helpu pobl i ddeall eu hymddygiad eu hunain. Mae gofyn am arweiniad gan Seicolegwyr Fforensig a/neu Glinigol neu Feddyg Teulu yn gallu helpu gyda hyn.

Yn aml iawn, mae pobl sydd wedi cael anaf trawmatig i'r ymennydd yn cael problemau gyda'r cof, cynllunio a rheoli emosiwn, ac felly mae'n gallu bod yn anodd ei reoli. Ni fydd sancsiynau a chosbau'n gweithio. Mae angen help a hyfforddiant ar bobl sydd wedi cael anaf trawmatig i'r ymennydd er mwyn eu helpu i reoli eu teimladau a'u profiadau. Mae'r Disabilities Trust Foundation yn rhoi awgrymiadau ar gyfer gweithio gydag oedolion sydd wedi cael anaf i'r ymennydd. Dyma enghreifftiau:

- rhoi arweiniad syml yn ysgrifenedig yn ogystal ag ar lafar
- canolbwyntio ar nodau tymor byr a rhannu amcanion yn gamau

darparu amser ychwanegol ar gyfer gwneud penderfyniadau, a defnyddio cymhorthion cof fel pictogramau neu ddyddiaduron

- rhoi 'seibiant i'r ymennydd' yn rheolaidd rhwng sesiynau hirach er mwyn tynnu sylw pobl.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i https://www.gov.uk/guidance/traumatic-brain-injury-in-the-prison-population

## 6.2 Anhwylder personoliaeth

Mae anhwylder personoliaeth yn anhwylder bioseicogymdeithasol cymhleth. Mae anhwylderau personoliaeth yn datblygu o ganlyniad i ryngweithio rhwng gwendidau biolegol, profiadau cynnar gyda phobl eraill arwyddocaol, a rôl ffactorau cymdeithasol o ran lleihau neu ddwysáu nodweddion personoliaeth problemus.

Yn aml iawn, mae pobl sydd ag anhwylder personoliaeth yn arddangos nodweddion ymddygiad anarferol neu eithafol. Efallai y bydd gan bobl broblemau bach, neu anawsterau difrifol o ran rheoli eu hunain ac yng nghyswllt pobl eraill. Mae rhai pobl sydd ag anhwylder personoliaeth yn peri niwed iddynt eu hunain neu i eraill. Fel arfer, mae'n deillio o geisio addasu i gamdriniaeth, esgeulustod neu drawma yn ystod y blynyddoedd cynnar. Mae anhwylderau personoliaeth yn effeithio ar rhwng 4% ac 11% o boblogaeth y Deyrnas Unedig, ond mae'n effeithio ar rhwng 60% a 70% o bobl yn y carchar a thua 30-50% o'r rhai sy'n defnyddio gwasanaethau prawf (ond nid yw'r rhan fwyaf o achosion wedi cael diagnosis).

Mae'n bwysig bod staff cyfiawnder troseddol yn deall anhwylderau personoliaeth a sut i helpu pobl. Mae Canllawiau i Ymarferwyr ar gyfer gweithio gyda phobl yn y system cyfiawnder troseddol sydd ag anawsterau personoliaeth yn cynnig dulliau a chyngor pragmataidd. Dyma rai awgrymiadau:

- Er mwyn deall anhwylder personoliaeth, mae'n rhaid i chi ystyried yr hanes. Ystyriwch y rhyngweithio rhwng nodweddion biolegol ac etifeddiaeth enetig, profiadau cynnar gyda phobl eraill arwyddocaol, a ffactorau cymdeithasol ehangach.
- Dylech osgoi delio'n uniongyrchol â nodweddion craidd (pethau a oedd yn amlwg o oedran cynnar ac sy'n anodd eu newid), a chanolbwyntio ymdrechion ar nodweddion eilaidd (nodweddion ymddygiadol) yn gyntaf.
- Dylech ganolbwyntio ar feithrin perthynas gref gyda ffiniau clir: ceisio cynnal perthynas amyneddgar a goddefgar gyda'r unigolyn yn y tymor hwy, gydag opsiynau creadigol ar gyfer cyfathrebu a theimlo cysylltiad.
- Mae defnyddio syniadau seicolegol fel sail i reolaeth yn gallu bod yn effeithiol iawn. Ee, ystyried sut gall profiadau cynnar fod yn rhan o ymddygiad a pherthnasoedd presennol.
- Ni ddylid rhoi llawer o reolau i'r rhai sy'n torri rheolau'n gyson. Dewiswch eich amodau'n ofalus. Dylech ganolbwyntio ar y nodweddion neu'r problemau hynny sydd fwyaf tebygol o arwain at fethiant, a'r rhai sy'n peri'r pryder mwyaf i'r unigolyn.
- Gofalwch amdanoch chi'ch. Ceisiwch gael goruchwyliaeth a chefnogaeth sy'n wybodus o safbwynt seicolegol, treuliwch amser yn pwyso a mesur, byddwch yn realistig am newid, a dathlwch lwyddiant gwirioneddol.

Lansiwyd strategaeth Anhwylder Personoliaeth Troseddwyr ar y cyd rhwng y GIG a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM yn 2011. Gyda'r rhaglen Anhwylder Personoliaeth Troseddwyr ar waith ers wyth mlynedd bellach, mae wedi canfod dros 30,000 o bobl a allai gael diagnosis o 'anhwylder personoliaeth'. Mae'r rhaglen wedi gwella'r broses o ganfod ac asesu pobl sy'n debygol o fod ag anawsterau personol ac, ers 2011, mae wedi treblu nifer y llefydd triniaeth a dilyniant mewn carchardai, safleoedd cymeradwy ac yn y gymuned. Mae triniaethau a'r rheolaeth yn wybodus o safbwynt seicolegol ac yn cael eu harwain gan staff sydd wedi cael hyfforddiant ar faterion seicolegol yng Ngwasanaeth Carchardai a Phrawf EM a'r GIG.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i:

https://www.gov.uk/government/publications/working-with-offenders-with-personality-disorder-a-practitioners-guide

https://www.england.nhs.uk/commissioning/wp-content/uploads/sites/12/2016/02/opd-strategy-nov-15.pdf

### 6.3 Pobl sydd â phrofiad o ofal yn y carchar a'r gwasanaeth prawf

Rydym yn defnyddio'r term pobl sydd â phrofiad o ofal i ddisgrifio unrhyw un sydd wedi treulio amser mewn gofal (gan gynnwys gofal maeth, mabwysiadu, gwarcheidiaeth gyfreithiol a chartref plant) ni waeth beth fo'u hoedran, hyd y profiad o ofal, ac a ydynt yn bodloni'r diffiniad cyfreithiol o 'bobl sy'n gadael gofal'. Mae 'pobl sy'n gadael gofal' yn ddiffiniad cyfreithiol ar gyfer rhywun sydd wedi treulio amser yng ngofal yr awdurdod lleol am 13 wythnos neu fwy, sy'n cynnwys eu pen-blwydd yn 16 oed.

Er nad yw'r rhan fwyaf o bobl sydd wedi cael profiad o ofal yn cyflawni troseddau, mae'r rhai sydd wedi bod mewn gofal yn fwy tebygol o gael euogfarn droseddol, ac efallai eu bod wedi cael eu gwneud yn droseddwyr yn ddiangen (lle mae'r system cyfiawnder troseddol yn cael ei defnyddio i ddatrys materion a fyddai fel arfer yn dod o dan ymbarél magu plant).

Wrth gymharu â'r boblogaeth gyffredinol o droseddwyr, mae anghenion pobl sy'n gadael gofal yn fwy amlwg, yn enwedig mewn perthynas â llety, addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, perthnasoedd ac anghenion emosiynol. Yn wahanol i lawer o bobl ifanc, yn aml iawn nid yw'r rhai sy'n gadael gofal yn cael cefnogaeth emosiynol, ariannol na phersonol gan rieni ac aelodau eraill o'r teulu.

Mae yna ffyrdd y gall gwasanaethau prawf wella canlyniadau pobl sydd wedi cael profiad o ofal.

Ar gyfer y rhai sydd o dan 25 oed, dylech ganfod a oes gan yr unigolyn hawl i dderbyn gwasanaethau fel person sy'n gadael gofal, a sicrhau bod yr Awdurdodau Lleol sy'n gyfrifol yn rhan o brosesau cynllunio. Oherwydd deddfwriaeth gymhleth, mae'n gallu bod yn anodd canfod y bobl hyn. Dylai cynlluniau dedfrydu gynnwys camau gweithredu i helpu pobl ifanc sy'n gadael gofal i dderbyn unrhyw gefnogaeth ychwanegol sydd ar gael gan wasanaethau Gadael Gofal, ac i fanteisio'n llawn ar y gefnogaeth honno. Efallai y bydd awdurdod lleol hefyd yn gallu rhoi manylion sefydliadau eraill a all gynnig cefnogaeth.

Dylid helpu unigolion hefyd i fynd i'r afael â rhai o anfanteision posibl eu profiad o ofal. Dyma rai anfanteision posibl: diffyg rhwydweithiau cymorth (teulu/ffrindiau); mynd yn sefydliadedig; cyrhaeddiad addysgol isel; sgiliau ymarferol gwael sydd eu hangen ar gyfer byw'n annibynnol; diffyg modelau rôl cadarnhaol; lefelau isel o hunanwerth; ac ymdeimlad o gael eu gadael ac unigrwydd. Gall pobl sy'n gadael gofal hefyd fod â diffyg ymddiriedaeth mewn pobl eraill, oherwydd diffyg perthynas gariadus ag oedolion yn ystod eu plentyndod yn aml iawn.

Mae dangos optimistiaeth y gall yr unigolyn weddnewid ei fywyd, a chynnig gobaith ar gyfer y dyfodol, hefyd yn bwysig.

Am ragor o wybodaeth, gweler: https://www.gov.uk/guidance/care-leavers-in-prison-and-probation

### 6.4 Profiad o gam-drin domestig ymhlith pobl yn y carchar ac ar gyfnod prawf

Mae trais a cham-drin domestig yn fater sy'n achosi pryder mawr yng Nghymru a Lloegr. Dywedodd dwy filiwn o oedolion eu bod wedi cael eu cam-drin yn 2017/18. O blith y rhain, roedd 1.3 miliwn yn fenywod a 695,000 yn ddynion. Mae cyfraddau cam-drin tebyg yn cael eu cofnodi'n rhyngwladol.

Y diffiniad trawslywodraethol o drais a cham-drin domestig yw unrhyw ddigwyddiad neu batrwm o ddigwyddiadau o reoli, gorfodi, ymddygiad bygythiol, trais neu gam-drin rhwng pobl sy'n 16 oed a hŷn sydd, neu sydd wedi bod, yn bartneriaid agos neu'n aelodau o'r teulu, ni waeth beth yw eu rhyw neu eu rhywioldeb. Gall fod yn gamdriniaeth seicolegol, gorfforol, rywiol, ariannol a/neu emosiynol, ond nid yw'n gyfyngedig i hynny.

Gall effaith cam-drin domestig fod yn sylweddol ac yn hirdymor. Gall effeithio ar bobl mewn amryw o ffyrdd. Mae dioddef cam-drin domestig yn gallu arwain at y canlynol: camddefnyddio sylweddau; hunan-niweidio; a phroblemau iechyd meddwl fel iselder, gorbryder ac anhwylder ar ôl trawma.

Mae cam-drin domestig yn effeithio ar rai pobl sydd yn y ddalfa ac o dan oruchwyliaeth y gwasanaeth prawf. Gallwn ni wneud rhai pethau i wella eu canlyniadau:

- rhoi cyfle iddyn nhw ddatgelu eu bod wedi cael eu cam-drin
- rhoi cyfle iddyn nhw ofyn am help a chefnogaeth, ac i dderbyn help a chefnogaeth
- sicrhau eu bod yn cael ymateb sensitif a diogel
- adnabod a diwallu anghenion diogelu plant y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt
- eu cyfeirio a'u helpu i gael gafael ar wasanaethau priodol i ddiwallu eu hanghenion

Dyma rai gwasanaethau addas a allai roi cefnogaeth bellach i'r garfan hon:

- gwasanaethau eirioli sy'n helpu i ystyried a chael gafael ar wasanaethau yn y gymuned, ac i nodi a chyflawni nodau personol. Gall y gwasanaethau hyn wella llesiant, a lleihau'r siawns y bydd y rhai sydd wedi dioddef trais domestig yn cael eu cam-drin yn gorfforol eto
- cwnsela tymor byr sy'n canolbwyntio ar drawma neu ddulliau ymddygiad gwybyddol o drin trawma, sy'n gallu gwella iechyd goroeswyr cam-drin domestig

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma: https://www.gov.uk/guidance/experience-of-domestic-abuse-in-people-in-prison-and-on-probation

### 6.5 Gweithwyr rhyw a gafwyd yn euog o drosedd

Mae ystod eang o ganlyniadau iechyd negyddol yn gysylltiedig â gwaith rhyw. Mae lefelau uchel o gamddefnyddio sylweddau wedi'i hunangofnodi ymhlith y rhai sy'n ymwneud â gwaith rhyw. Mae profiadau o drais a thrawma yn gyffredin hefyd. Dywed llawer o bobl sy'n ymwneud â gwaith rhyw fod ganddyn nhw broblemau iechyd meddwl a chorfforol sylweddol. Mae'r problemau hyn yn cynnwys anhwylder straen wedi trawma. Mae astudiaethau'n dangos mai'r stigma yr oedden nhw'n ei wynebu oedd y rhwystr anoddaf er mwyn gadael y fasnach ryw yn barhaol yn ôl gweithwyr rhyw.

Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith ymchwil yn ymwneud â menywod sy'n gweithio yn y fasnach ryw. Mae nifer llai o astudiaethau yn edrych ar ganlyniadau iechyd dynion sy'n gweithio yn y fasnach ryw. Argymhellir bod cyngor tebyg yn berthnasol wrth ddarparu gwasanaethau i ddynion.

Mae gwasanaethau integredig, holistaidd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn effeithiol wrth weithio gyda'r garfan hon. Mae'r gwasanaethau hyn yn bwysig iawn i'r rhai sydd mewn perygl, ac yn helpu i hybu a chynnal eu hymgysylltiad. Mae dulliau gweithredu holistaidd yn mynd i'r afael ag anghenion unigol, amrywiol a chymhleth. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys y canlynol:

- tai
- magu plant
- perthnasoedd
- adferiad ar ôl trawma
- rheolaeth ariannol
- byw'n annibynnol
- cyngor cyfreithiol
- problemau iechyd meddwl a chorfforol
- cwnsela ar gyfer materion alcohol a chyffuriau
- ailintegreiddio yn y gymuned

Mae'n ymddangos bod dulliau integredig o reoli trawma a chamddefnyddio sylweddau yn effeithiol. Wrth gymharu â thriniaeth ddilyniannol neu gyfochrog, gall dulliau integredig fod yn fwy effeithiol o ran:

- lleihau symptomau trawma
- bod menywod yn parhau â'u triniaeth
- lleihau ymddygiad rhywiol peryglus
- gwella iechyd meddwl a chorfforol

Gwyddom ei bod yn bwysig trin symptomau sy'n gysylltiedig â thrawma ar gyfer gweithwyr rhyw sy'n gwella o broblemau camddefnyddio sylweddau. Mae hefyd yn bwysig darparu gwasanaethau sy'n helpu unigolion i baratoi ar gyfer gwasanaethau perthnasol a'u defnyddio, yn hytrach na'u cyfeirio at wasanaethau eraill yn unig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma: https://www.gov.uk/guidance/sex-workers-convicted-of-crime

### 6.6 Cyn-aelodau o staff y lluoedd arfog yn y carchar ac ar brawf

Mae ystadegau'r Llywodraeth yn amcangyfrif bod tua 3.5% i 4% yn y ddalfa ac ar orchmynion cymunedol yn gyn-aelodau o'r lluoedd arfog. Ond mae amcangyfrifon allanol wedi dweud bod cyfran y cyn-aelodau o'r lluoedd arfog yn y boblogaeth carchardai yn amrywio rhwng 3.5% ac 17%.

Mae'r mwyafrif helaeth o'r rhai sy'n gadael y lluoedd arfog yn y Deyrnas Unedig yn trosglwyddo'n llwyddiannus i fywyd sifil. Fodd bynnag, mae lleiafrif bach ond sylweddol yn wynebu heriau wrth drosglwyddo - er enghraifft, cyswllt â'r system cyfiawnder troseddol, problemau iechyd meddwl a chamddefnyddio alcohol.

Mae cyn-aelodau'r lluoedd arfog sy'n dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol yn wahanol i'r rhai nad ydynt wedi gwasanaethu yn y lluoedd arfog. Mae ganddynt wahanol anghenion o ran iechyd a llesiant a phatrymau ymddygiad troseddol. Gall cyn-aelodau o'r lluoedd arfog wynebu stigma yn sgil ymddygiad milwrol a ddysgwyd a chyd-ddibyniaeth. Gall y rhain lesteirio ymddygiadau chwilio am gymorth.

Canfu astudiaeth fechan o gyn-aelodau o'r lluoedd arfog yn y carchar fod unigrwydd cymdeithasol yn cael ei brofi'n aml ar ôl gadael y lluoedd arfog. Canfuwyd tystiolaeth hefyd o allgáu cymdeithasol eithafol a brofir gan rai cyn-filwyr wrth adael y gwasanaeth. Roedd hyn yn aml oherwydd bod llai o gymorth ar gael.

- Dywedodd 71% o gyn-aelodau o'r lluoedd arfog ar ddedfrydau cymunedol eu bod yn cael trafferth addasu i fywyd y tu allan i'r lluoedd arfog.
- Roedd 53% o gyn-aelodau o'r lluoedd arfog oedd yn cael problemau addasu yn teimlo'n rhan o'r gymuned filwrol, ond nid y gymuned sifil.
- Nid oedd 42% yn teimlo'n rhan o'r naill gymuned na'r llall.

Derbynnir fwyfwy bod cyn-aelodau o'r lluoedd arfog yn ymateb i wasanaethau a gweithgareddau penodol y lluoedd arfog a/neu staff sy'n gyn-aelodau o'r lluoedd arfog eu hunain neu sy'n dangos dealltwriaeth o wasanaeth milwrol, ac yn cael eu hysgogi i wneud hynny.

Gall y pwyntiau a ganlyn hefyd wella canlyniadau i gyn-aelodau o'r lluoedd arfog yn y ddalfa ac o dan oruchwyliaeth gymunedol:

- Asesiad iechyd meddwl.
- Mynediad at addysg a gwasanaethau ailsefydlu.
- Mynediad at wasanaethau camddefnyddio alcohol.
- Gwasanaethau mentora a ddarperir gan elusennau cyn-aelodau o'r lluoedd arfog.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma: https://www.gov.uk/guidance/ex-armed-service-personnel-in-prison-and-on-probation.

### Cyfeiriadau Atodiad A Rhan Dau:

Ymddiriedolaeth Albert Kennedy (2017) LGBT Youth Homelessness: A UK National Scoping of Cause, Prevalence, Response & Outcome. Ar gael yn: https://www.akt.org.uk/Handlers/Download.ashx?IDMF=c0f29272-512a-45e8-9f9b-0b76e477baf1

Carr, N., McAlister, S. & Serisier, T. (2016). Out on the inside. The rights, experiences and needs of LGBT people in prison. Dulyn: Irish Penal Reform Trust.

Disspain, S., Shuker, R. & Wildgoose, E. (2015) 'Exploration of a transfemale prisoner's experience of a Prison Therapeutic Community.' Prison Service Journal, Mai 2015, Rhifyn 219: 9-18

Dunn, P. 2013. Slipping off the Equalities Agenda? Work with LGBT Prisoners. In: Prison Service Journal No.206. Ar gael yn: https://www.crimeandjustice.org.uk/sites/crimeandjustice.org.uk/files/

Swyddfa Cydraddoldeb Llywodraeth Prydain. 2018. National LGBT Survey. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/national-lgbt-survey-summary-report

Fitzpatrick, C., Williams, P. & Coyne, D. (Gorffennaf 2016). Supporting looked after children and care leavers in the Criminal Justice System: Emergent themes and strategies for change. In Prison Service Journal

HMPPS (2020) Working with people who have experienced care: A National Good Practice Guidance for Practitioners and Managers across HMPPS

HMPPS (2015) Better Outcomes for Women Offenders ar gael yn https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/457922/Better_Outcomes_for_Women_Offenders_September_2015.pdf

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2018) Female Offender Strategy https://www.gov.uk/government/publications/female-offender-strategy

Poole, L., Whittle, S. a Stephens, P. (2002) Working with Transgendered and Transsexual people as offenders in the probation service. Probation Journal 49 (3): 227-232

Stewart, L a Gobeil, R (2015), Effective interventions for Women offenders: A Rapid Evidence Assessment. Mae Crynodeb Dadansoddol NOMS ar gael yn https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/448859/effective-interventions-for-women-offenders.pdf

# Atodiad A – Rhan Tri: Dulliau gweithredu sefydliadol ar gyfer sgiliau goruchwylio – enghreifftiau o arferion rhyngwladol

### Y cynllun hyfforddi strategol ym maes goruchwylio yn y gymuned

Cynhaliwyd y cynllun hwn yng Nghanada a dyma'r ymgais fwyaf systematig i gymhwyso'r egwyddorion risg, angen ac ymatebolrwydd i gyfweliadau unigol. Dysgodd swyddogion prawf a swyddogion parôl i strwythuro eu sesiynau goruchwylio o gwmpas anghenion troseddegol, gan ganolbwyntio ar agweddau gwrthgymdeithasol, a defnyddio technegau ymddygiad gwybyddol i fynd i'r afael â'r anghenion hyn.

Roedd y cynllun yn cynnwys hyfforddiant a chefnogaeth barhaus i gynyddu'r defnydd o'r egwyddorion yn ogystal â sgiliau gan gynnwys meithrin perthynas a defnyddio therapi ymddygiad gwybyddol i herio a newid agweddau sydd o blaid troseddu.

Canfu Bonta a chydweithwyr (2011) fod y cyfraddau aileuogfarnu ar gyfer y rhai sy'n cael eu goruchwylio gan staff sydd wedi eu hyfforddi dan y cynllun yn is (25%) na'r rhai sy'n cael eu goruchwylio gan staff heb eu hyfforddi (40%).

### Goruchwyliaeth gymunedol ragweithiol

Cynlluniwyd y cynllun i amddiffyn diogelwch y cyhoedd gan ddefnyddio offeryn risg ac angen dilys a chynllun goruchwylio sy'n rhoi sylw i nodweddion troseddegol sy'n defnyddio ymyriadau triniaeth a rheolaethau allanol effeithiol. Mae Goruchwyliaeth Gymunedol Ragweithiol yn dal y sawl sy'n cael ei oruchwylio'n atebol am gynnydd o ran y cynllun goruchwylio, yn defnyddio strategaeth sy'n seiliedig ar le gan ddefnyddio amgylcheddau swyddfeydd prawf i weithredu'r strategaeth a datblygu partneriaethau gyda mudiadau cymunedol a fydd yn darparu gwasanaethau ategol i'r rhai sy'n cael eu goruchwylio.

Canfu Taxman (2008) fod goruchwylwyr a oedd yn cael eu cefnogi gan amgylchedd sefydliadol pro-gymdeithasol, wedi cyflawni cyfraddau ail-arestio is na'r rhai mewn amgylchedd llai pro-gymdeithasol (30% o'i gymharu â 42% ar gyfer y grŵp cymharu).

### Hyfforddiant staff ar leihau ail-arestio

Mae'r cynllun hwn yn golygu bod staff prawf Unol Daleithiau America yn cael eu hyfforddi mewn risg, angen ac ymatebolrwydd ac arferion cywiro craidd.

Canfu Robinson et al. (2012) fod gan staff a oedd yn dangos mwy o ddefnydd o'r arferion hyn gyfraddau aildroseddu sylweddol is gyda'u llwyth achosion na swyddogion eraill (26% o'i gymharu â 34% ar ôl blwyddyn). Roedd y gwahaniaeth ar ei fwyaf o ran y tebygolrwydd canolig y byddai'r troseddwyr yn aildroseddu, ond nid oedd fawr o wahaniaeth i'r rhai a oedd yn wynebu'r risg fwyaf.

Mewn gwerthusiad ar wahân o sgiliau ymarferwyr mewn gwaith prawf, canfu Raynor et al (2014) hefyd fod cyfraddau aileuogfarnu yn sylweddol is ymhlith y rhai a oruchwylir gan Ymarferwyr Prawf a ddefnyddiodd fwy o sgiliau o restr wirio, gan gynnwys sefydlu'r cyfweliad, cyfathrebu llafar a di-eiriau, defnydd effeithiol/gweithredol o awdurdod, cyfweld cymhellol, modelu pro-gymdeithasol, datrys problemau, ac ailstrwythuro gwybyddol.

# Atodiad A – Rhan Pedwar: Cyfranogiad ac Ymgysylltiad Defnyddwyr y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf: Safonau rhagoriaeth a thystiolaeth

| Safonau Rhagoriaeth a Thystiolaeth ar gyfer Cyfranogiad ac Ymgysylltiad Defnyddwyr y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf (1) | | |
|---|---|---|
| | Safon | **Tystiolaeth** (i gynnwys tystiolaeth o Sicrwydd Gweithredol, Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi ac ati). |
| 1. | Sicrhau bod defnyddwyr y gwasanaeth yn cyfrannu at gynllunio ac adolygu eu dedfryd | |
| 1.1 | Mae'r staff yn fedrus ac yn gymwys o ran sicrhau bod defnyddwyr y gwasanaeth yn cael eu cynnwys yn eu proses ddedfrydu a'r adolygiad. | Mae hyfforddiant, datblygu a dulliau goruchwylio staff yn cynnwys yn benodol y sgiliau a'r profiad sydd eu hangen i gynnwys defnyddwyr gwasanaeth yn llwyddiannus yn eu gwaith o gynllunio ac adolygu dedfrydau.<br><br>Mae tystiolaeth o gyfleoedd i ddefnyddwyr gwasanaeth ymwneud yn uniongyrchol â recriwtio, hyfforddi a datblygu staff yn cael eu harchwilio a'u gwireddu. |
| 1.2 | Mae defnyddwyr gwasanaeth wedi cymryd rhan weithredol yn y gwaith o ddatblygu eu cynllun dedfrydu a'i adolygu. | Mae nodiadau ffeil achos yn nodi'n glir lle ceisiwyd barn defnyddwyr gwasanaeth, ac wedi ei ystyried yn llawn fel rhan o'r gwaith o ddatblygu eu cynllun dedfrydu ac adolygiadau dilynol. |

| | | |
|---|---|---|
| **2.** | **Sicrhau adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth ynghylch pa ymyriad sy'n eu helpu fwyaf, neu sut gellid gwella pethau ar lefel ehangach** | |
| 2.1 | Mae dulliau cadarn ar waith i sicrhau dealltwriaeth dda o anghenion defnyddwyr gwasanaeth a'u bod yn cael eu defnyddio'n rheolaidd. | Tystiolaeth o ddefnyddio cyfleoedd ystyrlon yn rheolaidd i gael barn defnyddwyr gwasanaeth, fel defnyddio grwpiau ffocws, cyfweliadau un-i-un, arolygon, arsylwi, mapio teithiau defnyddwyr gwasanaeth a ffyrdd eraill o gasglu gwybodaeth am ddefnyddwyr gwasanaeth. |
| 2.2 | Darperir cyfleoedd ar gyfer mewnbwn ar y gwasanaeth i alluogi defnyddwyr gwasanaeth i ddylanwadu ar ba ymyriadau sy'n gweithio orau iddynt hwy ac i eraill. | Mae nodiadau ffeiliau achos, a chofnodion ysgrifenedig eraill o waith gyda defnyddwyr gwasanaeth, yn nodi'n glir ymhle ceisiwyd barn defnyddwyr y gwasanaeth ynghylch eu hanghenion eu hunain ac anghenion ehangach pobl eraill. |
| **3.** | **Cynnwys defnyddwyr gwasanaeth mewn camau allweddol yn y broses o gynllunio, datblygu a darparu gwasanaethau** | |
| 3.1 | Ceir tystiolaeth glir o ddylanwad ac effaith cynnwys defnyddwyr gwasanaeth ar gynllunio, datblygu a darparu gwasanaethau ar lefel strategol/sefydliadol. | Mae tystiolaeth o effaith a dylanwad defnyddwyr gwasanaeth ar gynlluniau strategol a pholisïau sefydliadol, ac ar waith i gynllunio a datblygu gwasanaethau a gweithgareddau i ddarparu ac adolygu gwasanaethau.<br><br>Ceir tystiolaeth o'r modd y newidiwyd ac y gwellwyd gwasanaethau o ganlyniad uniongyrchol i gyfraniad a dylanwad defnyddwyr gwasanaeth, ynghyd â thystiolaeth o sut caiff hyn ei gyfleu'n ôl i ddefnyddwyr gwasanaeth, ar gyfer eu gwasanaethau ystyriaeth bellach. |

| | | |
|---|---|---|
| 3.2 | Cyfleoedd i ddefnyddwyr gwasanaeth helpu gydag adolygiadau a datblygu'r gwasanaeth yn ogystal â chyfleoedd i darparu gwasanaethau ar y cyd yn cael eu ceisio a'u gwireddu lle bo hynny'n bosibl. | Mae'n amlwg bod defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu hannog a'u cynorthwyo i gymryd rhan mewn gwaith adolygu a datblygu gwasanaeth.<br><br>Darperir cyfleoedd i ddefnyddwyr gwasanaeth ddatblygu eu hyder a'u sgiliau mewn perthynas â chymryd rhan mewn gwaith ymgynghori, a chymryd rhan mewn gwaith datblygu a darparu gwasanaethau.<br><br>Ceisir a chynigir rolau darparu a datblygu gwasanaeth ystyrlon i ddefnyddwyr gwasanaeth - er enghraifft, cymorth gan gymheiriaid a gwaith mentora. |
| 3.3 | Gwneir ymdrech systematig i ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth gan gynnwys y rhai o grwpiau penodol a grwpiau nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n ddigonol, gyda thystiolaeth o ymateb wedi ei deilwra i'w hanghenion (yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010). | Tystiolaeth o sut mae amrywiaeth o ddefnyddwyr gwasanaeth, gan gynnwys y rhai o grwpiau penodol a grwpiau a gynrychiolir, wedi cael eu hannog i gymryd rhan ac ymgysylltu.<br><br>Mae enghreifftiau o sut mae anghenion nad oedd yn cael eu diwallu wedi cael eu nodi ac wedi cael sylw, a newidiadau a wnaed i hyrwyddo a galluogi pawb i gael eu cynnwys, gyda systemau ar waith i'w monitro. |

# Atodiad B

Geirfa

## Atodiad B – Geirfa

| | |
|---|---|
| Rhaglenni Achredtedig | Ymyriadau seiliedig ar dystiolaeth sy'n cael eu darparu mewn lleoliad gwaith grŵp fel arfer ac sy'n cynnwys nifer benodol o sesiynau i'w cyflwyno mewn modd rhagnodedig. Fe'u defnyddir fel rhan o orchymyn cymunedol, neu mewn carchardai neu fel gofynion trwydded, ac mae pob Rhaglen Achredtedig wedi ei hanelu at fath penodol o ymddygiad troseddol (fel trais neu gam-drin domestig) neu angen penodol (fel camddefnyddio alcohol neu gamddefnyddio cyffuriau). |
| Safleoedd Cymeradwy | Unedau preswyl (yr hostelau mechnïaeth a phrawf, gynt) a redir gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, a ddefnyddir yn bennaf i reoli defnyddwyr gwasanaeth sy'n peri'r risg uchaf o niwed. |
| Awdurdod | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder. |
| System Awdurdod | Datblygu gwasanaethau digidol newydd i ategu'r gwaith o gofnodi a darparu gwasanaethau prawf. |
| Gwasanaeth Llety a Chymorth Mechnïaeth | Gwasanaeth Llety a Chymorth Mechnïaeth – yn darparu llety addas mewn amrywiaeth o leoliadau yng Nghymru a Lloegr ar gyfer y rhai a fyddai fel arall yn cael eu cadw yn y carchar (er enghraifft, y rhai a allai gael eu remandio yn y ddalfa neu beidio â chael eu rhyddhau oherwydd diffyg llety addas). |
| Clinks | Mudiad seilwaith sy'n cefnogi, yn hyrwyddo ac yn cynrychioli'r sector gwirfoddol sy'n gweithio gyda phobl yn y system cyfiawnder troseddol a'u teuluoedd. |
| Gwasanaethau Adsefydlu wedi'u Comisiynu | Ymyriadau adsefydlu ac ailsefydlu gan ddarparwyr arbenigol, sydd wedi'u caffael drwy'r Fframwaith Dynamig yn bennaf. |
| Rheolwr Troseddwyr Cymunedol/COM | Ymarferydd Prawf sy'n cyflwyno dan fodel OMiC sydd wedi ei leoli yn y gymuned – yn wahanol i Reolwr Troseddwyr yn y Carchar (a elwir hefyd yn POM). |
| Gofynion Triniaeth Dedfrydau Cymunedol/CSTRs | Dedfrydau cymunedol a roddir gan lysoedd lle bo'r troseddwr wedi cydsynio i dderbyn triniaeth am broblemau iechyd meddwl, problemau camddefnyddio cyffuriau a/neu alcohol. Bydd y driniaeth wedi ei threfnu fel rhan o'r ddedfryd a gall bara am uchafswm o dair blynedd fel rhan o Orchymyn Cymunedol, ac am uchafswm o ddwy flynedd fel rhan o Orchymyn Dedfryd Ohiriedig. |

| | |
|---|---|
| Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol | 19 (21 yn wreiddiol) o gwmnïau a lwyddodd i ddarparu gwasanaethau prawf i droseddwyr risg isel a chanolig o niwed mewn ardaloedd daearyddol penodol. |
| Crynodyddion | Ymarferwyr Prawf sy'n hyrwyddo ystyriaethau penodol wrth ddelio â charfannau penodol (e.e. Menywod neu bobl ifanc). |
| Panel Cynghori ac Achredu Gwasanaethau Cywirol/CSAAP | Panel o arbenigwyr annibynnol, rhyngwladol sy'n asesu rhaglenni o ran egwyddorion ymyriadau effeithiol – pan fydd rhaglenni yn bodloni'r egwyddorion hyn, maent yn dod yn Raglenni Achrededig. |
| Y Diwrnod Cyntaf | 26 Mehefin 2021, diwrnod y trosglwyddo i'r model unedig newydd ar ôl i gontractau'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol ddod i ben. |
| Canllaw Dylunio | Canllaw sy'n rhoi manylion y nodweddion a ddisgwylir gan yr ystâd prawf newydd. |
| Ymatal | Term i ddisgrifio'r broses a ddefnyddir gan bobl sydd â phatrwm troseddu blaenorol i ymatal rhag troseddu. Mae ymchwil ymatal yn canolbwyntio ar fywydau unigol dros amser er mwyn deall yr holl ffactorau gwahanol (gan gynnwys rhaglenni, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt) a phatrymau cyffredin a brofir gan bobl yn eu siwrneiau ymatal. |
| Y Fframwaith Dynamig | Bydd y Fframwaith Dynamig yn gweithredu fel panel agored, y gall cyflenwyr cymwys gymhwyso i ymuno ag ef, ar yr amod eu bod yn bodloni'r meini prawf sylfaenol, ar unrhyw adeg. Bydd gofyn i gyflenwyr gymhwyso ar gyfer lotiau, yn seiliedig ar anghenion a charfannau unigolion sy'n cael eu goruchwylio. Cynhelir cystadlaethau yn ôl y galw er mwyn dod o hyd i Wasanaethau Adsefydlu penodol sydd wedi'u Comisiynu. |
| Panel Ymyriadau Effeithiol | Panel wedi ei sefydlu ar lefel genedlaethol a fydd yn cytuno pa Ofynion Gweithgaredd Adsefydlu sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer cael eu cyflwyno fel Ymyriadau Strwythuredig ac y gellir eu darparu i Gyfarwyddwyr Prawf Rhanbarthol i'w hystyried ar gyfer eu cyflawni yn eu rhanbarthau. |

| | |
|---|---|
| Monitro Electronig | Fe'i gelwir hefyd yn 'tagio', ac mae'n ddull a ddefnyddir yng Nghymru a Lloegr i fonitro cyrffyw ac amodau gorchymyn llys neu garchar. Bydd rhywun sy'n destun Monitro Electronig yn cael tag, ac os bydd yn torri ei amodau gellir mynd ag ef i'r llys. Gall llys wedyn newid amodau unigolyn, gan gynnwys mynd ag ef yn ôl i'r ddalfa. |
| Adroddiad Diwedd Gwasanaeth | Adroddiad wedi ei gwblhau gan ddarparwr y Gwasanaethau Adsefydlu wedi'u Comisiynu ar ddiwedd y gwasanaeth sy'n amlinellu'r cynnydd mae unigolyn wedi ei wneud, y canlyniadau a gyflawnwyd a chynllun symud ymlaen. |
| Dull Uwch Drwy'r Giât/ETT | Fersiwn uwch o'r polisi 'Drwy'r Giât' a lansiwyd yn 2015, a oedd yn ceisio sicrhau newid sylweddol yn y broses adsefydlu drwy gyflwyno gwasanaethau newydd mewn carchardai i baratoi carcharorion ar gyfer eu proses ryddhau ac ailsefydlu. Bydd dulliau gweithredu llwyddiannus yn ETTG yn cael eu cadw yn y dull gweithredu newydd ar gyfer ailsefydlu. |
| Teclyn Monitro Cydraddoldeb | Adnodd a ddatblygwyd i ddadansoddi metrigau allweddol a nodi unrhyw wahaniaeth o ran darparu gwasanaethau prawf a chanlyniadau ar gyfer y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig. |
| EQuiP | System sy'n darparu prosesau, cyngor ac arweiniad i staff y gwasanaeth prawf i'w cefnogi i wneud eu gwaith. |
| Awdurdod Cyfun Manceinion Fwyaf/ GMCA | Awdurdod Cyfun Manceinion Fwyaf – 10 Cyngor a Maer Manceinion Fwyaf, gan gynnwys y Dirprwy Faer Plismona a Throseddu (sy'n cyfateb i Gomisiynydd Heddlu a Throseddu). |
| GLITEM | Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi – un o asiantaethau gweithredol y Weinyddiaeth Gyfiawnder sy'n gyfrifol am weinyddu llysoedd troseddol, llysoedd sifil a llysoedd teulu a thribiwnlysoedd yng Nghymru a Lloegr. |
| Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi | Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi – corff annibynnol sy'n gyfrifol am arolygu gwaith darparwyr prawf a Thimau Troseddwyr Ifanc. |
| Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi | Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi, sy'n un o asiantaethau gweithredol y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn un o dair cangen weithredol Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM (y Gwasanaeth Carchardai a'r Gwasanaeth Caethiwed Ieuenctid yw'r lleill). |

| | |
|---|---|
| Unigolyn/Unigolyn sy'n cael ei Oruchwylio | Mae'n golygu rhywun sydd ar hyn o bryd yn destun gorchymyn cymunedol, gorchymyn dedfryd ohiriedig, trwydded ar ôl cael ei ryddhau o'r carchar a goruchwyliaeth ar ôl dedfrydu. |
| Rheoli Troseddwyr yn Integredig | Dull gweithredu sy'n dod ag ymateb traws-asiantaethol i'r bygythiadau troseddu ac aildroseddu a wynebir gan gymunedau lleol. Mae'r troseddwyr mwyaf cyson a phroblemus yn cael eu nodi a'u rheoli ar y cyd gan asiantaethau partner sy'n gweithio gyda'i gilydd, gyda'r nod o wella ansawdd bywyd mewn cymunedau drwy leihau effaith negyddol troseddu ac aildroseddu, lleihau nifer y bobl sy'n dioddef yn sgil troseddu, a helpu i wella hyder y cyhoedd yn y system cyfiawnder troseddol. |
| Timau Ymyriadau | Bydd gan bob un o'r 12 rhanbarth Dîm Ymyriadau a fydd yn gyfrifol am ddarparu Gwaith Di-dâl, Rhaglenni Achrededig, Ymyriadau Strwythuredig cymeradwy, ac Uwch Ganolfannau Ymbresenoli. |
| Model Pwyntiau Cyffwrdd Goruchwylio'r Rheolwyr | Adnodd Rheoli Dedfrydau sy'n defnyddio systemau cyson i gofnodi penderfyniadau a goruchwyliaeth y rheolwyr. |
| Trefniadau Amlasiantaeth ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd/MAPPA | Trefniant partneriaeth sy'n mynnu bod asiantaethau cyfiawnder statudol yn cydweithredu i reoli troseddwyr sy'n peri'r risg mwyaf o niwed. |
| Is-adran Diogelwch Gwladol y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol | Is-adran arbenigol o'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a fydd yn darparu lefel uwch o reolaeth ac ymyrraeth ar gyfer y troseddwyr mwyaf uchel eu risg, mwyaf cymhleth ac uchel eu proffil yn y gymuned, gan gynnwys y rhai a gafwyd yn euog o droseddau terfysgol. |
| Safonau Cenedlaethol | Darparu set o safonau sylfaenol a chanllawiau hyfforddi ar gyfer Ymarferwyr a Rheolwyr Prawf. Cyhoeddir y Safonau Cenedlaethol (ynghyd ag unrhyw ganllaw cysylltiedig) gan yr awdurdod dan adran 7 y Ddeddf Rheoli Troseddwyr o bryd i'w gilydd, a gellir eu gweld ar wefan yr Awdurdod. |

| | |
|---|---|
| NDelius | Mae National Delius yn system rheoli achosion sy'n seiliedig ar borwr, sydd wedi ei dylunio i gynnwys y rhesymeg busnes prawf angenrheidiol a'r diogelwch priodol. Mae'n cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ymwneud ag oedolion, cyn-dedfrydu, gorchmynion cymunedol, dedfrydau o garchar cyn ac ar ôl rhyddhau, unigolion mewn safleoedd cymeradwy a rhai unigolion ifanc sydd â gofynion Gwaith Di-dâl. |
| Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol | Gwasanaeth cyfiawnder troseddol statudol sy'n goruchwylio troseddwyr risg uchel sy'n cael eu rhyddhau i'r gymuned ar hyn o bryd – ar ôl i gontractau Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol ddod i ben ac i'r model unedig gael ei lansio ar y diwrnod cyntaf, bydd un gwasanaeth prawf integredig yn rheoli troseddwyr risg isel, canolig ac uchel. |
| Systemau Asesu Troseddwyr | System Asesu Troseddwyr a ddefnyddir gan y GPC i ategu'r gwaith o asesu unigolion; nodi'r risg a berir ganddynt, a phenderfynu sut i leihau'r risgiau hynny a sut i fynd i'r afael â'u hymddygiad troseddol yn effeithiol. Mae'r System Asesu Troseddwyr wedi ei gynllunio i helpu ymarferwyr i wneud penderfyniadau cadarn y gellir eu hamddiffyn. |
| Rheoli Troseddwyr yn y Ddalfa/OMiC | Model sy'n darparu'r fframwaith i gydlynu a dilyn taith unigolyn drwy'r ddalfa ac ar ôl rhyddhau, gyda phwyslais ar ddatblygu diwylliannau adsefydlu mewn carchardai. Mae Rheoli Troseddwyr yn y Ddalfa yn ategu'r ymdrechion i leihau aildroseddu yn y ddalfa ac yn y gymuned ac yn ategu'r gwaith o ail-integreiddio unigolion i'r gymuned. |
| Grŵp Sicrwydd Systemau Gweithredol | Grŵp Sicrwydd Systemau Gweithredol – swyddogaeth archwilio ac ansawdd mewnol y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf mewn lleoliadau cymunedol a charchardai. |
| Bwrdd Parôl | Corff annibynnol sy'n cynnal asesiadau risg ar garcharorion i benderfynu a oes modd eu rhyddhau'n ddiogel i'r gymuned. |
| Comisiynwyr Heddlu a Throseddu | Comisiynwyr Heddlu a Throseddu – swyddogion etholedig yng Nghymru a Lloegr sy'n gyfrifol am sicrhau plismona effeithlon ac effeithiol mewn ardal heddlu a sicrhau bod yr heddlu lleol yn diwallu anghenion cymuned. |

| | |
|---|---|
| Cymhwyster Proffesiynol mewn Gwaith Prawf | Cymhwyster Proffesiynol mewn Gwaith Prawf – cymhwyster Swyddog Prawf ffurfiol, wedi ei ennill drwy gyfuniad o astudio academaidd a lleoliadau gweithredol. |
| Adroddiad Cyn-Dedfrydu | Adroddiad a baratowyd gan staff prawf i helpu llysoedd i benderfynu ar y dull mwyaf priodol o ddedfrydu rhywun sydd wedi ei gael yn euog o drosedd. |
| Ad-drefnu'r Ystâd Carchardai | Prosiect sy'n ceisio cyfateb y cyflenwad o leoedd â gofynion poblogaeth y carchardai drwy ail-gydbwyso'r ystâd i ddynion sy'n oedolion er mwyn darparu'r math iawn o leoedd i ddiwallu anghenion y boblogaeth. Bydd yr ystâd gaeedig i ddynion yn cael ei had-drefnu'n raddol i dair swyddogaeth glir – derbyn, hyfforddi ac ailsefydlu – a bydd dynion yn symud ymlaen i'r ystâd hyfforddi a/neu adsefydlu yn gynharach yn eu dedfryd. |
| Rheolwr Troseddwyr yn y Carchar | Ymarferydd yn y ddalfa sy'n gyfrifol am unigolion sydd â 10 mis neu ragor ar ôl yno drwy Reoli Troseddwyr yn y Ddalfa. |
| Rhaglen Adfer Busnes y Gwasanaeth Prawf | Rhaglen a sefydlwyd i ymateb i effaith COVID-19 ar y Gwasanaeth Prawf ac i ddatblygu rhaglen ar gyfer ailgychwyn gwasanaethau prawf yn ystod y pandemig parhaus. |
| Uned Gyflawni'r Gwasanaeth Prawf/ PDU | O fewn y rhanbarthau, bydd darpariaeth weithredol y gwasanaeth prawf yn cael ei had-drefnu o'r 69 Clwstwr Uned Cyflawni Lleol i 108 Uned Gyflawni'r Gwasanaeth Prawf (PDU), pob un yn cael ei reoli gan Bennaeth yr Uned. |
| Strwythurau Darpariaeth Weithredol y Gwasanaeth Prawf (PODs) | Grŵp bach ar draws y graddau o Ymarferwyr Prawf a gweinyddwr achos sy'n defnyddio'r sgiliau a'r profiadau yn y tîm hwnnw i ategu gwaith prawf ei gilydd, ac sy'n galluogi defnyddwyr gwasanaeth i elwa ar berthynas gyfarwydd â thîm bach i helpu i wella parhad ac ymgysylltu. |
| Ymarferydd Prawf | Yr enw a roddir ar y staff hynny ar raddfeydd swyddog prawf a swyddog gwasanaeth prawf, sy'n rhoi cyngor i'r llys ac yn Rheoli Dedfrydau. |

| | |
|---|---|
| Strategaeth y Gweithlu Prawf | Strategaeth sy'n nodi'r uchelgais ar gyfer gweithlu prawf mwy cadarnhaol, cynhwysol ac amrywiol, a'r camau sy'n angenrheidiol er mwyn cyflawni hyn. |
| Barn Broffesiynol | Yn disgrifio'r wybodaeth, yr hyfforddiant a'r profiad y caniateir i Ymarferwyr Prawf eu defnyddio (dan Safonau Cenedlaethol 2015) i lywio'r penderfyniadau a wnânt wrth reoli eu gwaith gyda defnyddwyr gwasanaeth yn ôl y risg a gyflwynir ganddynt. |
| Nodweddion Gwarchodedig | Nodweddion – gan gynnwys oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, hil, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, priodas a phartneriaeth sifil a beichiogrwydd a mamolaeth – sy'n cael eu gwarchod rhag gwahaniaethu o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. |
| Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus | Dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i ystyried neu feddwl am sut mae eu polisïau neu eu penderfyniadau'n effeithio ar bobl sy'n cael eu gwarchod o dan y Ddeddf Cydraddoldeb (gweler hefyd 'Nodweddion Gwarchodedig'). |
| Rhwydwaith Gwasanaethau Cyhoeddus | Rhwydwaith perfformiad uchel y llywodraeth a ddefnyddir gan sefydliadau sy'n gweithio gyda'r sector cyhoeddus. |
| Gofyniad Gweithgaredd Adsefydlu | Mae ganddo'r ystyr a roddir iddo yn adran 200A o'r Ddeddf Cyfiawnder Troseddol: mae'r Gofynion Gweithgaredd Adsefydlu yn un o'r gofynion y gellir eu cynnwys mewn gorchymyn cymunedol neu orchymyn dedfryd ohiriedig, a'r prif ddiben yw sicrhau bod rhywun yn cael ei adsefydlu, a thrwy hynny adfer unigolion i fywyd pwrpasol lle nad ydynt yn aildroseddu. |
| Rhanbarth | Y rhanbarthau diwygiedig ar gyfer darparu gwasanaeth prawf (11 yn Lloegr ac un yng Nghymru). |
| Cyfarwyddwr Prawf Rhanbarthol | Y Cyfarwyddwr Prawf Rhanbarthol yw'r uwch arweinydd newydd a fydd yn darparu arweinyddiaeth strategol ac yn gyfrifol am ddarparu a chomisiynu gwasanaethau prawf yn gyffredinol ym mhob rhanbarth. |

| | |
|---|---|
| Cynllun Rhanbarthol ar gyfer Lleihau Aildroseddu | Dogfen gyhoeddus sy'n disgrifio'r gwasanaeth prawf a gynigir yn y rhanbarth cyfatebol ac sy'n nodi blaenoriaethau a nodau tymor hwy, yng nghyd-destun ehangach y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf. |
| Ailsefydlu | Y rhan o'r gwasanaethau prawf sy'n canolbwyntio ar baratoi unigolion at gael eu rhyddhau o'r carchar. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod y gwasanaethau priodol, y gefnogaeth ymarferol a'r dulliau monitro ar waith cyn iddynt gael eu rhyddhau (gweler hefyd y diffiniadau ar gyfer Rheoli Troseddwyr yn y Ddalfa a Gwella'r Gwasanaethau drwy'r Giât). |
| Swyddog Cyfrifol | Mae'r term hwn yn dynodi'r rôl a ddisgrifir yn adran 197 o'r Ddeddf Cyfiawnder Troseddol; y sawl sy'n swyddog i ddarparwr gwasanaethau prawf, neu unigolyn sy'n gyfrifol am fonitro'r unigolyn yn unol â gofyniad monitro electronig a bennir gan y gorchymyn perthnasol. |
| Cronfa Ranbarthol Canlyniadau ac Arloesi | Cronfa fach o arian sydd ar gael i ranbarthau, gyda'r bwriad o helpu i ysgogi buddsoddiad mewn gwasanaethau ehangach (er enghraifft, drwy wneud trefniadau cyd-gyllido gyda Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu neu gomisiynwyr eraill) a allai helpu i leihau aildroseddu ond nad ydynt yn cyflawni gorchymyn y llys yn uniongyrchol. |
| Uwch Ganolfannau Ymbresenoli | Ymyriadau statudol sydd ar gael fel dedfryd gan y llys dan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003. Maent yn un o'r 12 gofyniad y gellir eu pennu fel rhan o ddedfryd gymunedol neu ddedfryd ohiriedig a gellir eu pennu o ganlyniad i beidio â thalu dirwyon neu dorri gorchmynion cymunedol eraill. Eu prif bwrpas yw ategu gweithgareddau adsefydlu, ond maent hefyd yn cynnwys elfen gosbol drwy gyfyngu ar ryddid oherwydd y gofyniad i ymbresenoli. Maent yn darparu amgylchedd dysgu disgybledig sydd wedi ei strwythuro i ennyn diddordeb pobl ifanc lle mae aeddfedrwydd yn broblem. Ar hyn o bryd, maent yn cael eu darparu gan Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol. |

| | |
|---|---|
| Dedfrydwr | Term cyffredinol a ddefnyddir i ddisgrifio Barnwr neu Ynad sy'n rhoi dedfryd i rywun sydd wedi ei gael yn euog o drosedd. |
| Rheoli Dedfrydau | Y swyddogaeth prawf sy'n gyfrifol am reoli elfen gymunedol dedfryd unigolyn, a elwid gynt yn rheoli troseddwyr. |
| Cynllun Dedfrydu | Mewn perthynas ag unigolyn sy'n destun gorchymyn cymunedol, gorchymyn dedfryd ohiriedig, trwydded ar ôl cael ei ryddhau o'r carchar neu gyfnod goruchwylio ôl-dedfryd, mae cynllun dedfrydu yn ddogfen sy'n nodi amcanion y ddedfryd ac yn cynnwys:<br>(i) Nodi'r risg bresennol o niwed i'r unigolyn hwnnw.<br>(ii) Y dull arfaethedig o reoli a lliniaru'r risg bresennol o niwed.<br>(iii) Anghenion yr unigolyn yng nghyd-destun darparu'r gwasanaethau a nodi pa mor debygol yw'r unigolyn hwnnw o aildroseddu.<br>(iv) Y gweithgaredd sydd i'w wneud gyda'r unigolyn i gyflawni'r rhan honno o ddedfryd y llys sydd i'w threulio yn y gymuned ac i leihau'r tebygolrwydd o aildroseddu. |
| Cynllun Gweithredu Defnyddiwr Gwasanaeth | Cynllun wedi ei baratoi gan ddarparwr Gwasanaethau Adsefydlu wedi'u Comisiynu sy'n egluro sut bydd yr ymyriadau maent yn eu darparu yn sicrhau'r canlyniadau y cytunwyd arnynt. |
| Dedfrydau Byr | Dedfrydau o lai na 10 mis ar ôl i'w treulio adeg dedfrydu. |
| Swyddogaeth Dedfryd Fyr | Swyddogaeth a fydd yn cael ei chreu ym mhob un o'r 12 rhanbarth prawf, y bydd eu rôl a'u ffocws yn cynnwys gweithio gyda'r rhai ar ddedfrydau byrrach i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cynnal a'u darparu, bod perthynas ag eraill yn cael ei meithrin, a bod trawsnewidiadau'n cael eu hategu mor effeithiol â phosibl, gyda'r nod o wella canlyniadau ar gyfer y garfan hon. |

| | |
|---|---|
| Ymyriad strwythuredig | Ymyriadau adsefydlu gyda model darparu cyson ar gyfer unigolion risg is nad ydynt yn addas ar gyfer Rhaglen Achredededig sydd â nifer craidd o sesiynau gyda chynnwys parod y mae pawb yn ei dderbyn ac y gellir ei asesu ar gyfer effeithiolrwydd gan ddefnyddio egwyddorion Panel Cyngor ac Achredu Gwasanaethau Cywirol. Mae'r Awdurdod wedi cymeradwyo Ymyriadau Strwythuredig i'w defnyddio fel rhan o Ofyniad Gweithgaredd Adsefydlu neu drwydded ôl-ryddhau, eu rhyddhau ar drwydded dros dro neu oruchwyliaeth ar ôl dedfrydu. |
| Fframwaith Haenau | Fframwaith sy'n sail i'r broses dyrannu achosion ac sy'n sicrhau bod achosion yn cael eu dyrannu i Ymarferydd Prawf gyda'r sgiliau a'r hyfforddiant iawn yn unol â chymhlethdod anghenion unigolyn a lefel y risg o niwed a gyflwynir ganddo. |
| Gweddnewid Adsefydlu | Cynllun gan y Llywodraeth Ganolog a ailstrwythurodd oddeutu 42 o Ymddiriedolaethau Prawf (gyda phob un yn darparu'r ystod lawn o wasanaethau prawf) i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a 21 o Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol drwy broses o brofi'r farchnad. |
| Heb euogfarn | Mae'n disgrifio carcharor sy'n cael ei gadw yn y carchar ar remand sydd wedi cael ei gyhuddo o drosedd ond heb gael ei roi ar brawf eto. |
| Model unedig | Y model gweithredu newydd ar gyfer gwasanaethau prawf yng Nghymru a Lloegr a fydd yn cael ei lansio ar 26 Mehefin 2021 (y diwrnod cyntaf), ac a fydd yn sicrhau mai'r gwasanaeth prawf newydd (integreiddio darpariaeth y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol) fydd yn gyfrifol am reoli'r holl unigolion sy'n cael eu goruchwylio. |
| Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr | Cynllun statudol a gynigir i ddioddefwyr troseddau rhyw a threisgar, a gynigir ar hyn o bryd dim ond mewn achosion lle mae'r troseddwr yn cael dedfryd o 12 mis neu fwy. Mae'r Cynllun yn rhoi gwybodaeth a chyngor i ddioddefwyr cymwys am y broses cyfiawnder troseddol drwy Swyddog Cyswllt Dioddefwyr dynodedig. |

| | |
|---|---|
| Comisiynydd Dioddefwyr | Rôl sydd â'r nod o hyrwyddo barn, anghenion a buddiannau dioddefwyr a thystion yng Nghymru a Lloegr. Mae tîm y Comisiynydd Dioddefwyr yn gwneud gwaith ymchwil manwl i wasanaethau dioddefwyr ac yn cynhyrchu adolygiadau cynhwysfawr sy'n canolbwyntio ar feysydd penodol, yn tynnu sylw at yr hyn sy'n gweithio a'r hyn nad yw'n gweithio, ac yn argymell newidiadau cadarnhaol i wella'r cymorth a gynigir i ddioddefwyr. Mae'r Comisiynydd hefyd yn monitro sut mae asiantaethau cymorth i ddioddefwyr yn cydymffurfio â'r Cod Dioddefwyr a'r Siarter Tystion ac yn annog arferion da. |
| Swyddog Cyswllt Dioddefwyr | Gweithiwr prawf proffesiynol y mae ei waith yn canolbwyntio ar ddioddefwyr troseddau yn unig. Bydd y Swyddog Cyswllt Dioddefwyr yn rhoi gwybodaeth i ddioddefwyr am hyd dedfryd troseddwr a phryd y caiff ei ryddhau, pa bryd bydd troseddwr yn sefyll ar gyfer parôl a sut i wneud datganiad dioddefwr yn y gwrandawiad parôl, sut i wneud cais am 'amod trwydded' (i atal y troseddwr rhag gwneud rhai pethau pan gaiff ei ryddhau, fel cysylltu â'r dioddefwr), a sut i herio penderfyniad os bydd y Bwrdd Parôl yn penderfynu bod y troseddwr yn ddiogel i'w ryddhau. |

# Atodiad C


Unedau Cyflawni'r Gwasanaeth Prawf

## Atodiad C – Unedau Cyflawni'r Gwasanaeth Prawf

### Ffigur 26. 108 o Unedau Cyflawni'r Gwasanaeth Prawf, wedi'u rhannu yn ôl rhanbarth

Mae enw pob Uned yn dynodi pa siroedd a/neu awdurdodau lleol sydd wedi'u cynnwys yn yr Uned. Lle bo angen, rhoddir eglurhad pellach yn y tablau.

| A – Gogledd-ddwyrain Lloegr |
|---|
| 25. Swydd Durham a Darlington |
| 26. Gateshead a De Tyneside |
| 27. Stockton a Hartlepool |
| 28. Sunderland |
| 29. Redcar, Cleveland a Middlesbrough |
| 30. Newcastle Upon Tyne |
| 31. Gogledd Tyneside a Northumberland |








| B – Swydd Efrog a'r Humber |
|---|
| 14. Barnsley a Rotherham |
| 15. Sheffield |
| 16. Doncaster |
| 17. Leeds |
| 18. Wakefield |
| 19. Kirklees |
| 20. Bradford a Calderdale |
| 21. Caerefrog |
| 22. Gogledd Swydd Efrog |
| 23. Hull ac East Riding |
| 24. Gogledd a Gogledd Ddwyrain Swydd Lincoln |

| C – Dwyrain Canolbarth Lloegr |
| --- |
| 79. Dinas Nottingham |
| 80. Swydd Nottingham |
| 81. Dinas Derby |
| 82. Swydd Derby |
| 83. Caerlŷr, Swydd Caerlŷr a Rutland |
| 84. Dwyrain a Gorllewin Swydd Lincoln |









| D – Dwyrain Lloegr |
| --- |
| 6. Gogledd Essex (Braintree, Chelmsford, Maldon, Colchester, Tendring, Harlow, Uttlesford and Epping Forest) |
| 7. De Essex (Basildon, Brentwood, Rochford a Castlepoint, Southend-on-Sea) |
| 8. Suffolk |
| 9. Norfolk |
| 10. Swydd Hertford |
| 11. Swydd Northampton |
| 12. Swydd Bedford (yn cynnwys Bedford, Canol Bedfordshire a Luton) |
| 13. Swydd Gaergrawnt (yn cynnwys Peterborough) |


| E – Caint, Surrey a Sussex |
|---|
| 1. Dwyrain Caint (Swale, Ashford, Canterbury, Folkstone a Hythe, Thanet a Dover) |
| 2. Gorllewin Caint (Sevonoaks, Dartford, Gravesend, Tonbridge a Malling, Maidstone a Tunbridge Wells) |
| 3. Surrey |
| 4. Dwyrain Sussex (yn cynnwys Brighton a Hove) |
| 5. Gorllewin Sussex |




| F – De Canol Lloegr |
|---|
| 63. Gogledd a Dwyrain Hampshire (Hampshire ac eithrio Eastleigh a New Forest) |
| 64. De Orllewin Hampshire (Southampton yn cynnwys ALl haen isel yn Hampshire - Eastleigh a New Forest) |
| 65. De Hampshire South ac Ynys Wyth (Ports |
| 66. Swydd Rhydychen |
| 67. Swydd Buckingham a Milton Keynes |
| 68. Dwyrain Berkshire (Bracknell Forest, Windsor a Maidenhead a Slough) |
| 69. Gorllewin Berkshire (Reading, Wokingham & West Berkshire) |

| G – De Orllewin Lloegr |
| --- |
| 54. Gloucestershire |
| 55. Swindon and Wiltshire |
| 56. Dorset (includes Bournemouth, Christchurch and Poole) |
| 57. Bristol and South Gloucestershire |
| 58. Plymouth |
| 59. Cornwall and Isles of Scilly |
| 60. Devon and Torbay |
| 61. Somerset |
| 62. Bath and North Somerset (Bath and North East Somerset and North Somerset) |









| H – Cymru |
| --- |
| 103. Gogledd Cymru (Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir y Fflint, Sir Ddinbych) |
| 104. Gwent (Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd, Torfaen) |
| 105. Dyfed Powys (Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro, Powys) |
| 106. Caerdydd a Bro Morgannwg |
| 107. Abertawe, Castell-nedd Port Talbot |
| 108. Cwm Taf Morgannwg (Pen-y-Bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf) |

| I – Gorllewin Canolbarth Lloegr |
|---|
| 70. Gogledd a Dwyrain Birmingham a Solihull[1] |
| 71. Canol a De Birmingham[2] |
| 72. Dudley and Sandwell |
| 73. Walsall a Wolverhampton |
| 74. Coventry |
| 75. Swydd Warwick |
| 76. Swydd Stafford a Stoke |
| 77. Swydd Gaerwrangon |
| 78. Swydd Henffordd, Swydd Henffordd a Telford |




| J – Manceinion Fwyaf |
|---|
| 32. Salford |
| 33. Gogledd Manceinion[3] |
| 34. De Manceinion[4] |
| 35. Bolton |
| 36. Wigan |
| 37. Bury a Rochdale |
| 38. Stockport a Trafford |
| 39. Tameside |
| 40. Oldham |


[1] Gogledd a Dwyrain Birmingham a Solihull (Codau Post B6, B8, B9, B10, B20, B21, B23, B25, B26, B33, B34, B36, B37, B42, B43, B44, B72, B73, B74, B75, B76, B90, B91, B92, B93, B94, CV7 yn ardaloedd Cyngor Dinas Birmingham City Council a Chyngor Bwrdeistref Solihull).

[2] Canol a De Birmingham (Codau Post B1, B2, B3, B4, B5, B7, B11, B12, B13, B14, B15, B16, B17, B18, B19, B24, B27, B28, B29, B30, B31, B32, B38, B45 yn ardal Cyngor Dinas Birmingham).

[3] Gogledd Manceinion (Wardiau Deansgate, Piccadilly, Ancoats a Beswick, a Clayton ac Openshaw, a phob ward i'r gogledd o'r rhain yn ardal Cyngor Dinas Manceinion).


[4] De Manceinion (Wardiau Hulme, Ardwick, a Gorton ac Abbey Hey a phob ward i'r de o'r rhain yn ardal Cyngor Dinas Manceinion).

| K – Gogledd-orllewin Lloegr |
|---|
| 41. Gorllewin Swydd Gaer |
| 42. Dwyrain Swydd Gaer |
| 43. Warrington a Halton |
| 44. Knowsley a St Helens |
| 45. Sefton |
| 46. Gogledd Lerpwl[5] |
| 47. De Lerpwl[6] |
| 48. Cumbria |
| 49. Cilgwri |
| 50. Gogledd Orllewin Swydd Gaerhirfryn (Blackpool ac ALl haen is yn Swydd Gaerhirfryn - Fylde, Wyre a Chaerhirfryn) |
| 51. Blackburn (Blackburn gyda Darwen ac ALl haen is yn Swydd Gaerhirfryn - rhannau o Ribble Valley) |
| 52. Dwyrain Swydd Gaerhirfryn (Burnley, Pendle, Hyndburn, Rossendale a rhannau o Ribble Valley) |
| 53. Canol Swydd Gaerhirfryn |




[5] Gogledd Lerpwl (Codau Post L3, L13, L14 ac L16 a phob cod post sydd i'r gogledd o'r rhain yn ardal Cyngor Dinas Lerpwl).

[6] De Lerpwl (Codau Post L1, L2, L7, L15 ac L16 a phob cod post sydd i'r de o'r rhain yn ardal Cyngor Dinas Lerpwl).




| Llundain |
| --- |
| 85. Greenwich a Bexley |
| 86. Lewisham a Bromley |
| 87. Southwark |
| 88. Lambeth |
| 89. Croydon |
| 90. Kingston, Richmond a Hounslow |
| 91. Hammersmith, Fulham, Kensington, Chelsea a Westminster |
| 92. Camden ac Islington |
| 93. Ealing a Hillingdon |
| 94. Wandsworth, Merton a Sutton |
| 95. Brent |
| 96. Harrow a Barnet |
| 97. Hackney a'r Ddinas |
| 98. Tower Hamlets |
| 99. Enfield a Haringey |
| 100. Newham |
| 101. Redbridge a Waltham Forest |
| 102. Barking, Dagenham a Havering |

HM Prison &
Probation Service